



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

### Usage guidelines


Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

### About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>




6

Bt. Gallonay, Sept. 1915

1483











CRISTION YN MYNED TRWY LYN CYSGOD ANGAU.  
Tudol. 68.





# TAITH Y PERERIN

O'R

BYD HWN I'R HWN A DDAW;

DAN GYFFELYBIAETH BREUDDWYD.

G A N J O H N B U N Y A N.

LLUNDAIN:

CYMDEITHAS Y TRAETHODAU CREFYDDOL;

56, PATERNOSTER ROW, A 65, ST. PAUL'S CHURCHYARD,  
AR WERTH HEFYD GAN Y LLYFRWERTHWYR.

1858.





## DIFFYNIAD YR AWDWR DROS EI LYFR.

---

WBTH ddechreu hwn, pan gym'rais yn lled o hwim  
Fy 'sgrifell yn fy llaw, nis gwyddwn ddim  
Y gwnaethwn lyfr bychanblyg byth fel hyn  
Y fath ag yw ; na, na, cymerais cyn  
Im' ddechreu hwn mewn llaw un arall ; pan  
Oedd hwnnw bron ar ben, mi yn y fan  
Ddechreuais hwn ; heb wybod im' fy hun  
Im' ddechreu'r ail cyn imi orphen un.

Fel hyn y bu : tra'r ysgrifenwn am  
Faith yrfa'r saint a'u taith o gam i gam  
I'r nefoedd lwyd, yn nydd efengyl fwyn,  
Yn sydyn i ddamegu ce's fy nwyn  
Am ugain peth a mwy, yn nghylch eu taith  
A'u ffordd trwy'r byd i'r teg ogoniant maith,  
Tra rhoddwn hwynt i lawr : ac ar y pryd  
D'ai ugain peth ychwaneg i fy mryd ;  
A hwy drachefn ddechreuent amlhau,  
A chware o gylch fel gwreichion tân yn glau.  
Wel, ebe fi, os amlhewch fel hyn,  
Mi'ch rhoddaf ar wahan â du ar wyn,  
Rhag ofn na chaf o'r diwedd arnoch ben,  
Y lleibiwch oll fy llyfrynn len ar len.

Ac felly gwnes ; ond nid oedd yn fy mryd  
 Roi firwyth fy mhen fel hyn o flaen y byd.  
 Dechreuais wneud, heb wybod im' fy hun  
 Pa beth a wnawn, pa ddelw, na pha lun :  
 Ac ni wnes hyn i foddio neb rhyw ddyn,  
 Y cyfan oll a wnes i foddio'm hun.

Ni weriais chwaith ond segur oriau i gyd  
 Yn y gwaith hwn : rhyw beth i ddenu'm bryd  
 Oedd hyn oddiwrth feddyliau gwaeth, y rhai  
 Yn fynych iawn wnaent imi fod ar fai.  
 Ac felly'n llon â'm pin mewn du ar wyn  
 Y rho'is yn rhwydd fy holl feddyliau hyn.  
 Ar ol cael hyd i ben y ffordd yn awr,  
 Yn ol y tynwn i, d'ai yntau i lawr ;  
 Ac felly 'sgrifiaisiaf, nes iddo ddod  
 I'r hyd, a'r lled, a'r maint y'i gweli'n bod.

Wel, wedi cael fel hyn fy mhethau'n nghyd,  
 Danghosais hwynt i ereill hyd y byd ;  
 Rhai a'u collfarment hwy, rhai a'i cyflawnhaent ;  
 Dywedai rhai, Caent fyw ; rhai, Marw gaent ;  
 Rhai, Ioan, dod mewn argraff ; ac ereill, Na ;  
 Medd rhai, Nis gall ef byth ddim gwneuthur da.

Yn awr fel hyn yn syn nis gwyddwn ddim  
 Pa beth a wnawn—pa beth oedd oreu im' :  
 Ond gan fod rhai'n ei erbyn, rhai o'i du,  
 Wel, meddwn, mi a'i hargraffaf ; felly fu.

Gan, ebe fi, fy mod yn gwel'd y myn  
 Rhyw rai ei gael, er na syn ereill hyn ;  
 Iawn, yna,'n wir, y barnaf imi gael  
 Gwneud prawf pwy a'm cynghorai'n wych, pwy'n wael.

A meddwl wnes, os na ro'wn ef i'r rhai  
 A hoffai'i gael er mawr ddyddanwch, mai  
 Eu rhwystro wnawn, a'u hymddifadu o  
 Yr hyn a'u mawr ddifyrai lawer tro ;

## DIFFYNIAD YR AWDWR.

7

Gan dd'wedyd wrth y rhai na fynent im'  
Ei ddwyn yn mlaen, Nid am eich digio ddim  
Yr wyf: gan fod eich brodyr am ei gael,  
Cyn gweled mwy, na fernwch ef yn wael.

Os na fyn di ei ddarllen, gad, fy mrawd,  
Yn llonydd ef, ac nid yn destyn gwawd.  
Ti wyddost mai yn llawen iawn y pig  
Rhai'r esgyrn, er na fyn y lleill ond cig.  
Fel gallwn i yn well eu hesmwythâu,  
Ymro'is fel hyn i ymresymu'n glau.

A allwn i, os ysgrifenwn hwynt  
Mewn dull a threfn fel hyn, ddim cael fy mhwynt,  
Sef yw, dy les? Paham nas gallaf hyn?  
Daw'r cwmwl du â gwlaw, pryd na ddaw'r gwyn.  
Poed ddu, poed wyn, rhoed loywon ddafnau'n fwyn,  
A'n daear deg ganmola'r ddau trwy ddwyn  
Gwych ffrwythau'n stor, heb feio'r naill na'r llall,  
Cynyrcha gnwd trwy rin y ddau heb ball.  
Cymysga ffrwyth y naill a'r llall yn nghyd,  
Fel nad oes mwy wahaniaeth yn y byd:  
Bid fyno, maent yn tori ei heisieu'n dda;  
Ond pan fo'n llawn, dibrisio'r ddau a wna.

Ti wyddost am bysgotwr, fel y bydd  
Yn dal ei bysg; fath gelfi wna! fel rhydd  
Ei ben ar waith! fath rwyd a maglau fyn,  
Amryfath fach a llinyn: ond er hyn  
Mae pysg yn bod, er llinyn ac er bach,  
A rhwyd ac oll, gall iddynt ganu'n iach;  
Heb chwilio am y rhai'n, a'u cosi'n fwyn,  
Nis gellir byth er dim eu dal a'u dwyn.

Ah, fel y cais adarwr ddal yr hil  
Asgellog, drwy wahanol foddion fil,  
Nas dichon dyn eu henwi! croglath, dryll,  
A rhwyd, a chloch, a goleu yn y gwyll:

Ymgropia, rhed, a saif; pwy dyna lun  
 Ystumiau hwn? ond eto nid yr un  
 O'r rhai'n a rydd i'w law yr adar a  
 Ddewiso ef. Mae'n rhaid chwibianu'n dda  
 Cyn dèlir *un*, a chanu pibell fwyn;  
 Ond, er gwneud hyn, am golli'r *llall* se gwyn.  
 Os ceir yn mhen y llyffant isel drem,  
 A chragen wael llymarchen, werthfawr em;  
 Os ceir o fewn rhyw bethau gwael fel hyn  
 Yr hyn sydd well-na'r aur; pwy safai'n syn,  
 Ag arno flys eu chwilio, er cael hyd  
 I'r perl? Yn awr fy llyfrynn eto (pryd  
 Nas gwisgwyd ef â'r addurniadau fil  
 Sy'n boddio hwn a'r llall o'r dynol hil)  
 Nid ydyw heb ryw bethau gwell i'w cael  
 Nag ymfrost gwych am bethau gweigion, gwael.

Wel, meddai un, nis boddir fi yn llawn  
 Y saif dy lyfr ddim, pan brofer ef yn iawn.

Pa'm, beth sy'n bod? — Mae'n dywyll. Pa faint  
 gwaeth? —  
 Ffug-araeth yw. Ond beth er hyny? Gwnaeth  
 Rhai dynion, drwy ffug-eiriau fel y rhai'n,  
 I'oleu gwych y gwir dywynu'n gain.—  
 Ond mae yn ol o sylwedd. D'wed heb san  
 Dy feddwl, ddyn.—Hwy foddant eiddil gwan  
 Mewn soddfa ddofn; damhegion yn ddiball,  
 Yn mhob rhyw fod, a'n gwnant yn eithaf dall.

E weddai'n wir fod sylwedd ynddo ef,  
 Hyfforddia ddyn am ddwyfol bethau'r nef:  
 A raid fy mod yn ol o sylwedd, am  
 Mai dameg yw? E roddwyd pur ddinam  
 Efengyl Duw gynt mewn cysgodau, trwy  
 Arwyddion a damhegion: eto pwy  
 Ystyriol ddyn wel fai ar hyn? Ni faidd,  
 Rhag cablu mawr ddoethineb Duw! Na, braidd,

Rhag gwneuthur hyn, ymgryma gyda pharch  
 I ddarllen, trwy fodrwyau aur yr arch,  
 Trwy'r anner goch, trwy loi, trwy ddefaid mwyn,  
 Trwy adar bach, a gwaed diniwaid wyn,  
 Beth ddywed Duw ; a dedwydd ydyw ef,  
 Trwy'r cyfrai wel oleuni dysglaer nef.

Gan hyny, frawd, na farna'm gwaith yn ol  
 O sylwedd pur, a dweyd fy mod yn ffrol :  
 Nid sylwedd yw'r peth dybir lawer gwaith  
 Yn sylwedd ; nis dirmygwn bobpeth chwaith  
 Mewn dameg, rhag ofn derbyn pethau gwael,  
 Gan fod yn ol o'r lles allasem gael ;  
 Yr unig beth wna'm geiriau tywyll iawn  
 Yw dal y gwir 'run wedd a'r eurgist lawn.

E ddeuai'r hen brophwydi'n fynych iawn  
 A'r gwir i maes trwy ddameg ; felly cawn  
 I Grist ei hun, a'i apostolion ef,  
 Roi'r mentyll hyn am eiriau pur y nef.

Mae Gair fy Nuw, raggerodd ar bob dawn,  
 Mewn dull ac iaith, 'rwy'n meiddio dweyd, yn llawr  
 Damhegion a fflug-eiriau tywyll, cudd ;  
 Ond dyma'r Llyfr, yn mhob cyfyngder prudd,  
 O'r hwn y tardd y gwych oleuni, drydd  
 Dywyllaf nos yn hyfryd oleu ddydd.

Edryched fy nghyhuodwr, onid oes  
 Llinellau gwaeth a duach yn ei oes  
 Nag un o fewn fy llyfr ? yr oreu fedd  
 Nid cystal yw a'm gwaefaf un ei gwedd.

Pe safem ni gerbron diduedd rai  
 I'n barnu, gwn, a beiddiaf dd'wedyd, mai  
 Meddyliau fy llinellau gwael eu drych  
 Ddewisent hwy o flaen ei gelwydd gwych ;  
 Y llednais wir, er bod mewn gwisgoedd gwael,  
 Oleua'r farn, uniona'r fron heb ffael ;

Gwna'r deall wrth ei fodd, yr 'wyllys wna  
 Yn uffud iawn, a lleinw'r cof yn dda  
 A'r hyn foddfa'n dirnadaeth ; ac y mae  
 Yn esmwythâd i drallod, poen, a gwae.

I Timotheus rhaid bod ymadrodd iach,  
 Gan wrthod pob hen ofer-chwedlau gwrach ;  
 Ond nid yw Paul enwocaf yn nacau  
 Damhegigion fyth ; lle gellir cael yn glau  
 Y perlau teg, yr aur, a'r gemau gawn  
 Yn talu am eu ceisio'n ddyfal iawn.

Goddefer im' ddywedyd eto air,  
 Tydi, wr Duw, ai tramgwydd iti bair  
 Im' roddi fy materion allan trwy  
 Ryw ddull fel hyn ? neu, na roddaswn fwy  
 Amlygrwydd yn fy ngwaith ? Tri pheth, os caf,  
 A dd'wedaf, ac i'm gwell ymostwng wnaf.

1. Nid wyf yn cael gwaharddiad ; a phaham  
 Gwaherdir dull fel hyn, os na wnaf gam  
 A geiriau ac â phethau, neu â mwyn  
 Ddarllenwyr, trwy gamarfer neu gamddwyn  
 Aralleg neu gyff'lybiaeth ? Dim ond bod  
 Dyrchafu'r gwir ryw ffordd fy unig nôd.  
 Beth, ai gwahardd dd'wedais i ? O ! na,  
 Caf genad, ac esampl dynion da  
 Ryngasant fodd eu Duw yn well na neb sy'n awr,  
 Mewn geiriau a gweithredoedd ar y llawr,—  
 Sef cenad i draddodi fel y gwnes  
 Yr hyn sydd er dy faith dragwyddol les.

2. Canfyddaf wyr mor dàl a'r coed yn cael  
 Arferyd dull ymddyddan, heb eu gwael  
 Oganu am eu gwaith ; a gwae y rhai  
 Ddirmygant wir, melldithir am fath fai  
 Hwynthwy a'u dawn ddichellgar ; na, gadawn  
 Y gwir yn rhydd i'n denu'n hyfryd iawn

Y ffورد wel Duw yn dda: pwy wyr yn well  
 Na'r Hwn a ddysgodd ddyn lafurio'r tir yn mhell  
 Cyn geni neb sy'n fyw? pwy ond efe  
 A'n harwain at yr hyn sydd yn ei le  
 I'w feddwl, ac i'w ysgrifenu'n iawn,  
 Bair i beth gwael gynyrchu dwyfol ddawn?

3. Canfyddaf yr Ysgrythyr Lan, ddinam,  
 Yn arfer dull fel hyn, pan elwir am  
 I unpeth ddwyn peth arall ger ein bron :  
 Pwy wyr na chaf, heb ddiffodd goleu llon,  
 Drwy hyn belydrau'r gwir, nes iddynt droi  
 Y wawr yn ddydd, gan wneud i'r caddug fioi.

Yn awr, cyn rhoi fy 'sgrifell o fy llaw,  
 Danghosaf it' y budd o'm llyfr a ddaw ;  
 Ac yna'n rhwydd cyflwynaf di ac ef  
 I nawdd yr Hwn sydd â'i ddeheulaw gref  
 Yn tynu'r cryf i lawr, yn dàl y gwan  
 I fynu, ac i sefyll yn ei ran.

Daw'r llyfryn hwn â darlun ger dy fron  
 O'r dyn a gais drysorau'r nefoedd lon :  
 Mae'n dweyd o ba le daeth, i ba le'r â ;  
 Beth edy heb ei wneud, pa beth a wna :  
 D'wed hefyd fel y rhed, y rhed o hyd,  
 Nes dod at borth y gogoneddus fyd.  
 D'wed hefyd pwy am fywyd allan dry  
 Fel rhai am gael y fythol goron fry ;  
 A dywed pa'm y byddant hwy yn ol,  
 Er ymdrech, pan y trengant fel y ffol.

Gwna'r llyfryn hwn di'n deithiwr tua'r noi,  
 Os uffuddhei i'w fwyn gynghorion ef ;  
 E'th arwain fry i'r dedwydd santaidd dir,  
 Os deall wnei ei hyfforddiadau gwir :  
 E wna y diog wr yn ddiwyd un ;  
 A gwna i'r dall wel'd pethau hardd eu llun.

A ydwyt am gael rhywbeth er dy fudd ?  
 Neu weled gwir mewn chwedl fwyn yn nghudd ?  
 A wyt yn ddrwg dy gof, ac arnat ball  
 I gofio o'r naill Galan-ddydd i'r llall ?  
 Cais ddarllen, ddyn, fy meddylddrychau hyn,  
 Ac wrthyt, diau, glynw yn dyn ;  
 A gallant fod i'r gwanaf un yn rym,  
 A chysur mawr dan bob gorthrymder llym.

Mae'r llyfryn hwn, o ran ei iaith, yn un  
 Effeithia'n ddwys ar galon greigiaidd dyn ;  
 Er edrych fel peth newydd, gwn nad oes  
 O'i fewn ond hen athrawiaeth bur y groes.

A ydwyt am ddifyru'th galon drom ?—  
 Am bleser, heb ynfydrwydd ffol a siom ?—  
 Am ddarllen ?—ac am allu gweled trwy  
 Ddamhegion, heb dy ddallu ynddynt hwy ?  
 A hofit wel'd a chlywed gwr teg wedd  
 O'r cwmwl tew yn d'anerch mewn pur hedd ?  
 A fynit gael yn effro freuddwyd llon ?  
 Neu chwerthin a galaru yn nghyd o'r bron ?  
 Neu fod ar goll yn llwyr i'th hun heb fraw,  
 A'th gael heb swyn 'run munud bach gerllaw ?  
 A ewyllsit wel'd dy hun i gyd,  
 Trwy ddarllen peth nas gwyddost yn y byd  
 Beth ydyw'n iawn ? dim ond dy fod yn cael  
 Llesâd a budd trwy'r un llinellau gwael ?  
 Os mynit hyn, O ! dyro yma yn nghyd  
 I'm llyfryn hwn, dy ben, dy fron, dy fryd.

JOHN BUNYAN.

# TAITH Y PERERIN,

DAN GYFFELYBIAETH BREUDDWYD.

A MI yn tramwy trwy anialwch y byd hwn, daethum i fan yr oedd ffau \* ynddo, a gorweddais yno i gysgu; a phan y cysgais, breuddwydaias freuddwyd. Yn fy mreuddwyd gwelwn ddyn wedi ei ddilladu â bratiau, Esay 64. 6, Luc 14. 33, Psal. 38. 4, yn sefyll â'i wyneb oddiwrth ei gartref; yr oedd llyfr yn ei law, a baich mawr ar ei gefn. Edrychais, a gwelwn ef yn agor y llyfr, ac yn darllen; ac wrth ddarllen, wylai a chryna yn ddirfawr; ac am nas gallai ymatal yn hwy, torodd allan i waeddi yn gwynfanus iawn, gan ddywedyd, “Pabeth a wnaf?” Act. 2. 37; 16. 30; Hab. 1. 2, 3.

Yn yr agwedd hon, gan hyny, efe a aeth adref, ac a ymgadwodd hyd y gallai, fel na byddai i’w wraig a’i blant ganfod ei drallod; ond ni fedrodd fod yn ddystaw yn hir, oherwydd fod ei ofid yn trymhau. O’r diwedd, torodd allan i draethu ei holl feddwl i’w wraig a’i blant; ac fel hyn y dechreuodd :—O fy ngwraig anwyl, a chwithau, blant fy ymystegoedd, yr wyf fi, eich cyfaill anwyl, wedi fy andwyo o’m rhan fy hun trwy faich trwm sydd yn fy llethu; ac, heblaw hyny, hysbyswyd i mi y llosgir ein dinas hon & thân o’r nefoedd; ac yn y dymchweliad arswyodus hwnnw, myfi fy hun, tithau, fy ngwraig anwyl,

\* Carchar Bedford, lle y carcharwyd yr awdwr oherwydd ei  
wybod i Dduw.

a'm plant bychain, a ddyfethir oll, oddigerth i ni gael (yr hyn na welaf eto) ryw flordd o ddihangfa trwy yr hon y'n hachuber.

Ar hyn ei geraint a synasant yn fawr; nid am eu bod yn credu fod yr hyn a lefarodd yn wirionedd, ond am eu bod yn tybied fod ei ben wedi dyrys; a chan ei bod yn hwyrhau, a hwythau yn hyderu y llonyddai cwsg ei ymenydd, cawsant ef gyda brys i'w wely. Ond yr oedd y nos mor derfysglyn iddo ef a'r dydd; ac am hynny, yn lle cysgu, efe a'i treuliodd mewn ocheneidiau a dagrau. Pan dorodd gwawr y bore, mynent wybod pa fodd yr ydoedd. Yntau a ddywedodd, Gwaeth, waeth: dechreudd ymddyddan â hwynt drachefn; ond dechreuasant ymgaledu. Meddyliasant hefyd ymlid ymaith ei glefyd trwy fod yn sarug wrtho; weithiau gwawdient ef, bryd arall ceryddent ef; ac weithiau llwyr esgeulusent ef. Am hynny ciliodd oddiwrthynt i'w ystafell, i weddio drostynt a thosturio wrthynt, ac i ymofidio hefyd oherwydd ei drueni ei hun; rai prydian lhefyd ymrodiai wrtho ei hun yn y meusydd, weithiau yn darllen ac weithiau yn gweddio: ac fel hyn y treuliodd ei amser am amryw ddyddiau.

Un tro, pan oedd yn rhodio yn y meusydd, gwelwn ef (yn ol ei arfer) yn darllen yn ei lyfr, yn gystuddiedig iawn ei ysbryd; ac wrth ddarllen, torodd allan fel o'r blaen i ddolefain, "Beth sy raid i mi ei wneuthur, fel y byddwyf cadwedig?" Act. 16. 30.

Gwelwn ef hefyd yn edrych yma ac acw, fel pe buasai yn ei fryd ef ffoi ymaith; eto safodd yn llonydd, am na wyddai (i'm tyb i) pa le i fyned. Yna gwelwn wr a'i enw Efengylwr yn dynesu ato, ac yn gofyn iddo, Paham yr wyt ti yn llefain?

Yntau a'i hatebodd, Syr, yr wyf yn deall, wrth y llyfr sydd yn fy llaw, fy mod wedi fy neddfrydu i farw, ac wedi hynny i ddyfod i'r farn, Heb. 9. 27; yr wyf yn cael nad oes genyf ewylllys i'r cyntaf, Job 16. 21, 22, na gallu i wneud y llall, Eze. 22. 14.

Yna ebe Efengylwr, Paham nad oes genyt ewylllys i farw, gan fod y bywyd hwn mor llawn o helbul? A'r





CRISTION AC EFENGYLWR.

gwr a'i hatebodd, Am fy mod yn ofni i'r baich hwn sydd ar fy nghefn fy ngwasgu yn is na'r bedd, ac y bydd i mi syrthio i Tophet, Esay 30. 33. Ac hefyd, syr, os nad wyf yn gymhwys i fyned i garchar, llai o lawer yr wyf yn barod i fyned i'r farn, ac oddiyno i'r dienyddle; meddwl am y pethau hyn sydd yn peri i mi wylo.

Yna ebe Efengylwr, Os dyma dy gyflwr, paham y sef i yn llonydd? Yntau a'i heddodd, Am na wñm i ba le i fyned. Yna rhododd iddo rol o femrwn, ac ynddo yna ysgrifenedig. "Ffowch rhag y llid a fydd." Mat. 3. 7.

Darllenodd y gwr y geiriau, a chan edrych ar Efengylwr yn graff, efe a ofynodd iddo, I ba le y ffoaf? Yna ebe Efengylwr (gan gyfeirio â'i fys dros faes eang iawn), A weli di y porth bychan acw? Mat. 7. 13, 14. Na welaf, ebe yntau. Yna ebe y llall, A weli di y goleuni dysglaer acw? Psal. 119. 105; 2 Petr 1. 19. Yntau a ddywedodd, Tybygywyf y'i gwelaf. Yna ebe Efengylwr, Cadw dy lygad ar y goleuni acw, a dos yn union tuag ato, a gweli y porth; a phan y curi wrtho, danghosir i ti beth a ddylit wneuthur. Yna gwelwn yn fy mreuddwyd fod y gwr yn dechreu rhedeg. Nid aeth yn mhell oddiwrth ddrws ei dy cyn i'w wraig a'i blant, wrth ganfod hynny, waeddi ar ei ol am iddo ddychwelyd; ond efe a osododd ei fysedd yn ei glustiau, a rhedodd yn mlaen, gan lefain yn groch, Bywyd! bywyd! bywyd trawgyddol! Luc 14. 26. Felly nid edrychodd yn ol, Gen. 19. 17, ond ffodd tua chanol y gwastadedd.

Y cymydogion hefyd a ddaethant allan i'w weled ef yn rhedeg, Jer. 20. 10; ac fel yr oedd yn prysuro, rhai a'i gwatwarent, ereill a'i bygythient, a rhai a waeddent ar ei ol am ddychwelyd; ac yn eu plith yr oedd dau wr wedi gosod eu bryd ar ei ddwyn yn ol trwy drais. Enw un oedd Cyndyn, ac enw y llall oedd Meddal. Erbyn hyn yr oedd y gwr wedi myned encyd oddiwrthynt; er hyn y canlynasant ef, ac yn mhen ychydig amser hwy a'i goddiweddasant. Yna ebe y gwr wrthynt, Fy nghymydogion, paham y deuwch ar fy ol i? Hwythau a'i hatebasant, I'th gynghori i ddyfod adref gyda ni. Ond efe a ddywedodd, Nis gallaf wneuthur felly mewn un modd:

## 18 EI YMDDYDDAN GYDA CHYNDYN A MEDDAL.

yr ydych chwi yn trigo yn Ninas Dystryw, y lle hefyd y'm ganwyd inau : gwn fod y peth yn wir ; ac os marw a wnewch yno, suddwch yn is na'r bedd, yn fuan neu yn hwyr, i le sydd yn llosgi â thân a brwmstan : byddwch fodlon, fy nghymydogion, a deuwch gyda mi !

CYNDYN. Beth ! ebe Cyndyn, a gadael ein cyfeillion a'n cysuron o'n hol !

CRISTION. Ié, ebe Cristion (canys felly y'i gelwid), am nad ydyw y cwbl hyny yn deilwng i'w cystadlu ag ychydig o'r pethau a geisiwyf, 2 Cor. 4. 18 ; ac os deuwch gyda mi i ben y daith, cewch yr un croesaw a minau ; canys yn y lle yr wyf fi yn myned y mae digon a gweddill i'w gael, Luc 15. 17. Deuwch, a phrofwch fy ngeiriau.

CYNDYN. Pa bethau yr ydwyt yn eu ceisio, gan dy fod yn ymadael â'r holl fydd er mwyn eu cael ?

CRISTION. Yr wyf yn ceisio etifeddiaeth anlygredig, ddihalogedig, a diddiflanedig, yr hon sydd yn nghadw yn y nefoedd, Petr 1. 4 ; ac yn ddiogel yno, Heb. 11. 16, i'w rhoddi, ar yr amser nodedig, i'r sawl a'i dyfal-geisiant hi. Darllenwch hyn, os gwelwch yn dda, yn fy llyfr.

CYNDYN. Pw, ymaith â'th lyfr. A droi di yn ol gyda ni ai peidio ?

CRISTION. Na wnaf, ebe y llall, canys mi a osodais fy llaw ar yr aradr, Luc 9. 62.

CYNDYN. Tyred, gymydog Meddal, dychwelwn adref hebddo : y mae myntai o ddynionach penweinion, y rhai, wedi mabwysiadu rhyw sympwy, ydynt ddoethach yn eu golwg eu hunain na seithwyr yn adrodd rheswm.

MEDDAL. Paid a difenwi, ebe Meddal ; os gwir a ddywed y Cristion mwyn, y pethau a geisia efe ydynt well na'r eiddom ni : mae fy nghalon yn tueddu i fyned gyda fy nghymydog.

CYNDYN. Pa beth ! mwy fyth o ffyliaid ! cymer dy arwain genyf fi, a thyred yn ol ; pwy a wyr i ba le y'th dywysir gan y fath ddyn penchwiban a hwn ? Dychwel, dychwel, a bydd gall.

CRISTION. Tyred gyda mi, gymydog Meddal ; yr hyn oll a soniais am danynt i'w cael, a llaweroedd o

bethau gogoneddus ereill. Oni chredi fi, darllen yma yn y llyfr hwn yn eu cylch; ac am wirionedd yr hyn a synegir ynddo, wele, mae y cwbl wedi eu sicrhau â gwaed yr Hwn a'i gwnaeth, Heb. 9. 17—21.

**MEDDAL.** Wel, fy nghymydog Cyndyn, ebe Meddal, yr wyf yn dechreu ymroddi yn fy meddwl i ymdeithio gyda'r gwr da hwn, a bwrw fy nghoelbren gydag ef: ond, fy nghyfaill, a wyddost ti y ffordd i'r lle dymunol hwn?

**CRISTION.** Mae gwr o'r enw Efengylwr wedi fy nghyfarwyddo i gyfeirio at borth bychan sydd o'n blaenau, lle y danghosir i ni y ffordd.

**MEDDAL.** Tyred ynte, gymydog da, gad i ni gychwyn. Yna yr aethant ill dau yn nghyd.

**CYNDYN.** Minau a ddychwelaf adref, ebe Cyndyn: ni byddaf gydymaith i'r cyfryw ddynion gwallgofus a chamsyniol.

Yn awr, ar ol i Cyndyn droi ei gefn, gwelwn yn fy mreuddwyd fod Cristion a Meddal yn myned yn mlaen gan ymddyddan â'u gilydd ar hyd y gwastadedd; ac fel hyn y dechreuanasant :—

**CRISTION.** Tyred, fy nghymydog Meddal, pa fodd yr ydwyt? Mae yn dda iawn genyf dy annog i fyned gyda mi. Pe teimlasai hyd yn nod Cyndyn ei hun yr hyn a deimlais i o nerthoedd a dychrynfeidd pethau ag ydynt eto yn anweledig, ni throisai ei gefn arnom mor ysagfn?

**MEDDAL.** Fy nghymydog Cristion, gan nad oes yna ond nyni ill dau, dywed i mi yr awrhon yn mhellach, pa bethau sydd i'w cael yn y lle yr ydym yn myned iddo, a pha fodd y ceir hwynt?

**CRISTION.** Haws y gallaf eu dirnad â'r meddwl, na'u hadrodd â'r tafod: eto, gan dy fod yn chwennych eu gwybod, mi a ddarllenaf am danynt yn fy llyfr.

**MEDDAL.** A wyt ti yn meddwl fod geiriau dy lyfr yn wir?

**CRISTION.** Ydwys, yn sicr; canys y Digelwyddog yw ei Awdwr, Tit. 1. 2.

**MEDDAL.** Da iawn; pa bethau ydynt?

**CRISTION.** Mae teyrnas ddiddiwedd i breswylio ynddi,

## 20 CRISTION A MEDDAL YN CYDYMDDYDDAN.

■ bywyd tragicwyddol i'w roddi i ni, fel y gallom drigo yn y deyrnas honno byth, Esay 45. 17. Ioan 10. 27—29.

MEDDAL. Da iawn ; pa bethau eto ?

CRISTION. Mae coronau gogoniant i'w cael yno hefyd, a gwisgoedd a bar i ni ddysgleirio fel yr haul yn ffurfaen y nefoedd, 2 Tim. 4. 8 ; Dat. 22. 5 ; Mat. 13. 43.

MEDDAL. Rhagorol ; pa bethau hefyd ?

CRISTION. Ni bydd yno nag wylofain na thristwch : oblegyd fe sych Arglwydd y lle bob deigrynn oddiwrth ein llygaid, Esay 25. 8 ; Dat. 21. 4.

MEDDAL. A pha gyfeillion a gawn yno ?

CRISTION. Cawn fod gyda seraphiaid a cherubiaid, Esay 6. 2 ; 1 Thes. 4. 16, 17 ; Dat. 5. 11 ; creaduriaid na all llygad edrych arnynt gan eu dysgleirdeb. Yno hefyd y cyfarfyddwn â miloedd a myrddiynau o rai a aethant i'r lle hwnw o'n blaenau ; nid oes un o honynt yn niweidiol, ond yn byw yn gariadus a santaidd ; pob un yn rhodio gerbron Duw, ac yn aros yn ei wyddfod yn gymeradwy dros byth. Mewn gair, yno cawn weled yr henuriaid a'u coronau aur, Dat. 4. 4 ; yno cawn weled y gwyryfon santaidd a'u telynau aur, Dat. 14. 1—5 ; ac yno cawn weled y rhai a ddrylliwyd yn ddarnau gan y byd, â losgwyd yn tân, â larpiwyd gan fwystfilod, ac a foddyd yn y moroedd, am eu cariad at Arglwydd y lle, Ioan 12. 25 ; oll yn holliach, wedi eu gwisgo ag anfarwoldeb megys â dilledyn, 2 Cor. 5. 2—4.

MEDDAL. Mae y pethau hyn yn ddigon i sugno calon dyn ; ond a ydynt i'w cael ? Pa fodd y cawn fod yn gyfranogion o honynt ?

CRISTION. Llywydd y wlad a gofnododd y peth yn y llyfr hwn, Esay 55. 1, 2 ; Ioan 7. 37 ; Dat. 21. 6. a 22. 17 ; y sylwedd ydyw, Os byddwn yn wir ewyllsgar i'w derbyn, efe a'u rhydd i ni yn rhodd ac yn rhad.

MEDDAL. Wel, fy nghydymaith hoff, hyfryd yw genyf glywed y pethau hyn : tyred, gad i ni brysuro ein camrau.

CRISTION. Nid allaf fyned gan gynted ag y dymunwn, aherwydd y baich sydd ar fy nghefn.

Yna gwelwn yn fy mreuddwyd eu bod, ar ddiwedd hyn

o siarad, yn nesâu at gors siglenog, yr hon oedd yn nghanol y gwastadedd; ac o ddifyg bod yn wyliadwrus, syrthiasant ill dau yn ddisymwth iddi. Enw y gors yw Anobaith. Yno y buont, gan hyny, yn ymdrybaeddu dros enyd, wedi eu diwyno yn erchyll gan y dom; a dechreuodd Cristion suddo yn y siglen, o achos y baich oedd ar ei gefn.

**MEDDAL.** Yna ebe Meddal, Oh! fy nghymydog Cristion, yn mha le yr wyt yn awr?

**CRISTION.** Yn wir, ebe Cristion, nis gwn.

**MEDDAL.** Yna cyfrôdd Meddal, a dywedodd yn ddiglion wrth ei gydymaith, Ai dyma y dedwyddwch y soniaist gymaint am dano? Os cawsom y fath afluwydd yn nechreuaed ein taith, beth a allwn ddysgwyl rhwng hyn a phen ein siwrnai? Os gallaf ond dianc o'r lle hwn yn fyw, cei feddiannu y wlad dy hunan o'm rhan i. Gwedi ymdreiglo yn egniol unwaith neu ddwy, daeth allan o'r siglen ar yr ochr hwnnw i'r gors oedd nesaf i'w dy ei hun: felly aeth ymaith, ac ni welodd Cristion mohono mwy.

Fel hyn y gadawyd Cristion i ymdroi yn Nghors Anobaith wrtho ei hun: eto ceisiodd wingo tua'r ochr hwnnw i'r gors oedd bellaf oddiwrth ei gartref, ac agosaf i'r porth cyfng; ond nid allai ddyfod allan o'r gors, er gwneuthur felly, o achos y baich oedd ar ei gefn: yna gwelais yn fy mreuddwyd wr yn dyfod ato, o'r enw Cymhorth, ac yn gofyn iddo, Pa beth a wnelai yno?

**CRISTION.** Syr, ebe Cristion, gwr a elwir Efengylwr a archodd i mi fyned y ffordd hon, yr hwn hefyd a'm cyfarwyddodd i'r porth acw, fel y gallwn ffoi rhag y llid a fydd. Fel yr oeddwn yn myned tuag yno, syrthiais i mewn yma.

**CYMHORTH.** Ond paham nad edrychasit am y ceryg yn fanylach?

**CRISTION.** Dychryn a barodd i mi ffoi y ffordd nesaf, ac felly syrthiais i mewn yma.

**CYMHORTH.** Yna eb efe, Moes i mi dy law: felly Cristion a roes iddo ei law, ac efe a'i tynodd allan, Psal. 40. 2, ac a'i gosododd ar dir caled, ac a barodd iddo fyned rhagddo.

## 22 SARN YR ADDEWIDION.—MEDDAL GARTREF.

Gwedi hyny neseais at yr hwn a'i tynasai o'r gors, a gofynais iddo, Syr, gan fod y ffodd sydd yn arwain o Ddinas Dystryw i'r porth acw yn gorwedd trwy y lle yma, paham na welleid y man hwn, fel y gallai ymdeithwyr tlodion deithio tuag yno yn ddiofalach? Yntau a'm hatebodd, Mae y gors front hon y fath nas gellir ei gwellâu; canys i'r gwaelod hwn y rhed yn wastadol yr holl fudreddi sydd yn canlyn argyhoeddiad o bechod; ac am hyny y'i gelwir Cors Anobaith; oblegyd cyn gynted ag y deffroir pechadur i weled ei gyflwr colledig, y mae llawer o ddychrynfeydd ac anheuon, a daroganau di-gysur, yn cyfodi yn fynych yn ei enaid: a'r rhai hyn oll a gydymgasglant, ac a ymsefydlant yn y lle hwn. A dyna y rheswm am ddifffeithder y tir yma.

Nid ewyllys y Brenin yw fod y ffodd hon cynddrwg ag ydyw, Esay 35. 3, 4. Ei weithwyr hesyd, dan gyfarwyddyd arolygwyr ei Fawrhydi, a fuont dros yspaid mwy nag un cant ar bymtheg o flynyddoedd ar waith yma, i edrych a ellid gwellâu y dernyn tir hwn: ie, gwn, eb efe, lyncu yma o leiaf fwy nag ugain mil o lwythi mèni, ie, myrddiynau o hyfforddiadau iachus, a ddygwyd yma o bryd i bryd o bob man yn llywodraeth y Brenin (a'r rhai a wyddant, a ddywedant, mai y defnyddiau goreu oedd ynt a'r a ellid eu cael i wneud y tir hwn yn dda), i edrych ai dichonadwy adgyweirio y ffodd hon; eithr Cors Anobaith ydyw hi eto, ac felly y bydd er gwneuthur o honyn eu goreu i'w gwellâu.

Gwir yw, fod, trwy gyfarwyddiad y Deddfroddwr, ryw sarn fawr a chadarn o geryg wedi ei gosod trwy ganol y gors hon, fel y gallai pobl, trwy gamu, fynea trosti; ond pan fyddo y lle yma yn chwydu i fynu lawer o fudreddi, yr hyn a wna ar newid tywydd, yna o'r braidd y gwelir y ceryg; ac os canfyddir hwy, y mae dynion, oherwydd gwendid eu penau, yn methu y cam, ac wedi syrthio i'r gors diwynir hwynt yn dost, er bod y ceryg yn aros yno; ond y mae'r ffodd yn dda gwedi myned unwaith i mewn i'r porth, 1 Sam. 12. 23.

Yn awr gwelwn yn fy mreuddlwyd fod Meddal erbyn hyn wedi cyrhaedd yn ol i'w annedd ei hun. Felly ei

gymydogion a ddaethant i ymweled ag ef; a rhai o honynt a'i galwent ef yn wr call am ddyfod yn ol, a rhai a'i hystyrient yn ddyn ffol am beryglu ei hunan gyda Christion : ereill drachefn a'i gwawdient ef am ei wan-galondid, gan ddywedyd, Yn diau, wedi cychwyn yr anturiaeth, ni ddangosaswn fy hun mor llwfr a rhuso am ychydig o anhawsder yn y ffordd : felly mewn dull llech-lyd eisteddodd Meddal yn eu plith. Ond o'r diwedd daeth yn hyfach, ac yna trodd pawb eu chwedlau, gan wawdio Cristion druan yn ei gefn. Cymaint a hyn am Feddal.

Yn awr fel yr oedd Cristion yn myned yn mlaen wrtho ei hun, canfyddai wr o hirbell yn croesi y maes i'w gyfarfod ; a dygyddodd iddynt ymgysarfod yn y lle yr oedd y naill yn croesi ffordd y llall. Enw y gwr bon-heddig a gyfarfu ag ef oedd Mr. Bydol Ddoethyn : trigo yr oedd yn Ninas Ystryw Cnawdol, tref fawr iawn, ac yn agos hefyd i'r man y daeth Cristion allan o hono. Y gwr hwn a glywsai ryw son am dano (canys aeth y chwedl am fynediad Cristion allan o Ddinas Dystryw ar led, nid yn unig yn ei dref ei hun, ond hefyd mewn amryw o drefydd ereill oddiamgylch) ; Mr. Bydol Ddoethyn, gan hyny, wedi ammau pwy ydoedd, trwy sylwi ar ei ysgogiad egniol, a thrwy graffu ar ei ocheneidiau a'i riddfanau, a'r cyffelyb, a ddechreudd siarad â Cristion fel hyn :—

**BYDOL DDOETHYN.** Pa fodd yn awr, wr da? pa le bellaf yr âi dan dy bwn fel hyn?

**CRISTION.** Dan fy mhwn gymaint i'm tyb i, mewn gwirionedd, ag un creadur tlawd erioed! A chan y gofyni i mi, I ba le bellaf? dywedaf wrhyt, syr, fy mod yn cyrchu at y porth cyfyng acw sydd o'm blaen; oblegyd yno, meddir, y caf wybod pa fodd i gael gwared o fy maich trwm.

**BYDOL DDOETHYN.** A oes genyt wraig a phlant?

**CRISTION.** Oes; ond nid oes genyf gymaint o hyfryd-wch ynddynt ag oedd genyf gynt, oherwydd y baich sydd yn fy llethu : ie, tybiwyf fy mod megys pe bawn heb-ddynt, 1 Cor. 7. 29.

**BYDOL DDOETHYN.** A wrandewi di arnaf pe rhoddwn i ti gyngor?

**CRISTION.** Gwnaf, os da fydd; canys angenrhaid i mi wrtho.

**BYDOL DDOETHYN.** Cynghorwn di gan hyny, gyda phob brys, i ysgwyd ymaith dy faich; oblegyd ni ddichon i ti byth gael llonyddwch meddwl cyn hyny: nis gelli ychwaith fwynhau cysuron y bendithion a roddes Duw i ti.

**CRISTION.** Dyna y peth yr wyf yn ymofyn am dano, sef gwarediad o'r baich trwm hwn: nis gallaf ei fwrw i lawr fy hunan, ac nid oes neb yn ein gwlad a ddichon ei dynu oddiar fy ysgwyddau; a dyma yr achos, fel y dywedais, fy mod yn teithio y ffordd hon, fel y gallwyf gael gwared o hono.

**BYDOL DDOETHYN.** Pwy a barodd i ti fyned ar hyd y ffordd yma i gael ymadael â' th faich?

**CRISTION.** Gwr o ymddanghosiad cyfrifol ac anrhydeddus: ei enw, hyd a gofiwyf, yw Efengylwr.

**BYDOL DDOETHYN.** Yn nghrog y byddo am ei gyngor! nid oes yn yr holl fydd un ffordd fwy peryglus a blin na'r hon yr arweiniodd di iddi; a phrofi hyny os dilyni ei gyngor. Canfyddaf i ti eisoes gyfarfod â pheth, gan y gwelaf arnat laid Cors Anobaith; eithr nid yw'r gors hdono ond dechreuad y gofidiau a ganlynant y sawl a deithiant y ffordd hon. Gwrando fi; yr wyf yn henach na thydi: cyfarfyddi ar y ffordd â gerddi, ond odid, & lludded, blinder, newyn, peryglon, noethni, cleddyf, llewod, dreigiau, tywyllwch, ac, mewn gair, & marwolaeth, a pha beth gyda hyny! Gwir diliys yw hyn oll, a sicer-hawyd gan lawer o dystion. A phaham y dinystria dyn ei hunan mor ddiraid trwy goelio gwr dyeithr?

**CRISTION.** Syr, y mae'r baich hwn sydd ar fy nghefn yn fwy ofnadwy i mi na'r cwbl oll a grybwyllaist; ie, tebygwn nas gwnawn un cyfrif o ddim a ddygwyddo i mi ar y ffordd ond i mi hefyd gael fy esmwythâu o'm baich.

**BYDOL DDOETHYN.** Pa fodd y daethost ar y cyntaf yn adnabyddus o dy faich?

**CRISTION.** Wrth ddarllen y llyfr hwn sydd yn fy llaw.

**BYDOL DDOETHYN.** Felly y meddyliais; a dygwyddodd i ti fel y dygwyddha i bobl weiniaid ereill, y rhai, trwy myraeth â phethau rhy uchel iddynt, a syrthiant yn

ddisymwth i'th ddyryswch, sydd, nid yn unig yn gwan-ychu dynion, fel y gwelaf iddo wneud i ti, ond hefyd yn eu hyrddio i anturiaethau enbydus, er mwyn cyrhaedd y peth na wyddant.

CRISTION. Gwn beth a geisiaf, sef esmwythâd o'm baich trwm.

BYDOL DDOETHYN. Paham yr ymofyni am esmwythâd yn y ffordd hon, gan fod cymaint o enbydrwydd arni? yn enwedig pan y gallwn (pe b'ai genyt amynedd i wrando arnaf) dy gyfarwyddo i gael dy ddymuniad, heb y peryglon y gorfydd i ti ymredeg iddynt yn y ffordd hon? Ie, mae yr ymwared gerllaw. Hefyd, chwanegaf, y cei lawer o ddiogelwch, caredigrwydd, a boddineb, yn lle y peryglon hyny.

CRISTION. Atolwg, syr, dadguddia i mi y dirgelwch hwn.

BYDOL DDOETHYN. Wel, y mae yn y pentref acw (sef Pentref Moesoldeb) wr bonheddig yn byw, à elwir Deddfoldeb; gwr call iawn, a gwr a fedd air da rhagorol, fel un yn medru symud y cyfryw feichiau oddiar ysgwyddau dynion; ie, gwn iddo wneuthur llawer o ddaioni yn y ffordd hon eisoes; ac, heblaw hyn, medr iachâu y sawl a led-ddyryswyd gan eu beichiau. Ato ef, meddaf, y gelli fyned, a chael cynorthwy ebrwydd. Nid yw ei dy yn llawn filltir oddiyma; ac oni bydd gartref ei hun, y mae ganddo wr ieuanc glân o fab iddo, à elwir Gweddusrwydd, yr hwn (a dywedyd wrthyt y gwir) a ddichon dy gynorthwyo cystal a'r hen wr bonheddig ei hun: yno, meddaf, y gelli gael dy esmwythâu o'th faich; ac os nad wyt yn bwriadu dychwelyd i'th hen drigfa (a hyny nis mynwn i ti wneuthur), gelli ddanfon am dy wraig a'th blant i ddyfod i fyw gyda thi yn y pentref hwn, lle y mae tai gweigion yn awr, un o'r rhai a fedri gael am ardroth rhesymol: ymborth hefyd sydd yno yn rhad a da; ac i wneuthur dy fywyd yn ddedwyddach, y mae sicrwydd y byddi byw yno yn mhllith cymydogion gonest mewn cymeriad a chyfrifoldeb.

Ar hyn petrusai Cristion ychydig; ond ymsyniodd yn ebrwydd, Os gwir a ddywed y gwr bonheddig hwn, gwell

## 26 EFENGYLWR YN CYFARFOD AG EF DAN SEINAL.

i mi gymeryd ei gyngor ef; a chyda hyny llefarodd yn mhellach :—

CRISTION. Syr, a ddanghos i di i mi y ffordd i dy y gwr gonest hwn?

BYDOL DDOETHYN. A weli di y bryn uchel acw?

CRISTION. Gwelaf yn eglur ddigon.

BYDOL DDOETHYN. Heibio i'r bryn acw rhaid myned; a'r ty cyntaf yr elych ato yw ei dy ef.

Felly trodd Cristion allan o'i ffordd i fyned i dy Mr. Deddfoldeb am gymhorth: ond wedi nesâu at y bryn, wrth ei weled mor uchel, a bod yr ochr nesaf i'r ffordd yn crogi cymaint drosodd, ofnodd fyned yn mhellach, rhag i'r clogwyn syrthio ar ei ben; am hyny safodd yn llonydd yno, heb wybod pa beth a wnai. Yr oedd ei faich hefyd, yn ei dyb ef, yn drymach yn awr na phan ydoedd yn ei ffordd. Daeth fflamau o dân hefyd allan o'r mynydd, Exod. 19. 16, 18, y rhai a barasant i Gristion ofni y llosgid ef: yma, gan hyny, y chwysodd ac y crynodd gan ofn, Heb. 12. 21. Bellach dechreuodd fod yn ddrwg ganddo dderbyn cyngor Mr. Bydol Ddoethyn: a chyda hyn canfu Efengylwr yn dyfod i'w gyfarfod ef, ac wrth ei weled dechreuodd wrido gan gywilydd. Felly Efengylwr a nesaodd agosach agosach; a phan ddaeth ato, edrychodd arno â gwedd lem a digllawn, gan ddechreu ymresymu â Christion fel hyn:—

EFENGYLWR. Pa beth a wnei di yma, Gristion? eb efe: ond ni wyddai Cristion pa beth i ateb iddo; ac am hyny safodd yn fud o'i flaen dros enyd fechan. Yna dywedodd Efengylwr yn mhellach, Ai nid ti yw'r dyn a glywais i yn llefain yn gwynfanus o'r tuallan i furiau Dinas Dystryw?

CRISTION. Ie, anwyl syr, myfi yw y dyn.

EFENGYLWR. Oni chyfarwyddais i di i'r ffordd sydd yn arwain i'r porth bychan?

CRISTION. Do, anwyl syr, ebe Cristion.

EFENGYLWR. Pa fodd, ynte, y ciliaist o'r ffordd moi fuan? canys yr wyt yn awr allan o'r ffordd.

CRISTION. Can gynted ag y daethum allan o Gors Anobaith, cyfarwyddais a gwr bonheddig a barodd i mi

**EFENGYLWR YN EI ARGYHOEDDI O'I DROSEDD. 27**

goelio y gallwn gael gwr yn y pentref o'm blaen a allai symud fy maich.

**EFENGYLWR.** Pa fath wr oedd efe?

**CRISTION.** Edrychmai fel bonheddwyr, siaradodd lawer a mi, ac, o'r diwedd, cafodd genyf gydsynio: felly y daethum yma; ond pan welais y mynydd hwn, a'r modd y mae yn crogi uwchben y ffordd, sefais yn sydyn, rhag y syrthiasai ar fy mhen.

**EFENGYLWR.** Beth a ddywedodd y bonheddwyr hwnnw wrthyt?

**CRISTION.** Gofynnodd i mi i ba le yr oeddwn yn myned; a dywedais wrtho.

**EFENGYLWR.** Beth a ddywedodd wedi hyny?

**CRISTION.** Gofynnodd a oedd genyf deulu: dywedais inau fod. Ond, ebe fi, yr wyf mor flinedig gan y baich sydd ar fy nghefn fel nas gallaf ymhyfrydu ynddynt fel cynt.

**EFENGYLWR.** A pheth a ddywedodd yntau drachefn?

**CRISTION.** Cynghorodd fi i geisio ymwared o'm baich yn fuan; a minau a'i hatebaus mai esmwythyd oedd fy nghais: ac am hyny, ebe fi, yr wyf yn myned tua'r porth acw i gaol cyfarwyddyd pellach er cyrhaedd man yr ymwared. Yntau a ddywedodd y danghosai efe i mi ffordd well a nes, a llai o beryglon ynddi, na'r ffordd y gosodaist ti, syr, fi arni; yr hon ffordd, eb efe, a'th ddyg di yn union i dy gwr bonheddig sydd yn fedrus i symud y fath feichiau: felly coelais ef, a thrôais o'r ffordd hôno i hon i edrych a gawn esmwythdra oddiwrth fy maich. Ond pan ddaethum i'r lle hwn, a gweled pethau fel y maent, sefais (fel y dywedais) rhag ofn perygl: ond yn awr nis gwn beth a wnaf.

**EFENGYLWR.** Yna ebe Efengylwr, saf yn llonydd ychydig, ac hysbysaf i ti eiriau Duw. Felly safodd yn grynedig. Yna ebe Efengylwr, "Edrychwr na wrthodoch yr Hwn sydd yn llefaru: oblegyd oni ddihangodd y rhai a wrthodasant yr hwn oedd yn llefaru ar y ddaear, mwy o lawer nis dihangwn ni, y rhai ydym yn troi ymaith oddiwrth yr Hwn sydd yn llefaru o'r nef," Heb. 12. 25. Eilwaith, eb efe, "A'r cyflawn a fydd byw ~~bwys~~

## 28 EFENGYLWR YN EI ARGYHOEDDI O'I DROSEDD.

ffydd : eithr o thyn neb yn ol, nid yw fy enaid yn ym-foddloni ynddo," Heb. 10. 38. Cymhwysodd hwynt fel hyn : "Ti yw'r dyn sydd yn rhedeg i drueni ; dechreuaist ddiystyru cyngor y Goruchaf, a throi dy droed o ffordd tangneseedd, ie, o fewn ychydig i sicrhau dy golledigaeth.

Yna syrthiodd Cristion i lawr wrth ei draed ef fel un marw, gan lefain, Gwae fi, canys darfu am danaf ! Wrth weled hyny, ymaflodd Efengylwr yn ei law ddeau, gan ddywedyd, "Pob pechod a chabledd a faddeuir i ddynion," Mat. 12. 31. "Na fydd anngħredadyn, ond credadyn," Ioan 20. 27. Yna ymadfwiodd Cristion ychydig, a safodd yn grynedig o flaen Efengylwr, fel ar y cyntaf.

Aeth Efengylwr rhagddo, gan ddywedyd, Dal yn well ar y pethau a ddywedwyf wrthyd. Dangħosaf i ti yn awr pwy oedd yr hwn a' th dwyllodd, a phwy hefyd oedd yr hwn y'th ddanfonwyd ato. Y gwr a gyfarfu â thi yw Byadol Ddoethyn ; a phriodol y'i gelwir felly ; oblegyd, yn gyntaf, nid oes ganddo flas ond ar y byd hwn, 1 Ioan 4. 5 (am hyny y cyrcha yn ddibaid i'r eglwys yn nhref Moesoldeb) ; ac, yn ail, yn mae yn caru yr athrawiaeth hħno yn oreu, am ei bod yn ei gadw rhag y groes, Gal. 6. 12 : ac oherwydd ei fod ef o'r dymer gnawdol hon, ymdrecha wyrdroi fy fflyrdd i, er mai uniawn ydynt. Mae tri pheth yn nghyngor y gwr hwn y dylit eu llwyr ffleiddio.

1. Ei waith yn dy droi allan o'r ffordd.
2. Ei ymdrech i wneuthur y groes yn gas yn dy olwg.
3. Ei waith yn gosod dy draed ar y ffordd sydd yn arwain i weinidogaeth angau.

Yn gyntaf, Rhaid i ti ffleiddio ei waith yn dy droi allan o'r ffordd ; ie, a' th waith dithau yn cytuno ag ef yn hyny ; oblegyd nid oedd hyn ond diystyru cyngor Duw er mwyn gwrando ar gyngor Byadol Ddoethyn. Yr Arglydd a ddywed, "Ymdrechhwch am fyned i mewn trwy y porth cyfyng," Luc 18. 24, sef y porth yr anfonwyf di iddo ; "oblegyd cyfyng yw y porth sydd yn arwain i'r bywyd, ac ychydig yw y rhai sydd yn ei gael ef," Mat. 7. 14. Oddiwrth y porth cyfyng hwn, ac oddiwrth y ffordd sydd

yn arwain ato, y troes y dyn drygionus hwn di i'th ddwyf o fewn ychydig i ddinistr: casâ, gan hyny, ei waith yn dy droi allan o'r ffordd, a ffieiddia dy hun am wrando arno.

Yn ail, Rhaid i ti ffieiddio ei lafur i wneud y groes yn gas genyt; canys dylit ei dewis yn fwy na thrysorau yr Aiph, Heb. 11. 25, 26. Heblaw hyn, Brenin y gogonian a fynegodd i ti, y caiff yr hwn sydd yn ewyllysio cadw ei einioes, ei cholli; a'r neb a ddelo ato ef, ac ni chasao ei dad, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwiorydd, ie, a'i einioes ei hun hefyd, na all ef fod yn ddysgybl iddo, Marc 8. 38; Ioan 12. 25; Mat. 10. 39; Luc 14. 26. Am hyny, meddaf, rhaid i ti ymwrthod â'r athrawiaeth hôno y ceisiwyd genyt ei chredu, sef, y byddai y peth hwnw yn farwolaeth i ti, heb yr hyn (medd y gwirionedd ei hun) nid elli gael bywyd tragwyddol.

Yn drydydd, Rhaid i ti gasâu ei waith yn gosod dy draed ar y ffordd sydd yn arwain i weinidogaeth angeu. Er mwyn hyn, rhaid i ti ystyried at bwy yr anfonodd di, ac hefyd pa mor analluog oedd y gwr hwnw i'th waredu oddiwrth dy faich.

Yr hwn y'th ddanfonwyd ato i gael ymwared, Deddfoldeb wrth ei enw, sydd fab i'r gaethferch sydd yn awr, yr hon sy gaeth hi a'i phlant, Galat. 4. 21—27; ac, mewn dirgelwch, hi yw y mynydd Seinai hwn yr ofnaist rhag iddo syrthio ar dy ben. Yn awr, os ydynt (hi a'i phlant) yn gaethion, pa fodd y gelli ddysgwyl dy ryddhau ganddynt? Ni fedr y Deddfoldeb hwn, gan hyny, dy ryddhau oddiwrth dy faich. Ni waredwyd neb erioed ganddo eto; na, ac nid oes tebygolrwydd y gwaredir neb byth: nis gelli gael dy gyflawnhau trwy weithredoedd y ddeddf; canys ni ddichon i neb byw gael ei ryddhau oddiwrth ei faich trwyddynt hwy. Am hyny estron yw Mr. Bydol Ddoethyn, a thwyllwr yw Mr. Deddfoldeb; ac am ei fab, Gweddusrwydd, er hoenused ei olwg, nid yw ond rhagrithiwr, na fedd allu i'th gynorthwyo. Coelia fi, nid oes dim yn holl drwst a dwndwr y dynion penchwiban hyn ond amcan i'th siomi o'th iachawdwriaeth, trwy dy droi oddiar y ffordd y'th osodais arni. Gwedi hyn, croch-

## 30 EFENGYLWR YN EI ARGYHOEDDI O'I DROSEDD.

waeddodd Efengylwr i'r nefoedd am gadarnhad i'r pethau a ddywedasai ; ac yn y man dæth geiriau a thân allan o'r mynydd y safai Cristion druan dano, yr hyn a barodd i flew ei gnawd sefyll i fynu. Y geiriau oedd y rhai hyn, "Cynifer ag sydd o weithredoedd y ddeddf, dan felldith y maent : canys ysgrifenwyd, Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenwyd yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt," Galat. 3. 10.

Yn awr, nid oedd Cristion yn edrych am ddim ond marwolaeth, a dechreuodd waeddi yn alarus ; mell-dithiodd hyd yn nod yr amser y cyfarfu â Mr. Bydol Ddoethyn ; a galwodd ei hun yn ynfyd-ddyn fil o weithiau am wrando ar ei gyngor. Cywilyddiodd yn ddirfawr hefyd wrth feddwl i resymau y bonheddwr hwn, yn deilliaw o'r cnawd yn unig, ei orchfygu yn y fath fodd a pheri iddo droi oddiar y ffordd uniawn. Wedi hyn, ymofynodd drachefn ag Efengylwr mewn geiriau o'r ystyr hwn :—

**CRISTION.** Syr, beth dybygi di ? a oes obaith ? A allaf ddychwelyd yn awr, a myned i fynu at y porth cyfyng ? oni wrthodir fi am hyn, drwy fy ngryu yn ol oddiyno mewn cywilydd ? Drwg genyf i mi wrando ar gyngor y gwr hwn ; ond a oes modd maddeu fy mai ?

**EFENGYLWR.** Yna dywedodd Efengylwr wrtho, Y mae dy bechod yn fawr iawn, canys trwyddo ti a wnaethost ddau ddrwg ; gadewaist y ffordd dda, ac aethost i dramwy ar hyd llwybrau gwaharddedig. Er hyny derbynir di gan y gwr sydd wrth y porth, oblegyd y mae yn ewyllsio yn dda i ddytion ; yn unig, eb efe, gwylia rhag cyfeiliorni eto, rhag "dy ddyfetha di o'r ffordd, pan gyneuo ei lid ef ond ychydig," Psal. 2. 12. Yna yr ymbarotodd Cristion i ddychwelyd ; ac Efengylwr, wedi ei gusanu ef, a wenodd arno, ac a ddywedodd wrtho, Duw yn rhwydd ; felly aeth yn mlaen ar frys, heb yngan gair wrth neb ar y ffordd ; ac os gofynai neb ddim iddo, ni chaent ateb yn y byd ganddo. Cerddai fel un yn troedio o hyd ar dir gwaharddedig, ac ni allai dybied ei hun yn ddiogel mewn un modd hyd oni ddaeth drachefn i'r ffordd a adawsai trwy gyngor Mr. Bydol Ddoethyn ; felly, wedi enyd o amser, daeth hyd at y porth. Uwchben y porth yr oedd y geir-

iau hyn yn ysgrifenedig, "Curwch, ac fe agorir i chwi,"  
Mat. 7. 7.

Gan hyny, gwedi curu mwy nag unwaith neu ddwy,  
efe a ddywedodd,—

Oes neb a egyr y porth pur  
I mi, bechadur truan,  
Sy'n goddef gofid mawr, a phwys,  
Am gael Paradwys wiylan ?

Ac os agoryd im' a wneir,  
Mwyn anthem geir o'm genau ;  
A chanaf glod a moliant byth  
Yn y dilyth drigfanau.

O'r diwedd daeth gwr difrifol at y porth, a elwid Ewyllysiwr Da, ac a ofynodd pwy oedd yno, a pha beth a fynai?

**CRISTION.** Pechadur tlawd a llwythog sydd yma. O Ddinas Dystryw y daethum, a myned yr wyf i fynydd Sion, fel y'm gwareder rhag y llid a fydd : hysbyswyd fi mai trwy y porth hwn y mae'r ffordd yno, gan hyny hoffwn wybod, syr, a ydwyt yn ewyllsgar i'm gollwng i mewn?

**EWYLLYSIWR DA.** Yr wyf yn ewyllsgar a'm holl galon, ebefe : a chyda hyny efe a agorodd y porth.

Felly pan oedd Cristion yn myned i mewn, Ewyllysiwr Da a'i cipiodd ato. Yna ebe Cristion, Beth yw hyn? O fewn ychydig at y porth hwn, ebe y llall, yr adeiladwyd castell cadarn, a Belzebub sydd benaeth arno ; oddiyno y mae efe a'r rhai sydd gydag ef yn ergydio saethau at y rhai sydd yn dyfod i fynu at y porth hwn, mewn bwriad i'w lladd cyn y delont i mewn. Yna ebe Cristion, Yr wyf yn llawenhau ac yn crynu. Felly gwedi iddo ddyfod i mewn, gofynodd y porthor iddo pwy oedd yr hwn a'i cyfarwyddodd tuag yno.

**CRISTION.** Efengylwr a barodd i mi ddyfod yma a churo, fel y gwnaethum ; a dywedodd y cawn wybod genyt ti, syr, pa beth i wneuthur.

**EWYLLYSIWR DA.** Y mae drws agored wedi ei osod o'thaen, ac ni ddichon neb ei gau.

**32 Y SIARAD FU RHYNGDDO AG EWYLLYSIWR DA.**

**CRISTION.** Yn awr yr wyf yn dechreu medi firwyth fy anturiaeth.

**EWYLLYSIWR DA.** Ond pa fodd y daethost heb neb gyda thi?

**CRISTION.** Am nad oedd neb o'm cymydogion yn gweled eu perygl fel y gwelwn i yr eiddof fy hun.

**EWYLLYSIWR DA.** A wyddai neb o honyn am dy ddyfodiad?

**CRISTION.** Gwyddai; gweleodd fy ngwraig a'm plant fi yn cychwyn, a galwasant ar fy ol i geisio genyf ddychwelyd: hefyd rhai o'm cymydogion a safent i wylo a galw arnaf ddychwelyd; ond rhoddais fy mysedd yn fy nghlustiau, a daethum yn mlaen.

**EWYLLYSIWR DA.** Ond a ganlynodd neb o honyn di, i geisio genyt droi yn ol?

**CRISTION.** Do, gwnaeth Cyndyn a Meddal hyny: ond pan welsant na thyciai eu cyngor hwynt, dychwelodd Cyndyn gan ddifeniwi, ond daeth Meddal gyda mi am encyd o ffordd.

**EWYLLYSIWR DA.** Paham na ddaethai efe yn mlaen?

**CRISTION.** Daethom ill dau yn nghyd nes dyfod at Gors Anobaith, i'r hon y syrthiasom hefyd yn ddisymwth. Yna digalonodd fy nghymydog Meddal, ac nid anturiai yn rhellach. Gwedi codi o'r gors ar yr ochr nesaf at ei dy ei hun, dywedodd wrthyf y gallwn, erddo ef, feddianu y wlad wych fy hunan: felly efe a aeth i'w ffordd, a minau i'm ffordd inau; efe ar ol Cyndyn, a minau i'r porth yma.

**EWYLLYSIWR DA.** Yna ebc Ewyllysiwr Da, Ow, wr truan! a y-loedd gogoniant y nef mor ddiwerth yn ei olwg fel nad gwiw ganddo redeg yr antur o gyfarfod ag ychydig galedi er mwyn ei chael?

**CRISTION.** Dywedais y gwir am Feddal, ebe Cristion; a phē dywedwn y cwbl o'r gwirionedd am danaf fy hun, gwelid nad wyf well nag yntau. Gwir iddo ef ddychwelyd i'w dy ei hun, ond gwyrain inau hefyd i'r ffordd sydd yn arwain i farwolaeth, gwedi fy llithio i hynny trwy gyngor cnawdol Mr. Bydol Ddoethyn.

**EWYLLYSIWR DA.** Ho! a gyfarfu efe â thi? Beth!

## Y SIARAD FU RHYNGDDO AG EWYLLYSIWR DA. 33

mynai i ti fyned at Mr. Deddfoldeb i geisio esniwythdra ! Twyllwyr ydynt ill dau. A ddilynais ti ei gyngor ef ?

CRISTION.. Do, gan bellied ag y meiddiwn. Aethum i ymofyn am Mr. Deddfoldeb, hyd oni thybiais y syrthiai y mynydd oedd wrth ei dy ef ar fy mhen ; a bu gorfod arnaf, am hyny, sefyll yno.

EWYLLYSIWR DA. Bu y mynydd hwnw yn ddinistr i lawer, a bydd felly eto : da oedd i ti ddianc heb dy falu yn chwilfriw ganddo.

CRISTION. Yn ddiau nis gwyddwn beth a ddaethai o honof yno oni buasai i Efengylwr ar awr dda gyfarfod â mi drachefn, fel yr oeddwn yn dwys fyfyrion mewn tristwch beth a ddeuai o honof ; end trugaredd Duw oedd iddo ail ddyfod ataf ; oni buasai hyny, ni ddaethwn byth yma. Eithr yn awr yr wyf wedi dyfod y fath ag ydwyf, sef, un teilyngach i farw dan y mynydd hwnw, na bod fel hyn yn sefyll i ymddyddan â'm Harglwydd. Ond, Oh ! y fath ffafri mi yw hyn—y derbynir fi i'r lle hwn er y cwbl !

EWYLLYSIWR DA. Nid ydym yn gwrthddadleu yn erbyn neb, er y cyfan a wnaethent cyn dyfod yma : ni fwrrir mohonynt allan mewn un modd, Ioan 6. 37. Am hyny, anwyl Gristion, tyred gyda mi ychydig yn mhellach, a dysgaf i ti y ffordd sydd raid i ti ei thramwy. Edrych o'th flaen ; a wel i di y ffordd gul acw ? Dyna y ffordd sydd i'w theithio. Fe'i digaregwyd hi gan y patriarchiaid, y prophwydi, Crist, a'i apostolion, ac y mae hi mor unioned ag y gallai rheol ei gwneuthur : dyma y ffordd sydd i ti i'w rhodio.

CRISTION. Ond ebe Cristion, A oes dim troadau a dolennau ynddi, y dichon i ddyn dyeithr golli ei lwybr trwyddyt ?

EWYLLYSIWR DA. Oes, y mae amryw o ffyrdd yn dyfod i hon ; ac y maent hwy oll yn geimion a llydain : ond gelli trwy hyn nabod yr iawn ffordd oddiwrth y lleill, trwy nad oes arall yn union ac yn gul, Mat. 7. 14.

Yna gwelais yn fy mreuddwyd i Gristion ofyn yn mhellach iddo, ai ni allai efe synud y baich oedd ar ei gefn : canys hyd yn hyn ni chawsai ef wared o hono.

nis gallai mewn modd yn y byd ei fwrw ymaith heb gymhorth.

Dywedai wrtho, Am dy faich bydd ddiddig i'w gario nes dyfod i fan y waredigeth; canys cwymymp oddiar dy gefn yno o hono ei hun.

Yna dechreuodd Cristion wregysu ei lwynau ac ymosod at ei daith. Felly dywedodd y llall wrtho, Deui at dy y Deonglwr pan yr âi ychydig oddiwrth y porth; cura wrth ei ddrws ef, a danghosir i ti bethau rhagorol. Gwedi hyny ymadawodd Cristion â'i gyfaill, yr hwn eilwaith a ddywedodd wrtho, Duw yn rhwydd i ti.

Yna aeth rhagddo hyd oni ddaeth at dy y Deonglwr, lle y eurodd lawer gwaith. O'r diwedd daeth un at y ddor, ac a ofynodd, Pwy sydd yna?

**CRISTION.** Syr, ebe Cristion, ymdeithyd a sydd yma, yr hwn a archwyd gan un sydd gydnabyddus â gwr da y ty hwn i alw yma er ei les; hoffwn, gan hyny, gael ymddyddan â gwr y ty. Felly galwodd wr y ty, yr hwn yn y man a ddaeth at Gristion, ac a ofynodd iddo, Beth a ewyllsi gael?

**CRISTION.** Syr, ebe Cristion, dyn wyf a ddaeth allan o Ddinas Dystryw, ac yr wyf yn myned tua mynydd Sion; a'r gwr sydd yn sefyll wrth y porth, yn mhen y ffordd hon, a ddywedodd wrthyf, os galwn yma, y danghosit i mi bethau godidog, y fath a fyddent o gymhorth i mi ar sy nhaith.

**DEONGLWR.** Yna ebe Deonglwr, Tyred i mewn, a danghosaf yr hyn a fydd buddiol i ti. Gwedi erchi i'w was oleu canwyll, a pheri i Gristion ei ddilyn, cymeroedd of i ystafell o'r neilldu. Wrth orchymyn ei feistr agorodd y gwas ryw ddrws, a chanfyddai Cristion lun gwr disrifol iawn yn hongian ar y pared; a'i wedd ydoedd fel hyn—yr oedd ei lygaid yn edrych i'r nef, y llyfr goreu yn ei law, cyfraith gwirionedd yn ysgrifenedig ar ei wefusau, a'r byd o'r tu cefn iddo; yr oedd yn sefyll fel pe buasai yn dadleu a dynion, ac yr oedd coron o aur yn nghrog uwch ei ben.

**CRISTION.** Yna ebe Cristion, Beth yw ystyr hyn?

**DEONGLWR.** Mae y gwr a arddanghosir trwy y llun.

hwn yn un o fil. Gall ddweyd fel yr apostol, "Canys pe byddai i chwi ddeng mil o athrawon yn Nghrist, eto nid oes i chwi nemawr o dadau ; canys myfi a'ch cenhedlais chwi yn Nghrist Iesu trwy yr efengyl," 1 Cor. 4. 15. "Fy mhlant bychain, y rhai yr wyf yn eu hesgor drachein, hyd oni ffurfier Crist yn och," Galat. 4. 19. A'r lle y gwelaist ef a'i lygaid tua'r nef, a'r llyfr goreu yn ei law, a chyfraith gwirionedd yn ei enau, dengys hyny i ti mai ei waith ef yw gwybod a dadguddio pethau tywylliön i bechaduriaid ; yr un nodd hefyd gwelaist ef yn sefyll megys un yn dadleu â dynion. Lle gwelaist y byd fel peth wedi ei dafnu o'r tu cefn iddo, a bod coron yn crogi uwch ei ben, dengys hyny i ti ei fod yn sicr, trwy ddi-brisio a dirmygu pethau presenol, o gariad at wasanaeth ei feistr, o gael gogoniant yn wobr yn y byd a ddaw. Yn awr, ebe Deonglwr, danghosais i ti y llun hwn yn gyntaf, am mai y gwr a osodir allan trwy y darlun hwn yw yr unig ddyn, a awdurdodwyd gan Arglwydd y lle yr wyt yn myned iddo, i'th arwain trwy bob man dyrys a gyfarfyddi ef ar dy daith ; am hyny, craffa yn ddwys ar yr hyn a danghosais i ti, a chofia yn fanwl y pethau a welaist, ag i ti gyfarfod yn dy daith â rhai a gymeront arnynt y arwain yn yr iawn ffordd, er bod eu ffordd hwy yn cywys i angau.

Yna cymerth ef erbyn ei law, ac a'i harweiniodd i ystafell eang iawn, yr hon oedd yn llawn llwch, am nad ysgubasid hi erioed ; ac wedi edrych arni enyd fechan, galwodd y Deonglwr am wr i'w hysgubo. Pan ddechreuodd ysgubo, cododd y llwch gymaint, fel y bu agos i Gristion a mygu ganddo. Yna ebe Deonglwr wrth lances oedd yn sefyll gerllaw, Dwg yma ddwfr, a thaenella ef hyd yr ystafell ; pan wnaeth hyn, ysgubwyd a glanhawyd y lle gydag hyfrydwch.

**CRISTION.** Beth yw meddwl hyn ? gofynai Cristion.

**DEONGLWR.** Yr ystafell hon, ebe Deonglwr, yw calon dyn, heb ei glanhau erioed gan ras hyfryd yr efengyl. Y llwch yw ei bechod gwreiddiol a'i lygreddau mewnol, y rhai a halogasant yr holl ddyn. Yr hwn a ddechreuodd ysgubo ar y cyntaf yw y gyfraith : ond yr hon a ddygodd

dilwfr, ac a'i taenelloedd ar hyd yr ystafell, yw yr efengyl. Yn awr lle gwelaist y llwch, ar waith y cyntaf yn ysgubo, yn chedleg o amgylch fel nas gallai lanhau yr ystafell, ond dy fod yn mron a mygu, dangos y mae hynny i ti fod y gyfraith, yn lle puro y galon oddiwrth bechod, yn rhodd i achlysur iddo i adfywio, Rhuf. 7. 9, i gaaglu grym, 1 Cor. 15. 58, ac i anlhau yn yr enaid, Rhuf. 5. 20, trwy ei bod yn amlygu ac yn gwahardd pechod, ond heb roddi gallu i'w ddarostwng. A thrachefn, megys y gwelaist y llances yn taenellu yr ystafell â dwfr, pryd y glanhawyd hi gydag hyfrydwch, dangos y mae hynny i ti mai pan ddelo yr efengyl i'r galon, yn ei dylanwadau dynunol a gwerthfawr, dyna'r pryd y gorchfygir ac y darostynir pechod fel y gwelaist y llances yn darostwng y llwch trwy daenellu y llawr â dwfr, ac y glanheir yr enaid trwy ffydd yr efengyl, nes, yn y canlyniad, y<sup>h</sup>i gwneler yn gymhwys breswylfod i Frenin y gogoniant, Ioan 15. 3; Eph. 5. 26; Act. 15. 9; Rhuf. 16. 25, 26; Ioan 15. 18.

Yna gwelwn y Deonglwr yn arwain Cristion erbyn ei law i ystafell sechan, lle yr oedd dau blentyn yn eistedd, pob un yn ei gadair ei hun. Enw yr hynaf oedd Nwyd, ac enw y llall oedd Amynedd. Ymddanghosodd Nwyd yn llawn anniddigrwydd, ond yr oedd Amynedd yn llonydd iawn. Yna gosynodd Cristion, Beth yw achos anniddigrwydd Nwyd? Atebodd Deonglwr, Ewillys eu llywydd yw iddo aros am ei bethau goreu hyd ddechreuaud y flwyddyn nesaf, yntau a'u myn yn awr; ond boddlonia Amynedd i aros.

Yna gwelwn un yn dysfol at Nwyd, ac yn dwyn iddo godaidd o gyfoeth, gan ei arllwys wrth ei draed: yntau a'i cododd i fynu mewn llawenydd, gan chwerthin yn wawdlyd am ben Amynedd. Ond, ar ol enyd, gwelwn ei fod wedi afradloni y cwbl, ac nad oedd ganddo ddim wedi ei adael ond bratiau.

**CRISTION.** Atolwg, ebe Cristion wrth y Deonglwr, eglura i mi y mater hwn yn amlycach.

**DEONGLWR.** Arwyddion ydynt y ddeulanc hyn, ebe y Deonglwr. Nwyd sydd yn arwydd o ddynion y byd

hwn, ac Amynedd o ddynion y byd a ddaw; ac megys y gweli yma, myn Nwyd gael y cwbl y flwyddyn hon, hyny yw, yn y byd presenol; felly y mae gwyr y byd hwn; mynant gael eu holl hawddfyd yr awr hon; nis gallant aros yn esmwyth hyd y flwyddyn nesaf, hyny yw, hyd y byd a ddaw, an y rhan a ddygwydd iddynt o'r da. Y mae y ddihareb hono, "Gwell un aderyn mewn llaw na dau mewn llwyn," a mwy o bwys ynnddi gyda hwy na holl dystiolaethau Duw yn nghylch rhadau y byd a ddaw. Ac fel y gwelaist Nwyd yn gwastraffu y cwbl yn fuan, ac nad oedd ganddo, mewn ychydig amser, ond bratiau ar ol, felly y bydd gyda phawb o'r cyfryw yn niwed y byd hwn.

**CRISTION.** Gwelaf yn awr, ebe Cristion, mai Amynedd sydd ddoethaf, a hyny ar amrai gyfrifon. 1. Am ei fod yn aros am y pethau goreu. 2. Am y caiff fwynhau ei gyfran ogoneddus pan na byddo dim gan y llall ond bratiau.

**DEONGLWR.** Ie, gelli ychwanegu rheswm arall, sef, fod gogoniant y byd a ddaw yn parhau dros byth; ond fod y pethau hyn yn diflanu yn ddisymwth. Gan hyny nid oedd gan Nwyd gymaint o le i wawdio Amynedd, oherwydd iddo gael ei bethau goreu yn gyntaf, ag a fydd gan Amynedd eto i chwerthin am ben Nwyd, oherwydd iddo gael ei bethau goreu yn olaf; am y rhaid i'r blaenaf roddi lle i'r olaf, oblegyd fod yn rhaid i beth olaf gael ei amser i ddyfod; ond nid yw y diweddfaf yn rhoddi lle i ddim, gan nad oes arall yn dyfod ar ei ol; rhaid, ynte, i'r neb a gaiff ei ran yn gyntaf, gael amser hefyd i'w threulio; ond rhaid i'r hwn a gaiff ei gyfran ddiweddfaf, ei chael dros byth; ac am hyny y dywedir am Ddeifes, "Derbyniaist dy wynfyd yn dy fywyd, ac felly Lazarus ei adfyd; ac yn awr y dyddenir ef, ac y poenir dithau," Luc 16. 25.

**CRISTION.** Gwelaf, ynte, ebe Cristion, mai gwell yw dysgwyl am y pethau sydd i ddyfod, na thrachwantu am bethau presenol.

**DEONGLWR.** Dywedaist y gwir: "canys y pethau a welir sy dros amser, ond y pethau ni welir sy dra-gwyddol," 2 Cor. 4. 18. Ond er bod hyn felly, eto gan

fod y pethau presenol a'n blys cnawdol yn gymydogion mor agos i'w gilydd ; ac hefyd, gan fod y pethau i ddyfod a syniadau cnawdol mor estronol i'w gilydd, am hyny y mae fod y cyntaf o'r rhai hyn yn ynglymu mor ebrwyda â'r serch, a bod dyeithrwch yn parhau o hyd rhwng yr ail, Rhuf. 7. 15—25.

Yna gwelais yn fy mreuddwyd, fod y Deonglwr yn ymafiyd yn llaw Cristion, ac yn ei arwain i le y cyneuwyd tân wrth fur, ac un yn sefyll wrtho, ac yn bwrw llawer o ddwfr arno yn wastadol i'w ddiffoddi, ac eto yr oedd y tân yn llosgi yn uwch ac yn boethach.

**CRISTION.** Beth sydd i ni i'w ddeall wrth hyn ? ebe Cristion.

**DEONGLWR.** Atebodd Deonglwr, Y tân hwn yw gwaith gras yu y galon ; yr hwn sy'n bwrw dwfr arno i'w ddiffoddi, yw y diafol : ond lle gwelaist y tân yn llosgi yn uwch ac yn boethach er bwrw y dwfr arno, cei weled hefyd yr achos o hyny. Felly efe a'i harweiniodd o amgylch i'r tu arall i'r mur, a gwelai yno wr â llestr yn ei law, o'r hwn y tywalltai yntau olew yn ddibaid (eto yn ddirgel) i'r tân.

**CRISTION.** Yna ebe Cristion, Beth yw ystyr y pethau hyn ?

**DEONGLWR.** Hwn yw Crist, ebe Deonglwr, yr hwn, ag olew ei ras, sydd yn wastadol yn cynal y gwaith a ddechreusid eisoes yn y galon ; trwy hyn, er a allo y diafol ei wneuthur, y mae eneidiau ei bobl yn parhau yn rasol fyth, 2 Cor. 12. 9. A lle gwelaist y gwr yn sefyll o'r tu hwnt i'r mur, i gadw y tân yn fyw, dengys hyny i ti mai anhawdd ydyw i'r profedig weled pa fod y cynelir y gwaith hwn o ras yn yr enaid.

Gwelais hefyd y Deonglwr yn cymeryd Cristion erbyn ei law, ac yn ei dywys ef i fan hyfryd, lle yr oedd palas gwych a phrydferth wedi ei adeiladu ; ac wrth edrych ar yr hwn boddheid Cristion yn ddirfawr. Gwelai hefyd rai yn rhodio ar nen y ty wedi eu gwisgo ag aur.

Yna ebe Cristion, A allwn ni gael myned i mewn ?

Yna cymorth y Deonglwr ef ac a'i harweiniodd i fynu tua drws y palas ; ac wele yr oedd lluaws mawr o bobl yn

sefyll wrth y drws, fel rhai yn chwennychu myned i mewn, ond nis meiddient. Hefyd, yr oedd yno wr yn eistedd wrth fwrdd yn agos i'r drws, a llyfr a chorn du ysgrifenydd o'i flaen, i ysgrifenu i lawr enw y neb a elai i mewn i'r palas; gwelai hefyd lawer o wyr arfog yn sefyll ar y ffordd oedd yn arwain i mewn i gadw y drws, wedi ymrroddi i wneud cymaint o ddrwg a niwaid ag a allent i'r dynion a fynent fyned i mewn. Bu ryfedd gan Gristion hyn. O'r diwedd, pan oedd pawb yn cilio rhag ofn y gwyr arfog, gwelai Cristion wr â gwynebpryd gwrol yn dyfod i fynu at yr hwn oedd yn eistedd yno i ysgrifenu, gan ddywedyd wrtho, Syr, dyro fy enw i lawr; a phan wnaeth hyny, gwelai y dyn yn tynu ei gleddyf, ac yn gosod helm ar ei ben, ac yn rhuthro tua'r drws ar draws y gwyr arfog, y rhai a ymosodasant yn ffyrnig arno; ond y gwr, heb lwfrhau dim, a syrthiodd arnynt, gan eu harcholli a'u hanafu yn y modd creulonaf. Felly gwedi derbyn a rhoddi llawer o archollion i'r sawl a geisient ei gadw allan, Mat. 11. 12; Act. 14. 22, agorodd ei ffordd drwyddynt oll, ac ymwrthiodd yn mlaen i'r palas; ac ar hyny clywid lleisiau hyfryd y rhai oedd ynt i mewn, sef y sawl a rodient ar nen y ty, yn dywedyd,

Tyr'd, O ! tyr'd i mewn yn wrwl,  
Ti enilli glod tragwyddol.

Felly aeth i mewn, a gwisgwyd yntau â gwisgoedd cyffelyb. Yna gwenodd Cristion, a dywedodd, Tybygwyf y gwn yn sicr beth yw ystyr hyn.

Yn awr ebe Cristion, Gad i mi fyned oddiyma. Nage, ebe Deonglwr, aros hyd oni ddanghoswyf i ti ychydig yn ychwaneg, ac wedi hyny cei fyned i'th ffordd. Felly ymaflodd yn ei law drachefn, ac a'i harweiniodd i ystafeli dywell iawn, lle yr oedd gwr yn eistedd mewn cyffion haiarn.

Yn awr yr oedd gwedd athrist iawn ar y dyn; eisteddai a'i lygaid tua'r ddaear, ei ddwylaw yn blethedig, ac ocheneidai yn drwm fel pe buasai ar dori ei galon. Yna ebe Cristion, Beth yw hyn? Ar hyny archodd y Deonglwr iddo ymddyddan â'r dyn.

Yna ebe Cristion wrth y dyn, Pwy wyt ti? Yntau a'i hatebodd, Yr wyf yn awr y peth nad oeddwn gynt.

CRISTION. Beth a fuost gynt?

DYN. Yna dywedodd y dyn, Bum dros dro yn broffeswr teg a blodeuog, Luc 8. 13, yn fy ngolwg fy hunan ac yn ngolwg ereill hefyd. Tybiais unwaith fy mod ar y ffiodd i'r ddinas nefol; ac yr oedd i mi lawenydd trwy ddysgwyl y cyrhaeddwyn yno.

CRISTION. Ond beth wyt yn awr?

DYN. Dyn mewn anobaith wyf yn awr; ynddo y'm cauwyd megys yn y cyffion haiarn hwn. Nis gallaf ddyfod allan. Oh, yn wir nis gallaf!

CRISTION. Ond pa fodd y daethost i'r cyflwr hwn?

DYN. Peidio a wnaethum a gwylio a bod yn sobr; gadewais y firwyn i gwympo ar war fy nbrachwantau; troseddais yn erbyn goleuni y gair, a daioni Duw; digiais yr Ysbryd Glan, a chilioedd; denais y diafol, a daeth ataf; cyfrœis Dduw i ddigofaint, a gadawodd fi; a chaleddais fy nghalon yn y fath fodd fel nas gallaf edifarhau.

Yna ebe Cristion wrth y Deonglwr, Onid oes obaith i'r fath ddyn a hwn? Gofsyn iddo, ebe y Deonglwr.

CRISTION. Yna ebe Cristion wrtho ef, A oes dim gobaith? a gedwir di dros byth yn y cyffion haiarn hwn o anobaith?

DYN. Na, nid oes genyf ddim gobaith.

CRISTION. Iaham hyny? mae Mab y Bendigedig yn dosturiol iawn.

DYN. Ail-groeshoeliais ef i mi fy hun, Heb. 6. 6; dirmygais ei berson, Luc 19. 14; dibrisiais ei gyflawnder, bernais ei waed yn afian, a difenwais Ysbryd y gras, Heb. 10. 28, 29: am hyny yr wyf yn cau fy hun allan oddiwrth yr addewidion, ac nid oes yn aros i mi bellach ond bygythion, bygythion ofnadwy, bygythion arswydus am farnodigaeth ac angerdd tân i'm difa fel gwrthwyn-ebwr.

CRISTION. Am ba bethau y dygaist dy hun i'r cyflwr hwn?

DYN. Am drachwantau, meluswedd, a golud y bywyd hwn; gan addaw im' fy hun lawer o hyfrydwch wrth eu

mwynhau : ond yn awr y mae pob un o honynyt yn fy nghnoi ac yn fy ysu fel prif tanllyd.

**CRISTION.** Onid elli di yn awr edifarhau a dychwelyd?

**DYN.** Duw a ataliodd edifeirwch oddiwrthyf. Ni rydd ei air ddim annogaeth i mi gredu ; Ie, efe ei hun a'm cauod yn y cyffion haiarn hwn : ac ni ddichon holl ddynion y byd fy ngollwng o hono. Oh, dragwyddoldeb! dragwyddoldeb! Pa fodd y daliaf y trueni a raid i mi ei gyfarfod yn nhragwyddoldeb!

**DEONGLWR.** Yna ebe Deonglwr wrth Gristion, Cofia drueni y dyn hwn, a bydded hyn yn rhybudd oesol i ti.

**CRISTION.** Wel, ebe Cristion, y mae hyn yn beth ofn-adwy ! Duw a'm cynorthwyo i wyliau a bod yn sobr, ac i weddio fel y gallwyf ochelyd yr achos o drychineb y dyn hwn. Syr, onid yw hi yn bryd i mi fyned i'm ffodd bellach ?

**DEONGLWR.** Aros hyd oni ddanghoswyf i ti un peth arall, ac wedi hyny cei fyned i'th ffodd.

Felly ymaflodd yn llaw Cristion drachefn, ac a'i harweiniodd i ystafell lle yr oedd dyn yn codi o'i wely ; ac fel yr oedd yn gwisgo ei ddillad, siglai a chryna'i. Yna ebe Cristion, Fahan y mae'r dyn hwn yn crynu fel hyn ? Y Deonglwr a barodd iddo fynegu i Gristion yr achos. Felly dechreuodd trwy ddywedyd, Y noson hon, fel yr oeddwn yn fy nghwsg, breuddwydiais, ac wele y nefoedd a dduodd yn ddirfawr : taranai a melltenai hefyd mewn modd mor arswyodus nes syrthio arnaf ing galaethus. Gwedi edrych i fynu yn fy mreuddwyd, gwelwn y cymylau yn ymrwygo mewn modd anarferol ; ac ar hyny clywais lais uchel udgorn, a gwelais wr yn eistedd ar gwmwl, a lluoedd y nef gydag ef ; yr oedd y nefoedd oll megys tân ffamllyd : yr oedd y nefoedd hefyd yn dân poeth. Yna clywais lef lawr yn dywedyd wrth y meirw, " Cyfod-wch, feirw, a deuwch i farn." A chyda hyny y creigiau a holltwyd, y beddau a agorwyd, a'r meirw oedd ynddynt a ddaethant allan : yr oedd rhai o honynyt yn llawen iawn, ac yn edrych i fynu ; a rhai a geisiasant ymguddio dan y mynyddoedd. Yna gwelais y gwr a eisteddai ar y cwmwl yn agor y llyfr ac yn erchi i'r byd neshau. Eto

yr oedd, o achos y filam danllyd a ddeuai o'i flaen, encyd o le rhynghddo ef a hwynt, megys rhwng y barnwr ar yr orseddfainc a'r carcharorion wrth y frawdle, 1 Cor. 15., 1 Thes. 4. 16; Judas 15; Ioan 5. 28, 29; 2 Thes. 1. 8—10; Dat. 20. 11—14; Esay 26. 21; Micah 7. 16, 17; Psal. 5. 4; 50. 1—3; Mal. 3. 2, 3; Dan. 7. 9, 10. Clywais hefyd gyhoeddi i'r sawl oedd yn canlyn y gwr a eisteddai ar y cwmwl, "Cesglwch yn nghyd yr efrau, a'r us, a'r sof, a bwriwch hwynt i'r llyn o dâr," Mat. 3. 12; 13. 30; Mal. 4. 1. Ac ar hyny ymagorodd y pwll di-waelod ger y man yr oeddwn yn sefyll arno; daeth llawer o fwg, a marwor tanllyd, yn nghyda chrochleisiau dychrynllyd, allan o'i safn. Dywedwyd hefyd wrth y gweinidogion, "Cesglwch fy ngwenith i'm hysgubor," Luc 3. 17. Ar hyny gwelais gipio llawer i fynu, a'u dwyn ymaith yn y cymylau; ond gadawyd fi ar ol, 1 Thes. 4. 17. Minau hefyd a geisiais ymguddio, ond nis gallwn; canys yr oedd y gwr a eisteddai ar y cwmwl yn cadw ei olwg arnaf yn ddibaid: fy mhechodau hefyd a ddaethant i'm cof, a'm cydwybod oedd yn fy nghyhuiddo ar bob llaw, Rhuf. 2. 14, 15. Ar hyn deffroais o'm cwsg.

**CRISTION.** Ond beth a wnaeth i ti arswydo yr olygfa gymaint?

DYN. Meddwl a wnaethum fod dydd y farn wedi dyfod, a minau yn anmharod: ond hyn a'm dychrynnodd fwyaf, i'r angylion gasglu llawer i fynu, a'm gadael i ar ol: pwll uffern hefyd a agorodd ei safn yn fy ymyl. Yr oedd fy nghydwybod hefyd yn fy nhrallodi; ac, fel y tybygwn, yr oedd y barnwr yn cadw ei olwg arnaf yn ddibaid, a gwg yn ymddangos ar ei wedd.

Yna ebe y Deonglwr wrth Gristion, A ystyriaist y pethau hyn oll?

**CRISTION.** Do; ac y maent yn peri i mi obeithio ac ofni.

**DEONGLWR.** Wel, cadw dithau y cwbl felly yn dy gof, fel y gallont fod megys symbylau yn dy ystlysau, i'th yru yn mlaen yn y flordd sydd i ti dramwyo. Yn awr dechreuodd Cristion wregysu ei lwynau, ac ymbarotoi i

gychwyn. Yna ebe y Deonglwr, Gristion anwyl, y Dyddanydd a fyddo gyda thi bob amser, i'th gyfarwyddo yn y ffordd sydd yn arwain i'r ddinas. Felly aeth Cristion yn mlaen ar hyd ei ffordd dan ganu,—

Yma gwelais bethau buddiol,  
Pethau mawrion a rhyfeddol,  
Pethau hyfryd ac o'nadwy,  
Pethau i'm gwneuthur yu safadwy.

Glynn a wnelwyf bob munudyn  
Yn yr hyn ymaflais ynddyn':  
Rhaid im' gofio ac ystyried  
Oherwydd pa'm y ce's eu gweled.

A boed imi bara hefyd,  
Tra bo ynof nerth a bywyd,  
I roi diolch iti beunydd  
Am dy gariad, fy Neonglydd.

Yn awr gwelwn yn fy mreuddwyd fod y brif-ffordd yr oedd yn rhaid i Gristion fyned ar hyd-ddi wedi ei chau o'r ddau du â mur, ac enw'r mur oedd Iachawdwriaeth, Esay 26. 1. I fynu y ffordd hon, gan hyny, y rhedai Cristion llwythog, ond nid heb anhawsder mawr, o achos y baich oedd ar ei gefn.

Rhedodd hyd oni ddaeth at allt fechan o esgyniad graddol; ac ar y lle hwnnw y safai croes, ac ychydig yn is, yn y gwaelod, yr oedd bedd. Felly gwelais yn fy mreuddwyd, wedi i Gristion ddyfod hyd at y groes, fod ei faich wedi ymollwng oddiar ei ysgwyddau, a syrthio oddiar ei gefn, ac wedi dechreu treiglo parhaodd i wneud felly hyd oni ddaeth at enau y bedd, i'r hwn y syrthiodd, ac ni welais mo'no mwy.

Yna yr oedd Cristion yn llon a llawen, a dywedodd, â chalon hyfryd, "Trwy ei ofid ef y rhoddwyd i mi esmwythdra, a thrwy ei farwolaeth ef y rhoddwyd i mi fywyd." Yna safodd enyd yn llonydd, gan edrych a rhyfeddu; canys yr oedd yn rhyfedd ganddo i olwg ar y groes ei esmwythau o'i faich fel hyn. Am hyny, edrychodd, ac edrychodd drachefn, hyd oni redodd

dysfroedd allan o ffynhonau ei ben i waered ar hyd ei ruddiau, Zech. 12. 10. Yn awr fel yr oedd yn edrych ac yn wyllo, gwelai dri o Wyr Dysglaer yn dyfod ato, ac yn cyfarch gwell iddo, gan ddywedyd, "Tangnerefedd i ti." Felly y cyntaf a ddywedodd wrtho, "Maddeuwyd i ti dy bechodau," Marc 2. 5; yr ail a ddiosgodd ei fratiau oddiam dano, ac a'i gwisgodd â newid dillad, Zech. 3. 4; a'r trydydd a osododd nôd ar ei dalcen ef, Eph. 1. 13, ac a roddodd iddo blyglyfr â sel arno, gan ei annog i edrych ar hwnw wrth ymdeithio, a'i roddi i mewn yn y porth nefol: felly aethant ymaith. Yna Cristion a neiddiod deirgwaith o lawenydd, ac a aeth yn mlaen dan ganu yn hyfryd,—

Mi ddaethum hyd yn hyn mewn gofid,  
Dan ddirfawr faich fy mhechod enbyd;  
Yn llwythog iawn, heb gaffael canfod  
Dim a wnai esmwytho'm trallod.

Daethum yma dan ofidio;  
'Nawr 'rwy'n cael fy llwyr gysuro:  
A raid i'r lle bendigaid yma  
Ddechreu fy nedwyddwch mwya'?

Ai yma syrth fy maich gorthrymus  
Yn rhwydd oddiar fy nghefn dolurus?  
Ai yma torir y rheffynau  
Rwymasant hwnw ar f'ysgwyddau?

Bendigaid groes, a beddrod buddiol!  
Yn hytrach tra bendigaid fythol  
Fyddo'r Gwr a aeth yn unswydd  
Er fy mwyn i oddef gw'radwydd.

Yna gwelais Gristion yn myned yn mlaen hyd oni ddaeth i oriwaered, lle canfu, ychydig allan o'r ffordd, dri wrth yn cysgu yn drwm, a'u traed â llyffetheiriau gwynt. Enw un oedd Anngall, y llall Diog, a'r trydydd Rhyfyg.

Wrth eu gweled yn gorwedd felly, aeth Cristion atynt i edrych a allai eu dihuno, a gwaeddodd, Yr ydych megys

hai yn cysgu ar ben yr hwylbren, Diar. 23. 34, canys odditanoch y mae y môr marw, sef y llyn heb waelod iddo : deffrowch, gan hyn, a deuwch ymaith ; os mynwech, cynorthwyaf chwi i fwrw ymaith eich cadwynau. Dywedodd hefyd wrthynt, Os y diafol, yr hwn sy'n rhodio oddiamgylch fel llew rhuadwy, 1 Petr 5. 8, a ddaw heibio, byddwch yn ddiau yn ysglyfaeth i'w ddannedd. Ar hyn ydrychasant arno, ac atebasant ef fel hyn :— Anngall a ddywedodd wrtho, Ni welaf ddim perygl ; Diog a ddywedodd, Eto ychydig hepian ; a Rhyfyg a ddywedodd, Rhaid i bob llestr sefyll ar ei waelod ei hun. Felly gorweddasant i lawr i gysgu drachefn, a Christion a aeth i'w fforr.

Eto blin oedd ganddo feddwl i wyr ag oeddynt yn y fath berygl ddibrisiau caredigrwydd un a gynygiai eu cynnorthwyo mor rhad, trwy eu deffroi, eu cynghori, ac hefyd eu cymhorthu i ymddiosg oddiwrth eu llyfletheiriau. A thra yr oedd yn ymofidio am hynny, canfu ddau wr yn ymdreiglo dros y mur ar y llaw aswy i'r ffordd gyfyng ; a daethant ato yn brysur. Enw un ydoedd Ffurfiolwr, ac enw'r llall oedd Rhagrith. Felly, fel y dywedais, dynesasant ato, a declreuodd ymddyddan â hwy.

**CRISTION.** Foneddigion, o ba le y daethoch, ac i ba le yr ewch ?

**FFURFIOLWR A RHAGRITH.** Ganwyd ni yn ngwlad Gwag-ogoniant, a myned yr ydym tua mynydd Sion i gael clod.

**CRISTION.** Paham na ddaethech i mewn trwy'r porth sydd yn mhen y ffordd ? Oni wyddoch fod hyn yn ysgrifenedig, " Yr hwn nid yw yn myned i mewn trwy'r drws, eithr sydd yn dringo ffordd arall, lleidr ac yspeiliwr yw ?" Ioan 10. 1.

**FFURFIOLWR A RHAGRITH.** Dywedasant hwythau, Cyfrifid gan ein cydwladwyr fod y ffordd i'r porth yn ormod o gwmpas ; ac am hynny eu harfer hwy oedd ei chwtogi, a dringo dros y mur fel y gwnaethom ni.

**CRISTION.** Oni chyfrifir yn gamwedd yn erbyn Arglwydd y ddinas y cychwyn ati droseddu ei ewyllys ddad-guddiedig fel hyn ?

**FFURFIOLWR A RHAGRITH.** Dywedasant wrtho, Ni raid i ti flino dy ben yn nghylch hyny ; oblegyd y mae genym ddefod dros ein hymddygiad, a gallwn, os bydd raid, ddwyn tystiolaeth i gadarnhau hyny am yspaid mwy na mil o flynyddoedd.

**CRISTION.** Ond, ebe Cristion, a ddeil eich gwaith i'w brofi wrth y gyfraith?

**FFURFIOLWR A RHAERITH.** Hwythau a ddywedasant wrtho, Caiff arferiad a safodd cyhyd (sef er's mwy na mil o flynyddoedd) ei gyfrif bellach, yn ddiamheul, fel peth cyfreithlon gan farnwr diduedd : ac heblaw hyny, ebynt hwy, o daethom i'r ffordd, pa bwys sydd pa fodd y daethom iddi? Os ydym ynddi, yr ydym ynddi : nid wyt ti ond yn y ffordd, yr hwn a ddaethost, fel y canfyddwn, trwy y porth ; ac yr ydym ninau hefyd yn y ffordd, y rhai a ddaethom iddi trwy neidio dros y mur : yn mha beth, ynte, y mae dy gyflwr di yn well na'r eiddom ni ?

**CRISTION.** Yr wyf fi yn rhodio yn ol rheol fy Meistr, a chwithau yn ol eich tybiau didoraeth eich hunain. Yr ydych yn lladron eisoes yn nghyfrif Arglwydd y ffordd ; am hyny diamheul genyf na cheir mo'noch yn wyr cywir yn ei diwedd hi. Daethoch i mewn yn ol eich mympwy eich hunain heb ei gyfarwyddyd ef, ac ewch allan at eich penau eich hunain heb ei drugaredd.

Ni roddasant nemawr o atebiad i hyn ; ond yn unig archasant iddo ef edrych ato ei hun. Yna gwelais hwynt yn myned rhagddynt, bob un ar hyd ei ffordd, heb ymddyddan ond ychydig iawn â'u gilydd ; oddigerth dywedyd o'r ddau wr yma wrth Gristion, mewn perthynas i gyfreithiau ac ordinhadau, nad oeddynt yn amau nas cadwent y rhai hyny mor gydwybodol ag yntau. Am hyny, ebynt hwy, Ni wyddom ni pa ragoriaeth sydd rhyngot ti a ninau, ond bod y gochl yna am dy gefn di, yr hon a roddwyd i ti, tybygid, gan rai o'th gymydigion i guddio gwarth dy noethder.

**CRISTION.** Ni achubir mo'noch trwy ddeddfau ac ordinhadau, gan na ddaethoch i mewn trwy y drws, Galat. 2. 16. Ac am y gochl hon sydd ar fy nghefn, rhoddwyd hi

i mi gan Arglwydd y lle yr wyf yn myned iddo; a hyny, fel y dywedasoch, i guddio fy noethni â hi. Yr wyf yn ei chymeryd fel arwydd o'i garedigrwydd tuag ataf, canys nid oedd genyf ddim ond bratiau o'r blaen. Ac, heblaw hyny, yr wyf yn fy nghysuro fy hunan yn y modd hwn wrth deithio. Meddyliwyf yn sicr, pan ddelwyf i borth y ddinas, y cydnebydd ei Harglwydd fi er daioni, gan fod genyf ei wisg ef am danaf; y wisg a roddodd ef i mi yn rhad y dydd y diosgodd fy mratiau oddiam danaf. Y mae genyf hefyd nôd ar fy nhalcen, yr hwn, ond odid, ni ddaliasoch sylw arno, à osodwyd yno gan un o gyfeillion anwylaf fy Arglwydd y dydd y syrthiodd fy maich oddiar fy ysgwyddau. Dywedaf ychwaneg i chwi, roddi i mi y pryd hwnnw blyglyfr seliedig, i'm cysuro wrth ei ddarllen ar hyd y fflordd; gorchymynwyd i mi hefyd ei roddi i mewn yn y porth nefol, yn arwydd sicr o'm mynediad inau i mewn ar ei ol. Barnwyf fod arnoch eisieu y pethau hyn oll; ac hebddynt yr ydych, am na ddaethoch i mewn trwy y porth.

I hyn nid oedd ateb oddiwrthynt; ond edrychasant ar eu gilydd, a chwarddasant. Yna gwelais hwynt oll yn myned yn mlaen, a bod Cristion yn eu gadael o'i ol, heb ymddyddan dim ond ag ef ei hun, a hyny weithiau yn bruddaidd, ac weithiau yn gysurol: hefyd darllenai yn fynych yn y plyglyfr a roddasid iddo gan un o'r Gwyr Dysglaer, a chafodd ei adfywio trwyddo.

Gwelwn hwy wedi hyny yn myned yn mlaen hyd oni ddaethant at droed bryn Anhawsder, wrth waelod yr hwn yr oedd ffynnon. Hefyd, yn yr un lle yr oedd dwy ffordd arall, heblaw yr hon a ddeuai yn union oddiwrth y porth: un yn troi ar y llaw aswy, a'r llall ar y llaw ddebau, wrth droed y mynydd; ond y ffordd gyfeng a âi yn union i synu i'r bryn. Aeth Cristion yn awr i'r ffynnon, Essay 49. 10, ac yfodd o honi er adgyfnerthiad iddo ei hun, ac yna dechreuodd fyned i synu i'r bryn, dan ganu,—

"Rwyf yn chwennych myn'd yn gefnog  
I ben y bryn sydd fawr a chribog:

Ac er uched yw ei gopa,  
Ni'm hatelir gan anhawsdra;

Am y gwn mai dyma'r byfryd  
Ffordd sy'n arwain dyn i fywyd:  
Cym'raf galon, âf yn wisgi  
Yn fy mlaen, heb rus nac ofni.

Gwell yw cerdded y ffordd union,  
Er bod rhwystrau ynnddi ddigon,  
Na myn'd ar hyd y traws gam-lwybrau  
A derfynant mewn gofisiau.

Y ddau ereill hefyd a ddaethant hyd at droed y bryn : oud pan welsant fod y bryn yn serth ac uchel, a bod yno ddwy ffordd arall i fyned ; a chan dybied hefyd y cyfarfyddai y ddwy ffordd hòno drachefn â'r un yr âi Cristion i synu ar hyd-ddi, ar yr ystlys arall i'r bryn ; am hyny ymroisant i fyned ar hyd y ffyrdd hyn. Enw un o'r ffyrdd oedd Perygl, ac enw'r llall oedd Dystryw. Felly y naill wr a gymerodd y ffordd a elwir Perygl, yr hon a'i harweiniodd i goedwig fawr ; a'r llall a aeth yn union ar hyd y ffordd oedd yn arwain i Ddystryw, yr hon a'i harweiniodd ef i faes eang, yn llawn o fynyddoedd tywyll, lle y tramgwyddodd ac y syrthiodd, ac ni chododd mwy.

Yna edrychais ar ol Cristion, i'w weled ef yn myned i synu i ben y bryn ; a gwelwn ef, wedi rhedeg ar y cyntaf, yn cerdded yn araf, ac o'r diweddf yn cripio i synu ar ei draed a'i ddwylaw, oblegyd fod y lle yn serth a llithrig. Tuag haner y ffordd i ben y bryn yr oedd gwyddbabell hyfryd wedi ei gwneud gan Arglwydd y bryn i ymdeithwyr diffygiol orphwys. Am hyny aeth Cristion yno, ac eisteddodd i lawr i ymddadebru : yna tynodd ei blyglyfr allan o'i synwes, a darllenodd ynddo er ei gysur ; dechreuodd hefyd bellach ailedrych ar y gochl a roddasid iddo pan oedd yn sefyll wrth y groes. Wedi ymddyfyr o hono fel hyn dros enyd, syrthiodd o'r diweddf i hepiant, ac ar ol hyny i drymgwsg, yr hyn a'i cadwodd yn y fan hòno nes oedd bron yn nos ; ac yn ei gwsg syrthiodd ei blyglyfr o'i law. Fel yr oedd yn cysgu, daeth rhyw un

ato, ac a'i deffrôdd, gan ddywedyd, "Cerdd a t y morgrugyn, tydi ddiogyn; edrych ar ei flyrdd ef, a bydd ddoeth," Diar. 6. 6. Ar hyn neidiodd Cristion i fynu yn frawychus, ac aeth ar firwst i'w fiordd, ac a gerddodd yn brysur nes daeth i ben y bryn.

Yn awr, pan ddaeth i fynu i ben y bryn, gwelai ddau ddyn yn rhedeg yn gyflym tuag ato; enw un o honyn oedd Ofnog, ac enw y llall oedd Digred: a Christion a ddywedodd wrthynt, Ha wyr, pa fod hyn? paham y rhedwch o chwith y modd hwn? Ofnog a atebodd, Myned yr oeddym tua dinas Sion, a daethom i fynu y rhiw anhawdd hwnw: ond po bellaf yr elem, mwyaf oll y peryglon a gyfarfyddem; am hyny troisom, ac yr ydym yn myned yn ol drachefn.

Ié, ebe Digred, dau lew a orweddent yn union ar y ffورد o'n blaenau, pa un ai cysgu ai effro nis gwyddom; ac nid allem dybied llai, os deuem o fewn eu cyrhaedd, na chaem ein llarpio yn ddiatreg ganddynt.

**CRISTION.** Yna ebe Cristion, Parwch i mi ofni; ond i ba le y ffoaf i fod yn ddiogel? Os âf yn ol i'm gwlaid fy hun, addaswyd hono at dán a brwmstan, a dyfethir fi yn ddiau yno; os gallaf gyrhaedd y ddinas nefol, byddaf yn ddiangol yno: rhaid i mi anturio. Nid yw dychwelyd ond marwolaeth; na myned yn mlaen ond ofn angau, a bywyd tragwyddol tuhwnt iddo: âf rhagof eto. Felly Digred ac Ofnog a redasant i lawr y bryn, a Christion a aeth i'w ffورد. Wrth adfeddwyl am yr hyn a glywedd gan y dynion, teimlodd yn ei synwes am ei blyglyfr, fel y gallai ddarllen ynddo, a chael ei gysuro; ond er teimlo, ni chafodd ef. Yna yr oedd Cristion mewn tralled mawr, heb wybod beth i'w wneuthur; canys diffygiol ydoedd o'r hyn a'i cynorthwyai, ac oedd i fod ei drwydded i'r ddinas nefol. Yma, gan hyny, dechreuodd fod mewn cryn benbleth, heb wybod beth i'w wneud. O'r diwedd cofiodd iddo gysgu yn y gwydd-babell ar ochr y bryn; a chan syrthio ar ei liniau, erfyniodd gan Dduw am faddeuant o'i drosedd ynfyd, ac yna aeth yn ol i chwilio am ei blyglyfr. Ond ar hyd yr holl ffورد a ddychwelodd, pwy fedr gyflawn-adrodd gofid calon Cristion? Weithiau och-

## 50 YN CAEL EI BLYGLYFR YN Y GWYDD-BABELL.

eneidai, weithiau wylai, a cheryddai ei hun yn fynych am fod mor ffål a chyngu yn y lle hwnw, à adeiladwyd yn unig er ychydig o orphwysiad o'i luddled. Fel hyn, gan hyny, yr aeth yn ol, gan edrych yn fanwl ar bob ochr, wrth fyned yr holl ffôrd, er cael yn ffawdus ei blyglynfr a'i dyddanodd fynyched ar ei daith. Aeth yn mlaen fel hyn hyd oni ddaeth drachefn i olwg y gwydd-babell lle yr eisteddodd ac y cysgodd; ond y golwg arni a adnewyddai ei ofid yn fwy, trwy ad-ddwyn o'r newydd ei drosedd o gysgu i'w feddwl, Dat. 2. 4; 1 Thes. v. 6—8. Fel hyn, gan hyny, yr aeth yn mlaen yn alarus oblegyd ei gwag pechadurus, gan lefain, Ystruan o ddyn ydwyf, am i mi gysgu yn ngwawriad dydd! am i mi gysgu yn nghanol anhawsderau! am i mi fwythfoddio y cnawd gymaint nes defnyddio y gorffwysiad hwnw er esmwythyd i'm cnawd, à ddarparodd Arglwydd y bryn er dadebiad ysbyridoedd pererion! Gymaint o gamrau a gymerais yn ofer! Fel hyn y dygwyddodd i Israel; am eu pechod danfonwyd hwynt yn eu holau ar hyd ffôrd y Môr Coch; a gorfydd i minau deithio y camrau hyny mewn tristwch, y rhai a allaswn radio mewn hyfrydwch, oni buasai y cwsg pechadurus hwn. Mor bell yn mlaen ar fy ffôrd y gallaswn fod bellach! Gwneir i mi deithio y camrau hyny deirgwaith drosodd, y rhai na ddylaswn eu sengu ond unwaith: ie, tebygol yw yn awr y'm goddiweddir gan y nos, canys y mae'r dydd ar derfynu. Oh na bu-aswn yn peidio cysgu!

Yn awr daeth drachefn at y gwydd-babell, lle yr eisteddodd i lawr ac yr wylodd dros enyd; ond o'r diwedd (fel y mynai Rhagluniaeth), wrth edrych yn dristlawn dan y faint, canfu ei blyglynfr yno, yr hwn, à chryndod a phrysurdeb, a gipiodd i fynu, ac a ddododd yn ei fynwes. Ond pwy a draetha orfoledd y dyn hwn wedi cael ei blyglynfr drachefn? canys yr oedd y plyglynfr hwn yn sicrwydd o'i fywyd, ac o'i dderbyniad i'r hafan dymunol. Gan hyny gosododd ef yn ei fynwes, diolchodd i Dduw am gyfeirio ei lygad at y man lle gorweddai, a chyda gorfoledd a dagrau prysuroedd i'w daith. Oh mor heinif yn awr yr aeth i fynu y gweddill o'r bryn! Eto, cyn iddo



fyned i'w gopa, machludodd yr haul ar Gristion ; parodd hyn iddo eilwaith adalw yr ynfydrywydd o'i gwsg i'w goffadwriaeth ; ac fel hyn y dechreuodd ymgysuro drachefn : Oh tydi gwsg bechadurus ! fel yr ydwyf o'th herwydd yn debygol o gael fy ngoddiweddyd gan dywyll-wch ar fy nhaith ! Rhaid i mi .deithio heb yr haul, rhaid i dduwch ordoi llwyhr fy nhraed, a rhaid i mi glywed rhuadau creaduriaid cwynfanus, oblegyd fy nghwsg pechadurus ! Yn awr cofiodd yr hyn a ddywedodd Digred ac Ofnog wrtho—y modd y'u dychrynwyd wrth ganfod y llewod. Yna ebe Cristion wrtho ei hun, Y bwystfilod hyn a grwydrant y nos am eu hysglyfaeth, a phe cyfarfyddent â mi yn y tywyllwch, pa fodd y ciliwn rhagddynt ? pa fodd y dihangwn rhag cael fy llarpio ? Fel hyn aeth yn mlaen ar ei daith. Ond tra yr ydoedd fel hyn yn galaru oblegid ei gamymddygiad blin, dyrchasodd ei lygad, a chanfu balas gorwych yn ymyl y ffordd o'i flaen, enw yr hwn ydoedd Prydferth.

Felly gwelwn ef yn brysio, ac yn myned yn mlaen, fel os byddai bosibl, y gallai gael llety yno ; ond cyn iddo fyned nebell, daeth i le cul iawn, yr hwn oedd tua thair ystad oddiwrth babell y Porthor : a chan edrych yn ofalus o'i flaen wrth gerdded, canfu ddau lew yn y ffordd. Yn awr, eb efe, gwelaf y peryglon a yrasant Digred ac Ofnog i droi yn ol. (Yr oedd y llewod wedi eu cadwyno, ond ni welai efe y cadwynau.) Yna ofnodd, a bwriadodd ddychwelyd fel y gwnaethent hwythau ; canys meddyl-iodd nad oedd dim ond marwolaeth o'i flaen. Ond y Porthor, yr hwn a elwir Gwyliadwrus, wrth weled Cristion yn petruso myned yn mlaen, ac fel un ar fedr troi yn ei ol, a waeddodd arno, gan ddyweddyd, A wyt ti mor wan-galon a hyna ? Marc 4. 40. Nac ofna y llewod, canys y maent wedi eu cadwyno, ac wedi eu gosod yn y man hwn i brofi ffydd lle y mae, ac i ddynoethi y rhai sydd hebddi : cadw yn nghanol y llwybr, ac ni bydd niwaid i ti.

Yna gwelwn ef yn myned yn mlaen dan grynu rhag ofn y llewod ; ond trwy fanwl-sylwi ar hyfforddiadau y Porthor, clybu hwynt yn rhoio, ond ni wnaethant unrhyw niwaid iddo. Yna eurodd ei ddwylaw, ac aeth rhagddo

hyd oni ddaeth a sefyll o flaen y porth lle yr arsai y Porthor. Yna dywedodd Cristion wrth y Porthor, Syr, pa dy yw hwn? a allaf gael llety yma heno? Atebodd y Porthor, Adeiladwyd y ty hwn gan Arglwydd y bryn er cysur a diogelwch pererinion. Y Porthor hefyd a ofynodd i Gristion, O ba le yr wyt yn dyfod? ac i ba le yr wyt yn myned?

**CRISTION.** Dyfod yr wyf o Ddinas Dystryw, ac yr wyf yn myned tua mynydd Sion; ond gan fod yr haul wedi machludo, dymunwn gael llety yma dros nos.

**PORTHOR.** Beth yw dy enw?

**CRISTION.** Fy enw yn awr yw Cristion, ond fy enw ar y cyntaf oedd Diras: daethum o lin Japheth, yr hwn a ennill Duw i breswylio yn mhebyll Sem, Gen. 9. 27.

**PORTHOR.** Pa fodd y dygwyddodd iddi fyned mor hwyr arnat? Mae'r haul wedi machludo.

**CRISTION.** Buaswn yma yn gynt, oni buasai i mi (ystruan o ddyn wyf!) gysgu yn y gwydd-babell ar ystlys y bryn. Hefyd, buaswn yma er hyn yn gynt o lawer, oni buasai i mi golli fy sicrwydd wrth gysgu, a dyfod hebddo hyd at ael y bryn; ac wedi teimlo am dano, ac heb ei gael, gorfu i mi, mewn gofid calon, droi yn ol i'r lle y cysgaswn ynddo, lle y cefais ef; ac o'r diwedd daethum yma.

**PORTHOR.** Wel, galwaf un o wyryfon y lle hwn, yr hon, os bydd yn foddlon i'th ymadroddion, a'th ddwg i mewn at y teulu, yn ol arfer y ty. Ar hynny y Porthor Gwyliadwrus a ganodd y gloch, ac wrth ei swn daeth llances sobr a phrydferth o'r enw Pwylllog allan i'r drws, gan ofyn, Paham y gelwir fi?

Atebodd y Porthor, Y dyn hwn sydd yn ymdeithio o Ddinas Dystryw i fynydd Sion; a chan ei fod yn ddifygiol a'i bod wedi nosi arno, gofynodd i mi a allai gael llety yma heno: felly dywedais wrtho y galwn arnat ti, ac, ar ol ymddyddan ag ef, gelli wneuthur fel y byddo da yn dy olwg, ac yn ol arfer y ty.

Yna galwodd arno, a gofynodd iddo, O ba le yr wyt yn dyfod? ac i ba le yr wyt yn myned? Yntau a fynegodd iddi. Gofynodd iddo hefyd, Pa fodd y daethost i'r ffordd?



**Adroddodd hyny iddi.** Yna holodd ef, Beth a welaist ac a gyfarsydaist yn y ffirdd? Mynegodd yntau iddi. O'r diwedd gofynodd iddo, Beth yw dy enw? Yna dywedodd, Cristion; ac y mae ynwyf ddymuniad cryf i letya yma heno, oherwydd, wrth yr hyn a welwys, adeiladwyd y man hwn gan Arglwydd y bryn er diogelwch a gorphwysfa i bererinion. Yna gwenodd ar Gristion, ond llenwodd dwfr ei llygaid; ac wedi sefyll ychydig heb yngan gair, dywedodd wrtho, Galwaf allan ddau neu dri ychwaneg o'r teulu. Felly rhedodd i ddrws y ty, a galwodd am Ddoethineb, Duwioldeb, a Chariad i ddyfod allan, y rhai, ar ol ychydig o ymddyddan pellach, a'i dygasant ef i mewn i'r teulu; a llawer o honyn, gan ei gyfarsod wrth riniog y ty, a ddywedasant wrtho, Tyred i mewn, fendigedig yr Arglwydd; adeiladwyd y ty hwn gan Arglwydd y bryn er croesawu y fath bererinion. Yna gogwyddodd ei ben, a chanlynodd hwynt i'r ty. Gwedi dyfod i mewn, ac eistedd i lawr, rhoddasant iddo rywbeth i'w yfed, a chytunasant, hyd oni byddai swper yn barod, y cai rhai o honyn, er mwyn gwneuthur defnydd da o'r amser, ymddyddan â Christion yn neillduol yn nghylch petbau crefyddol: a phenodasant Ddoethineb, Duwioldeb, a Chariad i chwedleua ag ef; a dechreuant fel hyn.

**DUWIOLDEB.** Yn awr, Gristion da, gan i ni ddangos y caredigrwydd hwn i ti o'th dderbyn i'n ty heno, gad i ni, os mewn modd yn y byd y gallwn drwy hyny wneuthur daioni i ni ein hunain, ymddyddan am yr holl bethau a ddygwyddasant i ti yn dy bererindod.

**CRISTION.** Gydag ewylls calon, ac y mae yn dda genyf eich bod yn tueddu cystal.

**DUWIOLDEB.** Beth a'th gynhyrfodd ar y cyntaf i ddyfod yn bererin?

**CRISTION.** Gyrwyd fi allan o wlad fy ngenedigaeth gan ryw swn dychrynllyd oedd yn fy nghlustiau; sef, fod dystryw anocheladwy yn fy aros, os trigwn yn y lle yr oeddwn.

**DUWIOLDEB.** Ond pa fodd y dygwyddodd i ti ddyfod o'th wlad y ffirdd hon?

**CRISTION.** Dyna fel y mynai Duw; canys pan oeddwn

dan ofn y dinystr, ni wyddwn pa le i fyned ; ond trwy ryw ddamwain daeth dyn ataf, pan oeddwn yn wylo ac yn crynu, enw yr hwn yw Efengylwr, ac a'm cyfarwyddodd at y porth bychan, yr hwn heb hyny ni ddaethwn byth o hyd iddo, ac a'm rhoddodd ar y ffordd a'm dygodd yn union i'r ty hwn.

**DUWIELDEB.** Ond oni ddacthost heibio i dy'r Deouglwr?

**CRISTION.** Do ; a gwelais yno y fath bethau, coffiadwr-iaeth y rhai a lyn wrthyf tra byddwyf byw, yn enwedig tri pheth ; sef, y modd y mae Crist, er gwaethaf Satan, yn dwyn yn mlaen waith gras yn y galon ; y modd y pechodd dyn ei hun yn holol allan o obaith am druggedd Duw ; ac hefyd breuddwyd yr hwn a dybiai fod dydd y farn wedi dyfod.

**DUWIELDEB.** Beth ! a glywaist ti ef yn dywedyd ei freuddwyd ?

**CRISTION.** Do, a breuddwyd dychrynllyd ydoedd. Yr oeddwn yn teimlo fy nghalon yn clafychu wrth iddo ei adrodd ; ac eto da genyf i mi ei glywed.

**DUWIELDEB.** Ai hyn oedd y cwbl a welaist yn nhŷ'r Deouglwr ?

**CRISTION.** Nage ; cymerodd fi, a danghosodd o'm blaen balas gorwych, a'r modd y gwisgid ag aur y rhai a drigkeit ynddo ; fel y daeth gwr dewrwyd yn mlaen, ac y torodd ei ffordd trwy ganol y gwyr arfog a safent wrth y drws i'w gadw allan ; ac fel yr archwyd iddo ddyfod i mewn, ac ennill gogoniant tragwyddol. Tybiais fod y golygfeydd hyn yn llenwi fy nghalon â llawenydd. Arosaswn yn nhŷ y gwr da hwnw flwyddyn gyfan, oni buasai fy. mod yn gwybod fod yn rhaid i mi fyned yn mhellach.

**DUWIELDEB.** A pha beth arall a welaist ar y ffordd ?

**CRISTION.** Gweled ? Wele, cyn fy myned nebpell oddiyno, gwelais un, fel y tybiwn yn fy meddwl, yn hongian ac yn gwaedu ar bren ; a'r olwg a barodd i'm baich syrthio oddiar fy nghefn ; oherwydd ocheneidias hyd yn hyn dan faich trwm, ond yma syrthiodd i lawr. Yr oedd yn beth dyeithr holol i mi, am na welswn beth cyffelyb erioed o'r blaen : a thra yr oeddwn yn edrych i fynu (canys erbyn hyn nis gallwn beidio ag edrych), daeth



**tri o Wyr Dysglaer ataf.** Un o honynt a dystiai wrthyf fod fy meiau wedi eu maddeu ; un arall a'm diosgodd o'm bratiau, ac a roddes i mi y wisg addurnedig hon ; a'r trydydd a osododd y nôd a welwch ar fy nhalcen, ac a roddes i mi y plyglyfr seliedig hwn (ac ar hyn tynodd ef o'i fynwes).

**Duwioldeb.** Ond gwelaist ychwaneg na hyn yn sicr, onid do ?

**CRISTION.** Y pethau a adroddais i ti oedd yngoreuon ; eto gwelais lawer o bethau ereill, sef tri o wyr, Annghall, Diog, a Rhyfyg, yn gorwedd yn eu cwsg encyd bychan o'r ffordd y daethum ar hyd-ddi, â heiyrn trymion am eu traed ; ond a dybit y gallaswn eu deffro ? Gwelais hefyd Ffurfiol a Rhagith yn dringo dros y mur, i fyned (fel y dywedent hwy) i fynydd Sion ; ond collwyd hwynt yn fuan, yn ol fel y dywedais wrthynt, ond ni chredent. Eithr, uwchlaw y cwbl, profais mai gorchwyl caled oedd dringo'r bryn hwn, ac mor galed oedd dyfod heibio i safnau y llewod ; ac yn wir, oni buasai'r dyn da y Porthor, sydd yn sefyll wrth y porth, nis gwn, ar ol y cwbl, nad aethwn yn fy ol ; ond yn awr diolchwyf i Dduw fy mod yma, ac yr wyf yn diolch i tithau am fy nerbyn.

Yna Doethineb a welodd yn dda ofyn iddo ychydig gwestiynau, gan erchi arno eu hateb.

**DOETHINEB.** Oni byddi yn meddwl weithiau am y wlad y daethost o honi ?

**CRISTION.** Byddaf, ond gyda llawer o gywilydd a hunansfieiddiad. Yn wir, pe meddyliaswn am y wlad o'r hon y daethum allan, gallaswn gael amser i ddychwelyd : eithr yn awr gwlad well yr wyf yn ei chwennych, hynny ydyw, un nefol, Heb. 11. 15, 16.

**DOETHINEB.** Onid ydwyt eto yn dwyn gyda thi rai o'r pethau yr oeddit y pryd hwnnw yn gynefin â hwynt ?

**CRISTION.** Ydwyt, ond yn groes iawn i'm hewyllys, yn enwedig fy meddyliau cnawdol ac anianol, a'r rhai y llonir fy nghydwladdwyr, ac y llonid finau hefyd gynt, yn fawr. Ond, yn awr, fy nhristwch ydynt oll ; a phe gallwn ond dewis fy mhethau, dewiswn beidio mældwl am y pethau hynny mwy ; ond pan ewyllysiwyf wneuthur yr hyn sydd

oreu, y mae yr hyn sydd waethaf yn bresenol gyda mi,  
Rhuf. 7. 21.

**DOETHINEB.** Oni fyddi yn edrych ar y pethau hyn  
weithiau fel wedi eu gorchfygu, y rhai, brydianu ereill,  
sydd yn flinder i ti?

**CRISTION.** Byddaf, eithr nid yw hyny ond anfynych  
iawn; eto oriau euraidd fyddant i mi pan ddygwyddont.

**DOETHINEB.** A elli di gofio trwy ba foddion y byddi yn  
cael allan dy flinderau ar amserau fel pe byddent wedi eu  
darostwng?

**CRISTION.** Gallaf; mae meddwl am yr hyn a welais  
wrth y groes yn peri hyny; mae edrych ar fy ngwisg  
addurnedig yn achosi hyny; mae syllu ar y pliglyfr a  
ddygywf yn fy mynwes yn gwneud hyny; ac y mae  
meddyliau cynhesol at y wlad yr wyf yn myned iddi yn  
gwneuthur hyny.

**DOETHINEB.** A pha beth sydd yn peri i ti fod mor  
awyddus i fyned i fynydd Sion?

**CRISTION.** Yno y gobeithiaf weled yn fyw yr Hwn a fu  
farw ar y groes; ac yno hyderwyf y rhyddheir fi oddi-  
wrth yr holl bethau sydd ynof hyd heddyw yn fy mhoen: i  
dywedant hefyd nad oes marwolaeth yno, Esay 25. 8; Dat.  
21. 4; ac y caf drigo gyda'r cwmni sydd oreu genyf.  
Canys, a dywedyd y gwir wrthyt, yr wyf yn ei garu Ef,  
am iddo fy esmwythau o'm baich; ac yr wyf yn flin o'm  
hafiechyd tumewnol. Dymunwyf yn fawr fod yn y lle  
nad oes marwolaeth, a chyda y cwmni sydd yn llesfain yn  
wastadol, Sanct, sanct, sanct.

Yna gofynodd Cariad i Gristion, A oes i ti deulu? Ai  
gwr priod ydwyt?

**CRISTION.** Oes; y mae i mi wraig a phedwar o blant  
bychain.

**CARIAD.** A phaham na ddygesit hwy gyda thi?

**CRISTION.** Yna Cristion a wylodd, ac a ddywedodd, Oh,  
mor ewyllysgar y gwnaethwn hyny! ond yr oedd ynt oll  
yn llwyr wrthwynebol i mi fyned ar bererindod.

**CARIAD.** Ond dylesit ymddyddan â hwynt, a cheisio  
dangos iddynt y perygl o aros yn ol.

**CRISTION.** Felly y gwnaethum; a mynegais iddynt yr

hyn a ddanghosodd Duw i mi am ddinystri ein dinas ; ond yr oeddwn yn eu golwg hwynt fel un yn cellwair, ac ni choelient fi, Gen. 19. 14.

**CARIAD.** A erfyniaist gan Dduw am fendithio dy gyngor iddynt ?

**CRISTION.** Do, o eigion fy nghalon ; canys rhaid i ti feddwl fod fy ngwraig a'm plant yn anwyl iawn genyf.

**CARIAD.** Ond a fynegaist iddynt am dy dristwch, a'th arswyd rhag cael dy ddinystrio ? canys meddyliwyf fod y dystryw hwnw yn amlwg ddigon i ti.

**CRISTION.** Do, eilwaith ac eilwaith hefyd. Ie, gallasant weled fy ofnau yn fy ngwyneb, fy nagrâu, a'm dychryn wrth feddwl am y farn ag oedd yn grogedig uwch ein penau ; ond nid oedd y cwbl yn ddigon i'w hennill i ddyfod gyda mi.

**CARIAD.** Ond beth a allent ddywedyd drostynt eu hunain paham na ddaethent gyda thi ?

**CRISTION.** Yr oedd ar fy ngwraig ofn colli y byd hwn ; a'm plant a ymroddasant i ffol bleserau ieuencetyd ; felly rhwystrwyd hwynt, y naill gan y peth hwn, a'r llall gan y peth arall, fel y gadawsant i mi grwydro fel hyn fy hun.

**CARIAD.** Ond ai ni ddarf i ti, trwy ryw gamymddygiadau, ddirymu y cyngor a'r rhybudd a roddech mewn geiriau iddynt i'w cymhell i ddyfod gyda thi ?

**CRISTION.** Yn wir, nis gallaf ganmol fy ymarwediad, canys gwn fy hunan am lawer o ffaeleddau ynddo. Gwn hefyd y gall dyn, trwy ei ymddyddanion, ddymchwelyd yn fuan yr hyn, trwy berswadiad a rheswm, a geisiai ei roddi yn addysg i ereill er eu lleshad. Eto, gallaf ddywedyd hyn, fy mod yn bur ofalus na roddwn achos iddynt i fod yn wrthwynebol i ddyfod ar bererindod. Ie, oherwydd hyn dywedent wrthyf fy mod yn rhy fanwl, a'm bod yn ymwrthod â phethau (er eu mwyn hwynt) yn y rhai nas gwelent hwy ddim niwaid. Na, tybiwys y gallaf ddywedyd, os gwelsant ddim ynof i'w rhwystro hwynt, mai fy ofn mawr rhag pechu yn erbyn Duw, a gwneuthur cam a'm cymydogion, ydoedd hyny.

**CARIAD.** Cain yn wir a gasaoedd ei frawd, am fod ei

weithredoedd ei hun yn ddrwg, a gweithredoedd ei frawd yn dda, 1 Ioan 3. 12 ; ac os tramgwyddodd dy wraig a'th blant wrthyt am hyn, dangosasant trwy hyny eu bod yn annglymodlon yn erbyn daioni, a gwaredaist dy enaid oddiwrth eu gwaed hwynt, Ezec. 3. 19.

Yn awr gwelwn hwy yn fy mreuddwyd yn eistedd ac yn ymddyddan fel hyn hyd onid oedd swper yn barod. Felly gwedi ei barotoi, eisteddasant i lawr i fwyta. Ar-lwywyd y bwrdd â phasgedigion, a gwin, ie, gloyw-win puredig; a'u holl ymddyddan wrth y bwrdd oedd yn nghylch Arglwydd y bryn; sef, yn nghylch yr hyn a wnaethai efe, a phaham y gwnaethai felly, a phaham yr adeiladasai y ty hwnw; ac oddiwrth yr hyn a ddywedent, deallais iddo fod yn rhyfelwr mawr, a darfod iddo ymladd â'r hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, a'i ladd, Heb. 2. 14, 15, eithr nid heb beryglu ei hun yn ddirfawr, yr hyn a barodd i mi ei garu yn fwy.

Canys, megys y dywedasant hwy, ac fel yr wyf finau yn credu, ebe Cristion, collodd lawer o waed wrth wneud hyny. Ond yr hyn sydd yn gogoneddu ei ras ef yw, iddo wneuthur y cwbl oddiar wir gariad at y wlad hon. Ac heblaw hyny, dywedai rhai o'r teulu iddynt hwy ei weled ac ymddyddan ag ef ar ol ei farwolaeth ar y groes; a thystiolaethasant iddynt glywed o'i enau fod ganddo y fath gariad at bererinion truain, fel nas gellir cael y cyffelyb o'r dwyraint i'r gorllewin. Ac yn mhellach, rhoddasant engraiiff i brofi eu dywediad, sef, iddo ymdiosg o'i ogoniant, fel y gallai wneud hyn dros y tlawd; ac iddynt ei glywed yn dywedyd, na phreswyliai efe yn mynydd Sion yn unig. Dywedasant yn mhellach, iddc wneud llawer o bererinion yn dywysogion, er iddynt wrth natur gael eu geni yn gardotwyr, a'u tarddiad o'r tomenau, 1 Sam. 2. 8 ; Psal. 113. 7.

Ymddyddasant fel hyn nes ei myned yn llawer o'r nos; ac wedi gorchymyn eu hunain i gadwraeth eu Har-glydd, aethant i orphwys. Rhoddasant y pererin i orwedd mewn goruwch-ystafell eang, a'i ffenestr yn agored tua chodiad haul. Enw yr ystafell ydoedd Tangnafedd,

**Lle y cysgodd hyd y wawrddydd, ac yna deffrodd a chanodd,—**

P'le yr wyf yn awr yn gorwedd ?  
 O !'r fath ddirfawr gariad rhyfedd !—  
 Gofal Iesu Grist am ddynion  
 Sy'n ymdrechu byw yn ffyddlon ;—

Yn rhagddarbod a thosturio,  
 Fel y cawn fy arbed ganddo,  
 Ac aneddu o fewn y gwiwlwys  
 Riniog nesaf i Baradwys !

Felly cyfodasant oll y boreu dranoeth ; ac wedi iddynt ymddyddan yn nghylch rhyw bethau yn ychwaneg, dywedasant wrtho na chai ymadael hyd oni ddanghosent iddo hynodion y ty. Yna arweiniasant ef i'r llyfrgell, lle y gosodasant o'i flaen y croniclau hynaf yn y byd ; yn y rhai, yn gyntaf, y dangosasant iddo achaau Arglwydd y bryn, sef ei fod yn Fab i'r Hen Ddihenydd, ac wedi deilliaw o genhediad tragwyddol. Gwedi hyny ei weithredoedd ef, y rhai a ysgrifennwyd yma yn gyflawn, gydag enwau llawer cant a gymerasai i'w wasanaeth ; a'r modd y cyfleasai hwynt mewn preswylfeydd nas gallai heneiddra nac adfeiliad natur mo'u dinystrio.

Yna darllenasant iddo rai o'r gweithredoedd anrheddus a wnaethai rhai o'i weision : megys y modd y goresgynasant deyrnasoedd, y gwnaethant gyfiawnder, y cawsant addewidion, y cauasant safnau llewod, y diffodasant angerdd y tân, y diangasant rhag min y cleddyf, y'u nerthwyd o wendid, y'u gwnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, ac y gyrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio, Heb. 11. 33, 34.

Gwedi hyny darllenasant mewn rhan arall o goflyfrau'r ty mor ewyllysgar oedd eu Harglwydd i dderbyn i'w ffafr bob un, ie, pob un, er iddynt gynt gynyg y dirmyg mwyaf ar ei berson a'i ffyrdd. Yr oedd yma hefyd amrai haneson am lawer a bethau enwog ereill hen a diweddar, y rhai y cafodd Cristion eu gweled oll, yn nghyda phronhwydoliaethau am bethau a gyflawnir yn sier yn eu

hamser, er dychryn a syndod i elynion Arglywydd y bryn, ac er cysur a dyddanwch i bererinion.

Dranoeth tywysasant ef i'r arfdy, a dangosasant iddo yno bob math o arfogaeth, y rhai a barotoisai eu Harglywydd i bererinion, megys cleddyf, tarian, helm, dwyfroneg, pob rhyw weddi, ac esgidiau na heneiddient; ac yr oedd yno ddigon o honyn i arfogi cynifer o wyr i wasanaeth eu Harglywydd ag sydd o ser yn y nefoedd.

Dangosasant iddo hefyd rai o'r peiriannau, â'r rhai y gwnaethai rhyw wyr enwog yn mysg ei weision ef ryfeddodau. Dangosasant iddo wiafen Moses; y morthwyl a'r hoel y lladdasai Jael Sisera â hwy; y piserau, yr udgurn, a'r lampau y gyrasai Gedeon fyddinoedd y Midianiaid i ffoi trwyddyn. Yna dangosasant iddo yr irai ychain, y lladdasai Samgar chwe channwr ag ef. Dangosasant iddo hefyd ên asyn, â'r hon y gwnaethai Samson bethau aruthrol. Hefyd dangosasant iddo y dafl a'r gareg y lladdasai Dafydd Goliatheus â hwynt; a'r cleddyf hefyd â'r hwn y lladd eu Harglywydd fab y golledigaeth yn y dydd y codo i'r ysglyfaeth. Heblaw hyn, dangosasant lawer o bethau rhagorol i Gristion, y rhai a hoffodd eu gweled; a chwedi hyny aethant i'w gorffwysfa drachefn.

Yna y gwelais yn fy mreuddwyd iddo godi yn foreu mewn bwriad i fyned rhagddo, ond atolygasant arno aros hyd dranoeth; ac yna, ebynt hwy, danghoswn i chwi, os bydd y diwrnod yn glir, y Mynyddoedd Hyfryd, y rhai a chwanegant at eich cysur, am eu bod yn nes at y porthlladd na'r man yr ydych ynddo yn bresenol. Felly cyd-syniodd ac arhosodd. Y boreu nesaf dygasant ef i nen y ty, ac archasant iddo edrych tua'r dehau; gwnaeth felly, a chanfu, yn mhell oddiwrtho, wlad fynyddig hyfryd, wedi ei harddu â choedydd, gwinllanoedd, ffrwythau hyfryd o bob rhyw, blodau arogaber, a ffynhonau dymunol lawn, Essay 33. 16, 17. Yna gofynodd enw'r wlad. Atebasant hwythau, Tir Emmanuel; ac y mae, ebynt hwy, mor rhydd i'r holl bererinion ddyfod iddo, ac i gael croesaw ynddo, ag yw'r bryn hwn. A phan ddeui i'r wlad honno, gelli ganfod porth y Ddinas Nefol oddiyno, ~~gyda'r gwyddyd y bugailiad sy'n byw yn y lle hwnnw.~~

Yna ymbarotodd i gychwyn, a boddlonent hwythau i hynny. Ond yn gyntaf, ebynt hwy, Awn drachefn i'r arfdy. Felly aethant, a gwisgasant ef yno o wadn y troed hyd y pen ag arfau profedig fel y gallai amddiffyn ei hunan, os dygwyddai neb ruthro arno ar y ffordd. Ac wedi ei arfogi fel hyn, rhodiodd gyda'i gyfeillion i'r porth, a gofynodd i'r Porthor a welsai ef un pererin yn myned heibio? Yna atebodd y l'orthor, Do.

CRISTION. Atolwg, a adwaenost ef? eb efe.

PORTHOR. Gofynais ei enw, ac yntau a ddywedodd wrthyf mai Ffyddlon oedd.

CRISTION. O, ebe Cristion, adwaenwn ef; cymdog agos i mi yw, daeth o'r dref y'm ganwyd yniddi. Pa mor bell y tybi y gall fod o'm blaen?

PORTHOR. Mae erbyn hyn wedi myned islaw y bryn.

CRISTION. Wele, Borthor anwyl, ebe Cristion, yr Arglwydd a fyddo gyda thi, ac a chwanego gynydd mawr at dy holl fendithion am y caredigrwydd a ddanghosais i mi.

Yna dechreuodd Cristion fyned rhagddo; ond Pwylllog, Duwioldeb, Cariad, a Doethineb a fynent fyned i waered gydag ef at droed y bryn. Felly aethant dan ymddyddan drachefn am y materion a fuont dan eu sylw nes eu dyfod at ei lechwedd. Yna, ebe Cristion, Fel yr oedd yn anhawdd esgyn i fynu, felly hefyd, hyd y gwelaf, y mae'n beryglus disgyn i waered. Felly y mae, ebe Doethineb; canys anhawdd yw i ddyn fyned i waered i ddyffryn Darostyngiad, fel yr wyt ti yr awrhon yn myned, heb gael codwm ar y ffordd; dyna'r achos y deuwn gyda thi at droed y rhiw. Felly dechreuodd fyned i waered, eithr yn araf iawn; er hynny llithrodd unwaith neu ddwy.

Yna gwelais yn fy mreuddwyd y cymdeithion da hynny yn rhoddi i Gristion, wedi iddo gyrhaeddyd godre'r bryn, dorth o fara, costrelaid o win, a swp o resin, ac wedi hynny aeth i'w ffordd.

Ond bu yn galed iawn ar Gristion yn y dyffryn Darostyngiad hwn; canys nid aethai nebell yn mlaen hyd oni chanfu ellyll gwrthun yn dyfod ar hyd y maeis i'w gyfarfod: ei enw yw Apolyon. Yna dechreuodd Cristion

ofni, gan resymu yn ei feddwl pa un oedd oreu iddo a'i dychwelyd ai sefyll ei dir. Ond adystyriodd nad oedd ganddo arfogaeth i'w gefn, ac, oherwydd hyny, meddyl-iodd y gallai troi ei gefn ato roddi mantais iddo i'w wânu yn haws â'i bicellau; am hyny pendersynodd anturio, a sefyll ei dir; canys, eb efe, pe bawn heb edrych ar ddim ond cadw fy einioes, gwêll yw i mi sefyll na chilio.

Felly aeth yn mlaen, ac Apolyon a gyfarfu ag ef. Yr oedd yr anghenfil yn gethin ei wedd; canys gwisgid ef â chen fel pysgodyn, o'r hwn yr ymfrostiai; yr oedd ganddo adenyydd fel draig, traed fel arth, tân a mwg a ddeuent o'i fol, a'i safn oedd fel safn llew. Pan nesaodd at Gristion, edrychodd arno â golwg ddirmygus, a holodd ef fel hyn:

**APOLYON.** O ba le y daethost, ac i ba le yr â?

**CRISTION.** Yr wyf yn dyfod o Ddinas Dystryw, yr hon yw trigfa pob drygioni, ac yr wyf yn myned i Ddinas Sion.

**APOLYON.** Gwn wrth hyn mai un o'm deiliaid ydwyt; canys eiddof yr holl wlad hòno, a mi yw ei thywysog a'i duw hi. Pa fodd, ynte, y rhedaist ymaith oddiwrth dy frenin? Oni b'ai fy mod yn gobeithio y gwnei eto i mi fwy o wasanaeth, tarawn di yn y fan ag un dyrnod i'r llawr.

**CRISTION.** Ganwyd fi o fewn dy diriogaeth, mae'n wir, ond yr oedd dy wasanaeth yn galed, a'th gyflog y fath nas gallai dyn fyw arno; canys cyflog pechod yw marwolaeth, Rhuf. 6. 23; am hyny, pan ddaethum i oedran, gwnaethum, fel y gwna dynion ystyriol ereill, edrych a'i mi allwn wellâu arnaf fy hun.

**APOLYON.** Nid oes un tywysog a gyll ei ddeiliaid morysgafn a hyn, ac nid wyf inau am dy golli dithau; ond gan dy fod yn achwyn ar dy wasanaeth a'th gyflog, boddonna i ddychwelyd, ac addawaf yn awr roddi i ti gynyrch goreu ein gwlad.

**CRISTION.** Ond rhoddais fy hunan i un arall, sef i Frenin tywysigion; a pha fodd y gallaf, â thegwch, fyned yn ol gyda thi?

**APOLYON.** Gwnaethost yn hyn yn ol y ddihareb,

"newid drwg am waeth;" ond peth arferol i'r rhai a broffesant fod yn weision iddo, ar ol enyd, yw llithro oddiwrtho, a dychwelyd ataf fi. Gwna dithau hefyd felly, a bydd pob peth yn dda.

**CRISTION.** Rhoddais iddo fy nghred, a thyngais y byddwn yn ufudd iddo; a pha fodd y gallaf dynu yn ol oddiwrth hyn, heb gael fy nghrogi fel bradwr?

**APOLYON.** Gwnaethost yr un peth â minau, ac eto parod wyf i fyned heibio i'r cwbl, os dychweli.

**CRISTION.** Gwnaethum addewid i ti pan oeddwn dan oed: ac heblaw hyny, gwn y gall y Tywysog, dan faniar yr hwn yr wyf yn awr yn sefyll, roddi gollyngdod i mi, ie, a maddau hefyd fy ngwaith yn ymrwymo i fod yn was i ti. Heblaw hyny, O Apolyon dinystriol, a dywedyd y gwir, hossach genyf ei wasanaeth, ei gyflog, ei weision, ei lywodraeth, ei gyfeillach, a'i wlad, na'r eiddo ti: am hyny na chais fy ennill yn hwy; canys ei was ydwylf, a chanlyniar ef.

**APOLYON.** Ystyria drachefn, mewn gwaed oer, O Gristion, beth yr wyt yn debyg o gyfarfod ag ef yn y ffordd a gerddi. Gwyddost fod y rhan fwyaf o'i weision yn dyfod i ddiwedd drwg, oherwydd eu bod yn fy ngwrthwynebu i a'm ffyrdd. Pa nifer o honint a roddwyd i farwolaeth gywilyddus! Heblaw hyn, cyfrifi ei wasanaeth ef yn well na'r eiddo fi, pryd na ddaeth ese erioed unwaith o'r man y mae i waredu neb o'i weision o ddwylaw eu gelynion; ond am danaf fi, pa sawl gwaith, fel y gwyr y byd yn ddigon da, y gwaredais y rhai a'm gwasanaethent yn ffyddlon, o'i ddwylaw ef a'i eiddo, naill ai trwy nerth neu ddichell, er iddynt gael eu dal ganddynt! Ac felly y'th waredaf dithau.

**CRISTION.** Nid yw ei waith yn peidio eu gwaredu yn awr ond er profi eu cariad, a lynant hwy wrtho hyd y diwedd; ac am y diwedd drwg y dywedi fod rhai o honint yn dyfod iddo, mae hwnw yn dra gogoneddus yn eu cyfrif hwy; canys nid edrychaint gymaint am ymwared presenol, oblegyd eu bod yn aros am eu gogoniant, yr hwn hefyd a gant pan ddelo eu Tywysog yn ei ogoniant ef a'r angylion.

**APOLYON.** Buost yn anffyddlon eisoes yn ei wasanaeth, a pha foddy y dysgwyli gael cyflog ganddo?

**CRISTION.** Yn mha beth, O Apolyon, y bum yn anffyddlon iddo?

**APOLYON.** Diffygiaist yn dy fynediad cyntaf allan, pan oeddit bron a suddo yn Nghors Anobaith. Ceisiaist trwy foddion gau ymystgywyd oddiwrth dy faich, lle y dylesit aros nes y cymerasai dy Dywysog ef ymaith. Collaist dy dlyssau mewn cwsg pechadurus. Buost hefyd o fewn ychydig i ddyehwelyd wrth ganfod y llewod. A phan y lleferi am dy daith, a'r hyn a glywaist ac a welaist, y mae dy galon yn chwennychu gwag-ogoniant yn y cwbl a ddywedi ac a wnei.

**CRISTION.** Y mae hyn oll yn wir, a llawer mwy nag a adroddais; ond y mae'r Tywysog, a wasanaethaf ac a anrhydeddraf, yn drugarog a maddeugar. Ond heblaw hyn, meddiannwyd fi â'r gwendidau hyn yn dy wlad di; yno y sgnais hwy i mewn, griddfenais danynt, galarais o'u plegyd, a chefais faddeuant gan fy Nhywysog.

**APOLYON.** Yna Apolyon a dorodd allan mewn cyn-daredd, gan ddyweddyd, Gelyn wyf i'r Tywysog hwn; yr wyf yn casâu ei berson, ei ddeddfau, a'i bobl; a daethum allan i'th wrthwynebu.

**CRISTION.** Edrych, Apolyon, beth a wnei, canys yr wyf ar brif-ffordd y Brenin, y ffôrdd sintaidd; am hyny edrych beth a wnei.

**APOLYON.** Yna lledodd Apolyon ei draed ar draws y ffôrdd, ac a ddywedodd, Yn hyn nid oes arnaf ofn. Ymbarotoa i farw; ni chei fyned yn mhellach, myn fy ffau uffernol: yma tywalltaf dy enaid allan.—A chyda hyn taflodd bicell danllyd at ei ddwyfron; ond yr oedd gan Gristion darian yn ei law, â'r hon y'i derbyniodd, ac felly troes y niwaid oddiwrthi draw.

Yna tynodd Cristion ei arfau allan, canys gwelai fod yn bryd iddo gyffroi; ac Apolyon mor gyfym ag yntau a ymosododd yn filain arno, gan daflu picellau mor amled a'r cenllysg; ac â hwynt, er holl ymdrech Cristion i'w gochel, clwyfwyd ef gan Apolyon yn ei ben, ei law, a'i droed. Parodd hyn i Gristion gilio ychydig yn ol:

**A**polyon, gan hyny, a ddilynodd ei orchwyl yn egniol, a Christion a ymwrolodd drachefn, gan ei wrthsefyll mor ddewr ag y gallai. Parhaodd yr ymladd tost yma fwy na hanner diwrnod, ie, hyd onid oedd Cristion bron diffygio; canys rhaid i ti wybod ei fod, o achos ei friwiau, yn myned wanach wanach.

Apolyon ar hyn, gan weled ei adeg, a ddechreuodd waagu yn drymach ar Gristion, a chan ymdrechu ag ef rhoes iddo godwm echryslon; a chyda hyny syrthiodd cleddyf Cristion o'i law. Yna ebe Apolyon wrth Gristion, Yr wyf yn sicr o honot yn awr. A chyda hyny bu agos iddo ei lethu i farwolaeth; a dechreuodd Cristion ofni am ei fywyd. Ond fel y mynai Duw, tra yr oedd Apolyon yn parotoi ei ergyd olaf, i wneud pen am y gwr da, estynodd Cristion ei law yn gyflym at ei gleddyf, ac wedi ei gael, dywedodd, "Na lawenycha i'm herbyn, O fy ngelyn! pan syrthiwys, cyfodaf," Micah 7. 8; a chyda hyny rhoddodd iddo frath angeuol, yr hyn a wnaeth iddo gilio, fel un wedi derbyn ei friw marwol. Cristion, wrth weled hyn, a ymosododd arno drachefn, gan ddyweddyd, "Yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na choncwer-wyr trwy'r Hwn a'n carodd ni," Rhuf. 8. 37. Ac ar hyny Apolyon a ledodd ei esgyll dreigaidd, ac a frysiodd ymaith, fel na welodd Cristion mohono mwy, Iago 4. 7.

Yn yr ymgyrch hwn, ni ddichon dyn ddychymygu, oni buasai iddo weled a chlywed fel y gwnaethum i, pa fath nâd a rhuad a wnai Apolyon drwy gydol yr ymdrech: llefarai fel draig: ac ar y llaw arall, y fath ochain a griddian a godai o galon Cristion. Ni welais arno gy-maint ag un edrychiad siriol hyd oni wybu iddo glwyfo Apolyon â'i gleddyf dau-finiog; y pryd hwnnw, yn wir, y gwenodd, ac yr edrychodd i fynu; ond yr ymladdfa fwyaf ofnadwy ydoedd a welais erioed.

Felly pan oedd y frwydr drosodd, dywedodd Cristion, Diolchaf yn awr i'r Hwn a'm gwareddodd o safn y llew, ac a'm nerthodd yn erbyn Apolyon. Gwnaeth felly, gan ganu,—

Belzebub, pen-tywysog hyll,  
 Y dirfawr ellyll yma,  
 Oherwydd fod ei feddwl fryd  
 O'm bywyd fy nyfetha,—

A yrodd mewn arfogaeth lawn  
 Y gelyn diglawn, casaf,  
 Trwy danllyd ac uffernol fodd,  
 A chwimwth ruthrodd arnaf.

Ond Michael, fendigedig borth,  
 A ddaeth i'm cynorthwyo;  
 Ac mi a'i gyrais (gwych yw'r wedd)  
 A min y cledd i gilio.

Am hyny boed i mi roi mawl  
 A diolch bythawl iddo—  
 Bendithio, à soniarus lef,  
 Ei enw ef heb beidio.

Gwedi hyny daeth ato ef law, ac ynddi rai o ddail pren y bywyd; a Christion a'u cymerodd, ac a'u rhoddroid wrth yr archollion a gawsai yn yr ymladdfa, ac iachawyd ef yn ebrwydd. Eisteddodd hefyd yno i fwyta bara, ac i yfed o'r gostrel a roddasid iddo ychydig o'r blaen; felly gwedi ymadfywio, ymbarotodd i'w daith, a'i gleddyf noeth yn ei law; canys, eb efe, nis gwn nad oes rhyw elyn arall gerllaw. Ond ni chyfarfu ag un sarhad chwanegol oddiwrth Apolyon trwy y glyn i gyd.

Yn awr, yn nghwr y glyn hwn yr oedd glyn arall à elwid Glyn Cysgod Angau; a rhaid oedd i Gristion fyned trwyddo, am fod y ffordd i'r Ddinas Nefol yn myned trwy ei ganol. Lle anngyfannedd iawn yw hwn. Darlunir ef gan y prophwyd Jeremiah fel y canlyn: "Anialwch, tir diffaith, a phyllau; tir sychder, a Chysgod Angau; tir nid aeth gwr trwyddo (oddigerth Cristion), ac ni thrigodd dyn ynddo," Jer. 2. 6. Felly bu yn waeth ar Gristion yn y lle hwn nag yn ei ymdrech ag Apolyon, fel y gwelir yn y canlyniad.

Yna gwelwn yn fy mreuddwyd, wedi i Gristion ddyfod

CRISTION YN CWRDD A'R DDAU DDYCHWELWR. 67

i odre Glyn Cysgod Angau, ddau wr yn cyfarfod ag ef, sef meibion i'r rhai a roisant annglod gynt i'r wlad dda, Num. 13. 32, gan frysio i fyned yn ol; wrth y rhai y llefarodd Cristion fel hyn :—

CRISTION. I ba le yr ewch?

GWYR. Atebasant hwythau, Yn ol, yn ol! a mynem i tithau hefyd wneud yr un modd, od oes gwerth genyt ar fywyd a hedd.

CRISTION. Beth yw'r mater? ebe Cristion.

GWYR. Mater? meddynt; yr oeddym ni yn myned fel yr wyt tithau ar hyd y ffordd hona, ac aethom mor bell ag y meiddiem: yn wir, can belled o'r braidd na allem ddychwelyd; canys ped aethem ychydig yn mhellach, ni allasem fod yma i ddwyn y newydd i ti.

CRISTION. Ond â pha bethau y cwrddasoch? ebe Cristion.

GWYR. Daethom agos at Lyn Cysgod Angau, ond, fel bu goreu'r ffawd, edrychasom o'n blaenau, a gwelsom y perygl cyn ei gyrhaedd, Psal. 23. 4; 107. 10.

CRISTION. Ond beth a welsoch? ebe Cristion.

GWYR. Gweled? y glyn ei hun, boed siwr, yr hwn sy gan ddued a phyg: gwelsom yno ellylon, bwbachod, a dreigiau y pwll: clywsom udiad ac ysgrechiad dibaid yn dyfod o'r glyn hwnnw, megys oddiwrth bobl mewn trueni annhraethol, yn rhwym mewn cystudd a heiyrn; ac uwchben y dyffryn hwnnw y croga cymylau terfysg: marwolaeth hefyd sydd yn lledu ei adenyydd trosto ef yn wastad. Mewn gair, mae pob mymryn o hono yn arsydus, ac yn holol heb drefn, Job 3. 5; 10. 22.

CRISTION. Ond er y cwbl a ddywedasoch, meddai Cristion, nis gallaf weled nad dyna fy ffordd i tua'r porthladd dymunol, Psal. 44. 18, 19; Jer. 2. 6.

GWYR. Bydded hi yn ffordd i ti, ni ddewiswn mohoni yn ffordd i ni.

Felly ymadawsant, a Christion a aeth yn mlaen, ond o hyd â'i gleddyf noeth yn ei law, rhag ofn i neb ruthro arno.

Gwedi hyny gwelais yn fy mreuddwyd, mor bell ag y cyrhaeddai y glyn hwn, fod ffos ddofn iawn ar yr ystlys

ddehau iddo ; i'r ffos hon y bu'r dall yn tywys y dall yn mhab oes, ac ynddi y darfu am y ddau mewn modd erchyll. Trachefn, wele, ar yr ochr aswy yr oedd cors beryglus iawn, i'r hon, pe syrthiai hyd yn nod gwr da, ni chai waelod caled i'w droed sefyll arno : yma syrthiodd y brenin Dafydd unwaith, a diau darfuasai am dano yno, oni buasai i'r Hwn sydd alluog ei dynu allan, Psal. 69. 2, 14.

Yr oedd y llwybr hefyd yma yn dra chul, ac am hyny bu yn galed iawn ar Gristion druan ; oblegyd pan geisiai yn y tywyllwch ochelyd y ffos ar y naill law, byddai mewn perygl o syrthio drosodd i'r llaid ar y llaw arall : a phan geisiai hefyd yngadw rhag y clai o'r naill du, oni byddai yn ofalus iawn, byddai yn debyg iawn o syrthio i'r ffos. Fel hyn yr âi yn mlaen, a chlywais ef yma yn ochenedio yn dost ; canys heblaw y perygl a grybwylwyd uchod, yr oedd y llwybr mor dywyll, fel na wyddai yn aml, pan godai ei droed i fyned yn mlaen, yn mha le, neu ar ba beth, y gosodai efe ef nesaf.

Tua chanol y glyn hwn y gwelais fod safn usfern yn gorwedd yn agos iawn at fin y ffordd. Yn awr hunan-ofynai Cristion, Beth a wnaf ? Yn awr ac eilwaith codai cymaint o dân a mwg, yn nghyda gwreichion a nadau erchyll (pethau na wnaent gyfrif o gleddyf Cristion, fel y gwnaethai Apolyon), nes cymhellwyd ef i roddi ei gleddyf yn ei wain, a defnyddio arf arall, à elwid Pob-rhyw-weddi, Eph. 6. 18; felly gwaeddodd yn fy nghlyw, "Atolwg, Arglwydd, gwared sy enaid," Psal. 116. 4. Aeth yn mlaen fel hyn dros gryn enyd, eto yr oedd y flamau yn ymgyrhaedd tuag ato ; clywai hefyd ddolefau cwynfanus, a rhuthriadau yn ol ac yn mlaen, fel yr ofnai mai ei ddryllio a wneid, neu ei sathru fel tom yr heolydd. Gwelwyd yr olygfa aruthr hon, a chlybuwyd y swn arswydus hwn, am amryw filldroedd ; a phan ddaeth at fan lle y tybiai ei fod yn clywed bagad o ellylon yn dyfod yn mlaen i'w gyfarfod, safodd, a dechreuodd feddwl beth oedd oreu iddo wneuthur. Weithiau lled-feddyliai droi yn ol ; wedi hyny ystyriai iddo ddyfod, hwyrach, hanner y ssordd trwy'r glyn. Cofai hefyd ddarfod iddo

eisoes orchfygu llawer o beryglon ; ac y gallai y perygl o fyned yn ol fod yn fwy o lawer nag o fyned yn mlaen. Felly ymroes i fyned rhagddo; ond yr oedd yr ysbrydion drwg fel pe buasent yn dyfod nes-nes. Ond pan ddaethant yn mron i'w ymyl, gwaeddodd yn groch gan ddywedyd, "Yn nghadernid yr Arglwydd y cerddaf." Felly troisant eu cefnau, ac ni ddaethant yn mhellach.

Un peth ni fynwn ei ollwng i golli. Deliais sylw fod Cristion druan wedi hurtio gymaint, fel nad adwaenai ei lais ei hun ; ac fel hyn y gwybum hynny. Gan gynted ag y daeth ef drosodd gyferbyn â safn y pydew tanlyd, daeth un o'r rhai drwg y tu cefn iddo, ac wedi dynesu yn ddystaw, sisialodd lawer o gableddau blinion i'w enaid, y rhai a gredai a ddeuent allan o'i galon ei hun. Parodd hyn fwy o flinder i Gristion na dim a brofasai o'r blaen, sef meddwl iddo ef yn awr gablu yr Hwn a garai gymaint o'r blaen. Eto ni fynasai wneuthur hyn, pe gallasai beidio ; ond nid oedd ganddo y callineb i gau ei glustiau, nac i ddeall o ba le y deuai y cableddau hyn.

Gwedi i Gristion ymdeithio gryn enyd yn y cyflwr anngrysusrus hwn, tybiodd glywed o hono leferydd gwr, megys yn myned o'i flaen, yn dywedyd fel hyn, "Pe rhodiwn ar hyd Glyn Cysgod Angau, nid ofnaf niwaid ; canys yr wyt ti gyda mi," Psal. 23. 4.

Yna bu lawen ganddo, a hynny o herwydd y rhesymau a ganlyn :—

Yn gyntaf, Am y casgl a oddiwrth hynny, fod rhai a ofnent Dduw yn y glyn hwn gystal ag yntau.

Yn ail, Am y dealla fod Duw gyda hwynt, er eu bod yn y fath gyflwr tywyll ac arswyddus. A phaham, eb efe wrtho ei hun, nad gyda minau ? er na allaf ganfod hynny, oherwydd yr atalfa a berthyn i'r lle, Job 9. 11.

Yn drydydd, Am y gobeithia gael cymdeithion yn y man, os gallai eu gorddiwes.

Felly aeth rhagddo, a galwodd ar yr hwn oedd yn mlaen ; ond ni wyddai hwnnw beth a atebai, am y tybiai yntau ei fod ar ei ben ei hun. Yn mhen ychydig ar ol hynny gwawriodd y dydd : yna dywedodd Cristion, "Efe a dry gysgod angau yn foreuddydd," Amos 5. 8.

Pan ddaeth y bore, edrychodd o'i ol, nid o chwant dychwelyd, ond i weled wrth oleuni dydd y peryglon y daethai trwyddyt yn y tywyllwch. Felly canfu yn eglurach y flos oedd ar y naill law, a'r gors oedd ar y llaw arall; ac hefyd guled oedd y llwybr a arweiniai rhyngddynt trwy y glyn. Gwelodd hefyd yn awr ellylon, bwbachod, a dreigiau'r pwll, ond oll o bell; canys ni ddeuent yn agos wedi gwawriad dydd; eto amlygwyd hwynt iddo, yn ol yr hyn a ysgrifennyd, "Efe sy'n dadguddio pethau dyfnion allan o dywyllwch; ac yn dwyn cysgod angau allan i oleuni," Job 12. 22.

Yn awr yr oedd ei waredigaeth allan o holl beryglon ei ffordd anial yn effeithio yn ddwys ar deimladau Cristion; y rhai, er iddo eu hofni yn fawr o'r blaen, a welai yn eglurach yn awr, am i oleuni y dydd eu dadguddio iddo. Tua'r pryd hwn y codai'r haul, ac yr oedd hon yn druggedd arall i Gristion; canys rhaid i ti ddeall, er fod y rhan gyntaf o Lyn Cysgod Angau yn beryglus, eto yr oedd yr ail ran, ar yr hon yr oedd yn awr yn wynebu, os yn ddichonadwy, yn fwy peryglus o lawer; canys, o'r lle y safai arno yn awr, hyd cwr eithaf y glyn, yr holl ffordd oedd mor llawn o faglau, cynllwynion, croglathau, a rhwydau yma, ac mor llawn o byllau, pydewau, dyfndyllau, a llithrigfeydd acw, fel, pe buasai yn dywyll yn awr megys yr oedd pan ddaeth i'r rhan gyntaf o'r ffordd, pe meddiannasaï fil o eneidiau, yn ngolwg rheswm, collasai hwynt oll; ond, fel y dywedais, yr oedd yr haul yn awr yn codi. Yna eb efe, "Ei oleuni [lamp] Ef sydd yn llewyrchu ar fy mhen, a thrwy ei oleuni y rhodiad trwy dywyllwch," Job 29. 3.

Wrth y goleuni hwn, gan hyny, y daeth i'r cwr eithaf o'r glyn. Wedi hyny gwelais yn fy mreuddwyd, ar derfyniad y glyn, waed, esgyrn, lludw, a chyrrf drylliog dynion, ie, pererinion a aethent y ffordd hon gynt, yn gorwedd ar y llawr; a thra yr oeddwn yn myfyrio beth a allai fod yr achos o hyn, canfum ogof ychydig o'm blaen, lle y bu dau gawr, Pab a Phagan, yn trigo yn yr hen amser; trwy allu a gormes y rhai hyn y lladdwyd, mewn modd ccreulawn, y gwyr yr oedd eu hesgyrn, eu gwaed, eu



OGOF Y CAWR PAB.



lludw, &c., yn gorwedd yno. Ond aeth Cristion heibio i'r lle hwn heb fawr berygl, yr hyn oedd yn rhyfedd genyf; ond deallais wedi hyny fod un o'r cawri, sef Pagan, wedi marw er ystalm; ac am y llall, er ei fod yn fyw, y mae, o achos henaint, a llawer cernod atgas a gawsai yn moreu ei ddyddian, mor ysig ac anystwyth yn ei gymalau, fel na ddichon yn awr wneud nemawr mwy nag eistedd yn ngenau ei ogof, ac ysgyrnygu ar y pererinion a elent heibio, a chnoi ei ewinedd, am nad yw yn gallu eu cael i'w asael.

Yna gwelwn Gristion yn myned rhagddo; ond wrth ganfod yr hen ddyn yn eistedd yn ngenau'r ogof, ni wyddai beth i feddwl, yn enwedig am iddo, er na allai ei ymlid, lefaru wrtho, gan ddywedyd, Ni ddiwygiwch byth heb losgi ychwaneg o honoch. Ond nid atebodd, eithr edrychodd arno yn wrol; ac felly aeth heibio heb gael dim niwaid. Yna y canodd Cristion fel hyn,—

Ni allaf dd'wedyd llai o'm genau  
 Nad cryn fyd o ryfeddodau  
 Oedd fy achub a'm gwaredu,  
 O'r gofidiau a'm cyfarfu.

Tra fum yn y dyffryn yma,  
 Dwfn dywyllwch o'r perygla',  
 Diawlaiad usfern, pechod gwrthun,  
 A'm cylchynent bob munudyn.

Pyllau, rhwydau, a chroglathau,  
 Oedd yn llawn o bob tu'm llwybrau;  
 Y fi'n wael druan, esmwyth ddigon  
 Dal a maglu f'enaid gwirion.

Bendigedig byth, a gyrrhynt,  
 Fyddo'r Llaw a'm cadwodd rhagddynt:  
 A chan fy mod yn fyw yr awrhon,  
 Boed i'r lesu wisgo'r goron.

Felly Cristion a aeth yn mlaen, a daeth i ryw esgynfa fechan, yr hon a godasid fel y gallai pererinion ganfod o'u biaenau: gan hyny, aeth Cristion i fynu yno: ac wrth

edrych o'i flaen, cansu Ffyddlon ar ei daith. Yna gwaeddodd Cristion yn uchel, Hai, hai; hai-ho; aros, a byddaf gydymaith i ti. Ar hyn Ffyddlon a edrychodd o'i ol, a gwaeddodd Cristion arno drachefn, gan ddywedwyd, Aros, aros, hyd oni ddelwyf atat. Ond Ffyddlon a atebodd, Na wnaf, dianc yr wyf am fy mywyd, ac y mae dialydd y gwaed wrth fy sawdl.

Teimlodd Cristion hyn i raddau o'i flaen; a chan ymeginio â'i holl nerth, goddiweddodd Ffyddlon yn fuan, a rhedodd yn gynt nag ef; felly yr olaf a aeth yn mlaenaf. Yna chwarddodd Cristion yn wag-ogoneiddgar, am iddo gael y blaen ar ei frawd; ond o ddifyg gwyliad-wriaeth ar ei draed, tripiodd yn ddisymwth a syrthiodd, ac ni allodd godi hyd oni ddaeth Ffyddlon i synu i'w gynorthwyo.

Yna gwelais yn fy mreuddwyd eu bod yn cydymdeithio yn garuaidd iawn, gan ymddyddan yn hyfryd, â'u gilydd am yr holl bethau a ddygwyddasent iddynt yn eu pererindod; a dechreuodd Cristion fel hyn:

**CRISTION.** Fy hybarch a'm hanwyl frawd Ffyddlon, da genyf dy oddiweddwyd, a bod Duw wedi cyd-dymheru ein hysbrydoedd fel y gallom gydrodio megys cymdeithion yn y llwybr hyfryd hwn.

**FFYDDION.** Anwyl gyfaill, dysgwyliais gael dy gwmni o'n tref o hyd, ond cefaist y blaen arnaf; am hyny gorfu i mi ddyfod hyd yma fy hunan,

**CRISTION.** Pa hyd yr arhosaist yn Ninas Dystryw, cyn dyfod allan ar fy ol ar dy bererindod?

**FFYDDION.** Hyd nad allwn aros yn hwy; canys ar dy ymadawiad cododd son mawr, llosgid ein dinas hyd y llawr ar fyrdar â thân o'r nef.

**CRISTION.** Beth! a siaradai dy gymydigion felly?

**FFYDDION.** Gwnaent; hyny dros dymhor oedd yn ngenau pawb.

**CRISTION.** Beth! ai ni ddaeth allan o'r ddinas i ochel y perygl neb ond tydi?

**FFYDDION.** Yr oedd yno, fel y dywedais, son mawr am y perygl, eto nid wyf yn tybied eu bod yn ei wir gredu. Canys, yu mhoethder y siarad, clywais rai o honynyt yu

llefaru yn ddirmygus am danat a'th daith ryfygus ; canys felly y galwent dy bererindod. Ond credas gynt, a chredaf eto, mai tan a brwnstan fydd diwedd ein dinas ; ac am hyny dihengais allan o honi.

CRISTION. A glywaist ti ddim son am fy nghymydog Meddal ?

FFYDDON. Do, Gristion ; clywais iddo dy ganlyn hyd oni ddaeth i Gors Anobaith, i'r hon y syrthiodl, medd rhai ; eto ni fynai ef i neb wybod hyny ; eithr gwn iddo gael ei ddiwyno yn dost a llaid y gors hono.

CRISTION. A pha beth a ddywedai y cymydogion wrtho ?

FFYDDON. Er pan ddychwelodd, y mae yn chwerthiniad i bob math o bobl : mae rhai yn ei wawdio ac yn ei ddirmygw, a phrin y rhydd neb waith iddo. Y mae yn awr yn saith gwaeth arno nag y bu erioed.

CRISTION. Ond pahain yr ymosodant arno felly, a hwythau yu dibrisio y ffورد a adawsai ?

FFYDDON. Yn nghrog y byddo ! meddynt ; bradwr yw ; ni bu yn ffyddon i'w broffies ! Ie, barnwyf fod Duw wedi cynhyrfu hyd yn nod ei elynion yn ei erbyn, i'w hwtio, a'i wneuthur yn ddihareb, am iddo adael y ffورد, Jer. 29. 18, 19.

CRISTION. A fu dim ymddyddan rhyngot ti ag ef cyn dy ddyfod allan ?

FFYDDON. Cyfarfum ag ef unwaith yn yr heol, ond ciliodd yn llechlyd i'r tu arall, fel un a chywilydd arno am a wnaethai. Felly nid yngenaïs air wrtho.

CRISTION. Wel, pan ddechreuaïs fy rhai, yr oedd genys obaith da am y dyn hwnw ; ond yn awr yr wyf yn osni y derfydd am dano yn ninestr y ddinas ; canys dygwyddodd iddo yn ol y wir ddihareb, " Y ci a ymchwelodd at ei chwydiad ei hun ; a'r hwch, wedi ei golehi, i'w hymdreiglfa yn y dom," 2 Petr 2. 22.

FFYDDON. Yr wyf finau yn osni hyny besyd ; ond pwys a all luddias yr hyn a syn fod ?

CRISTION. Wel, gymydog Ffyddon, ebe Cristion, gad i ni adael Meddal, a siarad am bethau a berthyn yn fwy i ni ein hunain. Mi nega i mi, yu awr, pa bethau a ddy-

## 76 CRISTION A FFYDDION YN YMDDYDDAN.

gwyddasant i ti ar y ffordd ; canys gwn i ti gyfarfod â rhyw ddrygau, os amgen gellir ei nodi fel rhyfeddod.

FFYDDION. Ymgewais rhag y gors, i'r hon y syrthiaist ti, a daethum at y porth heb yr anffawd hwnw ; ond cyfarfum ag un a elwid Trythyll, a bum agos a chael niwaid.

CRISTION. Da a fu i ti ddianc rhag ei rhwyd hi. Bu yn galed ar Joseph o'i hachos, ond dihangodd fel tithau ; eithr bu agos iddo golli ei fywyd o'i phlegyd, Gen. 39. 11—13. Ond beth a wnaeth hi i ti ?

FFYDDION. Rhyfeddit, oni b'ai dy fod eisoes yn gwybod, y fath dafod gwenieithus oedd ganddi ; bu yn daer arnaf i droi o'r neilldu gyda hi, gan addaw i mi bob math o fwyniant.

CRISTION. Na, na ; ni addawodd fwyniant cydwylod dda.

FFYDDION. Ti a wyddost mai pob math o fwyniant cawdol wyl yn ei feddwl.

CRISTION. Diolcha i Dduw am y ddihangfa ; " Y neb y byddo'r Arglwydd yn ddig wrtho a syrth i'w ffos hi," Diar. 22. 14.

FFYDDION. Na, nis gwn a ddihengais yn gwbl oddiwrthi ai peidio.

CRISTION. Beth ! gobeithio na chydsyniaist â'i chais ?

FFYDDION. Naddo, i halogi fy hun gyda hi ; canys cofiais hen ysgrifen a welswn, yr hon oedd yn dywedyd, " Ei cherddedriad a sang uffern," Diar. 5. 5. Am hyny cauais fy llygaid, rhag fy hudo gan ei gwedd hi, Job 31. 1. Yna disenwodd fi, ac aethum inau i ffordd.

CRISTION. A gyfarfyddaist ti âg un ymosodiad arall wrth ddyfod ?

FFYDDION. Wedi i mi ddyfod i odre y bryn â elwir Anhawsdra, cyfarfum â dyn oedranus iawn, yr hwn a ofynodd i mi pwy oeddwn ? ac i ba le yr oeddwn yn cyrchu ? Dywedais inau mai pererin oeddwn yn myned tua'r Ddinas Nefol. Yna, ebe yr hen wr, Syr, yr wyt yn edrych fel dyn gonest ; a foddloni i aros gyda mi am y cyflog a roddaf i ti ? Yna gofynais iddo ei enw, a pha le yr cedd yn trigo ? Yntau a'm hatebodd, mai ei enw ef

œdi Adda y cyntaf, a'i fod yn trigo yn nhref Twyll, Eph. 4. 22. Yna gofynais iddo beth oedd ei waith, a pha gyflwyn a roddai? Yntau a ddywedodd mai ei waith oedd *pleserau lawer*; ac mai fy nghyflwyn fyddai bod yn etifedd iddo yn y diwedd. Gofynais iddo yn mhellach, pa fath dy a gadwai, a pha weision ereill oedd ganddo? Felly dywedodd fod yn ei dy holl ddanteithion y byd hwn, ac mai ei blant ei hun oedd ei weision. Yna gofynais pa sawl plentyn oedd ganddo? Dywedodd yntau nad oedd ganddo ond tair o ferchaid, sef Chwant y Cnawd, Chwant y Llygad, a Balchder y Bywyd, 1 Ioan 2. 16, ac y cawn eu priodi os mynwn. Yna gofynais iddo pa hyd y mynai ef i mi fyw gydag ef? Atebodd mai cyhyd ag y byddai efe byw ei hun.

**CRISTION.** Ond i ba benderfyniad y daethost ti â'r hen ddyn yn y diwedd?

**FFYDDION.** Wel, tueddid fi braidd i fyned gyda'r dyn, canys yr oedd efe yn siarad yn deg iawn; ond wrth edrych yn ei dalcen yn yr ymddyddan, gwelwn yno yn ysgrifenedig, "Dodi o honoch heibio yr hen ddyn yn nghyda'i weithredoedd."

**CRISTION.** A pha beth wedi hyny?

**FFYDDION.** Yna y rhedodd yn boethlyd i fy meddwl beth bynag a ddywedai, a pha fodd bynag y gwenieithiai, mai fy ngwerthu yn gaethwas a wnai wedi fy nghael i'w dy. Am hyny erchais iddo dewi, oblegyd na ddeuwn yn agos at ddrws ei dy. Ar hyny difenwodd fi, a dywedodd y gyrai ef un ar fy ol, ag a wnai y ffordd yn chwerw i'm henaid. Felly troais ymaith; ond ar fy ngwaith yn cilio i ffordd, teimlwñ ef yn ymaiflyd ynof, ac yn rhoddi i mi y fath lusgiad creulon yn ol fel y meddyliais iddo dynu rhan o honof ar ei ol. Parodd hyn i mi waeddi, "Ystruan o ddyn wyf fi!" Rhuf. 7. 24. Felly aethum yn mlaen i fynu y bryn.

Gwedi myned tua haner y ffordd i fynu, edrychais yn ol, a gwelwn un yn dyfod ar fy ol yn chwimwth fel y gwynt; felly goddiweddodd fi yn union yn y man y saif yr eisteddle.

**CRISTION.** Dyna'r man, ebe Cristion, yr eisteddais inau

## 78 CRISTION A FFYDDION YN YMDDYDDAN.

i orphwys o; ond y man, wedi sy nal gan gwsg, y collais y llyfr hwn o fy mynwes.

**FFYDDION.** Frawd anwyl, gad i mi orphen. Yn y man y daeth y dyn o hyd i mi ni chefais ganddo ond gair a dyrnod ; i lawr y tarawodd fi, ac a'm gwnaeth fel un marw. Ond pan ddaethum ychydig ataf sy hun, gofynais iddo paham y gwnaethai felly â mi ? Yntau a ddywedodd, O achos sy ngogwyddiad dirgel at yr Adda cyntaf. A chyda hyny rhoddodd i mi ddyrnod marwol ar fy mron, ac a'm bwriad i lawr ar fy nghefn. Felly gor-weddais wrth ei draed fel un marw, fel o'r blaen. Pan ddadebrais eilwaith, llefais arno am drugaredd : ond eb efe, " Ni wn i ddim pa fodd i drugarhau ;" ac ar hyny curodd fi i lawr drachefn. Gwnaethai ddyben arnaf, yn ddiau, oni buasai i un ddyfod heibio, ac erchi iddo beidio.

**CRISTION.** Pwy oedd yr hwn a archodd iddo beidio ?

**FFYDDION.** Nid adwaenwn ef ar y cyntaf ; ond wrth iddo fyned heibio, gwelais y tyllau yn ei ddwylaw a'i ystlys ; yna penderfynais mai ein Harglwydd ydoedd. Felly aethum i fynu y bryn.

**CRISTION.** Y gwr hwnnw a'th oddiweddodd oedd Moses. Nid yw efe yn arbed neb ; ac ni all drugarhau wrth y rhai a droseddant ei gyfraith.

**FFYDDION.** Gwn hyny yn bur dda ; nid hwn oedd y tro cyntaf y bu iddo gyfarfod â mi. Efe oedd yr hwn a ddaeth ataf pan oeddwn yn trigo yn ddiofal gartref, ac a ddywedodd wrthyf y llosgai efe fy nhŷ uwch fy mhen os arhoswn yno.

**CRISTION.** Ond oni welaist ti y ty oedd yno ar ben y bryn hwnnw y cysfarfu Moses â thi ar ei ochr ?

**FFYDDION.** Do, a'r llewod hefyd, cyn dyfod ato. Ond am y llewod, meddyliwn mai cysgu yr oeddynt, gan mai canol-dydd ydoedd ; a chan fod genyf gymaint o'r dydd o'm blaen, aethum heibio i'r Porthor, a daethum i lawr y bryn.

**CRISTION.** Dywedodd wrthyf, yn wir, iddo dy weled yn pasio ; ond buasai yn dda genyf pe galwesit yn y ty ; canys danghosasant i ti gynifer o ryfeddodau, fel mai priu iawn yr anngofiesit hwynt drwy dy oes. Ond,

atolwg, mynega i mi, a gyfarfuost ti â neb yn Nyffryn Darostyngiad?

**FFYDDION.** Do, cyfarfum ag un o'r enw Anfoddog, yr hwn a fynai fy mherswadio i droi yn ol gydag ef: ei reswm ydoedd, nad oedd dim anrhyydedd i'w gael yn y dyffryn hwnw. Ac heblaw hyny, eb efe, os byddi mor ffyl a myned y ffordd yna, digi dy holl gyfeillion, megys Balchder, Uchder, Hunandyb, Bydol Ogoniant, ac ereill, y rhai a wyddai a dramgwyddent wrthyf os gwnawn fy hun yn fath ynsyd-ddyn ag ymlusgo drwy y dyffryn hwn.

**CRISTION.** Wel, pa ateb a roddaist iddo?

**FFYDDION.** Dywedais wrtho, er y gallai y rhai a enwasai fy ngalw yn gar iddynt, a hyny yn gyflawn (canys fy ngheraint oeddynt yn ol y cnawd), eto, er pan aethum yn bererin, gwadasant fi, a minau a'u gwrthodais hwythau: ac am hyny nad oeddynt yn awr ddim mwy i mi na phe buasent erioed heb fod o'm cenedl. Heblaw hyny, dywedais am y dyffryn hwn ei fod wedi ei gamddarlunio yn gwbl; canys o flaen anrhyydedd yr â gostyngeidd-rywedd, ac uchder ysbryd o flaen cwyp. Am hyny, ebe fi, gwell genyf fyned trwy y dyffryn hwn i feddiannu yr hyn y mae y doethaf yn ei gyfrif yn anrhyydedd, na dewis yr hyn a gyfrifai ef deilyngaf o'n serchiadau.

**CRISTION.** A gyfarfuais ti â dim arall yn y dyffryn hwnw?

**FFYDDION.** Do, ag un a elwir Cywilydd; ond o bawb a gyfarfum ar fy mhererindod, hwn, tybygwn, oedd a'r enw mwyaf chwithig arno. Cymerai arall ei nacâu wedi ychydig o ymresymu; ond am y Cywilydd haerllug hwn, nid oedd byth daw i gael arno.

**CRISTION.** Paham, beth a ddywedodd wrthyt?

**FFYDDION.** Beth? gwrthddadleuodd yn erbyn crefydd ei hun. Dywedodd mai peth gwael, isel, a ffyl iawn oedd i ddyn feddwl am grefydd. Hônai mai peth anwraidd oedd cydwybod dyner; ac nad oedd i ddyn wyllo ar ei eiriau a'i weithredoedd, fel ag iddo ymrwymo i ymgadw oddiwrth yr ymffrost penrhyydd a arfera dewrion yr oes, ond yn ei osod yn warthnod ei dymhor. Gwrthddadluai

hefyd nad oedd nemawr o'r rhai galluog, cyfoethog, a doeth o'r un feddwl a mi; ac na fu neb o honynt heb eu perswadio yn gyntaf i fod yn ffyliaid, trwy ymroddi yn ewyllysgar i golli'r cwbl a'r a seddant i feddiannu yr hynnas gwyr neb pa beth, 1 Cor. 1. 26; 3. 18; Phil. 3. 7—9; Ioan 7. 48. Heblaw hynny cododd wrthddadl oddiar sefyllfa a chyflwr isel a gwael y pererinion yn inhbob oes; ac edliwiodd hefyd i mi eu hanwybodaeth a'u hanfedrusrwydd yn mhob dysgeidiaeth naturiol. Ié, daliodd ataf fel hyn yn nghylch llawer iawn o bethau na chrybwyllef yn llawn yma, megys, mai cywilydd oedd fod neb yn wylo ac yn griddfan wrth wrando pregethiad y gair, a chywilydd dysfod adref wedi hynny dan ochain a 'thuchan; mai cywilydd oedd ceisio maldeuant gan gyrrdog am feiau bychain, a thalu adref yr hyn a gymerais oddiar neb. Dywedodd hefyd, fod crefydd yn dyeithro dyn i'r gwyr mawrion, oherwydd ychydig ddrygau (y rhai a alwodd ar enwau teg), ac yn peri iddo arddelwi a pharchu rhai gwael, am eu bod o'r un brawdoliaeth crefyddol. Ac onid yw hyn, eb efe, yn gywilydd?

CRISTION. A pha beth a ddywedaist wrtho?

FFYDDION. Dywedyd? ni wyddwn beth i ddywedyd ar y cyntaf. Ié, bu mor galed arnaf fel y cododd syngwaed i fy ngwyneb; a'r Cywilydd hwn a'i cododd, a bu ag os iddo fy ngorthrechu yn holol. Ond o'r diweddf, dechreuaus ystyried fod yr hyn sydd uchel gyda dynion yn ffi iidd ger bron Duw, Luc 16. 15. Meddyliais drachefn, Dywed y Cywilydd hwn i mi beth yw dynion; ond ni ddywed beth yw Duw neu ei air. Ac, hefyd, ystyriaus na fernir ni i farwolaeth nac i fywyd yn nydd y farn yn ol dewr ysbrydoedd y byd, ond yn ol doethineb a chyfraith y Goruchaf. Am hynny, ebe fi, Y peth a eilw Duw yn oreu, sydd oreu, er i'r holl fyd fod i'w erbyn. Gan fod Duw, ynte, yn rhoddi y blaenoriaeth i grefydd, ac i gydwybod dyner; gan mai y rhai a'u gwnant eu hunain yn ffol ér mwyn teyrnas nefoedd sydd ddoethaf; a bod y tlawd a gâr Grist yn gyfoethocach na'r gwr a'i casâ; ymaith, Gywilydd, gelyn fy iachawdwriaeth wyt. A wrandawaf fi arnat o flaen fy Arglwydd Goruchaf? on

y, pa fodd yr edrychaf yn ei wyneb yn ei ddyfodiad? rc 8. 38. Pe cywilydd fyddai arnaf o'i ffyrdd a'i ision yn awr, pa fodd y gallwn ddysgwyl ei fendith? d, yn wir, dyhiryn hyf oedd y Cywilydd hwn; prin y lwn ymysgwyd o'i gwmni; ie, deuai ar fy ol gan sisial nydd yn fy nglust am un neu arall o waeleddau fydd. Ond o'r diweddaid dywedais wrtho mai llwyr ofer dai ei waith; canys yn y pethau a ddirmygid gando'r gwelwn i fwyaf o ogoniant: ac felly o'r diweddaid cefais laen ar yr un taerdrwg hwn. Ac wedi ymysgwyd iwrtho, dechreuais ganu fel hyn:—

Y profiadau sy'n cyfarfod  
Pawb sy'n teithio mewn uffud-dod  
I'r wir alwad nefol, hyfryd,  
Ynt yn aml ac yn enbyd,—

Gwedi eu trefnu a'u gweddeiddio  
I'n drwg natur sydd yn effro;  
Deuant am ein penau beunydd,  
Deuant, deuant fyth o newydd:—

Fel y gallom yn aflawen,  
Naill ai 'nawr ai rhyw bryd amgen,  
Trwyddynt gael ein dal a'n gorvod,  
Ac o'u plegyd gael ein gwrthod.

O, gan hyny, nac anngofied  
Pererinion fod yn gwylled;  
Twyll drwg-ddyнион gwrthwynebont  
Can wroled ag y gallont.

**C**RISTION. Da genyf, fy mrawd, i ti wrthsefyll y dyn hwn mor wrwl; canys o bawb, fel y dywedaist, efe menwir fwyaf; oherwydd y mae mor haerllug a'n n yn yr heolydd, a'n dwyn i gywilydd o flaen pawb; y yw, peri i ni gywilyddio am yr hyn sy dda. Ond b'ai ei fod yn hyf iawn, ni cheisiai wneud yr hyn a. Eithr poed i ni eto ei wrthwynebu; canys er ei ymffrost, dyrchafu ffyliaid y mae, ac nid neb arall.

**82 SIARADUS A FFYDDION YN YMDDYDDAN.**

“Y doethion,” medd Solomon, “a etifeddant anrhydedd : ond gwarth fydd dyrchafiad ffyliaid,” Diar. 3. 35.

**FFYDDION.** Meddyliwyf y dylem lesain am gymhorth yn erbyn Cywilydd ar yr Hwn a fynai i ni fod yu wrwl dros y gwirionedd ar y ddaear.

**CRISTION.** Gwir a ddywedi ; ond a gyfarfuais a neb arall yn y dyffryn hwnw?

**FFYDDION.** Naddo ; canys yr oedd yr haul yn tywynu arnaf yr holl ran arall o'r fiordd trwy hwnw, ac hefyd trwy Lyn Cysgod Angau.

**CRISTION.** Da i ti hyny ; gwn yn dda mai gwahanol iawn a fu gyda mi. Can gynted ag yr aethum i'r dyffryn hwnw, bu brwydr arswyodus rhngof a'r ellyll aflan hwnw Apolyon ; ie, yn wir, meddyliais y buasai yn fy lladd, yn enwedig pan y safodd fi i lawr, ac y gwasgodd fi dano, fel pe buasai am fy llethu yn ddarnau ; oherwydd syrthiodd fy nghleddyf o'm llaw pan y taflodd fi i lawr ; ie, dy-wedodd wrthyf ei fod yn sicr o honof; eithr llesfais ar Dduw, ac efe a'm clybu, ac a'm gwaredodd o'm holl drallodau. Yna aethum i mewn i Lyn Cysgod Angau, ac ni chefais lewyrch goleuni am agos i hanner y ffordd trwyddo. Meddyliais drachefn a thrachefn y cawswn fy lladd yno ; ond o'r diwedd gwawriodd y dydd, cododd yr haul, ac aethum trwy yr hyn oedd yn el o hono gyda mwy o rwyddineb a llonyddwch.

Yna gwelwn yn fy mreuddwyd, fel yr oeddynt yn myned yn mlaen, ddygwydd i Ffyddlon droi ei ben i edrych o'r naill du, a gwelai wr a elwir Siaradus yn cerdded encyd oddiwrthyst ; canys yr oedd yn y fan hon ddigon o le iddynt oll gerdded. Gwr tal ydoedd, a thecach yr olwg o bell nag o agos. Cyfarchwyd y gwr hwn gan Ffyddlon fel hyn :—

**FFYDDION.** Y cyfaill, i ba le yr âi? Ai tua'r wlad nefol yr wyt yn teithio?

**SIARADUS.** Ie, yno yr wyf yn cyrchu.

**FFYDDION.** Purion ; selly gobeithiaf y cawn dy gwmnia.

**SIARADUS.** Byddaf yn gydymaith i chwio ewyllys fy nghalon.

**FFYDDLON.** Awn yn mlaen, gan hynny, gyda'n gilydd, a threuliwn ein hamser mewn ymddyddan am bethau buddiol.

**SIARADUS.** Ymddyddan â thi neu ryw un arall am bethau da sydd hyfryd iawn genyf, a llon genyf gyfarfod â rhai sy'n tueddu at waith mor dda; ac, a dywedyd y gwir, nid oes ond ychydig yn gofalu am dreulio eu hamser fel hyn wrth ymdeithio, ond dewisant yn hytrach ymddyddan am bethau anfuddiol; a bu hyn yn flinder i mi.

**FFYDDLON.** Mae hynny, yn wir, yn beth galarus; canys pa bethau mor deilwng o dafod a genau dynion ar y ddaear a phethau Duw y nefoedd?

**SIARADUS.** Yr wyf yn dy hoffi yn fawr iawn, canys y mae dy ymadroddion yn argoeli argyhoeddiad trwyndl; a chwanegaf, Pa beth sydd mor hyfryd ac mor fuddiol ag ymddyddan am bethau Duw? Pa bethau mor ddimunol? hynny yw, os oes gan ddyn hyfrydwch mewn pethau rhyfeddol. Megys, os hyfryd gan ddyn siarad am hanesiaeth neu ddirgelion pethau; neu os câr dyn ymddyddan am wyrthiau, rhyfeddodau, neu arwyddion; yn mha le y caiff y pethau hyn wedi eu coffâu mor hyfryd, a'u hysgrifenu mor felus, ag yn yr Ysgrythyr Lan?

**FFYDDLON.** Gwir; ond ein llesâu trwy'r fath ymddyddan a ddylai fod ein hamcan.

**SIARADUS.** Dyna'r peth a ddywedais; canys llesiol yw ymddyddan am y fath bethau; oblegyd trwy hynny dichon dyn gyrhaedd gwybodaeth am lawer o bethau, megys gwagedd pethau daearol, a buddioldeb pethau nefol. Fel yna yn gyffredinol; ond yn fwy neillduol, oddiwrth hyn gall dyn ddysgu yr angenrheidrwydd am ailenedigaeth, annigonolrwydd ein gweithredoedd, yr angenrheidrwydd am gyflawnder Crist, &c. Heblaw hynny, dichon dyn trwy hyn ddeall beth yw edifarhau, credu, gweddio, dyoddef, a chyffelyb bethau: dichon trwy hyn, hefyd, ddyagu beth yw addewidion a chysuron mawrion yr efengyl, er cysur iddo ei hun. Yn mhellach, dichon iddo

## 84 CRISTION YN DARLUNIO NODWEDD SIARADUS.

trwy hyn ddysgu gwrthbrofi syniadau gau, amdilffyn y gwirionedd, ac addysgu yr anwybodus.

**FFYDDION.** Gwir yw hyn oll; da genyf glywed y pethau hyn oddiwrthyt.

**SIARADUS.** Ysywaeth! y diffyg o hyn yw yr achos fod can lleied yn deall yr angenrheiderwydd am ffydd, ac am waith gras yn eu heneidiau, i'w cymhwysio i fywyd tra-wyddol; ond yn ddiarwybod yn byw ar weithredoedd y ddeddf, trwy y rhai nis gall dyn mewn un modd gyrhaedd teyrnas nefoedd.

**FFYDDION.** Ond, gyda'th genad, rhodd Duw yw gwybodaeth nefol o'r pethau hyn; ac ni all neb eu gwybod trwy ddyfalwch dynol, neu trwy ymddyddan am danynt yn unig.

**SIARADUS.** Gwn hyny yn bur dda, oblegyd ni ddichon dyn dderbyn dim oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef; o ras y mae'r cwbl, ac nid o weithredoedd. Gallwn roddi i chwi gant o ysgrifyrhyrau i brofi hyn.

**FFYDDION.** Wel, ynte, ebe Ffyddlon, beth a gaiff y pwnc neillduol hwnnw fod y sylfaenwn ein hymddyddan arno yn awr?

**SIARADUS.** Y peth a fynoch. Siaradaf am bethau nefol neu bethau daearol, pethau moesol neu bethau esengylaidd, pethau cysegredig neu bethau cyffredin, pethau a fu neu bethau a fydd, pethau tramor neu bethau cartrefol, pethau hanfodol neu bethau amgylchiadol, ond i'r cwbl fod er ein llesâd.

**FFYDDION.** Ar hyn dechreuodd Ffyddlon rysfeddu; a chan ddynesu at Gristion (canys rhodiodd yr holl anser wrtho ei hun), dywedodd wrtho yn ddystaw, Oh'r cydymaith gwych sydd genym! Diau bydd y gwr hwn yn bererin rhagorol.

**CRISTION.** Ar hyn gwenodd Cristion yn wylaidd, a dywedodd, Y gwr hwn, à'th ennillod gymaint, a dwylla à'i dafod ugain o ddynion heb ei adnabod.

**FFYDDION.** A adwaenost ti ef, ynte?

**CRISTION.** Ei adnabod? Adwaenwyf, yn well nag yr adnebydd ei hun.

**CRISTION YN DARLUNIO NODWEDD SIARADUS. 85**

**FFYDDION.** Atolwg, pwysdyw efe?

**CRISTION.** Ei enw yw Siaradus: preswylia yn ein tref ni. Synwyf dy fod heb ei adnabod; ond rhaid ystyried fod ein tref yn fawr.

**FFYDDION.** Mab i bwy ydyw? A thua pha fan y mae yn trigo?

**CRISTION.** Mab yw i un a elwir Chwedl Deg. Trigai yn Heol y Glebar, ac adwaenir ef gan bawb o'i gydnabod wrth yr enw Siaradus, o Heol y Glebar; ac er teced ei dafod, creadur gwael ydyw.

**FFYDDION.** Wel, ymddengys yn ddyn prydweddol iawn.

**CRISTION.** Hyny yw, i'r sawl sydd heb ei gwbl adnabod, canys oddicartref y mae efe oreu; ger ei gartref eithaf hyll ydyw. Pan ddywedi mai dyn prydweddol yw, dyg hyny ar gof i mi yr hyn a greffais arno yn ngwaith y lluniedydd, arluniau yr hwn a edrychent yn wych o bell, ond yn eu hymyl yn llai dymunol.

**FFYDDION.** Parod wyf i feddwl mai cellwair yr wyt, am wenu o honot.

**CRISTION.** Na ato Duw i mi gellwair (er i mi wenu) yn y fath fater a hwn, na chyhuiddo neb ar gam. Rhoddaf i ti helaethach hysbysiad am dano. Dyn ydyw am bob math o gwmni, a phob math o siarad; fel y sieryd â thi yn awr, felly y gwna yn y dafarn; a pho mwyaf o ddiod a fydd yn ei ben, mwyaf oll o'r pethau hyn sydd yn ei enau. Nid oes dim lle i grefydd yn ei galon, ei dy, na'i ymarweddiaid; mae y cwbl a fodd ar ei dafod, a thrystio ag ef yw ei grefydd.

**FFYDDION.** A ddywedi felly? Yna fe'm twyllwyd yn fawr yn y dyn hwn.

**CRISTION.** Twyllo! do, yn ddiau. Cofia y ddihareb, "Dywedant, ac nis gwnant," ond nid mewn ymadrodd y mae teyrnas Dduw, ond mewn gallu, Mat. 23. 3; 1 Cor. 4. 20. Sieryd am weddi, am edifeirwch, am ffydd, ac am adeniedigaeth; ond ni wyr ddim ond i siarad am danynt yn unig. Bum yn ei deulu, a deliais sylw arno gartref ac oddicartref; a gwn mai'r gwir a ddywedais am dano. Mae ei dy can waed o grefydd ag yw gwyn wy o.

## 86 CRISTION YN DARLUNIO NODWEDD SIARADUS.

flas. Nid oes yno na gweddi, nac arwydd edifeirwch am teochod; ie, mae'r anifail, yn ei ryw, yn gwasanaethu Duw yn llawer gwell nag ef. Gogau, gwarth, a chwilydd i grefydd yw i bawb a'i hedwyn, Rhuf. 2. 24, 25; a phrin y caiff air da yn yr holl ran hōno o'r dref lle mae yn byw, o'i achos ef. Fel hyn y dywed y bobl a'i hadnabydd am dano, "Angel pen fiordd, diawl cil pentan, yw." Mae ei deulu, drusain, wedi profi hyn; mae mor answyn, taeog, a direswm wrth ei weision, fel na wyddant pa fod i wneud dim iddo, neu siarad ag ef. Y rhai a sarchnatânt ag ef a ddywedant, Gwell yw marchnata a Thwre nag ag ef, am y caem fwy o degwch oddiar ei law. Y Siaradus hwn (os gall) a â trostynt, a'u twylla, a'u gorthryma, ac a'u colleda. Heblaw hyny, dysg ei feibion i ddilyn ei lwybrau; ac os cenfydd yuddyd betrusder ssol (canys felly y geilw yr ymddanghosiad cyntaf o gydwybod dyner), geilw hwynt yn ynsydion a phenbyliaid, a phrin y gesyd hwynt ar unrhyw orchwyl, neu y llefara air o gammoliaeth iddynt yn ngwydd ereill. O'm rhan 1, barnwyf ddarfod iddo, drwy ei fuchedd drygionus, beri i lawer dramgwyddo a syrthio; ac y bydd iddo, oddieithr i Dduw ragflaenu hyny, fod yn ddinystri i lawer mwy.

**FFYDDION.** Wel, fy mrawd, yr wyf yn rhwym i'th goelio, nid yn unig am dy fod yn dywedyd yr adwaenost ef, ond hefyd am dy fod yn tystio am ddynion fel Cristion. Canys nis gallaf feddwl dy fod yn dywedyd y pethau hyn o ddrwg-ewyllys, ond am eu bod fel y dywedaiast.

**CRISTION.** Pe nad adwaenasant ef yn well na thi, gallaswn, ond odid, feddwl am dano fel y meddyliaist ti ar y cyntaf; ie, pe cawswn yr hanes hwn oddiwrth elynion crefydd yn unig, tybiaswn mai enllibiaeth fuasai—rhan a syrth yn aml ar broffes ac enw dynion daionus allan o enau dynion halogedig. Ond yr holl bethau a adroddais am dano, a llawer ereill cynddrwg, a allaf fi, o'm gwybodaeth fy hun, brofi ei fod yn euog o honyn. Heblaw hyny, y mae ar ddynion da gywilydd o hono; nis gallant ei alw yn frawd nac yn gysaill; ei enwi yn eu plith a bâr ildynt wrido, os adwaenant ef.

**FFYDDION.** Wel, gwelaf mai un peth yw dywedyd, a pheth arall yw gwneuthur. Ac o hyn allan craffaf yn well ar y gwahaniaeth.

**CRISTION.** Y maent yn ddau beth yn wir, ac mor wa-hanol ag yw'r enaid a'r corff; canys megys nad yw corff heb yr enaid ond celain farw, *yr un modd*, nid yw siarad, a hyny yn unig, ond celain farw. Enaid crefydd yw y rhan ymarferol. "Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad yw hyn, ymweled a'r ymddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd; a'i gadw ei hun yn ddi-frycheulyd oddiwrth y byd," Iago 1. 27. Nid yw y Siaradus hwn yn deall hyn; y mae yn tybied y gwna gwrando a dywedyd Gristion da! ac fel hyn y twylla ei enaid ei hun. Nid yw gwrando ond megys hau yr had; ac nid digon yw siarad i brofi fod ffrwyth mewn gwirionedd yn y galon a'r fuchedd. Bydded sicr genym, y bernir dynion yn y farn yn ol eu ffrwythau, Mat. 13. 23. Y pryd hwnnw ni ddywedir, A gredasoch chwi? ond, Ai gwneuthurwyr oeddych, ynte siaradwyr yn unig? felly y'u bernir. Cyffelybir diwedd y byd i'n cynhausaf ni; a gwyddoch nad yw dynion yn y cynhausaf yn edrych am ddim ond ffrwyth. Nid am y bydd dim yn gymeradwy heb ei fod o ffydd; ond dywedyd hyn yr wyf i ddangos mor ddisylw fydd proffes Siaradus yn y dydd hwnnw.

**FFYDDION.** Dyg hyn ar gof i mi ddarluniad Moses o'r anifail glân, Lef. 11.; Deut. 14. Y mae y fath ag sydd yn holli yr ewin, ac yn cnoi ei gil; nid yn holli yr ewin yn unig, neu yn cnoi ei gil yn unig. Mae yr ysgyfarnog yn cnoi ei gil, ond er hyny aflan yw, am nad yw yn holli yr ewin. Darlun teg o Siaradus ydyw: y mae ef yn cnoi y cil, y mae yn ceisio gwybodaeth; y mae efe yn cnoi ar y gair, ond nid yw yn ffiorchogi yr ewin. Nid ymedy a fforda pechaduriaid; ond, fel yr ysgyfarnog, y mae ganddo droed ci neu arth, ac am hyny yn aflan.

**CRISTION.** Traethaist, am a wn i, wir ystyr efengylaidd y geiriau. Chwanegaf un peth arall: Geilw Paul rai dynion, a'r rhai hyny yn siaradwyr mawr hefyd, yn efydd yn seinio, a symbol yn tincian, 1 Cor. 13. 1—3; hyny yw, fel y dehongla'r geiriau mewn lle arall, pethau dienaid, yn

## 88 FFYDDION A SIARADUS YN YMDDYDDAN.

rhoddi sain, 1 Cor. 14. 7. Pethau dienaid, hyny yw, dynion heb wir ffydd a gras yr efengyl ; ac, o ganlyniad, pethau na osodir byth yn nheyrnas nef yn mhllith y rhai sydd yn blant y bywyd ; er i'w sain, yn eu siarad, fod fel pe byddai dasod neu lais angel.

**FFYDDION.** Wel, nid oeddwn mor hoff o'i gwmni ar y cyntaf, ond yr wyf wedi llwyr ddiflasu arno yn awr. Pa beth a wnawn i gael gwared e hono ?

**CRISTION.** Cymer fy nghyngor, a gwna fel yr archwys, a chai weled y diflasa yntau yn fuan ar dy gwmni, oddi-eithr i Dduw gyffwrdd â'i galon a'i chyfnewid.

**FFYDDION.** Beth a fynit i mi ei wneuthur ?

**CRISTION.** Dos ato, a dechreua ryw ymddyddan difrifol yn nghylch grym crefydd, a gofyn iddo yn eglur (wedi iddo ei gymeradwyo, canys gwna hyny), a osodwyd y peth hwn i fynu yn ei galon, ei dy, neu ei fuchedd ?

**FFYDDION.** Yna nesaodd Ffyddlon at Siaradus, a gofynodd iddo, Pa fodd y mae gyda thi yn awr ?

**SIARADUS.** Go wych, diolch i ti ; meddyliais y cawsem lawer o ymddyddan cyn hyn.

**FFYDDION.** Wel, os myni, dechreewn arni yn awr ; a chan dy fod wedi gadael i mi roi testyn i lawr, dyma ſe. Yn mha fodd y mae gras cadwedigol Duw yn ei ddangos, pan y byddo yn nghalon dyn ?

**SIARADUS.** Gwelaf wrth hyn fod yn rhaid i'n hymddyddan fod yn nghylch *grym* pethau. Wel, testyn da iawn ydyw, a boddlonwyf i'th ateb. Cymer fy ateb yn fyr fel hyn. Yn gyntaf, Lle bo gras Duw yn y galon, y mae yn peri fod yno waeddi mawr yn erbyn pechod. Yn ail—

**FFYDDION.** Na, aros, ystyriwn un peth ar unwaith. Tybiwyf y dylesit ddywedyd, yn hytrach, fod gras yn ei amlygu ei hun trwy ogwyddo yr enaid i ffieiddio pechod.

**SIARADUS.** Wel, pa ragoriaeth sy rhwng gwaeddi yn erbyn, a ffieiddio, pechod ?

**FFYDDION.** Oh ! llawer iawn. Dichon dyn waeddi yn erbyn pechod o gyfrwysdra ; eithr nis gall ffieiddio pechod ond trwy rinwedd dygasedd duwiol yn ei erbyn. Clywais lawer yn gwaeddi yn erbyn pechod o'r pulpud, y rhai er

hynty a gyd-ddygient ag ef yn eu calonau, eu tai, a'u hymddygiad, Gen. 39. 15. Gwaeddodd meistres Joseph â llef uchel, fel pe buasai hi yn hynod ddiwair; ond er hynty yn ewyllysgar i gyflawni astendid ag ef. Gwaedda rhai yn erbyn pechod, fel y gwaedda'r fam yn erbyn ei phlentyn yn ei mynwes, gan roddi enwau drwg arno, ac wedi hynt yn ei gofleidio ac yn ei gusanu.

SIARADUS. Cynllwyn i ddal yr ydwyt, gwelaf.

FFYDDION. Nage ddim; nid wyf ond ceisio gosod pethau yn deg. Ond beth yw yr ail arwydd sydd genyt i brofi gwaith gras yn y galon?

SIARADUS. Gwybodaeth helaeth yn nirgeledigaethau yr efengyl.

FFYDDION. Dylasai yr arwydd hwn fod yn gyntaf; ond cyntaf neu olaf, gau yw hwn hefyd; canys dichon dyn gyrhaedd gwybodaeth, ie, llawer o wybodaeth, yn nirgeledigaethau yr efengyl, ac eto heb ddim o waith gras yn yr enaid. Ie; er fod gan ddyn bob gwybodaeth, gall er hynt fod yn ddim, a thrwy hynt heb fod yn blentyn i Dduw, 1 Cor. 13. 2. Pan ofynodd Crist i'w ddysgyblion, "A' ddarfu i chiwi ddeall hyn oll?" ac iddynt hwythau ateb, "Do," ychwanegodd, "Gwyn eich byd os gwnewch hwynt." Ni esyd y fendith yn eu gwybod, ond yn eu gwneuthur, hwynt. Canys y mae gwybodaeth heb wneuthur yn ei chanlyn. "Yr hwn a wybu ewyllys ei arglydd, ac ni's gwnaeth." Dichon dyn wybod fel angel, ac eto heb fod yn Gristion; gan hynt, nis gall dy arwydd o hono fod yn wir. Mae gwybod, yn wir, yn boddloni siaradwyr ac ymffrostwyr, ond gwneuthur sydd yn rhyngu bodd Duw. Gwir na all yr enaid fod yn dda heb wybodaeth, canys heb hynt drwg ydyw. Y mae, gan hynt, wybodaeth a gwybodaeth;—gwybodaeth sydd yn ymfoddloni ar syniad noeth am bethau, a gwybodaeth a g y mae'r grasau o ffydd a chariad yn gysylltiedig â hi, yr hon a esyd ddyn ar waith i wneuthur ewyllys Duw o'r galon: y gyntaf a foddlona y siaradwr; ond ni foddlonir y. gwir Gristion heb y llall. "Gwna i mi ddeall, a chadwaf dy g'fraith; ie, cadwaf hi a'm holl galon," Psal. 119. 34.

## 90 FFYDDION A SIARADUS YN YMDDYDDAN.

SIARADUS. Yr ydwyt yn ceisio fy rhwydo eto ; **nid yw hyn er adeiladaeth.**

FFYDDION. Wel, os gweli yn dda, dyro arwydd **arall o'r modd** y mae gras yn dadguddio ei hun lle y mae.

SIARADUS. Na wnaf ; canys gwelaf na allwn gytuno.

FFYDDION. Wel, os na wnei, a roddi di genad i mi wneud hyn?

SIARADUS. Gwna fel y mynlost dy hun.

FFYDDION. Mae gwaith gras yn yr enaid yn ei ddangos ei hun, naill ai i'r hwn a'i meddianno, neu i ereill.

I'r hwn a'i meddianno, fel hyn : Argyhoedda ef o bechod, yn enwedig o lygredigaeth ei natur, a'r pechod o anghrediniaeth, am yr hwn y'i demnir yn sicr oddieithr iddo gael trugaredd oddiar law Duw, trwy ffydd yn Iesu Grist. Y golwg a'r ystyriaeth hwn a weithia ynddo dristwch a chywilydd am bechod, Psal. 38. 18 ; Jer. 31. 19 ; Ioan 16. 8 ; Rhuf. 7. 24 ; Marc 16. 16 ; Gal. 2. 16 ; Dat. 1. 6. Yn mhellach, mae yn cael dadguddiad o Iachawdwr y byd, a'r angenrheiddrwydd holol o ymostwng iddo am fywyd ; y pryd hwn teimla newyn a syched am dano—teimladau y perthyna yr addewid iddynt. Yn awr, yn ol fel y byddo grym neu wendid ei ffydd yn y Gwaredwr, y bydd ei lawenydd, ei heddwch, ei serch at santeiddrwydd, ei ddymuniad i'w adnabod yn well, a'i wasanaethu yn y byd hwn. Ond, meddaf, er ei fod fel hyn yn dangos ei hun iddo, eto anfynych y gall benderfynu mai gwaith gras ydyw ; oherwydd y mae ei lygredd a'i reswm (trwy ei gamddefnyddio) yn peri i'w feddwl gamfarnu yn y mater hwn ; ac arn hynny, rhaid yw bod barn bwyllog iawn yn yr hwn sydd a'r gwaith yma ynddo cyn y gallo wybod yn ddilys mai gwaith gras ydyw, Ioan 16. 9 ; Gal. 2. 15, 16 ; Act. 4. 12 ; Mat. 5. 6 ; Dat. 21. 6.

I ereill amlygir ef fel hyn :—

1. Trwy gyffes brofiadol o'i ffydd yn Nghrist. 2. Trwy fywyd cysatebol i'r gyffes honno ; sef bywyd o sanctiddrwydd, santeiddrwydd calon, santeiddrwydd teulu (os bydd teulu ganddo), a santeiddrwydd ymddygiad yn y byd, yr hyn, yn gysfredinol, sy'n dysgu iddo fliciddio ci

bechod o'i galon, ac ef ei hunan yn y dirgel o'i herwydd ; ei ddarostwng yn ei deulu, ac i ddwyn yn mlaen sant-eiddrwydd yn y byd, nid trwy siarad yn unig, megys y gwna dyn rhagrithiol neu siaradus, ond trwy ymostyngiad ymarferol, mewn ffydd a chariad, i nerth y gair, Job 42. 5, 6; Psal. 50. 23; Ezcc. 20. 43; Mat. 5. 8; Ioan 14. 15; Rhuf. 10. 10; Ezcc. 36. 25; Phil. 1. 27; 3. 17. Ac yn awr, syr, os oes genyt ddim i'w ddywedyd yn erbyn yr eglurhad byr yma, yn nghylch gwaith gras ; neu yn erbyn y modd y mae yn ei ddangos ei hunan, dywed ; onidê, dyro genad i mi ofyn i ti ail gwestiwn.

**SIARADUS.** Nagê, nid fy lle i yn awr yw gwrthddadleu, ond gwrando. Moes glywed, gan hyny, dy ail gwestiwn.

**FFYDDION.** Dyma fe. A ydwyt yn profi y rhan gyntaf o'r eglurhad hwn o hono ? Ac a ydyw dy fuchedd a'th ymddygiad yn tystiolaethu hyny ? Neu ynte a ydyw dy grefydd yn sefyll yn hyn, ac nid mewn gweithred a gwirionedd ? Atolwg, os ydwyt ar fedr sy ateb, na ddywed ddim mwy nag a wyddost y dyry yr uchel Dduw ei Amen wrtho, na dim ychwaith ond a all dy gydwybod dy gyfiawnhau ynddo ; canys nid yr hwn sydd yn ei ganmol ei hun sydd gymeradwy, ond yr hwn y mae'r Arglwydd yn ei ganmol. Heblaw hyny, dywedyd fy mod i fel a'r fel, pan ddywed fy ymarweddiaid a'm cymydogion oll mai celwyddog wyl, sydd ddrwg mawr.

Yna dechreuodd Siaradus wrido : ond wedi dadebru ychydig, atebodd fel hyn : Deui yn awr at brofiad, cydwybod, a Duw ; ac apeli ato ef am gyfiawnhad o'r hyn a draethir. Ymddyddan o'r fath hwn ni ddysgwyliais ; ac nid oes yn fy mryd i ateb y fath o'fynion ; oblegyd ni chyfrifaf fy hun yn rhwym i hyny, oddieithr dy fod yn cymeryd arnat fod yn holwyddorwr ; a phe byddet y fath wr, gallwn wrthod dy gymeryd yn farnwr. Ond, atolwg, paham y gofyni i mi y fath gwestiynau ?

**FFYDDION.** Am fy mod yn dy weled yn barod iawn i siarad, ac am na wyddwn a oedd genyt ddim amgen na syniad noeth. Heblaw hyn, a dweyd yr holl wir, clywais am danat mai dyn ydwyt sydd a'i grefydd yn sefyll mewn siarad yn unig, a bod dy ymddygiad yn gwadu dy

broffes. Dywedant hefyd mai brycheuyn ydwyt yn mhlith Cristionogion; a bod crefydd yn dyoddef oblegyd dy ymddygiaid annuwiol; fod rhai eisoes wedi tram-gwyddo oherwydd dy ffyrdd drygionus, a bod llawer eto mewn perygl o gael eu colli trwyddynnt; y cydsaif dy crefydd â'r dasarn, â chybydd-dod, aslendid, celwydd, drwg-gwmniaeth, &c. Y ddihareb a ddywedir am butain sydd wir am danat, sef, "Ei bod yn gywilydd i'r holl wragedd." Felly cywilydd wyt tithau i bob professwr.

**SIARADUS.** Gan dy fod can baroted i dderbyn chwedlau, ac i farnu mor fyrbwyll, ni allaf dybied llai nad rhyw ddyn anhywaith pendrwm ydwyt, ac anghymhwys i neb ymddyddan â thi; am am hyny, bydd wych.

Yna daeth Cristion i fynu, a dywedodd wrth ei frawd, Mynegais i ti y modd y byddai; dy eiriau di a'i chwantau ef ni chytunant â'u gilydd. Gwell oedd ganddo ymadael â'th gymdeithas, na gwellâu ei fuchedd. Ond ymaith yr aeth, fel y dywedais; gad iddo; nid oes colled i neb ond iddo ei hun; arbedodd i ni y draffierth o ymysgwyd oddiwrtho; canys pe parhausai (fel y credwyf y gwnaethai) megas y mae, ni buasai ond brycheuyn ein cwmni. Ac heblaw hyny, dywed yr apostol, "Y rhai hyn, gochel di."

**FFYDDION.** Ond da genyf gael o honom yr ychydig ymddyddan yma ag ef; daw'r pethau hyn, ysgafsydd, l'w gof eto: modd bynag, bum yn flyddlon tuag ato, ac felly glân wyf oddiwrth ei waed, os colledig fydd.

**CRISTION.** Da y gwnaethost fod mor onest tuag ato. Ychydig sydd o'r fath ffyddlondeb a hyn yn mysg dynion y dyddiau hyn; a hyn a bair i grefydd sawru mor drwm yn ffroenau llaweroedd: canys yr ynfydion siaradus hyn, y rhai sydd a'u grefydd mewn gair yn unig, ond yn aflan ac ofer yn eu rhodiad, trwy eu derbyn mor synych i gymdeithas duwilion, sydd yn dyrys u y byd, yn anurddo Cristionogaeth, ac yn tristâu y rhai cywir. Mynwn fod pawb yn eu trin fel y gwnaethost ti; yna byddai raid iddynnt fod, naill ai yn fwya cydffurf a chrefydd, neu fod cyfeillach y saint yn rhy boeth iddynt. Yna y canodd Ffyddlon fel hyn:—

**EFENGYLWR YN CYFARFOD A'R PERERINION. 93**

Dechreuodd y Siaradwr serfyll  
Ar y cyntaf ddyrchu ei esgyll,  
Gan ryfylgu cwympo a gorffod  
Pawb o'i flaen wrth nerth ei dafod.

Mor hyawdlaidd y chiwedleuodd !  
Ond pan gyntaf y dechreuodd  
Ffyddlon son am ras iachusol,  
Aeth y cyfaill yn ei wrthol.

Fel y lloer o'i llawn oleuni,  
Sy'n myn'd leilai hyd ei geni ;  
Felly hefyd a'r holl ddynion,  
Ond sy'n nabod gwaith y galon.

Fel hyn yn mlaen yr aethant dan ymddyddan am y pethau a welsent yn eu taith, a thrwy hyny gwnaethant y ffordd yn ddifyr, yr hon, yn ddiamheuol, a fuasai yn anhyfryd iddynt heb y fath ymddyddanion ; canys yr eddynt yn awr yn myned trwy anialwch.

Yn awr, pan oeddynt yn mron wedi myned allan o'r anialwch, damweiniodd i Ffyddlon droi ei olwg yn ol, a chanfu wr yn dyfod atynt, yr hwn a adnabu yn y fan. A chyda hyny, dywedodd, Oh ! fy mrawd, pwyl sydd yn dyfod acw ? Yna edrychodd Cristion, a dywedodd, Oh ! fy nghyfaill da, Efengylwr, ydyw. Ie, a'm cyfaill da inau, ebe Ffyddlon ; canys efe a'm gosododd i ar y ffirdd i'r porth. Ac ar hyn y goddiweddodd Efengylwr hwynt, ac a'u cyfarchodd fel hyn :—

**EFENGYLWR.** Tangneseedd i chwi, fy anwyl garedigion, a thangneseedd ar bawb o'ch cynorthwywyr.

**CRISTION.** Croeso, croeso, garedig Efengylwr ; mae gweled dy wedd yn dwyn ar gof i mi dy hen garedig-rwydd, a'th lasur diflin er mwyn fy lles tragwyddol.

**FFYDDLON.** A chan mil croeso, ebe Ffyddlon, i'th gyf-eillach, O anwyl Efengylwr ! Ah ! mor felus ydyw i ni bererinion truain !

**EFENGYLWR.** Wel, ebe Efengylwr, pa fodd y bu arnoch, gyfeillion, er pan ymadawsom ddiweddaf ? Pa bethau a gyfarfuoch â hwy ? a pha fodd yr ymddygasoch chwithau ?

Yna Cristion a Ffyddlon a synegasant iddo yr holl bethau a ddygwyddasai iddynt yn y fiordd; a pha fod, a chyda pha anhawader, y cyhaeddasant i'r lle hwnnw.

**EFENGYLWR.** Yr wyf yn llawen iawn am hyn, nid am i chwi gysarfod â phrosedigaethau, ond am i chwi fod yn orchfygwyr; ac hesyd am barhau o honoch yn y ffodd hon hyd heddyw, a hynny yn ngwyneb llawer o wendid. Yr wyf yn llawen, meddas, am y pethau hyn yn gystal er fy mwyn fy hun a chwithau. Myfi a heuais, a chwithau a sedasoch; ac y mae y dydd yn dysod, yn yr hwn y caiff "yr hwn a hauodd a'r hwn a fedodd gydlawenhau," Ioan 4. 36, hynny yw, os parhewch; "canys yn ei iawn bryd y medwch, oni ddiffigiwch," Gal. 6. 9. Y mae coron o'ch blaen, a hòno yn un anlygredig; "felly rhedwch, fel y caffoch afael," 1 Cor. 9. 24—27. Y mae rhai wedi cychwyn i geisio y goron hon, ac wedi myned yn mhell hefyd, ond y mae un arall yn dysod, ac yn ei chymeryd oddiarnynt: am hynny, "deliwrch yr hyn sydd genych, fel na ddygo neb eich coron chwi," Dat. 3. 11. Nid ydych eto allan o ergydion Satan; "ni wrthwyneb-asoch eto hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod." Bydded y deyrnas yn wastad o flaen eich llygaid; a chredwch yn ddiysgog am bethau anweledig. Na fedd-ianner chwi gan ddim sydd tu yma i'r byd arall; ac, uwchlwm hyn oll, edrychwch yn fanwl at eich calonau eich hunain a'u chwantau; oherwydd y maent yn "fwy eu twyll na dim, yn ddrwg ddiobaith." Gosodwch eich wynebau fel callestr; y mae genych bob gallu yn y nef ac ar y ddaear o'ch plaid.

**CRISTION.** Yna y diolchodd Cristion iddo am ei gyngor; a dynunodd arno eu hyfforddi yn mhellach er eu cymhorth yn y rhan ddyfodol o'u taith; a hynny yn benaf am y gwyddent mai prophwyd oedd, ac y gallai ragfynegi yr hyn a ddygwyddai iddynt, a pha fod y gallent eu hyngoi a'u gwirthwynebu. Cydsyniail Ffyddlon hesyd a'r

Felly dechreuodd Efengylwr fel hyn:—

**EFENGYLWR.** Fy meibion, clywsoch yn ngair gwiriont yr efengyl, mai trwy "lawer o orthrymderau y mae rhaid myned i deyrnas Duw;" ac, hesyd, yn imhob

dinas, "fod rhwymau a blinderau yn eich aros;" ac am hyny nis gellwch ddysgwyl myned yn mhell ar eich pererindod hebddyt, mewn rhyw ddull neu gilydd. Prof asoch eisoes beth o wirionedd y dywediadau hyn, a mwy eto a ddaw yn fuan! canys yr ydych yn awr, fel y gwelwch, ar fyned allan o'r anialwch hwn, ac yn fuan deuwch i dref, yr hon a welwch yn y man o'ch blaen; ac yn y dref hōno ymosodir arnoch yn dost gan elynion, y rhai a geisiant yn egnol eich lladd; a byddwch sicr o hyn, y gorfydd i un o honoch, neu eich dau, selio eich tystiolaeth â gwaed; ond, "byddwch ffyddlon hyd angau, a'r Brenin a rydd i chwi goron y bywyd." A'r hwn a fyddo marw yno, er i'w farwolaeth fod yn annaturiol, a'i boenau, efallai, yn fawr, eto bydd yn well arno nag ar ei gyfaill; nid yn unig am y cyrhaedda y ddinas nefol yn gynt, ond hefyd am y dihenga rhag llawer o galedi a ddygwydd i'r llall cyn y cyrhaeddo ben ei daith. Ond pan ddeloch i'r dref, a chael yr hyn a fynegais, yna cofiwch eich cyfaill, ymwrolwch, a byddwch wyr, a "gorchymwynwch eich heneidiau i Dduw, megys i Greawdwr ffyddlon, gan wneuthur yn dda."

Yna gwelais yn fy mreuddwyd, can gynted ag y daethant allan o'r anialwch, ganfod o honynyt dref ar eu cyfer, a'i henw yw Gwagedd; ac ynddi hefyd y cedwir ffair, a elwir Ffair Gwagedd. Cedwir hi trwy gydol y flwyddyn. Gelwir hi yn Ffair Gwagedd, am fod y dref lle y cedwir hi yn ysgafnach na gwegi, Psal. 61. 9; ac hefyd, am fod y cwbl a ddygir ac a werthir yno yn wagedd, megys y dywed y gwr doeth, "Beth bynag a ddygwydda, oferedd yw," Preg. 11. 8: gwel hefyd 1. 2—14; 2. 11—17; Esey 40. 17.

Nid ffair newydd yw hon, ond hen sefydliad. Danghosaf i chwi ei dechreuad.

Yn agos i bum mil o flynyddoedd yn ol, yr oedd pererinion yn ymdeithio tua'r Ddinas Nefol, fel y ddau wronest hyn; a Belzebub, Apolyon, a Lleng, a'u cymdeithision, yn canfod, wrth lwybr y pererinion, fod eu ffordd i'r ddinas yn gorwedd trwy dref Gwagedd, lluniasant sefydlu ffair yma; ffair, lle y gwerthid pob math o

wagedd, ac i barhau trwy gorff y flwyddyn. Am hyny, yn y ffair hon y gwerthir pob math o farsiandiaeth, megys tai, tiroedd, celfyddydau, sefyllsaoedd, anrhydeddau, uch-swyddau, teitlau, gwledydd, teyrnasoedd, trachwantau, pleserau; a difyrwch o bob math, megys puteiniaid, gwragedd, gwyr, plant, meistriaid, gweision, bywydau, gwaed, cyrff, eneidiau, arian, aur, perlau, meini gwerth-fawr, a phobeth arall.

Ac heblaw hyny, gwelir yn y ffair yma yn wastad bob hudiolaeth, twyll, chwareyddiaeth; ynfydion, epaod, cnafiaid, a dyhirod, a hyny o bob math.

Yma hefyd y gwelir, a hyny am ddim, ladradau, llofruddiaethau, godinebau, anudonau, a'r rhai hyny yn goch-waed eu lliw.

Ac fel y mae mewn ffeiriau ereill llai eu bri, y mae amryw rodseydd ac heolydd dan eu henwau priodol, lle y gwerthir y cyfryw nwyddau; felly yma, yr un modd, cewch leoedd, rhodseydd, heolydd (sef, gwledydd a theyrn-asoedd), lle y ceir nwyddau y ffair hon gyntaf. Mae yna Heol Prydain, Heol Ffrainc, Heol Itali, Heol Hisbaen, Heol Almaen, lle y gwerthir gwageddau o amryw fath. Ond fel mewn ffeiriau ereill, un peth sydd brif nwydd y ffair i gyd; felly nwyddau Rhufain a'i marsiandiaeth sydd fawr eu bri yn y ffair hon; yn unig bod ein cenedl Brydeinaidd ni, yn nghyda rhai ereill, yn ddiflas o honyn.

Yn awr, fel y dywedais, mae y ffordd i'r Ddinas Nefol yn union trwy'r dref y cedwir y ffair orwech hon ynddi; a'r neb a fynd fyned i'r ddiinas honno heb fyned trwy'r dref hon, "rhaid iddo fyned allan o'r byd," 1 Cor. 5. 10. Gorfu i Dywysog y tywysogion ei hun, pan oedd yma, fyned trwy'r dref hon i'w wlad ei hun, a hyny ar ddiwrnod ffair hefyd; ie, yn ol fy syniad i, mai Belzebub, pris arglydd y ffair, a geisiodd gando brynu o'i wagedd, ie, gwnaethai ef yn arglydd y ffair hefyd, pe rhoisai warogaeth iddo wrth fyned trwy'r dref. Ac oblegyd ei fod yn wr o'r fath urddas, arweiniodd Belzebub ef o heol i heol, gan ddangos iddo holl deyrnasoedd y byd mewn byr amser, fel y gallai, os oedd modd, ddenu y Bendigedig hwnw i brynu rhai o'i gwageddau; ond ni feddai gariad at

y nwyddau, ac am hyny gadawodd y dref heb wario cymaint a ffyrling am yr ofer-bethau hyn, Mat. 4. 8—10; Luc 4. 5—8. Felly, mae'r ffair hon yn hen, ac hefyd yn un fawr iawn.

Yn awr, rhaid oedd i'r pererinion, fel y dywedais, fyned trwy'r ffair hon. Wel, felly y gwnaethant; ond cyn gynted ag yr aethant i mewn, cyfröwyd holl bobl y ffair, ac yr oedd y dref ei hun mewn terfysg o'u hachos, a hyny ar amryw gyfrifon : Canys,

Yn gyntaf, Gwisgwyd y pererinion â dillad gwahanol i neb a fasnachai yn y ffair hon. Am hyny, llygadrythai pobl y fair yn syn arnynt; rhai a ddywedent mai hurtiaid oeddynt; rhai mai gwallgoiaid; a rhai mai ethnigiaid oeddynt, Job 12. 4; 1 Cor. 4. 9.

Yn ail, Ac fel y rhyfeddent wrth eu gwisg, felly hefyd wrth eu hiaith; canys ychydig a wyddent pa beth a ddywedent. Llefasasant hwy iaith Canaan, ond y rhai a gadwent y ffair oeddynt ddynion y byd hwn. Felly, o naill ben y ffair i'r llall, yr oeddynt fel barbariaid i'w gilydd, 1 Cor. 2. 7, 8.

Yn drydydd, Ond y peth rhyfeddaf yn ngolwg y marsiandwyr hyn oedd, fod y pererinion yn dra diystyr o'u holl nwyddau. Prin yr edrychent arnynt; ac os gelwid arnynt i brynu, dodent eu bysedd yn eu clustiau, a gwaeddent, "Tro ymaith fy llygaid rhag edrych ar wagedd," Psal. 119. 37; ac edrychent i fynu, gan arwyddo trwy hyny fod eu marsiandiaeth a'u masnach yn y nefoedd, Phil. 3. 20, 21.

Dygwyddodd i ryw un yn wawdlyd, wrth ddal sylw ar eu hymddygiad, ofyn iddynt, "Pa beth a brynwch chwi?" A hwythau, gan edrych yn ddifrifol arno, a'i hatebasant, "Prynwn y gwir," Diar. 23. 23. Ar hyn, cymerwyd achlysur i'w dirmygu yn fwy; rhai a'u gwawdient, rhai a'u herient, rhai a'u gwaradwyddent, a rhai a alwent ar ereill i'w taro. O'r diwedd cododd hwbwb a therfysg trwy y ffair, nes oedd pob trefn wedi dyrys. Ar hyn, anfonwyd gair at arglywydd y ffair, ac yntau a ddaeth i waered yn fuan, ac a archodd i rai o'i gyfeillion ffyddlonaf ddwyn y gwyr dan arholiad, oherwydd y rhai

y dadymchwelwyd y ffair o'r braidd. Felly dygwyd y gwyr i'w holi; a'u barnwyr a ofynasant iddynt, "O ba le y daethoch? i ba le yr ewch? a pha beth a wnewch yma mewn gwisg mor ddyethir?" Y gwyr a'u hatebasant, "Dyeithriaid a phererinion ydym yn y byd, ac awn i'n gwlaid ein hunain, sef y Jerusalem nefol, Heb. 11. 13—16; ac ni roisom un achos i'r trefedigion na'r marsiandwyr ychwaith i'n hanmharchu, na'n rhwystro ar ein taith, oddieithir i ni, pan ofynodd un, 'A brynwch chwi ddim?' ateb, 'Prynnwn y gwir.'" Ond y rhai a benodwyd i'w holi ni choelient eu bod ddim amgen na gwallgoiaid a hurtiaid, neu rai a ddaethent i osod yr holl ffair mewn terfysg. Felly cymerasant a churasant hwynt; a chwedi eu dwbio â thom, fe'u gosodwyd mewn cyffion, fel y byddent yn ddrych i holl ddynion y ffair. Yno, gan hyny, y buont am gryn amser yn wrthdrychau gwawd, malais, neu ddial pob un a elai heibio; ac arglwydd y ffair yn difyr-chwerthin am ben hyn oll. Ond gan fod y gwyr yn amyneddgar, ac "heb dalu sen am sen, eithr, yn y gwrthwyneb, yn bendithio," ac yn dangos hynawsedd am sarugrwydd, a charedigrwydd am sarhad, rhai o ddynion y ffair, mwy ystyriol a llai rhagsarnllyd na'r lleill, a ddechreusant geryddu a beio y werinos am y camwri parhaus a wnaent â'r gwyr. Hwythau, gan hyny, a'u hatebasant yn ffyrnid, gan eu cyfrif cynddrwg a'r gwyr ag oeddynt yn y cyffion; a'u bod, yn ol pob tebygolrwydd, mewn cynghrair â hwynt, ac am hyny y caent gyfranogi o'u haflwydd. Yna y lleill a ddywedasant, am ddim a welsen hwy, fod y dynion yn llonydd ac yn sobr, heb wneuthur niwaid i neb; a bod lluaws yn masnachu yn y ffair yn haeddu eu carcharu a'u dodi yn y cyffion yn fwy o lawer na'r dyeithriaid a faeddent hwy. Felly, wedi llawer o ymndaeru rhwng y ddwy blaidd, a'r gwyr yr holl amser yn ymddwyn yn ddoeth a phwyllog yn eu gwydd), rhuthrasant ar eu gilydd, a gwnaethant beth niwaid y naill i'r llall. Yna dygwyd y ddau druan ger bron eu arholwyr drachefn, a chyhuiddwyd hwy o fod yn euog o'r cynwrf a fu yn y ffair: ac am hyny curasant hwy yn dost, ac a'u gosodasant mewn heiyrn trymion, a dyg-

asant hwy mewn cadwynau i fynu ac i waered ar hyd y ffair, er esiampl a dychryn i ereill, rhag y byddai i neb ddywedyd gair o'u plaid, nac ymgysylltu â hwynt. Ond Cristion a Ffyddlon a ymddygasant yn ddoethach fyfth, gan ddyoddef y gwarth a'r dirmyg a osodid arnynt gyda'r fath addfwynder ac amynedd, nes ennill rhai o bobl y ffair o'u plaid, er mai ychydig mewn cydmariaeth i'r lleill. Cynddeiriogodd hyn y blaid arall eto yn fwy, fel ag i benderfynu lladd y ddau wr hyn. Ar hyn bygythiasant na chai na chyffion na haiarn eu gwasanaethu, ond y caent farw am y sarhad a wnaethant, ac am lithio dynion y ffair.

Yna danfonwyd hwynt yn ol i'r cyffion drachefn, hyd oni dderbynient orchymyn pellach yn eu cylch. Felly fe'u bwriwyd i mewn, a sicrhawyd eu traed yn y cyffion.

Yma, gan hyny, daeth i'w cof yr hyn a glywsent gan eu cysfail ffyddlon Efengylwr, a chadarnhawyd hwynt yn fwy yn eu ffyrdd a'u dyoddefiadau, trwy yr hyn a fyneg-odd efe a ddygwyddai iddynt. Yna dechreuanant hefyd gysuro eu gilydd, gan ddywedyd mai yr hwn a ddyoddefai a gai y goreu ar y llall; am hyny chwennychai pob un o honynyt yn ddirgel gael y rhagorfraint honno. Ond gan orchymyn eu hunain i ddoeth ragluniaeth yr Hwn sydd yn rheoli pob peth, ymroisant i aros yn dawel yn y sefyllfa yr oedd ynt ynddi, hyd oni threfnid iddynt ryw beth arall.

Yna wedi penodi amser cyfaddas, dygwyd hwynt allan i'r frawdle i dderbyn eu deddfryd. Enw y barnwr oedd Arglwydd Cas-dda; y cyhuddiad yn erbyn y ddau oedd yr un mewn sylwedd, er ei fod yn gwahaniaethu ychydig mewn ffurf, a'i gynwysiad ydoedd fel hyn :—“ Eu bod yn elynion a therfysgwyr y fasnach; iddynt achosi ymryson ac ymraniad yn y dref, ac ennill plaid i'w hopiniynau peryglus yn groes i ddeddf eu tywysog.”

Yna Ffyddlon a ddechreuodd ateb, gan ddywedyd, Ni sefais i yn erbyn dim ond yr hyn a ymosodai yn erbyn yr Hwn sydd uwch na'r uwchaf. Ac am afreolaeth, eb efe, nid wyf yn gwneuthur dim, am mai gwr heddychol wyf fy hun: y bobl hefyd a ddaethant atom, a ennillwyd

trwy ganfod ein cywirdeb a'n diniweidrwydd, ac nid yw eu troedigaeth ond o waeth at well. Ac am y brenin y soniwch am dano, gan mai Belzebub, gelyn mawr ein Harglwydd ni, ydyw, rhoddaf hèrfeiddiad iddo ef a'i holl angelion.

Yna rhoddwyd cyhoeddiad allan, os oedd gan neb ddim i'w ddweyd o blaid eu harglwydd frenin, yn erbyn y carcharor wrth y *bar*, ar iddynt ymddangos, a dwyn eu tystiolaeth.

Ar hyn daeth tri o dystion yn mlaen, sef, Cenfigen, Ofergoelegg, a Gwenieithwr. Yna gofynwyd iddynt, A adwaenoch chwi y carcharor wrth y *bar?* a pha beth sydd genych i'w ddywedyd o blaid ein harglwydd frenin, ac yn ei erbyn ef?

Yna safodd Cenfigen i fynu, a llefarodd fel hyn :—Fy arglwydd, adwaenwn y gwr hwn er ystalm, a thystiaf ar lw, o flaen y fainc anrhyydeddus hon, ei fod ef——

BARNWR. Aros—rhoddwch ei lw iddo.

Yna tyngasant ef. Wedi hyny dywedodd, Fy arglwydd, nid yw y gwr hwn, er teced ei enw, ond un o'r dynion atgasaf yn y wlad. Nid yw yn parchu na thywysog na deiliaid, deddf na defod; ond gwna ei oreu i lenwi penau pobl â rhai o'i syniadau bradwraidd, y rhai, yn gyffredinol, a eilw yn egwyddorion ffydd a santeiddrwydd. Ac yn neillduol, clywais ef fy hunan unwaith yn haeru fod Cristionogaeth, ac arferion ein tref Gwagedd, yn gwbl groes i'w gilydd, ac nas gellir eu cymodi. A thrwy yr ymadrodd hwn, fy arglwydd, y mae efe ar unwaith nid yn unig yn condemnio ein holl weithredoedd canmoladwy, ond yn ein condemnio ninau hefyd wrth eu gwneuthur hwynt.

Yna gofynodd y barnwr, A oes genyt ychwaneg i'w ddywedyd?

CENFIGEN. Fy arglwydd, gallwn ddywedyd llawer mwy, ond ni synwn flino y llys. Eto, os bydd angenrhaid, wedi i'r boneddigion ereill ddwyn eu tystiolaethau yn mlaen, yn hytrach na bod dim yn eisiau i wneud pen am dano, helaethaf fy nhystiolaeth yn ei erbyn. Yna archwyd iddo sesyll o'r neilldu.

Yna galwasant ar Ofergoelegg, ac archasant iddo edrych ar y carcharor wrth y bar. Gofynasant iddo hefyd, Pa beth a elli dithau ddywedyd o blaid dy arglwydd frenin, ac yn ei erbyn ef? Gwedi rhoddi ei lw iddo, dechreuodd fel hyn :—

**OFERGOELEDD.** Fy arglwydd, nid ydwyt yn adnabyddus iawn o'r gwr hwn, ac nid wyf yn chwennych bod yn fwy adnabyddus o hono ychwaith. Gwn hyn, modd bynag, oddiwrth ryw ymddyddan a fu rhyngof fi ag yntau un diwrnod yn y dref hon, mai dyn peryglus ydyw; canys clywais ef y pryd hwnnw yn dywedyd fod ein crefydd ni yn ddrwg, ac yn fath nad oedd ddichon-adwy rhyngu bodd Duw trwyddi. Oddiwrth yr ymadrodd hwn o'i eiddo, fy arglwydd, gwyr dy arglwyddiaeth yn dda pa beth o angenrheirwydd sydd yn dilyn, sef, mai oser yw ein haddoliad; ein bod eto yn ein pechoda'u; ac y byddwn ddamnedig yn y diwedd. Hyn sydd genyf i'w ddywedyd.

Yna rhoddwyd ei lw i Gwenieithwr, ac archwyd arno ddywedyd beth a wyddai o blaid eu harglwydd frenin, ac yn erbyn y carcharor wrth y bar.

**GWENIEITHWR.** Fy arglwydd, a chwithau foneddigion oll, adwaenwyf y gwr hwn er ystalm, a chlywais ef yn llefaru pethau na ddylesid; canys difenwodd ein hardderchocaf dywysog Belzebub, a llefarodd yn ddirmygus am ei gyfeillion anrhyydeddus Arglwydd Hen Ddyn, Arglwydd Digrifwch Cnawdol, Arglwydd Gloddest, Arglwydd Chwant am Wag Ogoniant, fy hen Arglwydd Anlladrwydd, Syr Gwanc-afael, yn nghyda'n holl benedigion ereill: dywedodd yn mhellach, pe byddai pawb o'r un feddwl ag ef, na chai yr un o'r pendefigion hyn fod am funud yn y dref hon. Heblaw hyny, fy arglwydd, ni phetrusodd dy ddifenwi dithau, à osodwyd yn farnwr arno, gan dy alw yn ddyhiryn annuwiol, a llawer o ymadroddion difriol ereill, â'r rhai y drygliwiodd efe y rhan fwyaf o urddasolion ein tref ni.

Gwedi i'r Gwenieithwr hwn orphen ei chwedl, trodd y Barnwr at y carcharor wrth y bar, a chysfarchodd ef fel hyn :—Oh! dydi y crwydryn, yr heretic, a'r bradwr, a

glywaist ti beth a dystiodd y boneddigion gonest hyn yn dy erbyn?

**FFYDDION.** A gaf genad i ddywedyd gair o ymddiffyniad?

**BARNWR.** Ddyhiryn, ddyhiryn, ni haeddit syw yn hwy, ond cael dy ladd yn y man; eto, fel y gallo pawb weled ein tiriondeb tuag atat, gad glywed beth sy genyt i'w ddywedyd?

**FFYDDION.** 1. Pr hyn a ddywedodd Mr. Cenfigen, atebwyf, na ddywedais ddim ond hyn, sef fod pob rheol, cyfraith, defod, neu bobl, â fyddont yn wrthwyneb i air Duw, yr un mor wrthwyneb hefyd i Gristionogaeth. Os dywedais i ar gam yn hyn, argyhoedda fi o'm bai, a pharod fyddaf yma o'th flaen i alw fy ngeiriau yn ol.

2. Am yr ail, sef, Mr. Ofergoeredd, a'i achwyniad yn fy erbyn, ni ddywedais ond hyn, fod ffydd ddwyfol yn ofynol yn addoliad Duw; ond nas gallai ffydd ddwyfol hanfodi heb ddadguddiad dwyfol o ewyllys Duw. Gan hyny, beth bynag a ddygir i mewn i addoliad Duw, nad yw yn gydweddol â dadguddiad dwyfol, nis gellir ei gyflawni ond â ffydd ddynol, yr hon ffydd ni fydd effeithiol i fywyd tragedi.

3. Am yr hyn a ddywedodd Mr. Gwenieithwr, atebwyf (heb sylwi ar ei waith yn haeru fy mod yn difenwi a'r cyffelyb), mai y cwbl a ddywedais oedd, fod tywysog y ddinas hon, a'r holl werin-ddilynwyr a enwyd gan y boneddwr hwn, yn gymhwysach i fod yn usiern nag yn y dref a'r wlad hon. Ac felly yr Arglwydd a drugarhao wrthyf.

Yna anerchodd y barnwr y rheithwyr (y rhai oedd ynt gerllaw yn gwrando ac yn sylwi):—Foneddigou a rheithwyr, gwelwch y gwr hwn, o achos pa un y gwnaed cymaint o dersyng yn ein tref; clywsoch hefyd yr hyn a dystiodd y boneddigion urddasol hyn yn ei erbyn; hefyd, clywsoch ei ateb a'i gyffes yntau: yn awr y mae'n sefyll gyda chiwi ei grogi neu ei arbed; ond tybiwyf yn angen-rheidiol i mi eich hyfforddi ychydig yn ein cyfraith.

Gosodwyd deddf yn nyddiau Pharaoh Fawr, gwas i'n tywysog ni, rhag i'r rhai o grefydd wahanol amlhau, a

myned yn drech nag ef, fod i'w gwrrywiaid gael eu bwrw i'r afon, Exod. 1. 22. Gosodwyd deddf hefyd yn nyddiau Nebuchodonosor Fawr, un arall o'i weision, fod i bwy bynag a'r na syrthiai i lawr, ac addoli ei ddelw aur, gael ei dafnu i ganol ffwrn o dâñ, Dan. 3. 6. Ac hefyd gwnaed cyfraith yn nyddiau Darius, y teflid i ffau y llewod pwy bynag a alwai ar un duw ond efe, dros ryw yspaid o amser, Dan. 6. 7. Yn awr y mae'r gwrthryfelwr hwn wedi tori y deddfau hyn o ran sylwedd, nid yn unig mewn meddwl (yr hyn ni ellir ei oddef), ond hefyd mewn gair a gweithred, yr hyn, o angenrheidrwydd, sydd an-oddefadwy.

Am gyfraith Pharaoh, gwnaed hòno ar dybiaeth, i ragaflaenu drwg par nad oedd trosedd eto yn y golwg; ond yma y mae'r bai yn amlwg ddigon. Am yr ail a'r drydedd, gwelwch ei fod yn dadlu yn erbyn ein crefydd; ac haedda farw am y brad a addefai.

Yna aeth y rheithwyr o'r neilldu, a'u henwau oeddynt Mr. Dall, Mr. Diddaioni, Mr. Maleisus, Mr. Hoff-chwant, Mr. Penrydd, Mr. Nwydwyllt, Mr. Uchel Feddwl, Mr. Gelynfaeth, Mr. Celwyddog, Mr. Creulondeb, Mr. Casäwr Goleuni, a Mr. Annglymodol; y rhai a roisant eu barn bersonol yn erbyn y carcharor yn eu plith eu hunain, ac wedi hyny a gytunasant yn unfryd i'w ddwyn yn euog o flaen y barnwr. Yn mlaenaf yn eu plith eu hunain, dywedai Mr. Dall, y blaenor, Gwelaf yn eglur fod y gwr hwn yn heretic. Yna dywedodd Mr. Diddaioni, Ymaith a'r cyfryw adyn oddiar y ddaear. Ië, ebe Mr. Maieisus, canys casawyf y golwg arno. Yna dywedai Mr. Hoff-chwant, Nis medraisiau erioed ei hoffi. Na minau, ychwaith, ebe Mr. Penrydd, canys yr oedd efe bob amser yn condemnio fy ffordd i. Croger ef, croger ef, ebe Mr. Nwydwyllt. Y corach budr, ebe Mr. Uchel Feddwl. Y mae fy nghalon yn ei erodyn, ebe Mr. Gelynfaeth. Twyllwr yw, ebe Mr. Celwyddog. Mae crogi yn rhy dda iddo, ebe Mr. Creulondeb. Ymaith ag ef oddiar y ffordd, ebe Mr. Casäwr Goleuni. Ac ebe Mr. Annglymodol, Pe rhoedd i mi yr holl fyf, nis gallwn ddygymod ag ef; am hyny, dygwn ef i mewn yn euog o farwolaeth.

Felly y gwaethant; a dekkifrydwyd ef yn y man i gael ei gymeryd o'r ile yr oedd, i'r lle y dæthai o hono, ac yno ei roddi i'r farwolaeth greulocaf a ellid ei dysfisio.

Ar hyn dygasant ef aillan i wneuthur ag ef yn ol eu cyfradd; ac yn gyntaf oll ffiangelasau: ef, wedi hynny se'i curasant, a thorasant ei graddi â chyllewll; yna llabyddiasant ef â mein; yna trywanasant: ef â'u cleddyfau; ac, yn ddiweddaf oll, llosgasant ef yn lludw wrth yr ystanc. Fel hyn y dybenoli Ffyddion ei oes.

Yn awr gwelwn yn sefyll, o'r tu ol i'r dorf, gerbyd a dau farch wrtho yn dygwyd am Ffyddion, yr hwn (can gynted ag y'i llofruddiwyd gan ei lynion) a gymerwyd i synnu iddo, ac a gludwyd yn ebrwydd trwy'r cymylau, â llais udgorn, y ffordd nesaf i'r porth nefol. Ond am Gristion, caffodd beth seibiant, a dansonwyd ef yn ol i'r carchar, lle yr arhosodd dros beth amser. Ond yr Hwn sydd yn goruwch-lywodraethu pob peth, a chanddo awdurdod ar eu cynddaredd, a barodd i Gristion gael dianc y tro hwn, a myned i'w daith.

Ac fel yr oedd yn myned, canai fel hyn :—

Ffyddion, cywir fuost ti  
I'lh unig Ri rhagorol;  
Gyda'r hwn cai ar ol hyn  
Fawr wynfyd yn dragwyddol.

Pan fo'r anffyddloniaid trwch  
A'u holl ddigrifwch ofer  
Yn usfern boeth yn udo'n brudd,  
I tithau bydd uchelder.

Cân, Ffyddion, cân, caiff d'enw o hyd  
Barch yn y byd dragwyddol;  
Er cael dy ladd, gwirionedd yw,  
Dy fod yn fyw'n wastadol.

Yn awr gwelwn yn fy mreuddwyd, nad aeth Cristion yn mlaen wrtho ei hun; canys yr oedd yno un Gobeithiol (a wnaethpwyd felly wrth graffu ar Gristion a Ffyddion, mewn gair ac ymddygiad, yn eu dyoddefiadau yn y ffair), yr hwn a lynodd wrth Gristion, ac a aeth i gyfammod

brawdol ag ef, gan ddywedyd y byddai yn gydymaith iddo. Fel hyn bu farw un i ddwyn tystiolaeth i'r gwirionedd, ac y cododd un arall o'i ludw, i fod yn gydymaith i Gristion ar ei bererindod. Dywedai Gobeithiol wrth Gristion, fod llawer ychwaneg o wyr y ffair a ddeuent yn eu hadeg ar eu hol.

Felly gwelais iddynt yn fuan wedi gado y ffair ddyfod o hyd i wr yn myned o'u blaen, à elwid Gau-ddybenion; ac wedi dyfod ato, gofynasant iddo, Gwr pa wlad ydwyt, syr? a pha can belled yr âi y ffordd hon? Yntau a'u hatebai iddo ddyfod o Dref Teg-ymadrodd, a'i fod yn myned i'r Ddinas Nefol; ond ni fynegodd iddynt ei enw.

**CRISTION.** O Dref Teg-ymadrodd! ebe Cristion; a oes rhyw ddaioni yn byw yno? Diar. 26. 25.

**GAU-DDYBENION.** Oes, gobeithiwf, ebe Gau-ddybenion.

**CRISTION.** Atolwg, syr, pa enw a roddaf arnat?

**GAU-DDYBENION.** Yr wyf fi yn ddyeithr i chwi, a chwíthau i minau: os ydych yn myned y ffordd hon, da fydd genyf gael eich cyfeillach; os amgen, rhaid boddloni.

**CRISTION.** Am Dref Teg-ymadrodd, clywais son am dani; ac, yn ol a gofiwyf, dywedir ei bod yn lle cyfleoethog.

**GAU-DDYBENION.** Ydyw, yn ddiau, y mae hi felly; ac y mae i mi lawer o geraint cyfoethog ynddi hefyd.

**CRISTION.** Os gallaf fod mor hyf, pwy ydynt rai o'th geraint yno?

**GAU-DDYBENION.** Yr holl dref braidd; ond yn enwedig fy Arglwydd Anwadal, Arglwydd Tymhoreiddiwr, Arglwydd Teg-ymadrodd, oddiwrth henafiaid yr hwn y caffodd y dref hon ei henw; hefyd Mr. Llyfnddyn, Mr. Dauwynebog, Mr. Peth-a-fynoch; ac offeiriad ein plwyf, Mr. Dau-eiriog, oedd frawd i'm mam o dn ei thad; ac, i ddywedyd wrthych y gwir, yr wyf bellach yn wr bonheddig o grynn radd, er nad oedd fy hen-daid ond badwr, yn edrych un ffordd, ac yn rhwyfo ffordd arall; a thrwy yr un gwaith yr ennillais inau y rhan fwyaf o'm golud.

**CRISTION.** Ai gwr priod ydwyt?

**GAU-DDYBENION.** Ié; ac un rinweddol iawn yw fyngwraig, merch i wraig rinweddol hefyd; merch ydyw i'r

Arglwyddes Rhagrithiol ; ac am hyn y mae o deulu parchus iawn ; ac wedi cyrhaedd y fath radd o foesgarwch, fel y gwyr pa fod i ymddwyn o flaen pawb, tywysog a gwreng. Gwir ein bod yn gwahaniaethu ychydig yn ein crefydd oddiwrth y rhai manylaf ; eto nid yw hyn y ond mewn dau bwnc bychan :—Yn gyntaf, nid ydym un amser yn ymdrechu yn erbyn gwynt a llanw.—Yn ail, yr ydym bob amser yn fwyaf selog pan fyddo crefydd yn ei sandalau arian ; a hoff iawn fydd genym gydroddio â hi yn yr heolydd, os bydd yr haul yn tywynu, a'r bobl yn ei chanmol.

Yna Cristion a drodd ychydig o'r neilldu at ei gyfaill Gobeithiol, ac a ddywedodd, Mae yn rhedeg i fy meddwl mai un Gau-ddybenion, o Dref Teg-ymadrodd, yw y gwr hwn ; ac os efe yw, mae genym yn ein cwmni un o'r dyhirwyr penaf ag sydd yn yr holl fro.

Yna, ebe Gobeithiol, gofyn iddo ; tybiwyf nad oes arno gywilydd o'i enw. Felly aeth Cristion ato drachefn, a dywedodd wrtho, Syr, yr ydwyt yn siarad fel pe gwyddit rywbeth mwy na'r holl fyd ; ac os nad wyf yn methu fy nod, tybiwyf fod genyf ryw hanner dirnadaeth am danat. Ai nid Gau-ddybenion yw dy enw, o Dref Teg-ymadrodd ?

**GAU-DDYBENION.** Nid dyna fy enw ; ond gwir ei fod yn llysenw a roddir arnaf gan rai o'm caseion ; a rhaid i mi foddloni i ddyweddef yr annharch, fel y gwnaeth gwyr da ereill o'm blaen.

**CRISTION.** Ond a roddais ti erioed achos i ddynion dy alw felly ?

**GAU-DDYBENION.** Naddo unwaith, erioed ! Y cwbl a wnaethum erioed i roddi iddynt achlysur i'm galw felly oedd hyn, dygwyddai i mi bob amser fod mor ffodus a chydredeg â dull y tymhor, pa fath bynag fyddai ; a damweinai fy mod yn ennill trwy hynny ; ac os felly y troai pethau allan, cyfrifwn hynny yn fendith ; ond na fwried y dygasog eu gwaradwydd arnaf oblegyd hyn.

**CRISTION.** Tybiais yn wir mai tydi oedd y dyn y clywswn am dano ; a dywedyd fy meddwl, ofnwysf fod yr enw hwn yn perthyn yn fwy priodol i ti nag y mynit i ni dybied.

**GAU-DDYBENION.** Wel, os mynwch feddwl fel yna, nis gallaf wrthych; ond os caniatewch i mi aros yn eich cwmni, cewch fi yn gydymaith digon teg.

**CRISTION.** Os deui gyda ni, rhaid i ti fyned yn erbyn gwynt a llanw, yr hyn, gwelaf, sydd yn groes i'th syniad: hefyd, rhaid i ti arddal crefydd yn ei charpiau, yn gystal ag yn ei sandalaau arian; a sefyll gyda hi pan fyddo yn rhwym mewn cadwynau, yr un fath a phan fyddo yn rhodio yr heol mewn bri.

**GAU-DDYBENION.** Rhaid i chwi beidio gormesu na thra-arglwyddiaethu ar fy ffydd i; gadewch i mi gael fy rhyddid, a chaniatewch i mi ddyfod gyda chwi.

**CRISTION.** Na chei gam yn mhellach, os na wnai yn yr achos hwn fel ninau.

Yna, ebe Gau-ddybenion, nid ymadawaf byth â'm hen egwyddorion, gan eu bod yn ddiniwaid a buddiol. Os na chaf ddyfod gyda chwi, rhaid i mi wneud fel y gwnaethum cyn i chwi fy ngorddiwes, sef myned ar fy mhen fy hun, hyd oni ddelo rhyw rai o hyd i mi a hoffont fy nghwmni.

Yna gwelwn yn fy mreuddwyd fod Cristion a Gobeithiol yn ei adael, ac yn ymgadw yn inhell o'i flaen; ond dygwyddodd i un o honynnt droi ei ben yn ol, a gwelai dri o wyr yn dilyn Mr. Gau-ddybenion; ac fel yr oedd ynt yn nesâu ato, ymgrymodd iddynt hyd ~~o~~wr; a hwythau a'i cyfarchasant yntau yn foesgar. Enwau y gwyr hyn oedd ynt Mr. Gafaol Bydol, Mr. Ariangarwch, a Mr. Cadw-y-cwbl, gwyr yr oedd Gau-ddybenion yn gydnabyddus iawn â hwy gynt, am eu bod yn eu hieuencyd yn gydysgolheigion, wedi eu haddysgu gan Mr. Cribdeiliwr, ysgolfeistr yn nhref Elw-gariad, yr hon sydd dref farchnad yn sir Cybydd-dod, yn y Gogledd. Yr ysgolfeistr hwn a ddysgodd iddynt y gelfyddyd o elwa, naill ai trwy drais, neu dwyll, neu weniaith, neu gelwydd, neu ym-drwsio â rhith o grefydd; ac yr oedd y pedwar gwr bonheddig hyn wedi dysgu celfyddyd eu hathraw yn dda, fel y gallai pob un o honynnt gadw y fath ysgol ei hunan.

Ar ol iddynt, fel y dywedais, gyfarch eu gilydd, Mr. Ariangarwch a ddywedai wrth Mr. Gau-ddybenion, Pwy:

## 108 GAU-DDYBENION A'I GWMNI YN YMDDYDDAN.

yw y rhai acw sydd ar y ffordd o'n blaenau? canys yr cedd Cristion a Gobeithiol eto yn y golwg.

**GAU-DDYBENION.** Dau wr o wlad bell ydynt, y rhai, yn eu ffordd hwy, sydd yn myned ar bererindod.

**ARIANGARWCH.** O! paham nad arhosant, fel y caffom eu cwmni da; canys y maent hwy, a ninau, a thithau, gobeithio, syr, oll yn myned ar bererindod.

**GAU-DDYBENION.** Felly hesyd yr ydym; ond y mae'r gwyr acw mor llym, ac yn caru eu tybiau eu hunain gymaint, ac mor ddiystyr o syniadau rhai ereill, fel po duwiolaf bynag y byddo dyn, os na bydd yn cytuno â hwynt yn mhob peth, gwthiant ef yn llwyr o'u cwmni.

**CADW-Y-CWBL.** Drwg yw hyny; ond darllenwn am rai sydd yn rhy gyflawn, ac y mae llymder y fath wyr yn eu gyru i farnu a chondemnio pawb ond eu hunain. Ond, atolwg, pa rai, a pha nifer, oeddynt y pethau y gwahaniaethech yn eu cylch?

**GAU-DDYBENION.** Barnant hwy, yn ol eu dull pengryf eu hunain, mai eu dyledswydd yw myned yn mlaen ar eu taith trwy bob tywydd, ac yr wyf finau yn dysgwyl am wynt a llanw. Y maent hwy am anturio y cwbl dros Dduw ar unwaith, a minau yn ysbio am fantais i sicrhau fy mywyd a'm golud. Y maent hwy am ddal eu syniadau er i bawb fod yn eu herbŷn; ond yr wyf finau am grefydd yn yr hyn, ac i'r graddau, y caniata fy amser a'm diogelwch. Y maent hwy am grefydd yn ei thlodi; ond yr wyf finau am dani pan fyddo yn rhodio yn ei sandalaau arian, yn llewyrch haul, ac mewn bri.

**GAFael BYDOL.** Ié, dal yna o hyd, da Mr. Gau-ddybenion; canys, o'm rhan i, ynfyd y cyfrifaf fi y dyn hwnw, sydd at ei ryddid i gadw yr hyn sydd ganddo, a fydd mor ffol a'i golli. Byddwn gall fel y seirff. Gwell trin y gwair pan fyddo yr haul yn tywynu. Gwell mor llonydd y gorwedd y wenynen trwy y gauaf, ac nad yw yn llafurio ond pan y gallo gasglu gydag hyfrydwch. Mae Duw yn anfon weithiau wlâu, ac weithiau degwch; ac os byddant hwy y fath ynfydion a myned trwy y cyntaf, boed i ni aros am y tywydd teg. O'm rhan i, y grefydd hòno sydd oreu genyf a gydsaif â'r sicrwydd y

tawn fendithion da Duw; canys pwy, dan ddylanwad rheswm, a all ddychymygu, gan i Dduw roddi i ni bethau da y bywyd hwn, nad yw yn ewyllysio i ni eu cadw er ei fwyn ef? Cyrhaeddodd Abraham a Solomon gyfoeth er bod yn grefyddol; a dywed Job y caiff dyn da “roddi aur i gadw fel pridd;” ond ni chaiff fod fel y gwyr sydd o'n blaenau, os ydynt y fath a ddywedi eu bod.

CADW-Y-CWBL. Tybiwyf ein bod ell yn cytuno yn hyn; am hyny, afreidiol yw siarad ychwaneg.

ARIANGARWCH. Ië, yn wir, afreidiol hollol yw ymddyddan mwy yn ei gylch; canys nid yw yr hwn na chredo ysgrythyr na rheswm (a gwelwch fod genym y ddau o'n tu) yn adnabod ei ryddid, nac yn ceisio ei ddiogelwch.

GAU-DDYBENION. Fy mrodyr, yr ydym oll, fel y gwelwch, yn myned ar bererindod; ac er ymgadw yn well oddiwrth yr hyn sydd ddrwg, caniatewch i mi gynyg i'ch sylw y gofyniad canlynol:—

Tybiwch i wr, gweinidog neu grefftwr, &c., gael cyfle o'i flaen i ennill bendithion daionus y bywyd hwn, ac eto mewn modd na allo gyfranogi o honyn, heb ymddangos, o leiaf, yn selog a gwresog dros ben mewn rhai pynciau crefyddol na chyffyrddasai â hwyt erioed o'r blaen; oni all efe arfer y moddion hyn i gyrhaedd ei amcan, ac eto bod yn wr gonest hollol?

ARIANGARWCH. Gwelaf waelod dy gwestiwn; a thrwy genad y boneddwyr hyn, ceisiaf dy ateb. Yn gyntaf, sylwaf ar dy gwestiwn fel y dyg berthynas â'r gweinidog: bwria fod gweinidog, dyn da a theilwng, yn meddu personiaeth bychan iawn, a bod ganddo yn ei olwg un rhagorach, brasach, a llawnach o lawer; fod ganddo hefyd yn awr gyfleusdra i'w gael, ond y rhaid iddo fod yn fwy astud, a phregethu yn amlach, a mwy selog, a chan fod tymher y bobl yn gofyn hyny, fod yn rhaid iddo newid rhai o'i egwyddorion; o'm rhan i, ni welaf un rheswm paham nas gall dyn wneud hyn oll, ie, a mwy hefyd, os gelwid ef i hyny, ac eto fod yn ddyn gonest. Am ba herwydd?

1. Y mae ei ddymuniad am personiaeth rhagorach yn

## 110 GAU-DDYBENION A'I GWMNI YN YMDDYDDAN.

gyfreithlon (nis gellir gwadu hyn), gan y'i gosodwyd o'i flaen gan Ragluniaeth; ac iawn iddo ei gael os gall, heb ofyn dim er mwyn cydwylod.

2. Eilwaith, mae ei ddymuniad am y lle hwnw yn ei wneuthur yn fwy myfyrgar, ac yn bregethwr mwy selog hefyd, &c., ac felly yn ei wneuthur yn well dyn, ie, yn peri iddo loywi ei ddoniau yn fwy, yr hyn sydd yn ol meddwl Duw.

3. Yn awr, o ran ei gydsyniad â thymer ei bobl, trwy adael rhai o'i egwyddorion er eu gwasanaethu, dengys hyn, 1. Ei fod o dymer hunanymwadol. 2. Ei fod o ymarweddriad ennillgar a thirion. Ac, yn 3. Ei fod, oherwydd hyny, yn addasach i'r swydd weinidogaethol.

4. Yr wylf fi, ynte, yn hòni, na ddylai y gweinidog a newidio o fach am fawr, gael ei gyfrif yn gybyddlyd am wneuthur hyny; ond yn hytrach, gan ei fod wedi diwygio mewn doniau a diwydrwydd drwy hyny, dylai gael ei gyfrif fel un yn dilyn yr alwad a'r cyfleusdra a roddir iddo i wneud daioni.

Ac yn awr am yr ail ran o'r cwestiwn, â ddyg berthynas â'r masnachwr a soniaist. Bwria nad oes gan y cyfryw un ond crefft dlawd yn y byd, ond y gall ef, trwy ddyfod yn grefyddol, wellau ei farchnad, hwyrach gael gwraig gyfoethog, neu gael ychwaneg a gwell prynwyr i'w siop; o'm rhan i, ni welaf un rheswm nas gellir gwneud hyn yn gyfreithlon. Am ba herwydd?

1. Mae bod yn grefyddol yn rhinwedd mawr, trwy ba foddion bynag y delo gwr i fod felly.

2. Nid yw yn anngyfreithlon ceisio gwraig gyfoethog, neu fwy o drafnidiaeth i'r siop.

3. Heblaw hyny, mae'r gwr a ennillio hyn trwy ddyfod yn grefyddol, yn cael yr hyn sydd dda oddiar ddwylaw rhai da, trwy ddyfod yn dda ei hunan; felly mae yna wraig dda, prynwyr da, ac elw da, a hyn oll trwy ddyfod yn grefyddol, yr hyn sydd dda ynddo ei hun; gan hyny, mae dyfod yn grefyddol i ennill hyn oll yn ddyfais dda a buddiol.

Yr atebion hyn gan Mr. Ariangarwch i ofynion Gau-ddybenion, a ganmolwyd ganddynt oll; oherwydd paham

barnasant, ar y cyfan, eu bod yn dra iachus a llesol. A chan y tybient na allai neb eu gwrthddywedyd, a chan fod Cristion a Gobeithiol eto o fewn galwad, cytunasant ymosod arnynt â'r cwestiynau hyn pan y goddiweddent hwy; ac yn enwedig, am iddynt wrthwynebu Mr. Gau-ddybenion o'r blaen. Felly galwasant arnynt, a hwythau a safasant hyd oni ddaethant i fynu atynt; ond cyn dyfod at y pererinion, cytunasant mai nid Mr. Gau-ddybenion, ond Mr. Gafael Bydol a gai osod y gofynion o'u blaenau; oherwydd tybient y byddai eu hateb iddo ef heb ddim ó weddill y poethder a enynwyd rhwng Mr. Gau-ddybenion & hwynt ar eu hymadawiad enyd o'r blaen.

Felly daethant at eu gilydd, ac wedi cyfarchiad byr, Mr. Gafael Bydol a osododd y cwestiwn o flaen Cristion a'i gyfaill, ac a archodd arnynt ei ateb os medrent.

**CRISTION.** Wel, ebe Cristion, gall baban mewn crefydd ateb deng mil o'r fath ofynion; canys os yw yn anngyfreithlon dilyn Crist er mwyn torthau, fel yn ddiau y mae, Ioan 6. 26, pa faint mwy ffiaidd yw gwneud ffug-orchudd o hono ef a chrefydd i ennill a mwynhau y byd! Ni chawn fod neb o'r dyb yma ond paganiad, rhagritchwyr, swynwyr, a chythreuliaid.

1. Paganiad: pan chwennychodd Hemor a Sichem ferch ac anifeiliaid Jacob, a phan welsant nad oedd un ffordd i'w cael ond trwy gael eu henwaedu, dywedasant wrth eu cyfeillion, Os enwaedir pob gwrryw i ni, fel y maent hwy yn enwaedelig, eu hanifeiliaid, eu cyfoeth, a'u holl ysgrubliaid hwynt, onid eiddom ni fyddant hwy? Eu merchaid a'u hanifeiliaid oedd yr hyn oll a geisient, a chrefydd oedd y ffug-orchudd a ddefnyddid ganddynt i'w cyrhaedd. Darllenwch yr holl hanes, Gen. 34. 20—24.

2. Y Pharisaeid rhagrichiol hefyd oedd y grefydd hon: hir-weddio oedd yr esgus, ond llwyr-fwyta tai gwragedd gweddwon oedd eu dyben, a barnedigaeth drymach oddiwrth Dduw oedd eu cosp, Luc 20. 46, 47.

3. Judas y diafol hefyd oedd o'r grefydd hon; crefyddol ydoedd er mwyn y god, a hyny er cael yr hyn a roddid

ynndi; ond efe a gollwyd, a fwriwyd ymaith, a mab y golledigaeth ydoedd.

4. Simon y swynwr hefyd oedd o'r grefydd hon; canys mynai gael yr Ysbryd Glan, a hyny fel y gallai wneud arian o hono; a'r ddeddfryd o enau Pedr oedd yn ol byny, Act. 8. 19—22.

5. Ac nis gallaf lai na meddwl y bydd i'r neb a ddewiso grefydd er mwyn y byd, daflu crefydd ymaith er mwyn y byd; canys can wired ag i Judas geisio am y byd trwy ddyfod yn grefyddol, mor wired a hyny y gwerthodd efe ei grefydd a'i Athraw am y byd. Mae ateb y cwestiwn yn gadarnhaol, a'i dderbyn fel un cywir, megys y gwelaf i chwi wneud, yn beth paganaidd, rhagrihol, a dieffig; a'ch gwobr fydd yn ol eich gwaith.

Ar hyn safasant yn syn, gan edrych y naill ar y llall, ond nid oedd ganddynt ddim i ateb Cristion. Cymeradwyai Gobeithiol hefyd iachusrwydd ateb Cristion; ac felly bu dystawrwydd mawr yn eu plith. Mr. Gaudybenion a'i gymdeithion bellach a giliasant yn ol, fel y gallai Cristion a Gobeithiol fyned yn mlaen. Yna, ebe Cristion wrth ei gysfaill, os na all y gwyr hyn sefyll o flaen barn dynion, pa beth a wnant o flaen barn Duw? Ac os aethant yn fud pan y'u trinier gan lestri pridd, pa beth a wnant pan gerydder hwy trwy fflamau ysol o dŵn?

Yna Cristion a Gobeithiol a'u gadawsant eilwaith, ac a aethant yn mlaen hyd oni ddaethant i wastadedd hyfryd, a elwir Esmwythder, ar yr hwn y cychwynasant gyda boddineb mawr; ond nid oedd y gwastadedd hwnw ond cul, ac am hyny aethant drosto yn suan. Yn awr yn nghwr eithaf y gwastadedd hwnw yr oedd bryn bychan a elwid Elw, ac yn y bryn hwnw yr oedd mwnglawdd arian, a chan ei anfynyched, troisai rhai a deithient y ffordd gynt o'r neilldu i'w weled; ond wrth fyned yn rhy agos at ymyl y pwll, torodd y tir danynt, gan ei fod yn dwyllodrus, a lladdwyd hwynt: rhai hefyd a anafwyd yno, fel nad adferwyd hwynt hyd ddydd eu marwolaeth.

Yna gwelwn yn fy mreuddwyd ychydig o'r ffordd, ar gyfer y mwnglawdd arian, y safai Demas (gwr o wedd

boneddigaidd) i alw fforddolion i ddyfod a gweled ; a dywedai wrth Gristion a'i gydymaith, Ho ! trowch yma, a danghosaf i chwi beth.

**CRISTION.** Pa beth all fod o werth i ni droi allan o'r ffordd i'w weled ?

**DEMAS.** Y mae yma fwnglawdd arian, a rhai yn cloddio ynddo am drysor ; os deuwch, gellwch, gydag ychydig boen, wneud darpariaeth da i chwi eich hunain.

**GODEITHIOL.** Yna ebe Gobeithiol, Awn i weled.

**CRISTION.** Nac âf fi, ebe Cristion ; clywais son am y lle hwn cyn hyn, a'r nifer a laddwyd yma ; mae y trysor yn fagl i'r rhai a'i ceisiant, canys y mae yn eu rhwystro yn eu pererindod.

Yna Cristion a alwai ar Demas, ac a ddywedai, Onid yw y lle hwn yn beryglus iawn ? Onid ataliodd lawer yn eu pererindod ? Hos. 4. 16—19.

**DEMAS.** Nid yw yn beryglus iawn, oddigerth i'r diosaf ; ond yr oedd yn gwrido wrth ddywedyd.

**CRISTION.** Yna ebe Cristion wrth Gobeithiol, Na syflwn gam, ond cadwn yn ddiysgog ar ein ffordd.

**GODEITHIOL.** Sicer i chwi, pan ddelo Gau-ddybenion i'r lle, os gwahoddir ef fel y gwahoddwyd ni, y try efe i mewn i yspio.

**CRISTION.** Nid oes amheuaeth am hyny, canys arweinia ei egwyddorion y ffordd yna, a chant i un nad marw a wna yn y man.

**DEMAS.** Yna galwai Demas drachefn, a dywedai, Ai ni ddeuwch drosodd i weled ?

Yna Cristion a'i hatebai yn ddidderbyn-wyneb, gan ddywedyd, Demas, yr wyt yn elyn i uniawn ffyrdd Argywydd y ffordd hon, ac wedi dy euog-farnu eisoes am dy wrthgiliad gan un o farnwyr ei Fawrhydi, 2 Tim. 4. 10 ; a phaham yr ymdrechi ein denu ninau i'r un ddamnedig-aeth ? Heblaw hyny, os trown un cam o'r ffordd, bydd ein Harglywydd Frenin yn sicer o glywed, a'n gwarthruddo yn y man y mynem sefyll yn hyderus o'i flaen.

Yna gwaedai Demas arnynt drachefn, a dywedai ei fod yntau yn un o'u brawdoliaeth hwy ; ac os arhosent ychydig, y deuai gyda hwynt.

## 114 GAU-DDYBENION A'I GWMNI YN TROI AT DEMAS.

**CRISTION.** Yna ebe Cristion, Beth yw dy enw? Onid yr un y'th elwais arno?

**DEMAS.** Ië, fy enw yw Demas; mab i Abraham ydwyf.

**CRISTION.** Adnabyddwyf di; Gehazi oedd dy hendaïd, a Judas oedd dy dad, a thithau a rodiaist yn eu camrau; ystryw cythreulig a ddefnyddi; crogwyd dy dad am deyrnfradwriaeth, ac ni haeddit tithau well gwobr, 2 Bren. 5. 20—27; Mat. 26. 14, 15; 27. 3—5. Gwybydd hyn, pan ddelom at y Brenin, y dywedwn wrtho am dy ymddygiad. Felly yn mlaen yr aethant.

Erbyn hyn yr oedd Mr. Gau-ddybenion a'i gymdeithion drachefn mewn golwg, ac, ar yr amnaid cyntaf, aethant trosodd at Demas. Yn awr, pa un a syrthiasant i'r pwall wrth edrych dros yr ymyl, neu a aethant i lawr i gloddio, neu ynte a fygwyd hwynt yn y gwaelod gan y tarth sydd yn arfer codi, nid wyf yn sicr; ond hyn a sylwais, na welwyd hwynt byth mwyach ar y ffordd. Yna canodd Cristion,—

'Nawr Gau-ddybenion a Demas arianog  
Gytunent & u gilydd er bod yn gyfranog  
O'i olud anwadal; er mwyn byd presenol  
Y ddau a gydwerthent eu gwynfyd tragwyddol.

Yn awr gwelwn, ar yr ochr draw i'r gwastadedd hwn, ddyfod o'r pererinion i le y safai hen gof-golofn gerllaw y brif-fiordd, yn y golwg arni teimlai y ddau yn ddwys, gan hynoted ei llun; canys ymddanghosai iddynt hwy fel gwraig wedi ei throi yn golofn. Yma, gan hyny, safent i edrych ac i adedrych arni; ond ni allent dros enyd wybod beth a allai fod. O'r diwedd canfyddai Gobeithiol ysgrifen mewn llaw ddyeithr wedi ei hysgrifenu yn uchel ar ei phen; eithr am nad oedd yn ysgolhaig, galwodd ar Gristion (yr oedd ef yn wr dysgedig) i edrych a fedrai efe gael allan ei hystyr: yntau a ddaeth, ac wedi ychydig gysylltu y llythyrenau yn nghyd, canfyddai mai hyn oedd ynt, "Cofiwch wraig Lot." Felly darllenodd hi i'w gyfaill; wedi hyn penderfynasant ill dau mai hon oedd y golofn halen i'r hon y trowyd gwraig Lot, am iddi

edrych yn ol â chalon drachwantus pan yn dianc o Sodom, Gen. 19. 26. Yr olygfa ddisymwth a rhyfeddol hon a barodd iddynt ymddyddan fel hyn :—

**CRISTION.** Ah, fy mrawd! dyna olygfa yn ei phryd; daeth i ni yn gyfamserol, newydd i Demas ein gwahodd i fyned trosodd i gael golwg ar fryn Elw; a phed aethem, yn ol ei ddymuniad ef a' th ogwyddiad dithau, fy mrawd, er dim a wn i, gwnelsid ni yn ddrych i'r rhai a ddelout ar ein holau i edrych arnom.

**GOBEITHIOL.** Drwg genyf i mi fod mor ffyl, ac yr wyf yn gorfod rhyfeddu na buaswn yn awr fel gwraig Lot; canys yn mha beth y mae'r gwahaniaeth rhwng ei phechod hi a'm pechod inau? Ni ddarfu iddi hi ond edrych yn ol, a minau a ewyllisiais fyned a gweled. Mawryger gras; a bydded arnaf finau gywilydd i'r fath beth erioed fod yn fy nghalon.

**CRISTION.** Gadewch i ni ddal sylw ar yr hyn a welwn yma, er ein cymhorth mewn amser i ddyfod. Dihangodd y wraig hon rhag un farn, canys ni ddyfethwyd hi yn ninystri Sodom; eto dinystriwyd hi trwy farn arall, fel y gwelwn; trowyd hi yn golofn halen.

**GOBEITHIOL.** Gwir, a gall fod i ni yn rhybudd ac yn siAMPL; yn rhybudd, fel y byddo i ni ochel ei phechod, neu yn arwydd o'r farn a oddiwedd y rhai na chymerant eu hatal gan y rhybudd hwn: felly hesyd y gwnaed Corah, Dathan, ac Abiram, a'r dengwr a deugain a dan gant a ddyfethwyd yn eu pechodaun, yn arwydd ac yn siAMPL i ereill wyllo, Num. 16. 31, 32; 26. 9, 10. Ond uwchlaw y cwbl, synwyf at un peth, sef pa fodd y gall Demas a'i gyfeillion sefyll mor eofn acw i chwilio am y trysor hwnnw y safodd y wraig hon, yn unig am edrych i gael golwg arno (oblegyd nid ydym yn darllen iddi fyned un cam allan o'r ffordd), ei throi yn golofn halen; yn enwedig gan i'r farn a'i goddiweddodd ei gwneud y siAMPL yn ngolwg y man lle y maent; canys ni allent lai na'i gweled, ond iddynt dderchafu eu llygaid.

**CRISTION.** Mae yn beth syn, ac yn argoel fod eu calonau wedi caledu yn yr achos; ac nis gallaf eu cymharu i reb mor briodol ag i'r rhai a fyddont yn pigo

## 116 AFON BYWYD.—GWEIRGLODD HYFRYD.

pocedau yn ngwydd y barnwr, neu yn chwiliena dan y crogbren. Dywedir am wyr Sodom eu bod yn bechaduriaid dirfawr, oherwydd eu bod yn bechaduriaid "ger bron yr Arglwydd," sef, yn ei wyddfod ef, ac er cymaint caredigrwydd a ddangosasai efe iddynt; canys tir Sodom y pryd hwnnw oedd megys gardd Eden gynt, Gen. 13. 10—13. Hyn, gan hyny, a barodd iddo eiddigeddu yn fwy, a gwneud eu pla mor boeth ag a allai tân yr Arglwydd o'r nef ei wneuthur. A gellir casglu yn rhesymol, y bydd y fath rai a hyn, ag sydd yn pechu yn ngolwg, ac, hyd yn nod, er gwaethaf, y cyfryw siamplau a osodir yn wastadol o'u blaenau, er mwyn eu rhybuddio i'r gwrthwyneb, yn gyfranogion o'r barnau tostaf.

**Gobeithiol.** Gwir yn ddiua a ddywedaist; ond y fath drugaredd ydyw na osodwyd ti, ac yn enwedig myfi, yn siampl o'r fath! Rhydd hyn achos i ni ddiolch i Dduw, ofni ger ei fron, a choфio gwraig Lot yn barhaus.

Gwelwn wedi hyn iddynt fyned yn mlaen at afon ddymunol, yr hon a alwai y brenin Dafydd, "Afon Duw;" ond Ioan a'i galwai, "Afon bur o ddwfr y bywyd," Psal. 65. 9; Dat. 22. 1; Ezac. 47. 1—9. Yn awr yr oedd eu ffordd yn myned ar hyd làn yr afon hon. Yma, gan hyny, y teithiai Cristion a'i gydymaith gydag hyfrydwch mawr; yfent hefyd o ddwfr yr afon, yr hwn oedd ddymunol ac adfywiol i'w hysbrydoedd lluddedig. Heblaw hyny, yr oedd ar lanau yr afon hon, o bob tu, goed gwyrddleision, yn dwyn pob math o ffrwythydd; bwytaent y dail i ragflaenu galariad a chlefydau ereill sydd dueddol i'r rhai fyddont yn poethi eu gwaed wrth deithio. O bob tu i'r afon hefyd yr oedd gweirgloedd yn huliedig â lili prydferth, ac yn werddlas drwy yr holl flwyddyn. Yn y weirgloedd hon gorweddent a chysgent, canys yma gallent orwedd i lawr yn ddiogel, Psal. 23. 2; Esay 14. 30. Gwedi deffro, casglent drachefn o ffrwythau y coed, yfent o ddwfr yr afon, ac yna gorweddent i gysgu. Fel hyn y gwnaethant dros amryw ddyddiau a nosweithau. Yna canent fel hyn :—

Gwelwch fel y rhed yn rhwydd  
 Y ffrydian hylwydd heinif,  
 I gysuro ar eu taith  
 Bob glân gydymaith difrif.

Y gweirgloddiau teg eu gwedd,  
 A'u perarogledd hyfryd,  
 I bob pereriu sydd yn rhad  
 Wrth fyn'd i wlad y bywyd.

A wyr am werth y rhai hyn oll,  
 A'r ffirwythau digoll ddygant,  
 A werth a feddo oll yn wir  
 I brynu'r tir lle tyfant.

Felly, pan oeddynt ar fedr myned yn mlaen (canys nið oeddynt eto ar ben eu taith), bwyasant, yfasant, ac ym-adawsant.

Yna gwelwn yn fy mreuddwyd nad aethant nebpell cyn fod yr afon a'r ffordd dros enyd yn ymwahanu, yr hyn a barai gryn dristyd iddynt; eto ni feiddient adael y ffordd. Yr oedd y ffordd oddiwrth yr afon yn arw, a'u traed hwythau yn dyner gan y daith; felly cyfyng oedd ar eneidiau y pererinion oherwydd y ffordd, Num. 21. 4. Am ba achos, chwennychasant o hyd wrth fyned ym mlaen gael gwell ffordd. Ychydig o'u blaenau, ac ar ochr aswy y ffordd, yr oedd gweirgloedd a chamfa i fyned trosodd iddi, a'r weirgloedd a elwid Gweirgloedd y Gau-lwybr. Yna ebe Cristion wrth ei gydymaith, Os yw'r weirgloedd hon yn gorwedd o hyd wrth ochr y ffordd, awn trosodd iddi. Yna aeth at y gamfa i edrych, a gwelai lwybr yn myned o hyd, o'r tufewn i'r weirgloedd, gydag ymyl y ffordd. Y mae fel y mynwn iddo fod, meddai Cristion; dyma y ffordd hawsaf; tyred yn awr, Gobeithiol hoff, ac awn trosodd.

**Gobeithiol.** Ond beth os arweinia y llwybr hwn ni allan o'r ffordd.

**CRISTION.** Nid tebygol hyny, ebe y llall. Gwel, onid yw yn myned o hyd gydag ochr y ffordd? Felly Gobeithiol, wedi ei berswadio gan ei gydymaith, a aeth

ar ei ol dros y gamfa. Gwedi eu myned trosodd, a dyfod i'r llwybr, teimlent ef yn esmwyth iawn i'w traed ; a chyda hyn, wrth edrych yn mlaen, canfyddent wr yn ymdaith fel hwythau, a'i enw oedd Gwag-hyder : felly galwasant arno, a gofynasant iddo, I ba le yr arweinia y ffordd hon ? Dywedai yntau, I'r porth nesol. Gwel, medd Cristion, oni ddywedais felly wrthyt ? wrth hyn gelli weled ein bod ar yr iawn. Felly canlynen ef, ac yntau yn myned o'u blaenau. Ond wele dechreuai nosi arnynt, ac aeth yn dywyll iawn ; felly collasant olwg ar y gwr oedd yn myned o'u blaenau.

Gan hyny, eu rhagflaenydd (Gwag-hyder wrth ei enw), o ddiffyg cansod y ffordd, a syrthiodd i bydew dwfn, yr hwn a gloddiesid yno, gan dywysog y tiröedd hyny, o bwrpas i ddal ynfydion gwag-frostgar, a drylliwyd ef yn chwilfriw yn y codwm, Esay 9. 16.

Yn awr clybu Cristion a'i gydymaith ef yn syrthio, a galwasant arno i gael gwybod beth a ddygwyddasai ; ond nid oedd neb yn ateb, na dim i'w glywed ond ocheneidiau. Yna ebe Gobeithiol, Pa le yr ydym yn awr ? Yr oedd ei gyfaill yn fud, ac yn osni iddo ei arwain oddiar y ffordd ; yn awr hefyd dechreuai wlawio, taranu, a melltenu yn y modd mwyaf dychrynllyd, a'r dyfroedd a ymchwyyddent yn dra uchel.

Yna griddfanai Gobeithiol ynddo ei hun, gan ddyweddyd, Oh, na buaswn yn ymgadw ar y ffordd !

**CRISTION.** Pwy a feddyliasai yr arweiniadasai y llwybr hwn ni allan o'r ffordd ?

**GOBEITHIOL.** Ofnais hyny ar y cyntaf, ac am hyny y rhoddais y rhybudd tyner hwnnw. Buaswn yn siarad yn noethach, oni buasai dy fod yn hyn na myfi.

**CRISTION.** Frawd anwyl, na ddigia ; drwg iawn genyf i mi dy ddwyn allan o'r ffordd, a'th osod yn y fath berygl tost. Atolwg, fy mrawd, maddeu i mi, ni wnaethum hyn o ddrwg-fwriad.

**GOBEITHIOL.** Ymdawela, frawd, ebe Gobeithiol, canys yr wyf yn maddeu i ti ; ac yn credu hefyd y bydd hyn er ein lles.

**CRISTION.** Da genyf fod gyda mi frawd mor dosturiol ;

ond rhaid i ni beidio sefyll yma; ymdrechwn fyned yn ol.

**GOBETHIOL.** Ond, ty anwyl frawd, gad i mi fyned yn mlaenaf.

**CRISTION.** Nage, os gweli yn dda, gad i mi fyned yn mlaenaf, fel, os bydd unrhyw berygl, y byddwyf fi ynddo gyntaf; canys o'm plegyd i yr aethom ill dau o'r ffordd.

**GOBETHIOL.** Nage, ebe Gobeithiol, ni chai fyned yn mlaenaf; canys dichon i drallod dy feddwl dy arwain allan o'r ffordd eto. Yna, er eu cysur, clywent lef yn dywedyd wrthynt, "Gosod dy galon tua'r brif-ffordd; y ffordd yr aethost, dychwel," Jer. 31. 21. Erbyn hyn codasai y dyfroedd yn dra uchel, ac am hyny yr oedd myned yn ol yn beryglus iawn. (Yna meddyliais inau mai hawsach o lawer yw myned allan o'r ffordd pan fyddom arni, na myned yn ol iddi wedi ei cholli.) Eto anturiasant ddychwelyd; ond yr oedd mor dywyll, a'r dyfroedd mor uchel, fel y buont, wrth geisio myned, bron a boddi naw neu ddeg o weithiau.

Nis gallasant, er eu holl fedrusrwydd, gyrhaedd y gamfa y noson honno. Am hyny, wedi cael ychydig o gysgod, eisteddasant i lawr yno hyd doriad y dydd; ond gan eu bod yn lluddedig, syrthiasant i gwsg. Yn awr yr oedd yn agos i'r fan y gorweddent gastell, o'r enw Castell Amheuaeth, perchenog yr hwn oedd Cawr Anobaith, ac ar ei dir ef yr oedd ynt yn awr yn cysgu: hwn, wedi codi yn foreu, ac yn ymrodio ar hyd ei feusydd, a ddaliodd Gristion a Gobeithiol yn cysgu ar ei dir. Yna, gyda llais garw a sarug, efe a'u deffrodd, a gofynodd iddynt, O ba le y daethoch? a pha beth a geisiwch ar fy nhir i? Dywedasant hwythau wrtho, Pererinion ydym, a collasom ein ffordd. Yna ebe y cawr, Troseddasoch neithiwyr trwy fathru fy nhir a chysgu arno, ac am hyny rhaid i chwi ddyfod gyda mi. Felly gorfu iddynt fyned, am ei fod yn gryfach na hwynt. Nid oedd ganddynt ychwaith ond ychydig yw ddywedyd, canys gwyddent eu bod ar fai. Y cawr, gan hyny, a'u gyrodd o'i flaen, ac a'u dododd yn ei gastell mewn daeardy tywyll iawn, yr hwn oedd yn

## 120 EI DRINTAETH GREULON O'R PERERINION.

ffiaidd a drewedig i ysbrydoedd y ddau ddyn hyn. Yn y man hwn y gorweddasant o foreu dydd Mercher hyd nos Sadwrn, heb damaid o fara na dysferyn o ddwfr, na goleuni, na neb i ymofyn am danynt: yr oddynt, gan hyny, yn ddrwg eu cyflwr, ac yn mhell oddiwrth gyfeillion a chyd nabod, Psal. 88. 18. Yn y lle hwn hefyd yr oedd Cristion dan ofid deublyg; oblegyd mai trwy ei brysurdeb annoeth ef y dygesid hwynt i'r cyfyngder hwn.

Yr oedd gan Gawr Anobaith wraig, a'i henw oedd Anhyder: ac wedi iddo syned i'w wely, mynegai iddi yr hyn oll a wnaethai, sef, iddo ddal dau garcharor, a'u tafu i'w ddaeardy, am droseddu ar ei diroedd ef. Gofynai iddi hefyd, Beth sydd oreu i mi wneuthur iddynt yn mhellach? Yna gofynai hithau iddo, Pwy ydynt? o ba le y daethant? ac i ba le yr ánt? Yntau a fynegodd iddi. Yna cynghorai ef i'w curo yn ddidrugaredd pan godai y borau. Felly wedi iddo godi, cymerodd law-ffon o afallen sur yn ei law, ac a aeth i lawr atynt i'r daeardy, ac a ddechreudd eu tafodi fel pe buasent 'gwn, er na ddywedasant un gair anweddus wrtho. Yna ymosododd arnynt, gan eu curo yn arswydus, ie, yn y fath fodd nas gallent ymwingo nac ymdroi ar y llawr. Wedi hyn, gadawodd hwynt i gwysfan eu gofid, ac i alaru dan bwys eu trallog: felly treuliasant yr holl ddiwrnod hwnnw mewn ocheneidai ac wylofain chwerw. Y noswaith nesaf, wrth siarad â'i gwr yn mhellach yn eu cylch, a deall eu bod eto yn fyw, hi a'i cynghorai ef i'w hannog i wneuthur pen ar eu heinioes eu hunain. Pan ddaeth y borau, aeth atynt mewn modd sarug fel o'r blaen, ac yn canfod eu bod yn ddolurus iawn oherwydd y ffonodai a roddasai iddynt y diwrnod o'r blaen, a ddywedai wrthynt, Gan nad ydych yn debyg o ddyfod byth o'r lle hwn, y peth goreu i chwi yw gwneuthur pen ar eich einioes eich hunain, naill ai â chyllell, rhaff, neu wenwyn: canys paham y dewiswch fywyd, a chwithau yn gweled fod cymaint o chwerwder yn ei ganlyn? Eithr atolygasant arno eu gollwng ymaith. Pan ddywedasant hyn, edrych-odd yn arswydus arnynt, a chan ruthro arnynt, diau y

buasai yn gwneuthur pen arnynt ei hunan, oni buasai iddo syrthio mewn llewyg (canys byddai rai prydiau, pan dywynai haul, yn syrthio i lewygfeydd), a thros amser collai nerth ei ddwylaw; felly aeth ymaith, gan eu gadael, fel o'r blaen, i ystyried beth a wnaent. Yna ymgynghorai y carcharorion â'u gilydd, pa un oreu iddynt a'i gwneuthur yn ol ei gyngor ai peidio; ac fel hyn y dechreuasant ymddyddan :—

**CRISTION.** Fy mrawd, meddai Cristion, pa beth a wnawn? Y bywyd yr ydym yn ei fyw yn bresenol sydd druenus iawn. O'm rhan i, nis gwn pa un oreu ai byw fel hyn, ai marw allan o law. Am hyny y dewisai fy enaid ymdagu yn fwy na'm hoedl, a'r bedd sydd esmwythach i mi na'r daeardy hwn, Job 7. 15. A gymerwn ni ein rheoli gan y cawr, ai ni wnawn?

**GODEITHIOL.** Yn wir, y mae ein cyflwr presenol yn ddychrynllyd; a byddai angau yn fwy dewisol genyf na byw dros byth fel hyn; ond eto ystyriwn, fod Arglwydd y wlad yr ydym yn myneb iddi wedi dywedyd, "Na ladd:" ie, na ladd un arall, mwy o lawer y gwaherddir i ni gymeryd ei gyngor ef i'n ladd ein hunain. Heblaw hyny, nis gall yr hwn a laddo arall ond lladd ei gorff yn unig; ond yr hwn a'i laddo ei hun, sydd yn lladd ei gorff a'i enaid ar unwaith. Hefyd, fy mrawd, soni am esmwythdra yn y bedd; ond a anghofiaist uffern, i'r hon yn ddiamau yr â llofruddion? canys "nid oes i un lleiddiad dyn fywyd tragwyddol." Ystyriwn hefyd, nad yw'r gyfraith i gyd ddim yn llaw Cawr Anobaith; dal-iwyd ereill ganddo, hyd y dealwyf, cystal a ninau, ac eto dihangasant o'i law. Pwy a wyr na bydd i'r Duw a wnaeth y byd beri i'r Cawr Anobaith farw; neu na all efe, ryw bryd neu gilydd, anghofio cloi arnom; neu na fydd iddo cyn hir gael un o'i lewyfeydd eto, a cholli nerth ei aelodau? Os byth y dygwydd hyny eto, yr wyf yn penderfynu ymwroli, ac ymdrechu, hyd eithaf fy ngallu, i ddiane odditan ei law. Ynfyd oeddwn na buaswn yn gwneuthur hyny o'r blaen; ond modd bynag, fy mrawd, byddwn amyneddgar a dyoddefus dros ychydig; efallai y daw yr amser i ni gael ymwared dedwyddol: ond na

fudded i ni byth fod yn hunanleiddiaid. Trwy y geiriau hyn, lliniarodd Gobeithiol feddwl ei frawd ar y pryd felly yr arosasant yn nghyd yn y tywyllwch y diwrnod hynnw yn eu cyflwr truenus a gresynol.

Yn y prydnewn dyma y cawr i lawr i'r daeardy drachefn, i edrych a gymerasai y carcharorion ei gyngor; ond wedi dyfod yno, cafodd hwynt yn fyw; ac, yn wir, bod yn fyw oedd y cwbl; canys yn awr, o eisiau bara a dwfr, ac o achos y clwyfau a gawsent pan y curwyd hwynt, ni allent nemawr mwy nag anadlu. Ond, meddaf, cafodd hwynt yn fyw; ac ar hyny, syrthiai i gynddaredd ofnadwy, a dywedai, Yn gymaint nad ufuddhasoch i'm cyngor i, gwell a fuasai i chwi pe nas ganesid chwi erioed.

Ar hyn crynent yn ddifawr, a thybiwyf i Gristion syrthio i lewyg; ond wedi dadebru ychydig, ailddechreasant eu hymddyddan yn nghylch cyngor y cawr, a pha un oreu iddynt eto ai ei gymeryd ai peidio. Yr oedd Cristion eilwaith am gymeryd ei gyngor; ond Gobeithiol a'i hatebai drachefn fel y canlyn:—

**Gobeithiol.** Fy mrawd, eb efe, onid wyt yn cofio mor wrwl yr ymddygaist cyn hyn? Nis gallodd Apolyon dy lethu, ac nis gallodd yr hyn oll a glywaist, a welaist, ac a deimlaist yn Nglyn Cysgod Angau dy droi yn ol. Trwy ba faint o galedi, dychryn, a syndod yr aethost yn barod, ac a wyt ti yn awr mor ofnus? Gweli fy mod yn y ddaeargell gyda thi, ac wrth natur yn llawer gwanach na thydi. Hefyd archollodd y cawr yma fi cystal a thithau; ataliodd hefyd y bara a'r dwfr oddiwrth fy ngenau, a chyda thi yr wyf yn gofidio heb weled goleuni. Byddwn amyneddgar ychydig yn hwy. Cofia mor wrwl fuost yn Ffair Gwagedd, nid ofnaist y gadwyn, na'r cyffion, na marwolaeth waedlyd ychwaith; am hyny, boed i ni (o leiaf ochel y gwaradwydd nad yw weddus i Gristion) ddyoddef yn amyneddgar hyd eithaf ein gallu.

Yn awr daethai y nos drachefn, a'r cawr a'i wraig a aethant i'w gwely, a hi a ymofynai drachefn yn nghylch y carcharorion, A gymerasai t hwy dy gyngor ai peidio? A tebai yntau, Rhai diffaith ystyruig ydynt; dewisant

ddyoddef pob caledi yn hytrach na gwneud pen ar eu heinioes. Yna ebe hithau, Cymer hwynt y fory i gyntedd y castell, a dangos iddynt esgyrn a phenglogau y rhai a ddyfethwyd genyt eisoes, a gwna iddynt gredu y drylli di hwythau yn ddarnau mân, cyn pen wythnos, fel y gwnaethost i'w cyfeillion o'u blaenau.

Gwedi i'r bore wawrio, aeth y cawr atynt drachefn, a chymerodd hwynt i gyntedd y castell, a danghosodd iddynt yn ol a archodd ei wraig iddo. Y rhai hyn, meddai, oeddynt bererinion gynt fel chwithau, a throseddasant ar fy nhiroedd i fel y gwnaethoch chwithau; a phan welais yn gyfaddas drylliais hwynt yn ddarnau, ac felly y gwnaaf â chwithau cyn pen deng niwrnod; ewch yn ol i'ch ffau eto. A dechreuodd eu cuo yr holl ffordd yno. Gorweddent, gan hynny, mewn gresyni trwm fel o'r blaen trwy gydol dydd Sadwrn. Yn awr, wedi i'r nos ddyfod, ac i Mrs. Anhyder a'r cawr, ei gwr, syned i'w gwely, dechreusant eilwaith yr ymddyddan yn nghylch y carcharorion; a rhyfeddai y cawr yn ddirfawr ei fod yn methu llwyddo, trwy ei fionnodiau na'i gynghorion, i gael ganddynt ladd eu hunain. Ar hyn atebai ei wraig, Ofn sydd arnaf, ebe hi, eu bod yn byw mewn gobaith y daw rhyw rai i'w gwaredu; neu fod ganddynt ryw offer i agor cloaù, trwy'r rhai y gobeithiant ddianc. A ddywedi felly, fy anwylyd? meddai y cawr; chwiliaf hwynt yn fanwl boreu y fory.

Wel, nos Sadwrn, oddeutu canol nos, dechreusant weddio, a pharhausant i weddio hyd doriad y dydd yn mron.

Yn awr, ychydig cyn dydd, Cristion, fel un wedi hanner dyrys, a dorai allan mewn ymadrodd cyffrous, fel hyn: —Y fath ynfyd-ddyn ydwyf, meddai, yn gorwedd fel hyn mewn daeardy drewedig pan allwn mor hawdd ymrodio mewn rhyddid! Y mae genyf allwedd yn fy mynwes, à elwir Addewid, yr hon, diamheul genyf, a egyr bob clo yn Nghastell Amheuaeth. Yna ebe Gobeithiol, Dyna newydd da, fy mrawd anwyl; tyn hi allan o'th fynwes, a gwna brawf o honi.

Yna Cristion a'i cymerodd o'i fynwes, ac a ddechrenodd

ar ddrws y daeardy, a'r follt, fel y troes yr allwedd, a giliodd yn ol, a'r drws a ymagorai yn rhwydd ddigon; a Christion a Gobeithiol a ddaethant allan ill dau. Yna aethant yn mlaen i'r drws oedd yn arwain i gyntedd y castell, a hwn hefyd a agrorai yn hawdd a'r allwedd hon. Wedi hyn aeth at y porth haiarn, canys yr oedd yn rhaid agor hwnnw hefyd; ond tyn ryfeddol oedd y clo hwn, eto yr allwedd a'i hagorodd. Yna gwthiasant y porth yn llydan agored, modd y gallont ddianc ar ffrwst; ond y porth hwnnw wrth agor a wnaeth y fath rinc trystiog, fel y defrodd Cawr Anobaith, yr hwn a gyfododd i fynu yn ebrwydd i ddilyn ei garcharorion, ond teimlodd ei aelodau yn pallu; canys eymerasid ef drachefn gan lewygfa, fel nad allai mewn un modd ymlid ar eu holau. Yna aethant yn mlaen, a daethant i brif-fordd y Brenin drachefn; ac yno yr oeddynt yn ddiogel, am eu bod allan o diriogaeth y cawr.

Yn awr, wedi iddynt fyned dros y gamfa, dechreuent ymgynghori beth a wnaent wrth y gamfa hòno, i atal y rhai a ddeuent ar ol rhag syrthio i ddwylaw Cawr Anobaith. Felly cytunasant godi colofn yno, a cherfio ar ei hochr yr ymadrodd canlynol:—"Tros y gamfa hon y mae'r ffordd i Gastell Amheuaeth, a gedwir gan Gawr Anobaith, yr hwn sy'n diystyru Brenin y wlad nefol, ac yn ceisio dyfetha ei bererinion santaidd." A llawer o'r rhai a ddaethant y ffordd hòno wedi hyny, a ddarlenasant yr ysgrifen, ac a ochelasant y perygl. Wedi hyny canent fel hyn :—

O'r ffordd ciliason, cawsom brawf yn wir  
 Mor ddrwg oedd sengu gwaharddedig dir:  
 Gofaled pawb a ddelont ar ein hol,  
 Rhag bod fel ni, trwy ddiofalwch ffol,  
 Yn garcharorion, dan Anobaith Mawr,  
 Yn Nghastell [cas] Amheuaeth, trigle'r cawr.

Wedi hyny aethant yn mlaen nes cyrhaedd y Mynyddoedd Hyfryd, y rhai a berthynent i Arglwydd y bryn y soniasom o'r blaen am dano. Felly aethant i'r mynyddoedd, i welel y ge-ddi a'r peillanau, y gwinllanbedd a'r

ffynhonau dyfroedd; ac yno yr yfent, yr ymolchent, ac y bwytäent yn helaeth o'r grawnwin. Yn awr yr oedd ar y mynyddoedd hyn Fugeiliaid yn porthi eu praid, a safent ar ochr y brif-ffordd. Y pererinion, gan hyny, a aethant atynt; a chan bwys o ar eu ffyn (fel yr arfera pererinion lluggedig pan safont i siarad â rhyw un ar y ffordd), gofynent, Pwy yw Perchenog y Mynyddoedd Hyfryd hyn? ac eiddo pwy ydynt y defaid sydd yn pori arnynt?

**BUGEILIAID.** Y mynyddoedd hyn ydynt Dir Immanuel, ac y maent yn ngolwg ei ddinas ef; a'r defaid hyn hefyd ydynt ei eiddo ef, a rhoddodd ei einjoes i lawr drostynt.

**CRISTION.** Ai hon yw y ffordd i'r Ddinas Nefol?

**BUGEILIAID.** Yr ydych yn gymhwys ar y ffordd?

**CRISTION.** Pa can belled yw hi oddiyma?

**BUGEILIAID.** Rhy bell i bawb ond a'i cyrhaeddo mewn gwirionedd.

**CRISTION.** A yw'r ffordd yn ddiogel neu yn beryglus?

**BUGEILIAID.** Diogel i'r rhai y mae i fod yn ddiogel, ond troseddwyr a dramgwyddant ynddi, Hos. 14. 9.

**CRISTION.** A oes yn y lle hwn ddim ymgeledd i bererinion llesg a lluggedig ar eu taith?

**BUGEILIAID.** Mae Arglwydd y mynyddoedd hyn wedi gorchymyn nad anngofiem letygarwch, Heb. 13. 2; am hyny, y mae holl ddaioni y lle hwn o'ch blaenau.

Gwelais hefyd yn fy mreuddwyd, i'r Bugeiliaid, wedi gwybod mai fforddolion oddynt, ofyn cwestiynau iddynt (y rhai a atebi ynt fel y gwnaent mewn lleoedd ereill), megys, O ba le y daethoch? Pa fod y daethoch i'r ffordd hon? ac, hefyd, Trwy ba fodion y bu i chwi barhau ynddi? canys nid oes ond ychydig o'r rhai sydd yn cychwyn tuag yma yn dangos eu gwynebau ar y mynyddoedd hyn. Ond wedi i'r Bugeiliaid glywed eu hatebion, a chael eu boddhau, edrychasant yn hawddgar arnynt, a dywedasant wrthynt, Croesaw i'r Mynyddoedd Hyfryd.

Y Bugeiliaid, meddaf, enwau y rhai oddynt Gwybod-aeth, Profiad, Gwyliadwrus, a Chywir, a'u cymerasant erbyn eu llaw i'w pebyll, a gwnaethant iddynt gyfranogi

## 126 MYNYDDOEDD CYFEILIONAD A GOCHELIAD.

o'r hyn oedd wrth law ganddynt. Dywedasant hefyd, Chwennychem i chwi aros yma ychydig, i ddyfod yn gydnabyddus â ni, ac, yn benaf, i ddifyru eich hunain â daioni y Mynyddoedd Hyfryd. Hwythau ar hyn a ddywedent eu bod yn fodlon i aros; ac felly aethant i orphwys y noson hòno, am ei bod yn hwyr iawn.

Boreu dranoeth, tybiwn yn fy mreuddwyd glywed y Bugeiliaid yn galw Cristion a Gobeithiol i fynu i rodio gyda hwynt ar y mynyddoedd. Felly aethant allan gyda hwynt, a rhodiasant enyd, gan fwynhau golygfa hyfryd ar bob tu. Yna ebe'r Bugeiliaid y naill wrth y llall, A gawn ni ddangos rhyw ryfeddodau i'r pererinion hyn? Ac wedi cytuno gwneuthur felly, dygasant hwy yn gyntaf i ben bryn à elwid Cyfeiliornad, yr hwn oedd yn serth iawn ar yr ochr bellaf, ac archasant iddynt edrych i lawr i'r gwaelod. Felly Cristion a Gobeithiol a edrychasant i lawr, a gwelent yn y gwaelod luaws o ddynion wedi eu malu yn chwilfriw gan y codwm a gawsent o ben y bryn. Yna ebe Cristion, Beth yw ystyr hyn? Y Bugeiliaid a atebasant, Oni chlywsoch am y rhai a wyrasant trwy wrando ar Hymenæus a Philetus, mewn perthynas i adgyfodiad y corff? 2 Tim. 2, 17, 18. Atebasant hwythau, Do. Yna ebe y Bugeiliaid, Dyna hwy a welwch yn ngwaelod y bryn wedi eu malu yn chwilfriw; ac y maent (fel y gwelwch) heb eu claddu hyd y dydd hwn, er siampl i ereill, i ochel dringo yn rhy uchel, ac i beidio nesâu yn rhy agos at ddibyn y mynydd hwn.

Yna gwelwn hwynt yn eu harwain i ben mynydd arall, enw yr hwn oedd Gocheliad, gan erchi iddynt edrych yn mhell; wedi iddynt wneuthur felly, gwelsant lawer o ddynion yn rhodio i fynu ac i waered yn mhlith y beddau oedd yno; a chanfyddent fod y dynion yn ddeillion, am y syrthient ar brydiau ar draws y beddau, ac am eu bod yn methu dyfod oddiyno. Yna ebe Cristion, Beth yw hyn?

Yna'r Bugeiliaid a atebasant, Oni welsoch chwi, ychydig islaw y mynyddoedd hyn, gamfa yn arwain i weirglodd ar y llaw aswy i'r ffordd? Hwythau a atebasant, Do. Yna ebe y Bugeiliaid, Oddiwrth y gamfa hòno y mae

llwybr yn myned yn union i Gastell Amheuaeth, yr hwn a gedwir gan Gawr Anobaith; a'r dynion acw (gan gyfeirio at y rhai ceddynt yn mhlith y beddau) a ddaethant unwaith ar bererindod, fel chwithau yn awr, nes dyfod o honynyt can belled a'i gamfa hòno. A chan fod yr iawn ffordd yn arw yn y lle, dewisasant droi allan o honi i'r weirgloedd hòno, ac yno y'u daliwyd gan Gawr Anobaith, yr hwn a'u bwriodd i Gastell Amheuaeth, lle y bu iddo, wedi eu cadw dros enyd yn y daeardy, o'r diwedd dynu eu llygaid, a'u tywys i blith y beddau acw, lle y gadawodd hwynt i grwydro hyd heddyw, fel y cyflawnid ymadrodd y gwr doeth, "Dyn yn myned ar gyfeiliorn oddiar ffordd deall, a orphwys yn nghynulleidfa y meirw," Diar. 21. 16. Yna Cristion a Gobeithiol a edrychasant ar eu gilydd, â'u dagrau yn dyferu; ond nid ynganasant air wrth y Bugeiliaid.

Gwedi hyny gwelwn yn fy mreuddwyd, i'r Bugeiliaid eu harwain i le arall mewn pant, lle yr oedd drws yn ochr brynn; a hwy a agorasant y drws, ac a archasant iddynt edrych i mewn. Edrychasant i mewn, gan hyny, a gwelement y lle o fewn yn dywyll a myglyd iawn; tybient hefyd eu bod yn clywed rhyw swn fel swn tân, a gwaedd rhai mewn poenau, a'u bod yn arogl sawyr brwmstan. Yna ebe Cristion, Beth yw hyn? A'r Bugeiliaid a atebasant, Cil-ffordd i uffern ydyw—y ffordd yr â rhagrhithwyr i mewn ar hyd-ddi; sef, y rhai a werthant eu genedigaeth-fraint, fel Esau; y rhai a werthant eu Meistr, fel Judas; y rhai a gablant yr efengyl, fel Alexander; a'r rhai a ddywedant gelwydd ac a ragrithiant, fel Ananias a Sapphira ei wraig.

Yna ebe Gobeithiol wrth y Bugeiliaid, Gwelaf fod gan y rhai hyn, bob un, broffes o bererindod fel sydd genym ni yn awr; onid oedd?

BUGEILIAID. Oedd, a chadwasant hi am hir amser hefyd.

GOBEITHIOL. Pa mor bell y gallent, yn eu hoes, fyned ar bererindod, ac iddynt er y cwbl gael eu bwrw ymaith yn resynus fel hyn?

## 128 Y PERERINION YN YMADAEL A'R BUGEILIAID.

**BUGEILIAID.** Rhai yn mhellach, a rhai heb fod can belled, a'r mynyddoedd hyn.

Yna ebe y pererinion wrth eu gilydd, Mae yn ofynol i ni lefain ar y Cadarn am gadernid.

**BUGEILIAID.** Ah! gwir iawn, a'i ddefnyddio hefyd.

Erbyn hyn yr oedd y pererinion yn ewyllysio myned yn mlaen, a'r Bugeiliaid hefyd yn fodlon i hynny; felly rhodiasant yn nghyd hyd derfyn y mynyddoedd. Yna ebe y Bugeiliaid wrth eu gilydd, Danghoswn yma i'r pererinion borth y Ddinas Nefol, os hyddysg ydynt i yspio trwy ein trem-wydrau. Y pererinion yn llon iawn a dderbyniasant y cynyg: felly dygwyd hwy i gopa bryn uchel, a elwir Clir, a rhoddwyd iddynt y trem-wydr i yspio.

Yma ceisiasant yspio; ond yr oedd cofio y peth olaf a ddangosasai y Bugeiliaid iddynt yn peri i'w dwylaw grynu, a llesteiriodd hyn iddynt edrych yn ddiysgog trwy y drych; er hynny tybiasant iddynt weled rhywbeth tebyg i'r porth, a gradd o ogoniant y lle. Yna aethant ymaith dan ganu:—


Mae'r Bugeiliaid yn dadguddio  
Pethau sydd yn nghudd yn gryno:  
Os mynwch weled pethau dyfiun,  
Pethau dirgeledig ddigon,  
Dowch at y Bugeiliaid diwyd  
Sydd ar lethri'r Bryniau Hyfryd.

Pan oeddynt ar ymadael, un o'r Bugeiliaid a rodde iddynt ddarlun-ysgrif o'r ffordd. Un arall a archodd iddynt ochelyd y Gwenieithwr. Y trydydd a barodd iddynt gymeryd gofal rhag cysgu ar y Tir Rheibiedig. Y pedwerydd a ddywedodd, Duw yn rhwydd i chwi. Yna deffroais o'm cwsg.

Cyngais a breuddwydiais drachefn, ac yn fy mreuddwyd gwelln yr un ddau bererin yn myned i waered o'r mynyddoedd ar hyd y brif-ffordd tua'r ddinas. Ychydig islaw'r mynyddoedd hyn, ar y llaw aswy, y mac gwlad



Y MYNYDDOEDD HYFRYD.



**Mympwy** yn gorwedd ; ac o'r wlad hòno yr oedd wtre gam yn arwain i'r ffordd yr oedd y pererision arni. Yn y fan hòno cyfarfuent & llencyn heinyf iawn yn dyfod o wlad **Mympwy**, a'i enw oedd Anwybodaeth. Felly Cristion a ofynodd iddo, O ba wlad y deui, ac i ba wlad yr âi ?

**ANWYBODAETH.** Syr, ganwyd fi yn y wlad sydd yn gorwedd yna dipyn ar y llaw chwith, ac yr wyf yn myned tua'r Ddinas Nefol.

**CRISTION.** Ond pa fodd y dysgwyli allu myned i mewn trwy'r porth, canys gelli gyfarfod â pheth anhawsdra yno ?

**ANWYBODAETH.** Fel pobl dda ereill, eb yntau.

**CRISTION.** Ond pa beth sy genyt i'w ddangos wrth y porth hwnw, fel yr agorer ef i ti ?

**ANWYBODAETH.** Gwn ewylls yr Arglwydd, a bu'm byw yn ddichlynaidd : yr wyf yn talu i bawb eu heiddo ; yr wyf yn gweddio, yn ymprydio, yn talu degymau, ac yn rhoddi elusenau ; a gadewais fy ngwlad er mwyn y lle yr wyf yn myned iddo.

**CRISTION.** Ond ni ddaethost i mewn trwy y porth cyfyng sydd yn mhendraw y ffordd hon, eithr daethost iddi trwy yr wtre gam yna ; am hyny, ofnwyf, modd bynag y meddyli am danat dy hun, pan ddelo dydd eyfrif, y cyhuddir di o fod yn lleidr ac yspeiliwr, yn lle dy dderbyn i'r ddinas.

**ANWYBODAETH.** Foneddigion, dyeithriaid holol ydych i mi ; nid adwaen chwi : byddwch fodlon i ddilyn cref-ydd eich gwlaid, a dilynaf finau grefydd fy ngwlad inau. Gobeithiwyf y bydd pob peth yn dda. Ac am y porth y soniwch am dano, gwyr yr holl fyd fod hwnw yn mhell iawn o'n gwlaid ni. Nid wyf yn meddwl fod neb yn ein parthau ni yn gwybod hyd yn nod y ffordd ato ; ac ni waeth ychwaith pa un ai gwybod ai peidio, gan fod genym, fel y gwelwch, wtre hyfryd, esmwyth, werdd, yn dyfod i lawr o'n gwlaid yn union i'r ffordd.

Pan welodd Cristion fod y dyn yn ddoeth yn ei olwg ei hun, dywedodd yn ddystaw wrth Gobeithiol, "Gwell yw y gobaith am ffol nag am dano ef," Diar. 26. 12. Ac eb

ese yn ychwanegol, “ Y ffol pan rodio ar y ffordd, sydd â'i galon yn pallu, ac y-mae yn dywedyd wrth bawb ei fod yn ffol,” Preg. 10. 3. Beth a wnawn, a ymddyddanwn yn mhellach ag ef, ai ei adael ar unwaith i fyfyrion ar yr hyn a glywodd eisoes, ac aros am dano drachefn, i edrych a allwn yn raddol wneuthur dim daioni iddo? Yna atebai Gobeithiol,—

Aed Anwybodus a myfyied  
 Ar y pethau gafodd glywed;  
 Cyngor da na wnaed ei wrthod,  
 Ithag na chaffo ef byth wybod  
 Dim am ei wir a'i brif ddaioni,  
 A chaffael mwy ei gyfrgolli:  
 Canys dywed Duw yn ddiwall  
 Am y rhai y sydd heb ddeall  
 (Er mai ef yw eu Creawdwr),  
 Na bydd iddynt yn Waredwr.

**GOBEITHIOL.** Ychwanegodd, Nid da, meddyliwyf, dywedyd y cwbl wrtho ar unwaith; gadawn ef yn awr, a siaradwn ag ef, os myni, cyn hir, sef, fel y gallo ei dderbyn.

Felly aethant ill dau yn mlaen, ac Anwybodaeth a ddaeth ar eu holau. Yn awr wedi myned heibio iddo encyd o ffordd, daethant i wtre dywell iawn, lle y cyfarfuent â gwr a rwymwyd â saith o raffau cryfion, gan saith gythraul, ac yr oedd ynt yn ei gario yn ol tua'r drws a welsant yn ochr y bryn, Mat. 12. 45; Diar. 5. 22. Ar hyn dechreuodd Cristion grynu yn ddirfawr, ac felly y gwnaeth Gobeithiol, ei gydymaith; er hyny, pan ddygent y cythreuliaid ef ymaith, yspredd Cristion i edrych a adwaenai ef; a thybiodd mai un Tor-broffes ydoedd, â breswyliai yn nhref Gwrthgiliad. Ond nis gallodd weled ei wyneb yn eglur, oherwydd ei fod yn gostwng ei ben i lawr fel lleidr wedi ei ddal; ond wedi iddo basio, edrych odd Gobeithiol ar ei ol, a chanfu bapyr ar ei gefn, ac yn ysgrifenedig arno, “ Proffeswr trythyll, a gwrthgiliwr damniol.”

Yna ebe Cristion wrth ei gyfaill, Daw i'm cof, yn awr

yr hyn a fynegwyd i mi am à ddygwyddodd i wr da tua'r lle hwn. Enw y gwr oedd Mr. Ychydig Ffydd; er hyny yr oedd efe yn wr da iawn, ac yn trigo yn nhref Diragrith. Dyma'r peth. Gerllaw ceg y dramwyfa hon y mae wtre, o'r enw Wtre-corff-marw, yn disgyn oddiwrth Borth llydanffordd; gelwir yr wtre felly, oherwydd y lladdiadau aml a gyflawnir yno; a Mr. Ychydig Ffydd hwn, yn myned ar bererindod fel ninau, a ddygwyddodd eistedd i lawr yno a chysgu. Yn y cyfamser daeth tri o wylliaid talgryf i lawr yr wtre o Borth-llydanffordd, a'u henwau oeddynt Gwan-galon, Gwan-gred, ac Euogrwydd, tri brawd; a phan welsant hwy Mr. Ychydig Ffydd, a'r lle yr oedd ynddo, rhedasant ato nerth eu traed. Erbyn-hyn yr oedd y gwr da newydd ddeffro o'i gwsg, ac yn cyfodi i'w daith. Felly daeth y tri ato, a chan ei fygwth parasant iddo sefyll. Yn y man aeth Mr. Ychydig Ffydd canwyned yn ei wyneb a'r gynfas, heb nerth i ymladd na ffoi. Yna ebe Gwan-galon, Dod i ni dy bwrs; ond oherwydd nad oedd yn brysio i wneud hyny (canys anhawdd oedd ganddo golli ei arian), rhedodd Gwan-gred ato, gwthiodd ei law i'w logell, a thynodd allan god o arian. Gwaeddodd yntau, Lladron, lladron! Gyda'r gair tarawodd Euogrwydd ef ar ei ben, à phastwn mawr ag oedd yn ei law, nes syrthio o hono i'r llawr, lle y gorweddai yn ei waed fel un yn gwaedu i farwolaeth. Safai y lladron gerllaw o hyd. Ond o'r diwedd, wedi clywed fod rhyw rai ar y ffordd, ac yn ofni mai un Gras Mawr, à breswyliai yn nhref Gwych-Hyder, ydoedd, gwnaethant y goreu o'u traed, a gadawsant y gwr da i ymdaro fel y gallai. Yn mhen enyd adfywiodd Ychydig Ffydd, a chan godi, ymgegniodd i ymlusgo ar ei ffordd. Dyna'r chwedl.

**GOSBEITHIOL.** Ond a ddygasant hwy oddiarno gymaint oll a'r a feddai?

**CRISTION.** Naddo; nid aethant i chwiliota yn y man yr oedd ei dlysau; felly cadwodd y rhai hyny o hyd. Ond clywais ddarfod trallodi y gwr da yn fawr trwy ei golled; canys cymerasai y lladron y rhan fwyaf o'i arian traul. **Yr hyn ni chawsant (fel y dywedais) oeddynt ei dlysau;**

hefyd yr oedd ganddo ychydig arian mân eto wedi eu gadael, prin ddigon i'w ddwyn i ben ei daith. Ië (os na chamddywedwyd wrthyf), bu raid iddo gardota wrth fyned yn mlaen i gadw ei hun yn fyw, canys nis gallai werthu ei dlysau; ond cardoted a gweithied a fynai, bu arno eisiau bwyd (fel y dywedwn) yn aml dros weddill ei daith, 1 Pedr 4. 18.

**Gobeithiol.** Wel, onid yw yn rhyfedd na ladratasant hefyd ei sicrwydd trwy yr hwn yr oedd i gael derbyniad wrth y Porth Nefol?

**Cristion.** Ydyw, y mae yn rhyfedd; ni chawsant hwnnw, ond nid i'w fedrusrwydd ef y mae'r diolch; disgynasai arno y fath syfrdandod, trwy eu rhuthradd arno, fel nad oedd ynddo na nerth na medr i guddio dim: felly trwy ofal Rhagluniaeth, yn hytrach na thrwy ei ymdrech ef, y methasant gael y peth da hwnnw, 2 Tim. 1. 12, 14; 1 Petr 1. 5, 9.

**Gobeithiol.** Ond cysur mawr a raid fod iddo na ddygasant y tlws hwn oddiarно.

**Cristion.** Gwir, gallasai hwnnw fod yn gysur mawr iddo pe gwnaethai ddefnydd o hono fel y dylasai; eithr dywedwyd wrthyf gan y rhai oedd yn adrodd y chwedl i mi, na wnaeth ond ychydig ddefnydd o hono y rhan oedd yn ol o'i daith, a hyny oherwydd y braw a gawsai pan y lladratawyd ei arian. Mewn gwirionedd, annghofiodd ef dros ran fawr o weddill y daith; ac heblaw hyny, pan y dygwyddai un amser ddyfod i'w gof, ac y dechreuai gael cysur oddiwrtho, yna dechreuai coffâd newydd am ei golled ddyfod i'w fynwes, yr hyn a lyncai i fynu y cwbl.

**Gobeithiol.** Ow, druan gwr, nis gallasai hyn lai na bod yn ofid mawr iddo.

**Cristion.** Gofid? Ië, gofid yn wir! Oni buasai felly i un o honom ninau, pe gwnelsid i ni fel y gwnaed iddo ef—cael ein hyspeilio a'n clwyfo hefyd, a hyny mewn lle dyeithr? Rhyfedd na buasai wedi marw o ofid, druan. Clywais na wnaeth ddim yn mron ond wylo a galaru weddill y ffordd; adroddodd hefyd wrth bawb a'i goddi-wedai, neu a oddiweddi ganddo, y lle a'r modd y cafodd ei yspeilio; pwy a wnaethai hyny, a pha bethau a goll-

odd ; y modd y clwyfwyd ef, ac mai prin y dihangodd yn fyw.

**GODEITHIOL.** Ond rhyfedd na pharassai ei angen iddo werthu neu wystlo rhai o'i dlysau, fel y cawsai rywbeth i idiwallu ei angen tra ar ei daith.

**CRISTION.** Siariedi fel un a'r plisgyn am ei ben hyd heddyw. Am ba beth y gwyltai hwy ? neu i bwy y gwerthai hwynt ? Ni wneid cyfrif yn y byd o'i dlysau yn yr holl wlad hōno lle'r yspeiliwyd ef ; ac nid oedd arno eisiau ychwaith y fath gymhorth ag a roddasai hyny iddo. Heblaw hyny, pe na buasai ganddo ei dlysau wrth borth y Ddinas Nefol, cauesid ef allan am byth rhag cael etifeddiaeth yn y wlad hōno ; hyn a wyddai efe yn dda ddigon, a buasai hyny yn waeth iddo ef na gwedd na gwaew deng mil o ladron.

**GODEITHIOL.** Paham yr wyt mor chwerw, fy mrawd ? Gwerthodd Esau ei enedigaeth-fraint, a hyny am saig o fwyd, Heb. 12. 16 ; a'r enedigaeth-fraint hōno oedd ei dlws penaf ; ac os gwnaeth ef hyny, paham nas gallai Ychydig Ffydd wneuthur hyny hefyd ?

**CRISTION.** Esau, yn wir, a werthodd ei enedigaeth-fraint, ac felly y gwnaeth llawer ereill, ac wrthi wneuthur hyny ymddifadent eu hunain o'r fendith benaf, fel y gwnaeth y dyhiryn gwael hwnw ; ond rhaid i ti wahaniaethu rhwng Esau ac Ychydig Ffydd, ac hefyd rhwng eu cyflyrau. Genedigaeth-fraint Esau oedd gysgodol, ond nid felly tlysau Mr. Ychydig Ffydd. Bol Esau oedd ei dduw ; ond nid ei fol oedd duw Ychydig Ffydd. Gwall Esau oedd yn ei flys cnawdol ; ond nid felly Ychydig Ffydd. Hefyd, nis gallai Esau weled dim pellach na phorthi ei chwantau, "Wele fi yn myned i farw," eb efe, "a pha les a wna yr enedigaeth-fraint hon i mi ?" Gen. 25. 32. Ond Ychydig Ffydd, er na ddaeth i'w ran ond gradd bach o ffydd, eto a gadwyd oddiwrth y fath wastraff, ac a ddysgwyd i brisio ei dlysau yn uwch na'u gwerthu, fel y gwnaeth Esau â'i enedigaeth-fraint. Ni ddarllenwch yn unlle fod gan Esau ffydd, ie, ychydig ffydd ; nid rhyfedd, ynte, i'r dyn hwnw, lle n̄ bo ond cnawd yn arglyddiaethu (fel y gwna yn y d. n nad cea

## 136 YMDDYDDAN YN NGHYLCH YCHYDIG FFYDD.

ffydd i wrthsefyll), werthu ei enedigaeth-fraint, ei enaid, a'r cwbl, i'r diasol o usfern ; canys y mae gyda'r cyfryw fel gyda'r asen wylt, yr hon wrth ei hachlysur nis gellir ei throi ymaith," Jer. 2. 24. Wedi gosod eu bryd ar eu chwantau, mynent eu cael, costied a gestio : ond yr oedd Ychydig Ffydd o dymer arall ; ei feddwl ef oedd ar bethau dwyfol ; ei fywiolaeth ef oedd pethau ysbrydol a nesol ; am hynny i ba ddyben y gwerthai dyn o'r fath dymer ei dlyssau (pe buasai yno un a'i prynasai), i lenwi ei feddwl â phethau gweigion ? A ddyry dyn geiniog am lonaid cylla o wair ? neu a elli gael gan y durtur ymborthi ar gelain fel y gigfran ? Ac er y gall rhai diffydd wastyl, neu werthu, yr hyn oll a feddont, ie, a'u hunain hefyd yn llwyr, am chwantau cnawdol ; eto y rhai sy ganddynt ffydd, sef ffydd achubol, er iddi fod yn ychydig, ni allant wneuthur hynty. Gan hynny, fy mrawd, dyna dy gamgymeriad.

GOREITHIOL. Addefaf hynty ; eto bu agos i'th lymdei beri i mi ddigio.

CRISTION. Paham ? ni wnaethum ond dy gymharu i ryw adar o'r fath wyltaf, sydd yn rhedeg yn ol ac yn mlaen hyd lwybrau sathredig a'r plisgyn am eu penau ond dos heibio i hyn yna, fy mrawd, ac ystyria y petk sydd dda rhyngot ti a minau.

GOREITHIOL. Ond yr wyf yn credu yn fy nghalon, fy nghyfaill Cristion, nad oedd y tri lleban hyn ond cwmni o annewrion ; pe amgen, a redasant ymaith, dybygit ti, fel y gwnaethant, wrth glywed swn un yn dysod ar hyd y florodd ? Paham na buasai Ychydig Ffydd yn cymeryd gwell calon ? Meddyliwn y gallasai efe sefyll un ymgyrch â hwynt, a rhoddi i fynu pan aethent yn drech iddo.

CRISTION. Llawer a ddywedasant mai annewrion oedd ynt, ond ychydig a'u cawsant felly yn amser prawf : ond am galon ddewr, ni feddiannodd Ychydig Ffydd mohoni ; a thybygwn wrthyd tithau, fy mrawd, pe buasit yn ei le, na ddaliesit ond un rhuthr, ac yna cilio. Ac mewn gwirionedd, gan mai i'r uchder hwn y cyrhaedd dy wrols  
dsb yn awr, pau y maent yn mhell oddiwrthym, gallent

beri i ti newid dy feddwl, ped ymrithient i ti fel y gwnaethant iddo ef.

Ystyria hefyd, nid ydynt hwy ond lladron huriedig; gweini maent dan frenin y pwll diwaelod, yr hwn, os byddai raid, a ddeuai ei hun i'w cynorthwyo, a'i lais sydd fel rhuad llew, 1 Pedr 5. 8. Bu'm fy hunan yn yr ymgrych hwn yr un modd ag Ychydig Ffydd, a dychrynllyd iawn oedd i'm tyb i. Ymosododd y tri dyhiryn hyn arnaf unwaith, a dechreuais inau fel Cristion eu gwrtsefyll, ac yn y fan dyna eu meistr gyda hwy ar eu galwad. Gwerthaswn fy einioes am geiniog (fel y dywed y ddihareb), oni ba'i fy mod wedi fy ngwisgo ag arfogaeth brofedig, fel y mynai Duw iddi fod. Lé, drachefn, er fy mod wedi fy arfogi felly, cefais mai gwaith caled oedd sefyll fel gwr; ni ddichon un dyn draethu beth a'n herys yn yr ymladdfa hono, ond à fu yn y frwydr ei hun.

GODEITHIOL. Wel, ond, gwelwch, ffoi a wnaethant, pan dybiasant fod Gras Mawr ar y ffordd.

CRISTION. Gwir; ffoi a wnaethant hwy a'u meistr yn fynych pan ymddanghosai Gras Mawr; ac nid rhyfedd, oherwydd pencampwr y Brenin yw. Ond tybiwyf y gwahaniaethi beth rhwng Ychydig Ffydd a phencampwr y Brenin. Nid cedyrn y Brenin ydynt ei holl ddeiliaid; ac nis gallant hwy, pan y'u profer, wneuthur y fath orchestion mewn rhyfel ag ef. Ai cymhwys meddwl y gallai plentyn drin Goliath fel y gwnaeth Dafydd? neu fod nerth ych yn y dryw bach? Mae rhai yn gryfion, a rhai yn weiniaid; mae gan rai lawer o flydd, a rhai ychydig. Un o'r gweiniaid hyn oedd y gwr, ac am hyny y gorchfygwyd ef.

GODEITHIOL. Mynaswn fod Gras Mawr yno o'u herwydd.

CRISTION. Pe buasai efe yno, cawsai lonaid ei freichiau; canys rhaid i mi ddywedyd, er bod Gras Mawr yn fedrus iawn gyda'i arfau, ac a wnaeth, a gall wneud, yn burion â nwy tra y ceidw hwynt wrth flaen ei gleddyf; eto, os daw Gwan-galon, Gwan-gred, neu y llall, i mewn iddo, gorchest fydd iddo eu hatal i godi ei sodlau. A phan fyddo dyn ar lawr, beth a all nwy?

138 YMDDYDDAN YN NGHYLCH YCHYDIG FFYDD.

Pwy bynag a edrycho yn graff yn ngwyneb **Gras Mawr**, a wêl yno greithiau a thoriadau a roddant brawf o'r hyn a ddywedais. Ie, clywais unwaith iddo ddywedyd (a hyny pan oedd yn yr ymgyrch), "Yr oeddwn yn ammau cael byw." O, fel y gwnaeth y diffeithwyr cethin hyn a'u cyfeillion i Dafydd riddfan, galaru, a rhuo! Ie, gorfu i Heman (Psal. 88) a Hezeciah, er eu bod yn ddewrion eu dydd, ymdrechu yn galed pan ruthrodd y rhai hyn arnynt; ac er eu hol egni, cawsant eu trybaeddu yn dost **ganddynt**. Mynai Pedr unwaith wybod beth allai efe wneufhur; ac er y dywed rhai mai efe oedd tywysog yr apostolion, triniasant ef mor chwerw fel y parasant iddo ofni morwynig.

Heblaw hyny, mae eu brenin wrth eu chwibianiad; nid yw byth allan o'r clyw; ac os dygwydd iddynt un amser gael y gwaethaf, os bydd modd yn y byd, daw ei hun i'w cynorthwyo: ac am dano ef gellir dywedyd, "Cleddyf yr hwn a'i tarawo ni ddeil; y waywfon, y bicell, na'r llurig. Efe a gyfrif haiarn fel gwellt, a phres fel pren pwdr. Ni phar saeth iddo ffoi: ceryg tafl a dröed iddo yn sof. Picellau a gyfrifir fel soflyn; ac efe a chwardd wrth ysgwyd gwaywfion," Job 41. 26—29. Beth all dyn wneuthur? Y mae'n wir, pe gallai dyn gael march Job ar bob adeg, a medr a gwroldeb i'w farchogaeth, gallai wneuthur pethau nodedig. "Canys ei wddf ef a wisgwyd â tharan. Ni ddychryna efe fel y ceiliog rhedyn: dychryn ydyw ardderchawgrwydd ei firoen ef. Ei draed ef a gloddiant yn y dyffryn, ac efe a lawenycha yn ei gryfder: efe a â allan i gyfarfod arfau. Efe a ddiystyra arswyd, ac ni ddychryna efe; ac ni ddychwel yn ei ol rhag y cleddyf. Y cawell saethau a drystia yn ei erbyn, y ddysglaer waywfon a'r darian. Efe a lwnc y ddaear gan greulondeb a chynddaredd; ac ni chred mai llais yr udgorn yw. Efe a ddywed yn mhli th yr udgyrn, Ha, ha; ac a arogl a bell ryfel, twrf tywysogion, a'r bloeddio," Job 39. 12—25.

Ond am y fath wyr traed a thi a minau, na fydded i ni byth ewyllysio cyfarfod â gelyn, na choeg-falchio fel pe medrem ragori, pan y clywom am creill wedi cu maeddu,

nac ymddigrifo wrth feddwl am ein gwroldeb ein hunain ; canys y rhai hyny yn synych ydynt waelaf pan y'u profer. Tyst yw Pedr, fel y sylwais o'r blaen : mawr oedd ei drwst beth a wnai, gwnai yn well na neb, a safai dros ei Feistr yn rhagorach na phawb, fel y cynhyrfai ei feddwl gorwag ef i siarad ; ond pwy a faeddwyd ac a ddymchwelwyd gymaint ag ef gan y dyhuriaid hyn ?

Gan hyny, pan glywom am y fath yspeiliadau ar brifffordd y Brenin, dylem wneuthur dau beth.

Yn gyntaf, Myned allan yn arfog, a bod yn sicr o gymeryd tarian gyda ni ; canys o ddiffyg hon y methodd yr hwn a ymosododd mor gefnog ar y Lefiathan ei orchfygu ; ac yn wir os bydd honno ar ol, nid oes arno ddim o'n hofn. Am hyny, dywedodd un gwr medrus, "Uwchlaw pob dim, cymewch darian y ffydd, â'r hon y gellwch ddiffoddi holl bicellau tanllyd y fall," Eph. 6. 16.

Da fyddai i ni, hefyd, erfyn ar y Brenin roddi am-diffyniad i ni, ie, am iddo ddyfod ei hunan gyda ni. Parodd hyn i Dafydd orfoleddu yn Nglyn Cysgod Angau ; a gwell oedd gan Moses farw yn y man, na myned gam yn mhellach heb ei Dduw, Exod. 33. 15. Oh fy mrawd, pe deuai efe gyda ni, pa raid ofni deng mil o'r rhai a ymosodent i'n herbyn ? Psal. 3. 5-8 ; a 27. 1-3. Ond hebddo ef y cynorthwywyr beilchion a syrthiant o dan y rhai a laddwyd, Esa. 10. 4.

Bu'm fy hunan yn yr ymladdfa hon cyn hyn ; ac er dianc o honof yn fyw (trwy ddaioni yr Hwn sydd oreu), eto nid oes genyf le i ymffrostio yn fy ngwroldeb. Llawen iawn a fyddaf os na bydd raid i mi gyfarfod eto â'r fath ruthriadau, er mai ofni yr wyf nad aethom eto allan o bob perygl. Modd bynag, gan na larpiodd y llew na'r arth fi hyd yma, gobethiwyf y gweryd Duw ni o law y Philistiad dienwaededig nesaf.

Yna canodd Cristion :—

Ychydig Ffydd, p'le buost ti ?  
 Ai yn nghwmpeini lladron ?  
 Ac a yspeiliwyd di yn llwyr  
 Gan y dyhirwyr creulon ?



O cofia, cais ychwaneg ffydd,  
 Ac yna'n rhydd gorchfygi;  
 A thros ddeng mil yn rhwydd a'i di,  
 Ond tri a'th orfydd hebddi.

Felly aethant yn mlaen, ac Anwybodaeth ar eu **holau**. Yna aethant nes dod i fan lle gwelent ffordd yn dyfod i'w ffordd hwy, ac yn ymddangos mor union a'r ffordd yr oedti yn rhaid iddynt hwy fyned ar hyd-ddi; ni wyddant pa un o'r ddwy i'w dewis, am yr ymddanghosai y ddwyv yn union o'u blaenau; am hyny safasant dros enyd i ystyried. Ac fel yr oeddynt yn myfyrio o barthed i'r ffordd, wele wr du o gnawd, ond wedi ei ddilladu â gwisg oleu iawn, yn dyfod atynt, a gofynodd iddynt, Paham y sefch yma? Atebasant, Myned tua'r Ddinas Nefol yr ydym, ond ni wyddom pa un o'r ddwy ffورد i'w chymeryd. Canlynwch fi, ebe'r dyn; yno yr âf inau. Felly canlynasant ef ar hyd y ffordd oedd newydd ddyfod i'w ffordd hwy, yr hon oedd yn eu troi yn raddol oddiwrth y ddinas yr ewyllysient fyned iddi, nes aethant cyn hir a'u gwynebau oddiwrthi yn holol; eto dilynasant ef. Ond yn mhen enyd, yn ddiarwybod iddynt, arweiniodd hwynt ill dau i'rwyd, yn yr hon y'u dyryswyd fel na wyddent pa beth i'w wneuthur; ac ar hyny syrthiodd y wisg wer oddiar gefn y dyn du. Yna y deallasant eu sefyllfa. Weithian gorweddent yno i wylo yn chwerw dros beth amser, am nad ellent dlyfod allan.

**CRISTION.** Yna ebe Cristion wrth ei gyfaill, Gwelaf yn awr fy nghangymeriad. Oni archodd y Bugeniaid i ni ochelyd y Gwenieithwr? Fel y dywed y gwr doeth, felly y profasom heddyw: "Y gwr a ddywedo weniaith wrth ei gymydog sydd yn taenu rhwyd i'w draed ef," Diar. 29. 5.

**GODEITHIOL.** Rhoddasant hefyd i ni ysgrif o gyfarwyddyd am y ffordd, fel y gallem ei chadw yn sicrach; ond anngofiasom ddarllen hòno hefyd, ac nid ymgadwasom rhag llwybrau yr yspeilydd. Yr oedd Dafydd yn ddoethach na ni; canys dywed efe, "Tuag at weithred-oedd dynion, wrth eiriau dy wcfusau yr ymgewais rhag

llwybrau yr yspeilydd," Psal. 17. 4. Fel hyn y buont yn cwyno ac yn ymofidio yn y rhwyd. O'r diwedd canfuant Un Dysglaer yn dyfod atynt, a fflangell o fän reffynau yn ei law. Pan ddaeth i'r man lle'r oeddynt, gofynodd iddynt, O ba le y daethoch? a pha beth a wnewch yma? Dywedasant wrtho, Pererinion tlodion ydym yn myned tua Sion, ond arweiniwyd ni allan o'r ffordd gan ddyn du mewn gwisg wen, yr hwn a barodd i ni ei ganlyn ef, am ei fod yntau, ebynt hwy, yn myned yno. Yna ebe'r Hwn oedd á'r fflangell yn ei law, Y Gwenieithwr ydoedd, gau apostol, wedi ymrithio fel angel goleuni, Dan. 11. 32; 2 Cor. 11. 13, 14. Yna rhwygodd y rhwyd, a gollyngodd y gwyr allan. Yna eb efe, Dilynwch fi, fel y gosodwyf chwi ar eich ffordd drachein. Felly arweiniodd hwynt yn ol i'r ffordd a adawsant i ganlyn y Gwenieithwr. Yna gofynodd iddynt, Yn mha le y lletyasoch neithiwyr? Dywedasant, Gyda'r Bugeiliaid ar y Mynyddoedd Hyfryd. Yna gofynodd iddynt yn mhellach, Ori chawsoch ysgrif o gyfarwyddyd am y ffordd? Atebasant hwythau, Do. Oni thynasoch yr ysgrif allan i'w darllen pan mewn petrusder? eb efe. Atebasant, Naddo. Gofynodd iddynt, Paham? Atebasant hwythau, Anngofiasom. Gofynodd iddynt hefyd, Oni rybuddiodd y Bugeiliaid chwi i ochelyd y Gwenieithwr? Do, ebynt hwythau; ond ni thybiasom mai'r gwr tafodlyfn hwnw ydoedd, Rhuf. 16. 17, 18.

Yna gwelwn yn fy mreuddwyd ei fod yn gorchymyn iddynt orwedd i lawr; ac wedi iddynt wneuthur felly, curodd hwynt yn dost, i ddysgu iddynt y ffordd dda y dylasant radio ynddi, Deut. 25. 2; 2 Chron. 6. 27; ac fel yr oedd yn eu fflangelli, dywedodd, "Yr wyf fi yn argyhoeddi ac yn ceryddu y sawl yr wyf yn eu caru; am hynny, bydded genych sel, ac edifarhewch," Dat. 3. 19. Yna parodd iddynt fyned i'w ffordd, a dal yn well rhagllaw ar hyfforddiadau ereill y Bugeiliaid. Felly diolchasant iddo am ei holl hynawsedd, ac aethant yn rïlaen yn araf ar hyd yr iawn ffordd, gan ganu:—

Y sawl sy'n rhodio llwybrau'r saint,  
Edrychhwch faint yw'r archoll

A gafodd pererinion gwâr  
Am fyned ar gyfrygoll.

Mewn rhwydau, maglau, myglyd, maith  
Eu dala'n gaeth a wnaethpwyd;  
Ac am eu gwaith yn gwrthod gwir  
Gynghorion, hwy a gurwyd.

Gwir ydyw i'w Gwaredydd pur  
Eu dwyn o'u cur a'u cystudd;  
Ond derbyniasant fflangell drwch:  
Am hyn cymerwch rybudd

Yn awr, yn mhen enyd, canfuent o bell un yn dyfod yn  
araf, ac wrtho ei hun, ar hyd y brif-ffordd i'w cyfarfod.  
Yna ebe Cristion wrth ei gydymaith, Dacw wr a'i gefn  
ar Sion, a daw i'n cyfarfod.

**GODEITHIOL.** Gwelaf ef; edrychwn atom ein hunain yn  
awr, rhag y try yntau allan yn wenieithwr. Felly daeth  
yn agosach, agosach, nes dyfod atynt. Ei enw oedd  
Atheist; gofynodd iddynt, I ba le yr ydych yn myned?

**CRISTION.** I Fynydd Sion.  
Ar hyn dechreuodd Atheist chwarddu yn groch ac  
uchel iawn.

**CRISTION.** Paham y chwerddi?  
**ATHEIST.** Chwarddu yr wyf wrth weled dynion dwl  
o'ch bath yn cymeryd arnoch daith mor flin, heb fod  
genych ddim i'w ddysgwyl ond blinder am eich poen.

**CRISTION.** Beth, ddyn, ai tybied yr wyt na chawn ein  
derbyn?

**ATHEIST.** Derbyn! nid oes y fath le y breuddwydiwch  
am dano yn yr holl fyd yma.

**CRISTION.** Ond y mae yn y hyd a ddaw.  
**ATHEIST.** Pan oeddwn gartref yn fy ngwlad fy hun,  
clywais yr un peth ag a haerwch yn awr; ac oddiar  
glywed aethum i edrych, ac ymofynais am y ddinas hon  
er's ugain mlynedd, ond ni welais fwy o honi na'r diwrnod  
cyntaf yr aethum allan, Preg. 10. 15; Jer. 17. 15.

**CRISTION.** Yr ydym ni ill dau wedi clywed, ac yn credu  
hefyd, fod y fath le i'w gael.

**ATHEIST.** Wel, oni buasai i minau gredu hyny pan oeddwn gartref, ni ddaethwn can belled a hyn i ymofyn am dani; ond gan na chefais (a gwn y cawswn i hi pe buasai i'w chael, canys aethum i'w cheisio yn mhellach na chwi), dychwelaf, a cheisiaf ymddifyru yn y pethau a fwriaus heibio y pryd hwnnw oddiar obaith cyrhaedd yr hyn a welaf yn awr nad yw'n bod.

**CRISTION.** Yna ebe Cristion wrth Gobeithiol ei gyfaill, Ai gwir y peth a ddywed y gwr hwn?

**GOBEITHIOL.** Ymogela, un o'r gwenieithwyr yw; cofia beth a gostiodd i ni unwaith eisoes am wrando ar y fath rai. Beth! yr un Mynydd Sion? Oni welsom borth y ddinas oddiar y Mynyddoedd Hyfryd? Eilwaith, onid wrth ffydd y mae i ni rodio? 2 Cor. 5. 7. Awn rhagom, rhag i'r Gwr â'r fflangell ein goddiwedd yd eto. Dylesit ddysgu i mi y wers hon, â swniaf yn dy glustiau yn awr: "Fy mab, paid a gwrandeo ar addysg a bair i ti gyfeiliorni oddiwrth eiriau gwybodaeth," Diar. 19. 27. Ie, meddaf, fy mrawd, paid a gwrandeo arno, a "chredwn i gadw-edigaeth yr enaid," Heb. 10. 39.

**CRISTION.** Fy mrawd, ni roddais y gofyniad i ti fel un yn amau gwirionedd ein cred, ond i'th brofi, a chael allan ffrwyth gonestrwydd dy galon. Ond am y gwr yma, fe'i dallwyd, gwn, gan dduw y byd hwn. Awn rhagom, gan wybod ein bod yn credu y gwirionedd, "ac nid oes un celwydd o'r gwirionedd," Ioan 2. 21.

**GOBEITHIOL.** Gorfoleddaf yn awr dan obaith gogoniant Duw. Felly troisant ymaith oddiwrth y gwr, ac yntau a aeth i'w ffordd dan chwarddu.

Yna gwelwn hwynt yn fy mreuddwyd yn myned yn mlaen, hyd oni ddaethant i ryw wlad yr oedd ei hawyr naturiol yn peri i ddynion anadnabyddus o honi gysgu. Yma dechreuodd Gobeithiol fod yn farwaidd iawn, a thrymhau i gwsg; am hyny dywedodd wrth Gristion, Yr wyf mor gysglyd fel mai prin y medraf gadw fy llygaid yn agored; gorweddwn i lawr yma, a chymerwn un hunell.

**CRISTION.** Na wnaun, mewn un modd, rhag na ddeffro-wn byth mwy.

## 144. GOBEITHIOL YN ADRODD EI DROEDIGAETH.

**GOBEITHIOL.** Paham, fy mrawd? mae cwsg yn felys i'r gweithiwr; hwyrach yr adfywir ni trwy hunell fer.

**CRISTION.** Onid wyt yn cofio i un o'r Bugeiliaid beri i ni ochelyd y Tir Rheibiedig? Wrth hyn golygai, ar i ni ochelyd cysgu; "am hynty, na chysegwn fel rhai ereill, ond gwyllyn a byddwn sobr," 1 Thes. 5. 6.

**GOBEITHIOL.** Cydnabyddaf fy mod ar fai; a phe buaswn yma fy hunan, cysgaswn i farwolaeth. Gwelaf mai gwirionedd a ddywed y gwr doeth, "Gwell yw dau nag un," Preg. 4. 9. Hyd yma bu dy gymdeithas yn fendith i mi: a chai wobr da am dy lafur.

**CRISTION.** Yn awr, ebe Cristion, i atal syrthni yn y lle hwn, disgynwn at ryw ymddyddan buddiol.

**GOBEITHIOL.** O ewyllys calon, ebe'r llall.

**CRISTION.** Yn mha le y dechreawn?

**GOBEITHIOL.** Yn y lle y dechreuodd Duw gyda ni. Ond dechreua di, os gweli yn dda.

**CRISTION.** Wel, ebe Cristion, canaf y gân hon i ti yn gyntaf:—

Pan fyddo'r duwiol werin,  
Gan gwsg yn swrth a thrablin,  
Gwrandawant yr ymddyddan clau  
Fu rhwng y ddau bererin.

A dysgant wers yn gryno,  
Sef cadw'u hun yn effro,  
Rhag cael arnynt ormod gwall,  
A bod i'r fall eu twyllo.

Am hyn, i'r sawl sy'n berffaith,  
Mae cwmni'r saint yn odiaeth,  
I gadw'u llygaid rhag cau'n nghyd,  
Er gwaetha'r ysbyrd diffaith.

Yna dechreuodd Cristion, a dywedodd, Gofynaf i ti gwestiwn. Pa fodd y daethost ar y cyntaf i feddwl gwneud fel yr wyt yn gwneuthur yn awr?

**GOBEITHIOL.** Pa fodd y daethum gyntaf i feddwl am les fy enaid a feddyli?

**CRISTION.** Ie, dyna fy meddwl.

**GOBEITHIOL.** Wel, bu'm am hir amser yn ymhysrydu

yn yr hyn a welid ac a werthid yn ein ffair ni ; pethau y credwyf yn awr, pe dilynaswn hwynt o hyd, a'm bodd-  
asent mewn colledigaeth a dinystri.

**CRISTION.** Pa bethau oeddynt ?

**GOBEITHIOL.** Holl drysorau a chyfoeth y byd. Hefyd, cymerais hyfrydwch mawr mewn rhysedd, cyfeddach, meddwdod, tyngu, dywedyd celwydd, astenid, halogi y Sabbath, a phob petli a dueddai i ddinystrio fy enaid. Ond deallais o'r diwedd, wrth wrando ac ystyried geiriau Duw, y rhai, yn wir, a glywais o'th enau di, a chan Ffyddlon anwyl (yr hwn a roddwyd i farwolaeth am ei ffydd a'i fuchedd santaidd yn Ffair Gwagedd), mai diwedd y pethau hyn yw marwolaeth, Rhuf. 6. 21—23 ; ac mai oblegyd y pethau hyn y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod, Eph. 5. 6.

**CRISTION.** A ymostyngaist dan rym yr argyhoeddiad hwn yn ddioed ?

**GOBEITHIOL.** Naddo ; nid boddlon fu genyf ar unwaith wybod drwg pechod, na'r ddarnedigaeth a ddilyna y cyflawniad o hono ; ond ymeginiai i gau fy llygaid yn erbyn y goleuni pan ddechreuodd fy nghalon grynu wrth y gair.

**CRISTION.** Ond beth oedd yr achos i ti ymddwyn fel hyn at weithrediadau cyntaf Ysbryd bendigedig Duw arnat ?

**GOBEITHIOL.** Yr achosion oeddynt, 1. Yr oeddwn yn anwybodus mai gwaith Duw oedd arnaf. Ni feddyliai erioed mai trwy ddeffroi am bechod yr oedd Duw yn dechreu gweithio tröedigaeth pechadur. 2. Yr oedd pechod hyd yn hyn yn felus iawn i'm cnawd, ac anhawdd oedd genyf ymadael ag ef. 3. Ni wyddwn pa fodd i ymadael a'm hen gyfeillion, gan fod eu presenoldeb a'u gweithredoedd mor ddymunol genyf. 4. Yr oedd oriau fy argyhoeddiad yn oriau mor gyffrous a dychrynllyd, fel na allwn eu goddef, na chymaint a'u cofio heb arswyd calon.

**CRISTION.** Ymddengys, ynte, dy fod yn cael ymadael a' th drallod weithiau ?

**GOBEITHIOL.** Oeddwn, yn ddiau ; ond deuai i'r meddwl.

## 146 GOBEITHIOL YN ADRODD EI DROEDIGAETH.

drachefn ; ac yna byddwn cynddrwg, ie, gwaeth, sy nghyflwr nag o'r blaen.

CRISTION. Wel, beth oedd yn peri i ti adgofio dy bech-dau drachefn ?

GOBEITHIOL. Llawer o bethau ; megys,

1. Pan gyfarfyddwn â dyn da yn yr heolydd ; neu,
2. Os byddai i mi glywed rhyw un yn darllen y Bibl ; neu,
3. Os dechreuaï cur yn fy mhen ; neu,
4. Os clywn fod rhai o'm cymydogion yn glaf ; neu,
5. Os clywn ganu cnul rhywun wedi marw ; neu,
6. Os meddyliwn am farw fy hunan ; neu,
7. Os clywn am rywun wedi marw yn ddisyfyd ; neu,
8. Ac yn enwedig, pan feddyliwn am danaf fy hunan, y byddai raid i mi yn fuan ymddangos mewn barn.

CRISTION. A fedrit un amser fwrw ymaith euogrwydd pechod yn hawdd pan ddeuai arnat trwy un o'r ffyrdd hyn ?

GOBEITHIOL. Na fedrwn ; canys y pryd hwnnw gwasgent ar fy nghydwybod yn drymach ; ac yna, pe buaswn ond meddwl am droi yn ol at fy mheched (er fy mod wedi diflasu arno), byddai hyny yn boen deublyg i mi.

CRISTION. A pha foddy y pryd hwnnw ?

GOBEITHIOL. Meddyliwn y byddai raid i mi geisio diwygio, onide y demnid fi yn sicr.

CRISTION. Wel, a geisiaist ti ddiwygio ?

GOBEITHIOL. Do ; ffoais nid yn unig oddiwrth fy mhechedau, ond oddiwrth fy nghyfeillion annuwiol hefyd, ac ymroddais i gyflawni dyledswyddau crefyddol ; megys gweddio, darllen, galaru am fy mhechedau, dywedyd y gwir wrth fy nghymydogion, &c. Hyn oll a wnaethum, ac ychwaneg hefyd, gormod i'w hadrodd yma.

CRISTION. A oeddir yn tybied dy hunan yn dda wedi hynny ?

GOBEITHIOL. Oeddwn, dros enyd ; ond o'r diwedd dymchwelai fy ngofid arnas eilwaith, a hyny ar draws gwddf fy holl ddiwygiadau.

CRISTION. Pa foddy yr oedd hyny, gan dy fod bellach wedi diwygio ?

## GOBEITHIOL YN ADRODD EI DROEDIGAETH. 147

GOBEITHIOL. Llawer o bethau a'i dygai arnaf drachefn, yn enwedig y fath ddywediadau a'r rhai hyn : "Megys bratiau budron yw ein holl gyflawnderau," Esa. 64. 6 ; "Ni chyflawnheir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf," Gal. 2. 16 ; "Wedi i chwi wneuthur y cwbl oll a orchymwynwyd, dywedwch, Gweision anfuddiol ydym," Luc 17. 10 ; a llawer ereill cyffelyb. Oddiwrth y rhai hyn dechreuais ymresymu â mi fy hun fel hyn : Os ydyw fy holl gyflawnderau fel bratiau budron, os na chyflawnheir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf, ac os, wedi i ni wneuthur yr hyn oll a orchymwynwyd, mai gweision anfuddiol ydym ; yna ffolineb yw meddwl am y nefoedd trwy y ddeddf. Meddyliais yn mhellach fel hyn : Os â gwâr i ddyled y siopwr o gan punt, ac wedi hyny talu am yr hyn oll a geisiai ; eto, os bydd yr hen ddyled yn aros ar y llyfr heb ei chroesi, gall y siopwr roddi cyfraith arno am yr hen ddyled, a'i fwrrw yn ngharchar hyd oni thalo hi.

CRISTION. Wel, a pha foddy y cymhwysi hyn atat dy hun ?

GOBEITHIOL. Wel, meddyliais ynof fy hun fel hyn ; rhedais yn mhell i lyfrau Duw trwy fy mhechodau, ac nis gall fy niwygiad presenol dalu y ddyled honno. Am hyny dylwn feddwl, er fy holl welliant presenol, Pa foddy y rhyddheir fi oddiwrth y ddamnedigaeth y dygais fy hunan i'w gafael trwy fy nhroseddau blaenorol ?

CRISTION. Cymhwysiad da iawn ; ond atolwg dos yu mlaen.

GOBEITHIOL. Peth arall a'm blinodd er pan ddechreuais y gwelliant hwn, sef, os edrychwn yn fanwl i'r pethau goreu a wneir genyf yn awr, gwelaf bechod, ie, pechod newydd, yn ymgymysgu â hwynt ; fel i'm gorsodir i benderfynu, er fy hen dybiau uchel am danaf fy bun a'm dyledswyddau, fy mod yn pechi digon mewn un diwrnod i gael fy mwrw i uffern, er i'm buchedd blaenorol fod yn ddifai.

CRISTION. A pha beth a wnaethost wedi hyny ?

GOBEITHIOL. Gwneuthur ! nis gwyddwn beth i'w wneud nes adroddais fy meddwl wrth Ffyddlon, cany...

## 148 GOBEITHIOL YN ADRODD EI DROEDIGARTH.

oeddym yn gydnabyddus iawn â'n gilydd. Ac efe a ddywedodd wrthyf, Oddigerth i mi gael cyflawnader gwr na phechasai erioed, nis gall fy nghylawnader i, na chyflawnader yr holl fyd, fy achub.

CRISTION. A dybiaist ei fod yn dyweddyd y gwir?

GOBEITHIOL. Pe dywedasai felly wrthyf pan oedd fy niwygiadau fy hun yn fy moddio ac yn fy niwallu, galwasn ef yn ynfyd am ei boen; ond yn awr, er pan welwyf fy ngwendid fy hun, a'r pechoda u alynant wrth fy nghylawniadau goreu, gorfwyd fi i fod o'r un farn ag ef.

CRISTION. Ond a dybiaist, pan ddywedodd efe hyny wrthyt gyntaf, fod y fath wr i'w gael, am ba un y gallesid dyweddyd yn briodol na wnaethai efe bechod erioed?

GOBEITHIOL. Rhaid i mi gyfaddef i'r geiriau swnio yn ddyeithr yn fy nghlustiau ar y cyntaf; ond wedi cael ychydig ychwaneg o siarad a chyfeillach ag ef, argyhoedwyd fi yn llwyr o'r peth.

CRISTION. A osynais iddo pwys oedd y gwr hwn? a pha foddyd yr oedd i ti gael dy gyflawnhau trwyddo?

GOBEITHIOL. Do, a dywedodd wrthyf mai yr Arglwydd Iesu ydoedd, yr hwn a eistedda ar ddeheulaw y Goruchaf, Heb. 10. 12. Ac fel hyn, eb efe, rhaid i ti gael dy gyflawnhau trwyddo ef, sef trwy ymddiried yn yr hyn a wnaeth efe yn nyddiau ei gnawd, ac a ddyoddefodd pan yn nghrog ar y pren, Rhuf. 4. 5; Col. 1. 14; 1 Pedr. 1. 19. Gofynais iddo yn mhellach, Pa foddyd y gall cyflawnader y gwr hwnnw fod mor esfeithiol ag i gyflawnhau un arall ger bron Duw? Yntau a ddywedodd wrthyf, Duw Cadarn yw, a gwnaeth yr hyn a wnaeth, a bu farw hefyd, nid drosto ei hun, ond drosof fi; a chyfrifir ei usudd-dod, a theilyngdod ei usudd-dod, i ti, os credi ynddo.

CRISTION. A pha beth a wnaethost wedi hyny?

GOBEITHIOL. Codais wrthddadlleuon yn erbyn credu, am fy mod yn meddwl nad oedd efe yn ewyllysgar i'm liachub.

CRISTION. A pha beth a ddywedodd Ffyddlon wrthy' erbyn hyn?

GOBEITHIOL. Parodd i mi snyder ato i weled. Dywedai *inau*, *Rhyfylg* fyddai hyny. Yntau a ddywedodd, Nage

## GOBEITHIOL YN ADRODD EI DROEDIGAETH. 149

canys gwahoddir di ato, Mat. 11. 28. Yna rhoddodd i mi lyfr o waith yr Iesu ei hunan, i'm calonogi i ddyfod ato yn fwy hyderus ; ac am y llwfr hwnw dywedai, Y mae pob iot a phob tipyn o hono yn fwy safadwy na'r nef a'r ddaear, Mat. 24. 35. Yna gofynais iddo, Pa beth a wnaaf pan ddeuaaf ato ? Yntau a ddywedodd, Rhaid i ti ymbil ar dy liniau, Psal. 95. 6 ; Dan. 6. 10, a'th holl galon ac a'th holl enaid, Jer. 29. 12, 13, ar i'r Tad ei ddadguddio i ti. Yna gofynais iddo yn mhellach, Pa fodd y cyfeiriaf fy eirchion ato ? Dos, ebe yntau, a thi a'i cai ef ar y drugareddfa, lle yr erys drwy'r holl flwyddyn, i roddi gollyngdod a maddeuant i'r rhai a ddeuant ato, Exod. 25. 22 ; Lef. 16. 2 ; Num. 7. 89 ; Heb. 4. 16. Dywedais inau, Nis gwn beth i'w ddyweddyd pan ddeuaaf ato. Yntau a archodd i mi ddyweddyd i'r perwyl hwn :—Oh Dduw, bydd drugarog wrthyf, bechadur ! dysg i mi adnabod Iesu Grist, a chredu ynddo ; canys gwelaf y derfydd am danaf yn llwyr heb y cyflawnader hwnw, neu heb ffydd ynddo. Arglwydd, clywais dy fod yn Dduw trugarog, ac i ti ordeinio dy Fab Iesu Grist i fod yn Iachawdwr y byd ; ac hefyd dy fod yn ewyllysgar i'w roddi ef i'r fath bechadur truan a fi. A phechadur ydwyf yu wir. Defnyddia yr adeg hon, gan hyny, Arglwydd, a mawrha dy ras yn nghadwedigaeth fy enaid, trwy dy Fab, Iesu Grist. Amen.

CRISTION. A wnaethost fel y gorchymwynwyd i ti ?

GOBEITHIOL. Do, drachefn, a thrachefn, a thrachefn.

CRISTION. Wel, a ddadguddiodd y Tad y Mab i ti ?

GOBEITHIOL. Naddo, na'r tro cyntaf, na'r ail, na'r trydydd, na'r pedwerydd, na'r pummed, na'r chweched tro ychwaith.

CRISTION. Pa beth a wnaethost, ynte ?

GOBEITHIOL. Beth ? ni wyddwn beth i wneud.

CRISTION. Oui feddyliaist weithiau roi heibio gweddio ?

GOBEITHIOL. Do, gannoedd o weithiau ?

CRISTION. A phaham nas gwnaethost felly ?

GOBEITHIOL. Am fy mod yn credu mai gwir a ddywedwyd wrthyf, sef, nas gallai yr holl fyd fy achub heb gyflawnader Crist ; ac yna meddyliaisiais ynof fy hun,

## 150 GOBEITHIOL YN ADRODD EI DROEDIGAETH.

rhoddaf heibio weddio, marw a wnaf; ac nis gallaf ond marw wrth orseddfainc gras. Ar hynny daeth y geirian hyn i fy meddwl, "Os erys [y weledigaeth], dysgwyl am dani; canys gan ddyfod y daw, nid oeda," Hab. 2. 3. Felly parheais i weddio, hyd oni ddadguddiodd Duw ei Fab i mi.

CRISTION. A pha fodd y dadguddiwyd ef i ti?

GOBEITHIOL. Ni welais mohonio & llygad corfforol, ond & llygad fy meddwl, Eph. 1. 18, 19, ac fel hyn y bu:— Yr oeddwn un diwrnod yn athrist iawn, i'm ty'b i yn fwy felly nag y bu'm un amser o'm hoes; a'r tristwch hwn a gynyrchwyd trwy weled o newydd fawredd a ffieidd-dra fy mhechodaau. Ac fel nad oeddwn ar y pryd yn dysgwyl dim ond uffern, a damnedigaeth dragwyddol fy enaid, tybiais weled o honof yr Arglwydd Iesu yn edrych arnaf i lawr o'r nefoedd, ac yn dywedyd, "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwediq fyddi," Act. 16. 31

Ond atebais, Yr wyf yn bechadur mawr, mawr dros ben, Arglwydd. Yntau a atebodd, "Digon i ti fy ngras i," 2 Cor. 12. 9. Minau a ddywedais, Arglwydd, pa beth yw credu? Ac yna deallais, oddiwrth yr ymadrodd hwnnw, "Yr hwn sydd yn dyfod ataf fi ni newyna, a'r hwn sydd yn credu ynof fi ni sycheda un amser," Ioan 6. 35, nad oedd credu yn Nghrist, a dyfod ato, ond yr un peth; a bod yr hwn a ddacth ato, ses, a ffodd am iach-awdwriaeth trwy Grist, o ran ei galon a'i serchiadau, wedi credu ynddo mewn gwirionedd. Yna, a'r dagrau yn llenwi fy llygaid, gofynais yn mhellach, Arglwydd, a ddichon i'r fath bechadur mawr a fi gael ei dderbyn genyt, a'i achub trwyot? A chlywn ef yn dywedyd, "Yr hwn a ddel ataf fi, nis bwriad ef allan ddim," Ioan 6. 37. Yna, ebe finau, Ond pa fodd, Arglwydd, y rhaid i mi feddwl am danat wrth ddyfod atat, fel y gosodwn fy hyder yn iawn arnat? Yntau a'm hatebodd, "Daeth Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid," 1 Tim. 1. 15. "Efe yw diwedd y ddeddf er cyflawnder i bob un a'r sydd yn credu," Rhuf. 10. 4; a pen. 4. "Efe a draddodwyd dros ein pechodau ni, ac a gyfodwyd i'n cyflawnder ni," Rhuf. 4. 25. "Efe a'n carodd ni, ac a'n

golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun," Dat. 1. 5. "Efe yw y Cyfryngwr rhwng Duw a ninau," 1 Tim. 2. 5. "Y mae efe yn byw bob amser i eiriol trosgom," Heb. 7. 25. Oddiwrth hyn oll y cesglais, fod yn rhaid i mi ddysgwyl am gyflawnader yn ei berson ef, ac am lawn dros fy mhechodau yn ei waed : fod yr hyn oll a wnaeth mewn ufudd-dod i ddeddf ei Dad, a than ei chosp, nid drosto ei hun, ond tros yr hwn a'i derbynio yn Iach-awdwyr, ac a fyddo yn ddiolchgar iddo. Yna yr oedd fy nghalon yn llawn o lawenydd, fy llygaid yn llawn o ddagorau, a'm serch yn rhedeg trosodd o gariad at enw, a phobl, a ffyrdd yr Arglwydd Iesu.

**CRISTION.** Dyma ddadguddiad o Grist i'th enaid mewn gwirionedd. Ond dywed i mi yn fwy penodol pa effeithiau a gafodd hyn ar dy ysbrydoedd?

**GODEITHIOL.** Parodd i mi weled fod yr holl fyd, er ei holl gyflawnaderau, yn gorwedd dan gondemniad ; parodd i mi weled hefyd y gall Duw Dad, er ei fod yn gyflawn, gyflawnhau a chyflawnader y pechadur a ddel ato. Parodd i mi gywilyddio yn fawr oherwydd ysgelerder fy muchedd blaenorol, a theimlo yn llawn gwaradwydd oblegyd fy anwybodaeth ; canys ni ddaeth meddwl erioed i'm calon cyn hyn a ddanghosai i mi brydferthwch Iesu Grist yn y fath fodd. Gwnaeth i mai hoffi bywyd santaidd, a hiraethu am wneuthur rhywbeth er anrhyydedd a gogoniant i enw yr Arglwydd Iesu. Ié, tybiais, pe buasai genyf fil o alwyni o waed yn fy nghorff, y gallaswn ei dywalt oll er mwyn yr Arglwydd Iesu.

Yna gwelwn yn fy mreuddwyd, i Gobeithiol, trwy edrych yn ol, ganfod Anwybodaeth yn dyfod, sef y gwr a adawsant gynt ar eu holau. Edrycha, eb efe wrth Gristion, mor bell y mac'r glaslanc acw yn ymdroi ar ein holau.

**CRISTION.** Ié, ie, gwelaf ef ; nid oes nemawr awydd ynddo am ein cyfeillach.

**GODEITHIOL.** Eto tybiwyf na chawsai ddim niwaid oddiwrthym pe dilynasaï ni hyd yn hyn.

**CRISTION.** Gwir iawn ; ond gwarantaf di ei fod **yu** meddwl fel arall.

## 152 CRISTION AC ANWYBODAETH YN YMDDYDDAN.

GOBEITHIOL. Felly y barnwyf inau ; ond, modd bynag, gad i ni aros am dano. Gwnaethant felly.

Yna gwaeddodd Cristion arno, gan ddywedyd, Tyred yn mlaen, ddyn ; paham yr arhos i can belled ar ol ?

ANWYBODAETH. Hoffusach o lawer genyf radio wrthyf fy hun nag mewn cyfeillach, oddigerth iddi fod yn un a garwyf.

Yna ebe Cristion o'r neilldu wrth Gobeithiol, Oni ddywedais i ti nad oedd ganddo ddim awydd i'n cyfeillach ? Ond, modd bynag, eb efe, tyred, siaradwn â'n gilydd i ddifyru y daith yn y lle anial hwn. A chan gyfeirio ei ymadroddion at Anwybodaeth, dywedodd wrtho, Pa fodd yr ydwyt ? Pa fodd y mae yn sefyll rhwng Duw a'th enaid yn awr ?

ANWYBODAETH. O'r goreu, gobeithio ; am fy mod yn wastad yn llawn o deimladau hyfryd, a ddeuent i'm meddwl er fy nghysuro ar fy nhaith.

CRISTION. Atolwg, dywed pa deimladau hyfryd a feddyli ?

ANWYBODAETH. Wel, meddyliaf am Dduw ac am y nefoedd.

CRISTION. Felly y gwna cythreuliaid ac eneidiau coll-edig.

ANWYBODAETH. Ond yr wyf yn meddwl am danynt, ac yn eu dymuno.

CRISTION. Felly mae llawer ereill nad ydynt syth yn debyg o fyned yno. "Enaid y diog a ddeisyf, ond ni chaiff ddim," Diar. 13. 4.

ANWYBODAETH. Ond yr wyf yn meddwl am danynt, ac yn gadael pob peth er eu mwyn.

CRISTION. Amheuaaf hyny ; canys peth gorchestol iawn yw gadael pob peth ; ie, mwy gorchestol nag a feddyliodd llaweroedd. Ond paham, neu o ba achos, y mae'n ddilys genyt dy fod wedi gadael pob peth er mwyn Duw a'r nef ?

ANWYBODAETH. Fy nghalon a dystia hyny.

CRISTION. Y gwr doeth a ddywed, Y neb a ymddiriedo yn ei galon ei hun sydd ffyl," Diar. 28. 26.

ANWYBODAETH, 'Am galon ddrwg y lleferir felly ; ond y mae fy nghalon i yn dda.

CRISTION. Ond pa foddy y profi hyny?

ANWYBODAETH. Y mae yn fy nghysuro mewn gobaith am y nef.

CRISTION. Gall hyny fod trwy ei thwylly ; canys dichon calon dyn ei gysuro mewn gobaith o beth nad oes ganddo ddim sail i obeithio am dano.

ANWYBODAETH. Ond fy nghalon a'm buchedd i a gyfetyb i'w gilydd ; ac am hyny y mae fy ngobaith ar sylfaen dda.

CRISTION. Pwy a ddywedodd wrthyd fod dy galon a'th fuchedd yn cyfateb i'w gilydd?

ANWYBODAETH. Fy nghalon fy hunan.

CRISTION. "Gofyn i'm cyfaill a wyf fi yn lleidr." Dy galon a ddywed hyny! Os na ddyg gair Duw dystiolaeth yn yr achos, diwerth yw pob dystiolaeth arall.

ANWYBODAETH. Onid calon dda yw'r hon sydd ganddi feddyliau da? ac onid buchedd dda yw'r hon sydd yn ol gorchymynion Duw?

CRISTION. Gwir; mae'r galon hòno yn dda sydd a meddyliau da o'i mewn, a'r fuchedd hòno yn dda ag sydd yn ol gorchymynion Duw; ond un peth yw meddu hyn, peth arall yw tybied hyny.

ANWYBODAETH. Atolwg, pa feddyliau a gyfrifi di yn feddyliau da? a pha fuchedd sydd yn ol gorchymynion Duw?

CRISTION. Mae amrai fathau o feddyliau da; rhai yn perthyn i ni ein hunain, rhai i Dduw, rhai i Grist, a rhai i bethau ereill.

ANWYBODAETH. Pa rai ynt y meddyliau da a berthyn i ni ein hunain?

CRISTION. Y rhai ydynt unol â gair Duw.

ANWYBODAETH. Pa bryd y mae ein meddyliau am danom ein hunain yn unol â gair Duw?

CRISTION. Pan roddom yr un farn arnom ein hunain ag a rydd y gair. Ond i eglurhau fy hun: dywed gair Duw am ddynion wrth natur, "Nid oes neb cyflawn, nac oes un; nid oes neb yn gwneuthur daioni." Rhuf. 3. 10, 13. Dywedir hefyd, fod "holl feddylfryd calon dyn yn unig yn ddrygionus bob amser," Gen. 6. 5. Ac hefyd,

## 154 CRISTION AC ANWYBODAETH YN YMDDYDDAN.

fod "bryd calon dyn yn ddrwg o'i ieuenctyd," Gen. 8. 21. Ac yn awr, pan gaffom y fath dyb a hon am danom ein hunain, a theimlad o'r peth, yna ein meddyliau ydynt feddyliau da, am eu bod yn unol â gair Duw.

**ANWYBODAETH.** Ni chredaf byth fod fy nghalon cyn-ddrwg a hyna.

**CRISTION.** Am hyny ni bu genyt un meddwl da am danat dy hun erioed.—Ond gad i mi fyned yn mlaen, Fel y barna'r gair ein calonau, felly hefyd y barna ein ffyrdd; a phan fo ein meddyliau am ein calonau a'n ffyrdd yn unol â barn y gair am danynt, mae'r ddwy yn dda, oherwydd eu bod yn cyduno.

**ANWYBODAETH.** Eglura dy hun yn well.

**CRISTION.** Dywed gair Duw fod ffyrdd dyn yn geimion, nid yn dda, ond yn drofaus; a dywed hefyd, fod dynion allan o'r ffordd dda wrth naturiaeth, ac heb ei hadnabod hi, Psal. 125. 5; Diar. 2. 15; Rhuf. 3. 12. Yn awr pan fo dyn yn meddwl fel hyn am ei ffyrdd, sef, meddaf, gyda theimlad a gostyng-eiddrwydd calon, yna mae ganddo feddyliau da am ei ffyrdd, oherwydd bod ei farn weithian yn unol â barn gair Duw.

**ANWYBODAETH.** Pa feddyliau, meddi, sydd dda am Dduw?

**CRISTION.** Yn gymhwys fel y dywedais am danom ein hunain, pan fo'n meddyliau am Dduw yn unol â'r hyn a ddywed ei air am dano; hyny yw, pan feddyliom am ei fôd a'i briodoliaethau fel y dysgir ni gan ei air, ar yr hyn nis gallaf yn awr ymhelaethu. Ond i son am dano yn ei berthynas â ni: dyna'r pryd y bydd genym feddyliau iawn am Dduw, pan feddyliom ei fod yn ein hadnabod yn well nag yr adwaenom ein hunain, ac y gall ganfod pechod ynom y pryd a'r man na fedrom ei ganfod ynom ein hunain: pan feddyliom ei fod yn gwybod ein meddyliau dirgelaif, a bod ein calon, a'i holl ddyfnderau, yn agored i'w lygaid ef: hefyd pan feddyliom fod ein holl gyflawn-derau yn drewi yn ei ffroenau, ac, am hyny, nas gall efe oldef i ni sefyll o'i flaen gydag unrhyw hyder, hyd yn nod yn ein cyflawniadau goreu.

**ANWYBODAETH.** A dybi di fy mod mor ffol a meddwl

na fedr Duw weled yn mhellach na mi? neu y deuwn at Dduw yn y goreu o'm cyflawnaderau?

**CRISTION.** Wel, beth yw dy farn ar y mater hwn?

**ANWYBODAETH.** Wel, i fod yn fyr, meddyliwyf fod yn rhaid i mi gredu yn Nghrist am gyflawnhad?

**CRISTION.** Pa fodd! a feddyli y rhaid i ti gredu yn Nghrist, a thithau heb weled dy angen am dano! Ni weli ynot dy hun wendidau gwreiddiol na gweithredol; ond y mae genyt y fath feddwl am danat dy hun, ac am a wnei, ag a ddengys yn eglur dy fod yn un na welodd erioed yr angen am gyflawnader personol Crist i'th gyflawnhau ger bron Duw. Pa fodd, ynte, y dywedi, Credaf yn Nghrist?

**ANWYBODAETH.** Credaf ynddo yn burion er hynny.

**CRISTION.** Pa fodd y credi?

**ANWYBODAETH.** Credaf i Grist farw dros bechaduriaid; ac y cyflawnheir finau ger bron Duw oddiwrth y felldith, trwy ei rasol dderbyniad ef o'm hufudd-dod i'w gyfraitha. Neu fel hyn, mae Crist yn gwneuthur fy nyledswyddau crefyddol yn gymeradwy gyda'i Dad trwy rinwedd ei haediant ei hun, ac felly y cyflawnheir fi.

**CRISTION.** Yn awr gad i minau roi atebiad i'r gyffes hon o'th ffydd:—

1. Credi & ffydd sympwyol; canys ni ddysgrifir y ffydd hon yn un man yn y gair.

2. Credi & ffydd gau; canys cymer gyflawnhad oddiwrth gyflawnader personol Crist, a chynhwysa ef at yr eiddot dy hun.

3. Yn ol y ffydd hon, nid dy berson a gyflawnha Crist, ond dy weithredoedd; a dy berson er mwyn dy weithredoedd, yr hyn sydd gyfeiliornus.

4. Am hynny twyllodrus yw'r ffydd hon, y fath ag a'th edy dan ddigofaint yn nydd Duw Hollalluog; canys gwir ffydd gyflawnhaol a bair i'r enaid, dan deimlad o gyflwr colledig yn ngwyneb y ddeddf, ffoi am noddfa at gyflawnader Crist (yr hwn gyflawnader o'i eiddo nid yw weithred o ras drwy'r hou y mae efe yn gwneud dy ufudd-dod yn gymeradwy gyda Duw er cyflawnhad, ond ei ufudd-dod personol ef i'r ddeddf, mewn ufuddhau a dyoeddref drosom.

## 156 CRISTION AC ANWYBODAETH YN YMDDYDDAN.

yr hyn oedd yn ofynol ar ein dwylaw ni); y cyflawnader hwn, meddaf, y mae gwir ffydd yn ei dderbyn; a phan orchuddir yr enaid dan odre hwn, ac y'i cyflwynir yn ddisfeius ger bron Duw, y mae yn cael ei dderbyn, a'i ryddhau oddiwrth golfsarnedigaeth.

**ANWYBODAETH.** Pa beth! a fynit i ni ymddiried yn yr hyn a wnaeth Crist yn ei berson ei hun hebdom ni? Rhoddai y fath dyb firwyn i'n chwantau, a goddefai i ni fyw fel y mynem: canys ba waeth pa fodd y bucheddwn, os gellir ein cyflawnhau trwy gyflawnader personol Crist oddiwrth y cwbl, pan gredom hyny?

**CRISTION.** Anwybodaeth yw dy enw; ac fel y mae dy enw, felly yr wyt tithau: ac yn awr dy atebion a wiriant yr hyn a ddywedwyf. Anwybodus wyt o'r hyn sydd yn cyfansoddi defnydd cyflawnader, ac mor anwybodus a hyny pa fodd i gadw dy enaid trwy'r ffydd hono, rhag digofaint pwysig Duw. Ie, yr wyt hefyd yn anwybodus o wir efeithiau ffydd gadwedigol yn nghyflawnader Crist, sef i blygu ac ennill y galon at Dduw yn Nghrist, i garu ei enw, ei air, ei ffyrdd, a'i bobl, ac nid fel y ffol ddychmygi di.

**GODEITHNOL.** Gofyn iddo a ddadguddiwyd Crist erioed iddo o'r nef?

**ANWYBODAETH.** Beth! gwr wyt ti am weledigaethau! Credwyf mai ffrwyth penwendid yw'r cwbl a ddywedwch eich dau, a phawb o honoch, ar y pen hwn.

**GODEITHNOL.** Pa beth, ddyn! Mae Crist mor guddiedig yn Nuw oddiwrth ddirnadaeth naturiol pob cnawd, fel nad adwaenir ef yn gadwedigol gan neb, oddieithr i Dduw'r Tad ei ddadguddio iddo.

**ANWYBODAETH.** Ie, dyna eich ffydd chwi, ond nid yr eiddof fi; eto dilys genyf fod fy ffydd i cystal a'r eiddoch chwithau, er nad oes genyf gynifer o wylt-dybiau yn fy mhen ag sydd genych chwi.

**CRISTION.** Caniata i mi roi gair i mewn. Ni ddylit siarad mor ysgafn am y pwnc hwn; canys dywedaf hyn yn hyf (fel y dywedodd fy nghyfaill anwyl o'r blaen), na ddiclon neb adnabod Iesu Grist ond trwy ddadguddiad y Tad: ie, ffydd hefyd, trws ha un y mae'r enaid yn

cymeryd gafael ar Grist (os gwir ffydd fydd), a weithredir trwy ragorol fawredd ei nerth ef, Mat. 11. 27; 1 Cor. 12. 3; Eph. 1. 17—19; am weithrediad yr hon, gwelaf dy fod di, Anwybodaeth druan, yn gwbl ddyeithr. Deffro, gan hyny, a gwel dy drueni, a dianc at yr Arglwydd Iesu; a thrwy ei gyflawnder ef, yr hwn yw cyflawnder Duw (canys y mae ei hun yn Dduw), fe’th waredir oddiwrth gondemniad.

**ANWYBODAETH.** Yr ydych yn cerdded yn gyflym; nis gallaf eich canlyn; cerddwch yn mlaen: rhaid i mi aros ychydig ar ol.

Yna dywedasant—

Anwybodaeth, Ow! pa hyd  
 Y byddi ymfyd eilwaith?  
 A wrthodi gyngor cu,  
 A'i gynyg iti ddengwaith?

Os gwrthodi mewn modd syn,  
 Cydnebydd hyn yn fanwl,  
 Cyn pen nemawr, cei'n ddinam  
 Roi cyfrif am y cwbwl.

Mewn pryd ac amser cofia hyn,  
 Ymostwng ddyn, nac ofna;  
 Cyngor da, os cym’ri fo,  
 A’th achub, gwrando arna’.

Os byddi byw mewn cyflwr caeth,  
 Mewn anwybodaeth rhyfedd;  
 Gwybydd hyn, y byddli’n siwr  
 Golledwr yn y diwedd.

Yna Cristion a gyfarchodd ei gydymaith fel hyn:—

**CRISTION.** Wel, tyred fy nghyfaill Gobeithiol, gwelaf y rhaid i ti a minau deithio wrthym ein hunain eto.

Felly gwelwn yn fy mreuddwyd iddynt fyned yn mlaen yn rhwydd, ac anwybodaeth yntau a ddaeth dan hybian ar eu holau. Yna ebe Cristion wrth ei gyfaill, Drwg iawn genyf dros y dyn hwn, druan; bydd yn sicr o droi yn ddrwg arno yn y diwedd.

## 158 YMDDYDDAN RHWNG CRISTION A GOBEITHIOL.

GOBEITHIOL. Och ! y mae llaweroedd yn ein tref ni yr ei gyflwr, teuluoedd cyfain, ie, heolydd cyfain, o bererinion hefyd ; ac os oes cynifer a hynny yn ein parthau ni, pa nifer sydd, dybygi di, yn y man y ganwyd ef ?

CRISTION. Yn wir, dywed y gair, " Efe a ddalodd eu llygaid, fel na welent," &c.

Ond, gan ein bod ar ein penau ein hunain, beth yw dy feddwl am y fath ddynion ? onid ydynt ar amserau, dybygi di, yn profi argyhoeddiadau o bechod, a thrwy hynny ofnau fod eu sefyllfa yn beryglus ?

GOBEITHIOL. Nage, ateb y cwestiwn dy hunan, canys ti yw'r hynaf.

CRISTION. Meddaf, ynte, eu bod ; ond gan eu bod wrth natur yu anwybodus, ni ddeallant fod yr argyhoeddiadau hynny er eu llesâd ; ac am hynny ceisiant eu diffoddi â'u holl egni, a pharhant yn rhyfygus i wenieithio iddynt eu hunain yn ffyrdd eu calonau.

GOBEITHIOL. Credwyf, fel y dywedi, fod ofn yn tueddu yn fawr i lesâu dynion, ac i'w gosod ar yr iawn ar gychwyniad eu pererindod.

CRISTION. Diddadl ei fod, os bydd yn iawn : canys felly dywed y gair, " Dechreuaed doethineb yw ofn yr Arglywydd," Job 28. 28 ; Psal. 111. 10 ; Diar. 1. 7 ; 9. 10.

GOBEITHIOL. Pa fodd y darluni ofn iawn ?

CRISTION. Adnabyddir gwir ofn wrth dri pheth :—

1. Wrth ei darddiad : achosir ef gan argyhoeddiad achubol o bechod.

2. Gyr yr enaid i ddal gafael sicr yn Nghrist am iach-awdwriaeth.

3. Cenhedla a chynhalia yn yr enaid barch mawr i Dduw, ei air, a'i ffyrdd ; gam ei gadw yn dyner, a pheri iddo ofni troi oddiwrthynt, ar dde nac aswy, at ddim a ddichon ddianrhyydeddu Duw, tòri ei heddwch, tristâu yr Ysbryd, neu beri i elynion yr Arglywydd gablu.

GOBEITHIOL. Da iawn ; credwyf i ti ddywedyd y gwir. A ydym ni yn awr agos a chroesi y Tir Rheibiedig ?

CRISTION. Paham ? ai blin genyt yr ymddyddan ?

GOBEITHIOL. Nage, yn wir ; ond dymunwn wybod yn mha le yr ydym.

**CRISTION.** Nid oes i ni oddiar ddwy filltir eto o hono.— Ond dychwelwn at y pwnc.

Yn awr ni wyr yr anwybodus fod yr argyhoeddiadau a barant ofn arnynt yn llesiol iddynt, ac am hyny ceisiant eu mygu.

**GODEITHIOL.** Pa fodd y ceisiant eu mygu?

**CRISTION.** 1. Tybiant y gweithir yr ofnau hyn gan y diafol (er eu bod yn wir o Dduw); a chan feddwl felly, gwrthsafant hwy fel pethau a dueddont i'w disodi: 2. Tybiant hefyd fod yr ofnau hyn yn tueddu i anrheithio eu ffydd; pan, ysywaeth iddynt hwy, druin, y maent yn llwyr amddifad o honi! ac am hyny caledant eu calonau yn eu herbyn. 3. Cymerant yn ganiataol na ddylent ofni, ac am hyny, er eu gwaethaf oll, ânt yn rhyfygus a hyf. 4. Gwelant hefyd fod tuedd yn yr ofnau hyn i ddwyn oddiarnynt eu hen santeiddrwydd gorwael eu hunain, ac am hyny gwrthwynebant hwynt â'u holl egni.

**GODEITHIOL.** Gwn rywbeth am hyn fy hun; canys cyn i mi adnabod fy hun felly yr oedd gyda minau.

**CRISTION.** Wel, gadawn ein cymydog Anwybodaeth iddo ei hun yn awr, a syrthiwn ar ofyniad buddiol arall.

**GODEITHIOL.** O ewyllys fy nghalon; ond rhaid i ti ddechreuw eto.

**CRISTION.** Wel, a adwaenit ti 'Tros-amser, gwr o'th wlad, tua deng mlynedd yn ol, yr hwn oedd yn wr blaenllaw iawn gyda chrefydd y pryd hwnnw?

**GODEITHIOL.** Ei adwaen! adwaenwn; yr oedd ef yn byw yn nhref Diras, tua dwy filltir oddiwrth dref Gonest-rwydd, ac yn trigo yn y drws nesaf i Troi-yn-ol.

**CRISTION.** Gwir, yr oedd efe yn byw dan yr un tô ag ef. Wel, defröwyd y dyn hwnnw yn fawr unwaith: credwyf iddo gacl peth golwg ar ei bechodau, ac ar y cyflog dyledus am danynt.

**GODEITHIOL.** Yr wyf yn gwbl o'r un farn â thi, canys (gan nad oedd fy nhŷ i dros daир milltir oddiwrtho) arferai ddyfod ataf yn fynych, ac yn aml mewn dagrâu. Yr oedd yn ddrwg genyf drosto, ac nid oeddwn yn gwbl heb obaith am dano: ond amlwg iawn yw, nad cywir pob un a ddywed, "Arglwydd, Arglwydd!"

**CRISTION.** Dywedodd wrthyf unwaith ei fod wedi penderfynu myned a'r bererindod, fel nyni yn awr; ond yn ddisymwth daeth yn gydnabyddus ag Achub-ei-hun, ac wedi hyny aeth yn ddyeithr i mi.

**GODEITHIOL.** Yn awr, gan ein bod yn siarad am dano, ymofynwn ychydig i'r achos o'i wrthgiliad disynawth ef ac ereill.

**CRISTION.** Gall hyny fod yn fuddiol iawn; ond dechreua di.

**GODEITHIOL.** Wel, yn fy marn i, mae pedwar achos o hono:—

1. Er fod cydwybodau y dynion hyn wedi eu deffroi, eto nid yw eu calonau wedi eu cyfnewid; yna pan fo grym euogrwydd wedi ei wisgo ymaith, derfydd yr hyn a'u cynhyrfodd i fod yn grefyddol; am hyny troant yn naturiol i'w hen ffyrdd eilwaith; fel y gwevn y ci a fo'n glaf gan yr hyn a fwyttaodd, cyhyd ag y pery ei anhwyldeb, yn chwydu y cwbl i fynu; nid ei fod yn gwneuthur hyn o feddwl rhwydd (os gallwn ddweyd fod gan gi feddwl), ond oherwydd ei fod yn gwasgu ar ei gylla: yn awr, wedi darfod y salwch, ac esmwythâu ei gylla, gan nad yw fymryn llai ei awydd at ei chwydiad, try ato drachefn, a llyfa y cwbl i fynu; ac felly gwir a ysgrif-enwyd, "Y ci a ymchwelodd at ei chwydiad ei hun," 2 Pedr 2. 22. Dyma fel mae'r dynion hyn, tra yn wresog am y nef, wedi eu gweithio felly gan ofn poenâu uffern; ond pan yr oera ac y lleiha eu hofn o ddamnedigaeth, eu dymuniadau am y nef a oera hefyd. Felly pan dderfydd eu harswyd a'u heuogrwydd, mae eu dymuniadau am nef a dedwyddwch yn marw hefyd, a hwythau yn dy-chwelyd i'w hen ffyrdd drachefn.

2. Rheswm arall yw hwn:—Mae ofn caethwasaidd yn eu trechu. Son yr wyf yn awr am eu gwaith yn ofn-dynion; "canys y mae ofn dyn yn dwyn magl," Diar. 29. 25. Felly, er eu bod yn ymddangos yn frwd am y nef tra mae fflamau uffern oddeutu eu clustiau, eto, pan fyddo y dychryn ychydig drosodd, byddant o feddwl gwa-hanol, sef, mai da yw bod yn ddoeth, a pheidio rhedeg (am a'i wyddant pa beth) i berygl o golli y cwbl, neu o leiaf

ddwyn eu hunain i ofidiau anocheladwy ac afreidiol ; ac felly ymunant â'r byd drachefn.

3. Mae y cywilydd sydd yn nglyn â chrefydd hefyd yn dramgwydd yn eu ffordd : mae'n yn feilchion ac uchel-frydig, a chrefydd yn wael a dirmygus yn eu golwg. felly pan gollant eu syniad am uffern a'r llid a fydd, dychwelant i'w hen lwybrau cyntaf.

4. Mae euogrwydd ac ofn yn boenus iddynt ; nid hoff ganddynt weled eu trueni cyn myned iddo ; er y gallasai y golwg cyntaf arno, pe carasant y golwg hwnnw, eu gweithio i ffoi i'r man y ffy y cyflawnion iddo, a'r lle y mae'n ddiogel ; ond am eu bod, fel y crybwyllais o'r blaen, yn casâu y mysfyrdod am euogrwydd ac ofn, pan y caffont wared unwaith o'r daroganau am ddigofaint Duw, caledant eu calonau o'u bodd, a dewisant y cyfryw ffyrdd ag a'u caledont waethwaeth.

**CRISTION.** Yr wyt yn lled agos at y nod, canys gwaelod y cwbl yw diffyg cyfnewidiad yn y meddwl a'r ewyllys. Ac am hyny nid ydynt ond fel y lleidr o flaan y barnwr : mae hwnnw yn crynu ac yn arswydo, ac yn edifeiriol iawn tybygid, ond gwaelod y cwbl yw ofn y cortyn ; nid, mae yn eglur, oddiar ddygasedd at y bai ; oblegyd, rhodder i'r gwr hwn ei ryddid, bydd yn lleidr, ac felly yn dwyllwr, fyth ; ond iddo gael cyfnewidiad meddwl, byddai yn ddyn arall.

**GORETHIOL.** Yn awr danghosais yr achosion o'u gwrth-giliad, dangos dithau y dull.

**CRISTION.** Gwnaf yn ewyllysgar :—

1. Ymddyieithrant o ran eu meddyliau, hyd y gallont, rhag cadw Duw, angau, neu y farn a ddaw, yn eu cof.

2. Yna bwariant ymaith yn raddol ddyledswyddau dirgel, megys gweddi ddirgel, firwynaid eu chwantau, gwyliadwriaeth, galor am bechod, a'r cyffelyb.

3. Yna ymgadwant rhag cyfeillach Cristionogion bywiog a gwresog.

4. Ar ol hyn oerant at ddyledswyddau cyhoeddus, megys gwrando, darllen, ymddyddanion duwiol, a'r cyffelyb.

5. Yna dechreuant bigo tyllau (fel y dywedwa).

• Baisiau hysbodaeth o'r ddiwydiantion  
newydd. • Awd iawn ymddybiad yw'r un pethau  
newydd mae'n golygu o'r gwaith hysbodaeth i ddilys hwythau  
o'r gwaith hysbodaeth o'r gwaith hysbodaeth.

... *Leucostoma* well *Leucostoma* *indianae* *rosae*  
... *Leucostoma* *Leucostoma* *indianae* *lynchii*  
... *Leucostoma* *Leucostoma* *indianae* *lynchii*  
... *Leucostoma* *Leucostoma* *indianae* *lynchii*

wlad hon a'u galwasant, "Pobl santaidd, gwaredigion yr Arglwydd, y rhai a geisiwyd," &c.

Yn awr, fel yr oeddynt yn ymdeithio yn y wlad hon, cawsant fwy o orfoledd nag mewn manau pellach oddiwrth y deyrnas y cyrchent iddi; ac fel yr oeddynt yn dynesu at y Ddinas, cawsant olwg eglurach arni. Adeiladwyd hi â pherlau a meiniau gwerthfawr, a phalmantwyd yr heolydd ag aur; a chan ogoniant y Ddinas, a phelydr yr haul yn disgyn arni, aeth Cristion yn glaf o wir serch ati; Gobeithiol hefyd a gafodd loes neu ddwy o'r un clefyd: felly gorweddent yma dros dro, gan lefain, "Os gwelwch fy Anwylyd, mynegwch iddo fy mod yn glaf o gariad."

Ond wedi cryfhau ychydig, a dyfod yn alluocach i ymgynal dan eu clefyd, aethant yn mlaen i'w ffordd, a daethant yn nes nes i fan yr oedd perlenni, gwinllanoedd, a gerddi, a'u pyrth yn agored tua'r brif-ffordd. Yn awr, fel yr oeddynt yn dyfod i sylfaen at y lleoedd hyn, wele, y garddwyr a safai yn y fforder; y pererinion a ofynasant iddo, Pwy bia'r gwinllanoedd a'r gerddi hyfryd hyn? Yntau a ddywedodd, Eiddo'r Brenin ydynt, ac fe'u planwyd yma er ei hyfrydwch ei hun, a dyddanwch i bererinion. Felly dygodd y garddwyr hwynt i mewn i'r gwinllanoedd, a pharodd iddynt ymloni â'r danteithion, Deut. 23. 24; danghosodd iddynt hefyd brif rodsefydd y Brenin, a'r hafdai yr ymhoffai ynddynt: yma yr arosasant ac y cysgasant.

Yn awr deliais sylw yn fy mreuddwyd, eu bod yn siarad mwy yn eu cwsog y pryd hwn nag un amser yn eu holl daith; a thra'r oeddwn yn synfyfyrio ar hyn, daeth y garddwyr ataf, a dywedodd, Paham y syui wrth y peth? natur grawn y gwinllanoedd hyn yw "myned i waered mor felus, fel ag i beri i wefusau y rhai fyddont yn cysgu lcfaru," Can. 7. 9.

Wedi iddynt ddeffroi, gweïwn nwynt yn ymbarotoi i fyned tua'r Ddinas. Ond, fel y dywedais, yr oedd adlewyrchiad yr haul ar y Ddinas (canys y Ddinas oedd o aur pur, Dat. 21. 18) mor dra gogoneddus, fel na's gallent ar hyn c bryd edrych arni â gwyneb agored, ond trwy

offeryn a wnaed i'r perwyl hwnw, 2 Cor. 3. 18. Felly gwelais, pan aethant yn mlaen, i ddau wr eu cyfarfod mewn gwisgoedd yn dysgleirio fel aur, a'u hwynebau yn llewyrchu fel goleuni.

Y gwyr hyn a ofynasant i'r pererinion o ba le y daethent; a hwy a fynegasant iddynt. Gofynasant hefyd iddynt yn mha le y lletyasant, a pha anhawsderau a pheryglon, pa gysuron a phleserau, a gawsent ar y ffordd; a mynegasant iddynt. Yna ebe'r gwyr a'u cyfarfuant, Nid oes i chwi eto ond dau anhawsdra i gyfarfod a hwy, a byddwch yn y Ddinas.

Yna Cristion a'i gyfaill a atolygasant ar y gwyr fyned gyda hwynt: dywedent hwythau yr aent; Ond, meddynt, rhaid i chwi ennill hyny trwy eich ffydd eich hunain. Felly gwelwn hwy yn fy mreuddwyd yn myned yn mlaen gyda'u gilydd nes dysfod i olwg y porth.

Yn awr, gwelwn yn mhellach, fod afon rhynghdynt a'r porth; ond nid oedd un bont i fyned trosodd; a'r afon oedd dra dofn. Golwg ar yr afon hon, gan hyny, a fawr gythryblodd y pererinion; ond y gwyr a ddaethent gyda hwy a ddywedasant, Rhaid i chwi fyned trosodd, ac onide ni ellwch ddyfod at y porth.

Yna y pererinion a ddechreuasant ymofyn ai nad oedd yr un ffordd arall i fyned at y porth. Atebasant hwythau, Oes; ond ni chafodd neb ond dau, sef, Enoch ac Elias, sengi y llwybr hwnw er pan seiliwyd y byd, ac ni chaiff neb fyned ar hyd-ddo ychwaith hyd ganiad yr udgorn diweddaf. A'r pererinion ar hyn, yn enwedig Cristion, a ddechreuodd lwfrhau yn ei feddwl, gan edrych yma ac acw, ond ni ellid canfod ffordd i ysgoi yr afon. Yna gofynasant i'r gwyr, A ydynt y dyfroedd yr un dyfnder yn mhob man a'u gilydd? Nac ydynt, ebynt hwythau; eto nis gallent eu cynorthwyo yn yr amgylchiad hwn; Canys, ebynt, cewch hwynt yn ddysfnach neu yn fasach fel ag y credoch yn Mrenin y lle.

Yna ymbarotoisant i fyned i'r dwfr, ac wedi myned i mewn, dechreuodd Cristion suddo, a chan waeddi ar ei gydymaith hoff Gobeithiol, dywedodd wrtho, Yr wyf yn soddi mewn dyfroedd dyfniion; y mae'r llifeiriant yn

myned dros fy mhen, mae ei holl dònau yn myned drosof fi. Selah.

Yna ebe y llall, Cymer gysur, fy mrawd, yr wyf fi yn teimlo y gwaelod, a da yw. Ah ! fy nghyfaill, ebe Cristion, gofidion angau a'm cylchynasant; ni chaf weled y tir sydd yn llifeirio o laeth a mel. A chyda hyny disgynodd tywyllwch a dychryn mawr ar Gristion, fel na allai weled o'i flaen. Yma hefyd y collodd ei synhwyrau i fesur mawr, fel nas gallai gofio na siarad mewn trefn am ddim o'r dyddanwch a gawsai yn ffodd ei bererindod. Ond yr oedd pob gair a ddywedai yn dangos yn amlwg ei fod mewn dychryn meddwl, ac arswyd calon rhag iddo farw yn yr afon, ac na chai byth dderbyniad wrth y porth. Yma hefyd y deallod y rhai oedd yn sefyll gerllaw fod iddo feddyliau cythryblus oherwydd y pechodau a wnaethai cyn ac wedi iddo ddechreu ar ei bererindod. Sylwyd hefyd ei fod yn cael ei flino gan ddrychiolaethau o ellylon ac ysbrydion drygionus; canys awgrymai gy-maint yn awr ac eilwaith yn ei ymadroddion.

Cafodd Gobeithiol, gan hyny, lawn gwaith i ddal pen ei frawd uwchlaw y dwfr; ie, weithiau suddai yn holol dano, ac yna, cyn hir, cyfodai drachefn yn hanner marw. Ymdrechай Gobeithiol hefyd i'w gysuro, gan ddywedyd, Fy mrawd, gwelaf y porth, a gwyr yn sefyll wrtho i'n derbyn. Ond Cristion a'i hatebai, Am danat ti, am danat ti y dysgwyliant; canys gobeithiol fuost er pan y'th adnabum gyntaf. Felly y buost tithau, eb efe wrth Gristion. Oh ! fy mrawd (ebe yntau), pe buaswn gywir cyfodasai yn awr i'm cynorthwyo; ond am fy mhechodau efe a'm dygodd i'r fagl, ac a'm gadawodd. Yna ebe Gobeithiol, Fy mrawd, llwyr anghofiaist y testyn, lle y dywedir am yr annuwilion, "Nid oes rwymau yn eu marwolaeth hwynt, a'u cryfder sydd heini; nid ydynt mewn blinder fel dynion ereill, ac ni ddialeddir arnynt hwy gyda dynion ereill," Psal. 73. 4, 5. Nid yw dy drallod a'th ing yn y dyfroedd hyn yn un arwydd fod Duw wedi dy adael; ond danfonwyd hwynt i'th brofi, i edrych a gofi yr hyn a dderbyniaist eisoes o'i ddaioni, a byw arno yn dy gyfyngadera.

Yna gwelwn yn fy mreuddwyd, fod Cristion yn syn-feddylgar am enyd, a Gobeithiol a ddywedodd wrtho drachefn, Bydd gysurus, y mae Iesu Grist yn dy iachâu di. Ac ar hyn gwaeddodd Cristion allan â llef uchel, Gwelaf ef drachefn; a dywed wrthyf, "Pan elych trwy y dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi; a thrwy yr afonydd, fel na lifont drosot," Esa. 43. 2. Yna cymerasant galon ill dau, a'r gelyn wedi hyny a fu mor llonydd a'r gareg, hyd onid aethant drosodd. Yna y casodd Cristion dir caled i sefyll arno; bellach nid oedd y rhan arall o'r asou ond bas. Ac felly yr aethant trosodd.

Yn awr, ar lan yr afon, gwelsant y ddau wr dysglaer drachefn yn dysgwyl am danynt. Ac wedi iddynt ddyfod allan o'r dwfr, cyfarchasant well iddynt, gan ddyweddyd, "Ysbrydion gwasanaethgar ydym ni, wedi ein danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iechydwr iaeth," Heb. 1. 14. Ac yna aethant yn nghyd tua'r porth.

Yn awr sylwch, yr oedd y Ddinas yn sefyll ar fryn tra uchel; ond y pererinion a aethant i fynu y bryn hwn yn ddigor hawdd, am fod y ddau wyr hyn yn eu harwain wrth eu breichiau: hefyd gadawsant eu gwisgoedd marwol ar eu holau yn yr afon; canys er iddynt fyned iddi a'r gwisgoedd hyn am danynt, daethant allan hebddynt. Gan hyny, aethant i fynu yn heini a chyflym iawn, er bod y sylfaen y lluniwyd y Ddinas arni yn llawer uwch na'r cymylau; aethant i fynu trwy ororau yr awyr, dan ymddyddan yn felus, yn llon am iddynt groesi yr afon yn ddiogel, a bod ganddynt y fath gymdeithion gogoneddus i weini iddynt.

Yr ymddyddan rhyngddynt â'r rhai dysglaer ydoedd am ogonian y lle; y rhai a ddywedasant wrthynt fod ei harddwch a'i ogonian yn annhraethadwy. Yno, meddynt hwy, y mae "Mynydd Sion, y Jerusalem nefol, myrddiwn o angelion, ac ysbrydoedd y cyflawn y rhai a berfeithiwyd," Heb. 12. 22—24. Yr ydych yn myned yn awr, ebynt hwy, i baradwys Duw, lle y cewch weled pren y bywyd, a bwyt a'i firwyth anniflanedig: a phan i ddeloch yno, fe'n gwisgr mewn dillad gwynion, a chewch radio.

ac ymddyddan beunydd â'r Brenin, ie, dros holl ddyddiau tragwyddoldeb, Dat. 2. 7; 3. 4, 5; 22. 5. Ni chewch weled yno mwyach y fath bethau ag a welsoch yn y parthau isaf ar y ddaear; sef, tristwch, clefyd, cystudd, ac angau; "Canys y pethau cyntaf a aethant heibio," Esa. 65. 16, 17. Yr ydych chwi yn myned yn awr at Abraham, Isaac, a Jacob, ac at y prophwydi, y rhai a gymerodd Duw ymaith o flaen drygfyd, a'r rhai yn awr ydynt yn "gorphwys yn eu hystafelloedd, pob un yn rhodio yn ei uniondeb," Esa. 57. 1, 2. Yna y gwyr a ofynasant, Pa beth a raid i ni ei wneuthur yn y lle sant-aidd hwn? Atebasant hwythau, Derbyniwch gysur am eich holl lafur, a gorfoledd am eich holl ofid; cewch fedi yr hyn a hauasoch, sef ffrwyth eich holl weddiau, eich dagrau, a'ch dyoldefiadau dros y Brenin ar hyd y ffordd, Gal. 6. 7, 8. Yno y rhaid i chwi wisgo coronau o aur pur, a mwynhau yr olwg ar y Sanct yn ddidor; canys yno y "cewch ei weled ef megys ag y mae," 1 Ioan 3. 2. Yno hefyd y cewch wasanaethu yn wastadol â mawl, llawen-floedd, a diolchgarwch, yr Hwn y chwennychasoch ei wasanaethu ar y ddaear, er mai trwy lawer o anhaws-dra, oherwydd gwendid eich cnawd. Yno y caiff eich llygaid yr hyfrydwch o weled, a'oh clustiau o glywed llais dyddanawl yr Un Cadarn. Yno y cewch fwynhau eich cyfeillion drachefn, à aethant yno o'ch blaen; ac yno hefyd y cewch dderbyn gyda llawenydd bob un a ddaw ar eich hol i'r lle santaidd hwnw. Yno hefyd y'ch gwisgir â gogoniant ac ardderchawgrwydd, a chewch addurnwisg a fyddo cymhwys i farchogaeth allan gyda Brenin y Gogoniant. Pan ddelo gyda sain udgorn yn y cymylau, megys ar adenydd y gwynt, cewch ddyfod gydag ef; a phan eisteddo ar orseddfainc barn, cewch eistedd yn ei ymyl; ie, a phan y cyhoedda efe ddedfryd ar holl weithredwyr anwiredd, pa un bynag ai angelion ai dynion, cewch chwithau hefyd lais yn y ddedfryd hono, am mai ei elynion ef a chwithau oedd ynt. Hefyd, pan ddychweio efe yn ol i'r Ddinas, cewch chwithau fyned gydag ef a llais udgorn, a bod yn wastadol gydag ef, 1 Thes. 4. 13—17; Judas 14, 15; Dan. 7. 9, 10; 1 Cor. 6. 2, 3.

Yn awr tra y dynesent fel hyn at y porth, wele fintai o'r llu nesol yn dyfod allan i'w cyfarfod ; wrth ba rai y dywedodd y ddau wr dysglaer, Y gwyr hyn a garasant ein Harglwydd ni pan oeddynt yn y byd, ac a adawsant bob peth er mwyn ei enw santaidd ef ; efe a'n danfonodd i'w cyrchu, a dygasom hwynt hyd yma yn eu taith ddymunol, fel y gallont fyned i mewn ac edrych yn wyneb eu Prynwr mewn llawenydd. Yna y llu nesolaidd a roisant fonlef groch, gan ddywedyd, " Bendigedig yw y rhai a elwir i neithior-swper yr Oen," Dat. 19. 9. Daeth allan hefyd yr amser hwnw amryw o udganwyr y Brenin, wedi eu gwisgo mewn dillad gwynion a dysglaer, y rhai a wnaethant i'r nefoedd adseiniog gan eu perleisiau uchel. Yr udganwyr hyn a gyfarchasant well i Gristion a'i gyfaill â myrdd o groesawion allan o'r byd ; a gwnaethant hyn gyda bloedd a sain udgorn.

Ar ol hyn amgylchasant hwy ar bob tu ; aeth rhai o'r tu blaen, rhai o'r tu ol, rhai ar y llaw dde, a rhai ar yr aswy (fel i'w gwarchod trwy'r brôydd fry), dan seinio yn ddibaid wrth fyned, â thônau peraidd, a chaniadau yn yr uchelder : fel yr oedd yr olwg yn ddigon i beri i'r sawl a allent ei gael feddwl fod y nef ei hun wedi disgyn i'w cyfarfod. Fel hyn, gan hyny, yr aethant yn mlaen gyda'u gilydd ; ac fel yr aent, yr udganwyr yn awr a phryd arall, â sain hyfryd, a thrwy gymysgu eu cân â golwg ac ag agwedd, a rodrent ar ddeall i Gristion a'i frawd pa mor groesawgar y derbynid hwy i'w cymdeithas, a chyda pha lawenydd y daethent i'w cyfarfod. Ac yn awr, yr oedd y ddau wr fel pe buasent yn y nef cyn dyfod ati, wedi eu llyncu i fynu gan y golwg ar yr angelion, a chlywed y fath berleisiau hyfryd. Yma hefyd y cawsant lawn olwg ar y Ddinas ei hun ; a thybient glywed o honynyt yr holl glychau yn canu i'w croesawu hwynt i mewn. Ond, uwchlaw y cwbl, y meddyliau hyfryd a llon oedd gan-ddynt yn nghylch eu harosiad yno gyda'r fath gymdeithion, a hyny dros byth bythoedd, Oh, pa dafod neu bin a ddichon draethu eu gwiw lawenydd !—Ac fel hyn y daethant at y porth.

*Gwedi iddynt ddyfod i fynu at y porth, yr oedd yu*

argraffedig arno mewn llythyrenau o aur, “GWYN EU BYD Y RHAI SYDD YN GWNEUTHUR EI ORCHYMYNION EF, FEL Y BYDDO IDDYNT FRAINT YN MHREN Y BYWYD, AC Y GALLONT FYNED I MEWN TRWY Y PYRTH I’R DDINAS,” Dat. 22. 14.

Yna gwelwn yn fy mreuddwyd fod y ddau wr dysglaer yn erchi iddynt alw wrth y porth; a phan wnaethant hyn, rhai oddifry a edrychasant dros y porth, sef Enoch, Moses, ac Elias, &c., wrth ba rai y dywedwyd, Y pererinion hyn a ddaethant allan o Ddinas Dystryw, o gariad at Frenin y lle hwn: yna y pererinion bob un a estynasant eu tyst-ysgrif, a gawsent yn y dechreuad; dygwyd y rhai hyn i mewn at y Brenin, yr hwn, wedi iddo eu darllen, a ofynodd, Pa le y mae'r gwyr hyn? Atebwyd iddo, Y maent yn sefyll o'r tuallan i'r porth. Yna gorchymynodd y Brenin ei agor, “fel y delo [eb efe] y genedl gyflawn i mewn, yr hon a geidw wirionedd,” Esa. 26. 2.

Yn awr gwelwn yn fy mreuddwyd y ddau wr yn myned i mewn trwy'r porth; ac, wele! fel yr oeddynt yn myned i mewn, hwy a wedd-newidiwyd; a gwisgwyd hwynt a gwisgoedd yn dysgleirio fel aur. Yma hefyd y cyfarfu a hwynt rai a thelynau a choronau, y rhai a'u rhoisant iddynt; y telynau i ganu mawl, a'r coronau yn arwydd o anrhyydedd. Yna clywn holl glychau y Ddinas yn seinio drachefn o lawenydd, a dywedwyd wrthynt, “Ewch i mewn i lawenydd eich Arglwydd,” Mat. 25. 23. Clywn hefyd y gwyr eu hunain yn canu a llef uchel, gan ddywedyd, “I'r Hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfain, ac i'r Oen, y byddo y fendith, a'r anrhyydedd, a'r gogoniant, a'r gallu, yn oes oesoedd,” Dat. 5. 13.

Yn awr, fel ag yr oedd y pyrth yn cael eu hagoryd i ollwng y pererinion i mewn, edrychais ar eu hol, a deallais fod y Ddinas yn dysgleirio fel yr haul; yr heolydd hefyd oeddynt wedi eu palmantu ag aur, ac ynddynt yr oedd lluaws a choronau ar eu penau, palmwydd yn eu dwylaw, a thelynau euraidd i ganu mawl.


Yr oedd yno rai hefyd ag adenydd ganddynt, a hwy a atebasant y naill y llall yn ddidor, gan ddywedyd, “Sanct.

Sanct, Sanct, yw Arglwydd y lluoedd!" Ac ar ol hyn cauasant y pyrth : pan welais hyn, dymunais yn fawr fod fy hunan yn eu plith.

Tra yr oeddwn yn edrych ar yr holl bethau hyn, tröais fy ngwyneb yn ol, a gwelwn Anwybodaeth yntau wedi dyfod at lan yr afon : ond efe a ddaeth yn fuan trosodd, a hyny heb hanner y rhwystr a gyfarfu â'r ddaau wr arall. Canys dygwyddodd fod yn y fan hòno un Gwag-obaith yn fadwr, yr hwn a'i dygodd ef trosodd yn ei fad ; felly yntau, fel y lleill a welais, a esgynodd i'r bryn, i ddyfod i fynu at y porth ; eithr efe a ddaeth wrtho ei hun ; ni chyfarfu neb ag ef i roddi iddo y cefnogiad lleiaf. Pan ddaeth i fynu at y porth, edrychodd ar yr ysgrifen, a dechreuodd guro, gan dybied y cawsai ei dderbyn i mewn yn ddiatreg ; ond gofynwyd iddo gan y gwyr oedd yn edrych dros y porth, O ba le y daethost ti? a pha beth sydd arnat eisiau? Yntau a'u hatebodd, Bwyteais ac yfais gyda'r Brenin, a dysgodd yn ein heolydd. Yna gofynasant iddo am ei dyst-ysgrif, fel y gallent fyned â hi i mewn, a'i dangos i'r Brenin. Felly dechreuodd chwalu yn ei fynwes am un, pryd nad oedd un i'w chael. Yna ebynt hwy, A oes genyt yr un? ond nid atebodd y dyn iddynt yr un gair. Felly mynegasant i'r Brenin, ond ni ddaeth efe i waered i'w weled, eithr gorchymynodd i'r ddaau wr dysglaer, y rhai a arweiniasant Cristion a Gobeithiol i'r Ddinas, fyned allan, a chymeryd Anwybodaeth, a'i rwymo draed a dwylaw, a'i ddwyn ymaith. Yna cymerasant ef i fynu, a dygasant ef trwy yr awyr at y drws a welais yn ochr y bryn, a bwriasant ef i mewn yno. Yna gwelais fod ffordd i uffern, hyd yn nod oddiwrth byrth y nef, yn gystal ag o ganol Dinas Dystryw. Felly deffröais, ac wele breuddwyd oedd.

## Y DIWEDDGLO.

YN awr, ddarlenydd, d'wedais iti  
Fy mreuddwyd, cais im' ei ddehongli,  
I ti'th hunan, neu'th gymydog ;  
Rhag camddehongli bydd wagelog.  
Can's, yn lle gwneuthur it' ddaioni,  
Ni ddaw iti ond yr anfri ;  
Trwy gamddehongli pethau tywyll,  
Y mae yn dygwydd ddrygau erchyll.  
Na fydd ry fanwl yn dy amcan,  
Wrth chwareu â'm breuddwyd o'r tuallan ;  
Na âd i'm cysgod na'm cyff'lybiaeth  
Dy yru i chwerthin neu nwyd cecraeth ;  
Gad hyn i fechgyn ac ynfydion,  
Myn di wel'd sylwedd f'ymadroddion.  
Tro'r llen o'r neilldu, i mewn edrych,  
Trwy'm cyff'lybiaeth, gwel na fethych ;  
Yno cai, os chwili'n ddyfal,  
I'th feddwl bethau da i ymgynal.  
Yr hyn o'm sorod yno weli,  
Tafl ef ymaith yn ddioedi ;  
Ond eto cadw'r aur yn hygar,  
Mae'n werthfawr iawn, er bod mewn daear ;  
Beth, er im' hausr fod yn guddiedig  
Mewn mwn priddlyd ?—Pa ddyn diddig  
A deifl ymaith afal perol,  
Am fod dincod yn ei ganol ?  
Os tefli'r oll fel gwagbeth heibio,  
Nis gwn nas gwna im' ailfreuddwydio.



# **TAITH Y PERERIN**

**O'R**

**BYD HWN I'R HWN SYDD AR DDYFOD.**

**RHAN II.**

**DAN GYFFELYBIAETH BREUDDWYD.**

**YN MHA UN Y DANGHOSIR DULL CYCHWYNIAD ALLAN  
GWRAIG A PHLANT CRISTION, EU TAITH BERYGLUS  
A'U MYNEDIAD DIOGEL I'R WLAD DDYMUNOL.**

"Mi a arferais gyffelybiaethan," Hos. 12. 10.



DULL

## Y R A W D W R

O ANFON ALLAN.

EI AIL RAN O DAITH Y PERERIN.

---

Dos, dos, fy Llyfr bychan, i bob lle  
Bu'm Pererin cyntaf ynddo fe ;  
Dos at y ddor : os gofyn neb yn gu,  
Pwy sydd yna'n awr ? Cristiana, dywed di.  
Os d'wedant, Tyr'd i mewn, cei groesaw clyd,  
Dos yno'n rhwydd, a'th fechgyn oll yn nghyd ;  
Gan dd'weyd ger bron dy helynt yn ddigoll,  
Dy enw'n llawn, a phob hyfforddiant oll.  
Efallai gwna rhyw un o fewn y ty,  
Wrth wel'd eich pryd a'ch gwedd, eich adwaen chwi.  
Os amgen, gofyn di i'r teulu glân,  
Ai ni letyodd Cristion yma o'r blaen ?  
Os d'wcdant, Do, a bu ei lwybrau cu  
Yn fawr hyfrydwch genym ni ;  
D'wed dithau yn y fan—a synu wnant—  
A ninau ym yn awr ei wraig a'i blant.  
D'wed am y rhai adawsant gartref clyd,  
Mai Pererinion ynt yn ceisio nefol fyd ;  
Ac iddynt gwrdd â ch'ledi lawer gwaith,  
A blinder tost bob nos a dydd e'r daith :  
Sathrasant seirff dolenawg dan eu traed,  
Ac â chythreuliaid certh brwydrasant hyd at waed ;  
A thrwy beryglon fyrrd yr aethant hwy,  
Heb brisio dim mewn archoll, saeth, na chlwy'.  
D'wed am y rhai o serch at bererindod maith,  
Fu'n ddewraidd iawn yn amddiffynu eu taith ;  
Gan wadu'r byd, a'i holl bleserau mad,  
I wneud ger bron ewyllys lon eu Tad.

A thraetha bethau gwell na'r diliau mel  
 I'r teithiwr blin ar ben y daith a ddel :  
 A gwna hwy oll yn hysbys yma'n awr  
 O'u cariad cryf tuag at eu Brenin mawr ;  
 A pha drigfanau clyd ddarperir ganddo ef,  
 Er cwrdd â llanw, croes, ac aml awel gref ;  
 A pha lonyddwch maith ar ben y daith sy'n stor  
 I'r rhai a sai'n ddigwympr yn hyfryd ffyrdd yr Ior.  
 Efallai y gwnant hwy, â llaw a chalon lawn,  
 Fel fy Mhererin gynt, dy dderbyn dithau'n iawn ;  
 Gan roi croesawiad mwyn i'th deulu oll a thi,  
 Gan dystio'u cariad llon at Bererinion cu.

## GWBTHDDADL I.

Ond beth os hwy nas credant i myfi,  
 Fy mod i'n wir yn eiddo pur i ti.  
 Can's llawer un trwy dwyll ar hyd y wlad  
 Ymrithia'n rhith yr hoff Bererin mad ;  
 Ac ennill parch yn llawer man a lle,  
 A bwth a thy, na's gwn i'n iawn yn mh'le.

## ATEB.

Gwir, gwir, mae rhai'n dwyllodrus iawn,  
 Wrth eu dych'mygion hwy rhoi f'enw i yn llawn ;  
 A'r lleill ger bron rhoi hanner f'enw wnant,  
 A chlytio llyfr cyfan rhywfodd maent ;  
 Ac eto'u dull, eu flur, a'u gwedd,  
 Sy'n dweyd yn glir mai nid myfi a'u medd.

Os cwrddi â hwy yn rhywle ar dy daith,  
 O'u blaen hwy oll d'wed di dy chwedl faith  
 Yn rhwydd a hyf, yn iaith dy fro dy hun—  
 Yr iaith sy'n awr uwchlaw arferiad dyn.

Os ammau wnant, a dweyd mai Sipsiwn wyd,  
 Yn rhith doethineb llon yn llygru'r wlad yn llwyd,  
 Gan awain rhai gwyr da oddiar yr iawn,  
 A phethau gau a gwaharddedig llawn,  
 Gyr air i mi ; a thystiaf blaid i chwi,  
 Mai chwi eich dau yw'm Pererinion i.

## GWIRTHDDADL II.

Ond beth os âf at ddor rhyw adyn croes,  
 Bydd gofyn am Bererin yn rhoi i'w galon loes ;  
 A gwneud i'w fynwes ddu fel crochan ferwi'n ffroch,  
 A llenwi ei enau'n llawn â rhyw gableddau croch.

## ATEB.

Nac ofna ddim, nid yw'r fath ddynion gwael  
 Ond peri ofn lle nad oes ofn i'w gael.  
 Fy Llyfr bach a deithiodd fôr a thir,  
 Ac ni cha'dd lai na phob derbyniad gwir ;  
 Ni chlywais i gau drws i'w erbyn ef,  
 Gan fawr na bach, mewn unrhyw wlad na thref.  
 Yn Ffrainc a Fflanders, yn nghanol rhyfel blin,  
 Addefir ef yn frawd a chyfaill cun.  
 Yn Holand bell y mae rhyw ddystaw air,  
 Ei fod yn wir gan rai yn well nag aur.  
 Ysgotiaid dewr yr Ucheldiroedd cu,  
 A'r Gwyddyl gwyllt, roent groesaw llon i mi.  
 Yn Lloegr Newydd, y fath groesawiad iawn  
 A dderbyn ef oddiar eu dwylaw'n llawn ;  
 Ymrodiw wna mewn rhyw ardderchog drem,  
 Mewn tryfrith wisg o loyw berl a gem.  
 Ah mwy ! lle bo'm Pererin glân,  
 Yn destun bydd i hoff ymgom a chân.  
 Os nesi'n nes tua'th hyfryd wlad dy hun,  
 Nid rhaid it' ofni byth, na dim, na dyn.  
 Pob gwlad a thref yn unllais yma sydd  
 Yn dweyd, Bererin hoff, O, croesaw rhydd !  
 A gwenu wnant os dygwydd iddo yn mron  
 Ddangos ei wynebpryd yn eu cwmniaeth llon.  
 Gwyr dewr galluog sydd yn prisio'n awr  
 Fy Nheithiwr gwiw uwchlaw rhyw bethau mawr,  
 Gan ddweyd ger bron, fod coes fy hedydd i  
 Yn llawer gwell na chorff barcutan du.  
 Gwyryfon heirdd, a boneddesau teg,  
 Ddang'osant iddo bob derbyniad chweg ;

Eu mynwes glyd a'u calon yw ei le,  
 Can's hoffi wnant ei chwedlau disyr e'.  
 Meddylio'r wylf y gallaf ddweyd y gair,  
 Y prisir fi gan rai yn fwy nag aur.

Y plantos mân fo ar yr heol gu,  
 Os cwrdd a wnant â'm hoff Bererin i,  
 Cyfarchant ef, gan ddweyd, Rhwydd hynt, yn wiw,  
 Prif addurn teg y dyddiau yma yw.  
 2 Y rhai na's gwelsant, ond a glywsant ran  
 O'i hanes ef, ddeisyfant yn y fan  
 Gael ei gyfeillach wiw, a gwrando arno'n iawn  
 Yn dweyd ei chwedlau cu, a'i helynt oll yn llawn.

A'r rhai fu gynt yn ei ddifenwi ef  
 Sy'n rhoddi iddo'n awr groesawiaeth gref:  
 Gan ddweyd, Yn wir, ar ol ei wel'd, nid teg  
 In' wneuthur llai na'i ganmol ef yn chweg.  
 Os anrheg yrant i gyfaill teg ei fron,  
 Yr anrheg fydd fy hoff Bererin llon.

F'Ail Ran, gan hyny'n wir, nid rhaid  
 It' ofni'n ffol, mae iti blaidd:  
 Dy gronfa sydd mor anmhrisiadwy lân  
 I bob dyn oll, a'r Rhan aeth o dy flaen.

### GWRTHDDADL III.

Ond dywed rhai, Ei chwarddiad sy ry groch,  
 A'i gopa sydd o fewn y cwmwl broch.  
 A'r lleill a dd'wed, Dychymyg dywell oll,  
 'Does neb a all ei ddeall yn ddi goll.

### ATEB.

Gall llawer un 'nawr lunio rhyw feddylfryd  
 O'i wên a'i wae oddiwrth ei lygaid dyfrlyd;  
 Rhai pethau sydd yn natur o'r fath siom,  
 Rho'nt wên ar rudd tra'r galon eto'n drom.  
 Pan welodd Jacob Rachel gyda'r desaid blydd,\*  
 Cusanodd hi â'r dagrau ar ei rudd.

\* Tyner.

D'wed rhai, Mae yn ei ben ryw gwmwl du,  
 'Does neb o'r byd a'i deall ef yn gu ;  
 Nid yw hyn oli ond ei ddoethineb gun  
 Yn nghudd o fewn ei fantell ef ei hun :  
 A rhaid i'r sawl a fyno gwmni hon  
 Roi egni mawr cyn caffo hi yn llon.  
 Y pethau sy dan eiriau pleth yn nghudd,  
 I'r duwiol fryd dry yn hudolus fudd,  
 I geisio gwel'd eu hystyr gwir, a'u nod,  
 Ag sydd fel hyn dan gwmwl cudd yn bod.  
 Gwn hefyd y gwna dameg deg ei llun  
 Effeithio ar ddychymyg llawer un,  
 A dyfnach lynn'u'n eu meddyliau hwy  
 Na chywrain ddysg ymresymiadau mwy.

Fy Llyfr, gan hyny, byth na ad  
 I'th luddias ddim i deithio hyd y wlad :  
 Nid at elynion cas yr âi yn awr,  
 Ond at gyfeillion mwyn a theg eu gwawr—  
 At lawer cyfaill llad, gofleidia'n llon  
 Dydi, a'th deulu oll, yn dyner at ei fron.

A adodd y Pererin cynta'n nghudd,  
 Dos di, yr ail, a dwg i oleu'r dydd :  
 A'r hyn adawodd Cristion gynt dan glo,  
 Dadglo'a'n rhwydd Cristiana, lili'r fro.

## GWETHDDADL IV.

Ond rhai ni hoffant ddull dy gyntaf, gwn :  
 Ffugchwedl, meddynt, fel llwch y lluchiant hwn.  
 Os cwrddyd wnaf â'r rhai'n, beth wnelwyf fi ?  
 Ai eu ffieiddio hwy a'r un ffieidd-dra du ?

## ATEB.

Fy Nghristiana hoff, os cwrddi di â hwy,  
 I'w cyfarch oll, O myn ddoethineb mwy ;  
 A gwel na thalech iddynt ddrwg am ddrwg,  
 Ond gwena di os gweli arnynt wg :  
 Efallai mai rhyw dymer yw, neu gelwydd du,  
 A barai iddynt hwy dy wrthod di.

Mae rhai heb hoffi caws, ac ereill bysg,  
 A rhai heb garu eu cyfeillion sy'n eu mysg ;  
 Blin ganddynt yw eu cartref hoff a'u ty,  
 A mochyn a gythrybla'u meddwl cu ;  
 Ednogyn peraidd dybiant hwy'r un flas  
 A'r gog adeiniog, neu'r ddallhuan gas.  
 Gad hwy, Cristiana, i'w dewis fflyrdd heb ffrwyd,  
 Dos at y rhai f'out am lawenydd mwyn :  
 Na frostia ddim ond mewn iselfryd llon,  
 Mewn diwyg, hoff Bererin, saf ger bron.

Dos, dos, fy hoff Lyfryn, dos yn rhwydd  
 At bawb rydd groesaw it', a gar dy lwydd :  
 I'r rhai fyn wybod y pethau genyt sydd,  
 Bendithion fyrrd, a mawr ddaioni fydd.  
 A dewis wnant, o flaen y byd a'i fri,  
 Fyw'n Bererinion gwell na mi na thi ;  
 Dos, dos, a dywed di i bawb ger bron,  
 Cristiana wyf, a'm pedwar bachgen llon ;  
 A'm gwaith yn awr yw dweyd pa helynt fydd  
 Yn cwrdd â'r rhai ar bererindod sydd.

A d'wed yn rhwydd pwy yw'r rhai hyn yn rhif  
 Ar bererindod maith sydd gyda thi :—  
 Trugaredd hoff yw hon ; er's llawer dydd  
 Cyd-deithio'r ym ar bererindod prudd :  
 Ac yn ei hystum hardd, a'i gruddiau teg,  
 Doed llawer un i ddysgu gwersi chweg :  
 Gwyryfon heirdd, i ddysgu prisio'r byd—  
 Y byd sy'n dod—â rhyw ddoethineb prid.  
 Pan welir plantos mân yn moli Duw yn llon,  
 A'r hen bechadur cas yn crynu ger ei fron,  
 Cyffelyb fydd i'r dydd y canai'r plant  
 Hosanna gynt, a'r hen eni gwatwar wnaen  
 Yn nesaf d'wed, Dyma Ônestrwydd clir,  
 A'i wallt arianaidd, ar bererinawl dir :  
 A d'wed mor ddidwyll galon, dan bob loes,  
 Ar ol ei Arglwydd da, y cariai'r groes.  
 Trwy hyn, esfallai, yr ennill i'n wiw  
 Ryw henwr penllwyd i hoff-garu Duw.

Yn nesaf, wele Mr. Ofsnus, fu  
 Yn gaeth mewn ofnau tost, a'i ddagrau'n lli' ;  
 A'r modd y ca'dd, yn nghanol tywydd certh,  
 I'w feddiant byth y perl anfeidrol werth.  
 Dyn da oedd ef—a'i ysbyryd prudd ar lawr ;  
 Dyn da yw ef—mae bywyd ganddo'n awr.

Yn nesaf, wele Mr. Meddwl Gwan,  
 Nad elai'n mlaen—enciliai yn mhob man :  
 D'wed iddynt ja mor agos fu i'w ladd,  
 A'r oruchafiaeth wech Dewr-galon ga'dd.  
 Pur galon yw, ond gras yn wan a fedd,  
 Darllen'i'n rhwydd dduwioldeb yn ei wedd.

Ac yna daw Parod-i-gloffi yn llawn,  
 Wrth faglau candryll, yn arafaidd iawn :  
 A d'wed fel byddai ef a Meddwl Gwan  
 Mewn barn yn rhwydd gytuno yn mhob man ;  
 Gwybydded pawb, er gwaned aent yn mlaen,  
 Y dawnsiai un tra canai'r llall ei gân.

Ac nac annghofia'r dewraf yn y tir—  
 Ieuangol gawr, sef Cadarn-dros-y-gwir.  
 D'wed ddewred oedd, ac fel yr elai heb  
 Droi'n ol yn llwfr, nac ofni wyneb neb ;  
 Ac fel bu iddo a Dewr-galon hyf  
 Ladd Cawr Anobaith cas, a dryllio'i Gastell cryt !

Ac na ddos heibio i'r hen Wan-obaith prudd,  
 A'i ferch dlos Ofnog, sy'n crynu nos a dydd :  
 Ac er eu bod dan fantell ofn a chlwy',  
 Fel pe b'ai eu Duw yn eu gwrthod hwy.  
 Yn mlaen yr ânt, ac yn y diwedd gwiw,  
 Duw'r Pererinion oll fydd iddynt hwy yn Dduw.

'Nol dweyd dy hanes oll fel hyn i'r byd,  
 Tro'n ol, a tharo ar y tannau prîd  
 Dy fysedd cain ; a chwyd gerddoriaeth gun,  
 Nes dawsia'r cloff, nes cryna'r cadarn un  
 Yr hyn a ddichon fod dan len yn nghudd  
 Eglura'n glir—myn oll i oleu'r dydd :  
 Ac am y lleill, gad hwy i gyd er llwydd  
 I'r meddwl treiddgar a fedro'u cael yn rhwydd.

Yn awr, O bydded hwn yn fendith gu  
I'r sawl sy'n eithaf hoff o'm Llyfr a mi ;  
A'r rhai a'i pryn na chaffont achos mwy  
I gwyno sill ar ol eu harian hwy.  
A'm hail Bererin hwn a ddygo ffrwyth  
A hoffir gan Bererin gwan yn llwyth ;  
A'i fod yn foddion prydlon, cywir, llawn,  
I droi rhyw un o'i geimion ffyrdd i'r iawn,

Ydyw gweddi ddifluant

Yr Awdwr,

JOHN BUNYAN.

# TAITH Y PERERIN,

DAN GYFFELYBIAETH BREUDDWYD.

---

## RHAN II.

---

### HYNAWS GYMDEITHION,

Bu fy ngwaith, ryw amser yn ol, o adrodd i chwi fy mreuddwyd am Gristion y Pererin, a'i daith beryglus tua'r Wlad Nefol, yn ddifyrus i mi, ac yn fuddiol i chwirthau. Adroddais hefyd y pryd hwnw yr hyn a welswn am ei wraig a'i blant, ac mor anfoddlon oedd ynt i fyned gydag ef ar bererindod ; yn gymaint felly fel y gorfu iddo fyned i'w daith hebddynt : canys ni feiddiai osod ei hun yn agored i'r dinystr a ofnai ddyfod arno os arhosai gyda hwynt yn Ninas Dystryw : felly, fel y danghosais i chwi y pryd hwnw, gadawodd hwynt, ac aeth ymaith.

Dygwyddodd i mi, gan amledd fy ngorchwylion, gael fy rhwystro yn fy nheithiau arferol i'r ardaloedd hyny yr aethai efe iddynt ; ac felly nis gellais, hyd yn bresenol, gael hamdden i ymofyn yn nghylch y rhai a adawodd efe ar ol, fel y gallwn adrodd yr hanes i chwi. Ond gan fod genyf ryw negesau yn y fro hono yn ddiweddar, aethum eilwaith i waered tuag yno. Yn awr, wedi lletya mewn coedwig oddeutu milltir o'r lle, cysgais, a breuddwydias drachefn.

Ac, yn fy mreuddwyd, gwelwn hen wr bonheddig yn dyfod at y man lle yr oeddwn yn gorwedd ; a chan ei fod yn myned rhyw gyfran o'r ffordd yr oeddwn yn ei theilthio.

tybiais i mi godi i fynu a myned gydag ef. Felly, fel yr oeddym yn rhodio, ac fel y mae yn arferol i ymdeithwyr, yr oeddwn fel pe buasem wedi syrthio i ymddyddan; a dygwyddodd i'n hymddyddan fod yn nghylch Cristion a'i deithiau; ac fel hyn y dechreuais gyda'r hen wr :—

Syr, meddwn, pa dref yw honacw sydd islaw i ni, yn gorwedd ar y tu aswy i'r ffordd?

Yna ebe Mr. Synhwyrol (cànys dyna ei enw), Dinas Dystryw yw, lle poblogaidd iawn, ond yn llawn o drigolion gwael eu cyflwr a segurlyd.

Tybias mai honyna oedd y ddinas hòno, ebe finau; aethum trwy y dref hòno unwaith fy hun; ac wrth hyny gwn fod y gair a roddi iddi yn wirionedd.

**SYNHWYROL.** Rhy wir! buasai dda genyf ddywedyd y gwir wrth ddywedyd yn well am ei thrigolion.

Felly, syr, meddwn inau; deallwyf mai gwr cywir ydwyt, a hoff genyt wrando ac adrodd yr hyn sy dda. Atolwg, a glywaist ti ddim beth a ddygwyddodd ryw amser yn ol i wr o'r dref hon a elwid Cristion, yr hwn a aethai ar bererindod tua'r ardaloedd fry?

**SYNHWYROL.** Clywed am dano! Do: a chlywais hefyd am y trallodau, y blinderau, y rhyfeloedd, y caethiwed, yr ocheneidau, y griddfanau, y dychrynfeydd, a'r ofnau, a gyfarfu efe ar ei daith. Heblaw hyny, rhaid i mi ddywedyd wrthyd, fod ein holl wlad yn llawn o'r son am dano: nid oes odid dy, wedi clywed am dano ef a'i weithredoedd, heb geisio a chael yr ysgrif-hanes am ei bererindod; ie, meddyliwyf y gallaf ddywedyd, i'w daith beryglus ennill llawer o ewyllyswyr da i'w ffyrdd; er ei fod, tra yf oedd yma, yn ynsydl yn ngenau pawb, eto yn awr, wedi iddo fyned ymaith, y mae pawb yn ei ganmol. Canys dywedir ei fod yn byw yn wych yn y lle y mae yn awr; ie, y mae llawer o'r rhai na fynant er dim anturio ei beryglon, a'r dwfr yn rhedeg o'u dannedd o awydd ennill yr un lle ag yntau.

Hawdd y gallant, meddwn inau, feddwl yn dda, os meddyliant yn gywir, sef ei fod yn byw yn rhagorol lle y mae; oblegyd y mae yn byw yn bresenol wrth ac yn Ffynnon bywyd, ac yn cacl yr hyn sydd ganddo heb lafur

na llugged, canys nid oes gofid yn gymysgedig ag ef. Ond, atolwg, pa chwedlau sydd gan bobl y wlad hon am dano?

**SYNHWYBOL.** Chwedlau! sieryd y bobl bethau rhyfedd am dano: dywed rhai ei fod yn awr yn rhodio mewn dillad gwynion, Dat. 3. 4; fod ganddo gadwyn aur am ei wddf; fod ganddo goron o aur dilin wedi ei thryfritho & pherlau am ei ben: ereill a ddywedant fod y gwyr dysglaer a ymddanghosent iddo rai prydiau ar ei daith, yn awr yn gymdeithion iddo; a'i fod mor gyfeillgar & hwynt yno ag yw y naill gymydog a'r llall yn y wlad hon. Hefyd, sicrheir yn ddiddadl mewn perthynas iddo, fod Brenin y man lle y mae wedi rhoddi iddo eisoes breswylfa odidog a hyfryd yn y llys, a'i fod bob dydd yn bwyta ac yn yfed, yn rhodio ac yn ymddyddan, gydag ef; a'i fod yn mwynhau gwenau a ffafri yr hwn sydd Farnydd pawb yno, Zech. 3. 7; Luc 14. 14, 15. Hefyd, y mae rhai yn dysgwyl y daw ei Dywysog ef, Arglwydd y wlad hōno, i'r parthau hyn cyn hir, ac y mynwyd pa reswm, os gallant roi un, oedd gan ei gymydogion i'w fychanu a'i watwar, fel y gwnaethant, pan wybuant ei fod ar fyned yn bererin, Judas 14, 15.

Canys dywedant ei fod yn awr mor hoff gan ei Dywysog, a bod ei Benadur mor llidiog oherwydd yr an-mharch a gafodd Cristion pan aeth yn bererin, fel yr edrych ar y cwbl fel pe y'i gwnaethid iddo ef ei hun, Luc 10. 16; ac nid rhyfedd, canys cariad at ei Dywysog yn unig a barodd iddo anturio yn y modd y gwnaeth.

Nid oes amheuaeth, ebe finau, a da genyf hyny; llon genyf er mwyn y gwr truan, am ei fod yn awr yn gor-phwys oddiwrth ei lafur, ac yn medi ffrwyth ei ddagrau mewn gorsoledd; ac am ei fod wedi myned tuhwnt i ergydion ei elynion, ac allan o gyrrhaedd y rhai a'i casant, Dat. 14. 13; Psal. 126. 5, 6. Mae yn llawen genyf hefyd am fod son am y pethau hyn trwy y wlad hon; pwya ddichon ddywedyd na weithia ryw effaith dda ar y rhai a adawodd ar ol? Ond, atolwg, syr, tra y mae ar fy meddwl, a fyddi di yn clywed dim am ei wraig a'i blant?

Drueiniaid anwyl! yr wyf yn synfyfrio beth y maent hwy yn ei wneuthur.

**SYNHWYBOL.** Pwy? Cristiana a'i meibion? Y maent yn debyg o wneud cystal a Christion ei hun; canys er iddynt oll ymddwyn yn ffol ar y cyntaf, ac na fynent er dim gymeryd eu perswadio trwy ei ddagrau na'i ymbiliau ef, eto gweithiodd ailfeddyliau yn rhyfeddol ynddynt; ac felly, wedi taclu eu heiddo, aethant ar ei ol ef.

Gwell, a gwell fyth, ebe finau: ond pa beth! y wraig, a'r plant, a'r cwbl?

**SYNHWYBOL.** Digon gwir: medraf roddi i ti yr holl hanes, canys yr oeddwn yn y man ar y pryd, ac yn llwyr gydnabyddus â'r holl achos.

Tybygid felly, ebe finau, y gall dyn ei adrodd fel gwirionedd.

**SYNHWYBOL.** Nid rhaid i ti ofni ei sicrhau: fy meddwl yw en bod oll wedi myned ar bererindod, y wraig dda a'i phedwar mab. A chan ein bod, fel y tybiwyf, yn myned gryn ffordd gyda'n gilydd, rhoddaf i ti hanes yr holl amgylchiad.

Y Gristiana hon (canys felly y gelwid hi er y dydd yr ymroddodd hi a'i phlant i fyw fel pererinion), wedi i'w phriod fyned tros yr afon, ac na's gallai hithau glywed gair am dano yn mhellach, a ddechreuodd feithrin meddyliau ymgynhyrfus o'i mewn. Yn gyntaf, am iddi golli ei phriod, a thrwy hyny fod cwlwm cariadus y berthynas fu rhyngddynt wedi ei dori am byth. Canys gwyddost, eb efe wrthyf, na's gall natur lai na llenwi y byw â llawer meddwl pruddaidd wrth adgoфio y golled am berthynasau hoff. Y golled hon am ei phriod a gostiodd iddi hi lawer deigrynn hallt. Ond nid hyn oedd y cwbl; canys dechreuodd Cristiana ystyried, ai nid ei hymddygiad anweddaiid hi at ei phriod oedd un achos na's gwelai hi ef mwyach, ac iddo gael ei gymeryd oddiwrthi yn y cyfryw fodd. Ac ar hyn daeth yn heidiau i'w meddwl ei holl ymddygiadau anngharedig, annaturiol, ac annuwiol tuag at ei hanwyl gysfaill; hyn a lyffetheiriodd ei chydwybod, ac a'i llwythodd ag euogrwydd. Trallodid hi yn





CRISTIANA A'I PHLANT.

fawr hefyd pan adgofiai ocheneidiau dibaid, dagrau heilltio, a dygu-riddfanau ei gwr; a'r modd y caledai hithau ei chalon yn erbyn ei holl ymbiliau a'i annogaethau cardig iddi hi a'i meibion ddyfod gydag ef; ie, nid oedd dim a'r a ddywedai Cristion wrthi, nac a wnaeth ger ei bron, yn ystod yr amser yr oedd ei faich yn nghrog ar ei ysgwyddau, na ddymchwelai arni fel mellten, a rhwygai orchudd ei chalon yn ddwy; yn enwedig, yr oedd ei lef chwerw, "Beth a wnaef fel y byddwyf cadwedig?" yn swnio yn ei chlustiau mewn modd alaethus iawn.

Yna, ebai hi wrth ei phlant, Fy meibion, darfu am danom oll. Pechais eich tad i ffordd, ac y mae wedi myned: mynasai ein cael ninau gydag ef, ond nid awn fy hun: hefyd, rhwystrais chwithau i gaffael bywyd. Ar hyn syrthiai y bechgyn oll i wylo yn chwerw, a llefasant am gael myned ar ol eu tad. Oh (ebe Cristiana) na buasai ein rhan ni i fyned gydag ef! yna buasem yn ymdaro yn llawer gwell nag yr ydym yn debyg o wneud yn awr. Er i mi ffol-dybied gynt, mai oddiwrth rhyw fympwy gwag oedd yn ei ben yr oedd blinderau eich tad yn tarddu, neu fod rhyw brudd-der meddwl wedi ei feddiannu; wele yn awr nis gallaf lai na meddwl nad oddynt oll yn deillio oddiwrth achos arall, sef, am fod goleuni y bywyd wedi ei roddi iddo, Iago 1. 23—25; Ioan 8. 12, trwy gynorthwy hwn, deallwyf, y dihangodd efe rhag maglau angau, Diar. 14. 27. Yna wylasant oll drachefn, gan ddolefain, Och o'r diwrnod!

Y noswaith nesaf breuddwydiodd Cristiana freuddwyd; ac, wele, canfu fel pe buasai femrwn llydan wedi ei agor o'i blaen, yn yr hwn yr oedd cyfanswm ei ffyrdd wedi eu cofnodi; a'r troseddau, fel y tybiai, a edrychent yn llidiog iawn arni. Yna llefai yn groch yn ei chwsg, "Arglydd, bydd drugarog wrthyf, bechadur!" Luc 18. 13, a'r plant bychain a'i clywsant.

Gwedi hyny tybiai weled dau o rai drwg iawn yr olwg yn sefyll wrth ochr ei gwely, ac yn dywedyd, Beth a wnawn i'r wraig hon? canys y mae yn llefain am drugaredd yn nghwsg ac yn effro: os goddefir iddi fyned yn mlaen fel y dechreuodd, collwn hi fel y collasom ei gwr.

Gan hyny, rhaid i ni geisio ei denu, ryw fodd neu gilydd, oddiwrth y meddyliau am yr hyn a fydd rhagllaw, onide nid all yr holl fydd ei hatal rhag myned yn bererin.

Yna defrodd mewn chwys a dychryn mawr; ond yn mhen enyd cysgodd drachefn. Ac yna tybiai ei bod yn gweled Cristion ei gwr mewn lle o wynsyd yn nghanol lluaws o anfarwolion, â thelyn yn ei law, yn sefyll ac yn chwareu arni ger bron Un a eisteddai ar orseddfainc ag ensys o amgylch ei ben. Gwelai hefyd ei fod megys yn ymgrymu â'i wyneb at y palmant oedd dan draed ei Dywysog, ac yn dywedyd, "Diolchaf yn galonog i ti, fy Arglwydd a'm Brenin, am ddwlyn o honot fi i'r lle hwn." Yna bloeddiai tyrfa o'r rhai a safent yn ei ymyl, a chwareuent ar eu telynau; ond nis gallai un dyn byw adrodd yr hyn a ddywedent ond Cristion a'i gyfeillion.

Y bore nesaf, pan oedd wedi codi, a gweddio ar Dduw, ac ymddyddan ychydig â'r plant, curai rhywun yn chwyrn wrth y drws; wrth ba un y dywedai fel hyn, "Os deui yn enw yr Arglwydd, tyred i mewn." Dywedai yntau, "Amen," ac agorodd y drws, ac a'i cyfarhodd, gan ddywedyd, "Tangnefedd i'r ty hwn." Ac wedi hyny efe a ddywedodd, "Cristiana, a wyddost ti am ba achos y daethum?" Yna gwridodd a brawychodd, a gwresogwyd ei chalon o awydd cael gwybod o ba le y daethai, a pha beth oedd ei neges gyda hi. Felly dywedodd wrthi, "Fy enw yw Dirgelwch; yr wyf yn preswylio gyda'r rhai sydd yn yr uchelder. Mae y gair yn fynglad dy fod dithau yn chwennych dyfod yno; a dywedir hefyd dy fod yn ystyried y cam a wnaethost gynt yn erbyn dy wr, trwy galedu dy galon yn erbyn ei ffyrdd, a chadw dy rai bychain hyn mewn anwybodaeth. Cristiana, yr Un Trugarog a'm hanfonodd i fynegu i ti mai Duw parod i faddeu yw efe, a'i fod yn hoffi arbed yn helael. Ewyllysia hefyd i ti wybod ei fod yn dy wahodd i'w wyddfod, at ei fwrrdd, ac y portha efe di â brasder ei dy, ac ag etifeddiaeth Jacob dy dad.

"Yno mae Cristion, dy briod gynt, a lluoedd ereill o'i gymdeithion, dros byth yn canfod y gwynebpryd sydd yn gweini bywyd i'r edrychwyr; a hwy a lawenychant oll

pan glywant drwst dy draed yn dyfod dros riniog ty dy dad."

Wrth hyn cywilyddiai Cristiana yn ddirfawr ynddi ei hun, a chrymai ei phen tua'r llawr. Ac yna yr ymwelwr hwn a chwanegai, "Cristiana, dyma lythyr i ti, a ddygais oddiwrth Frenin dy wr." Yna hithau a'i cymerodd, ac a'i hagorodd; ond yr oedd y sawyr arno fel y perarogl goreu, Can. 1. 3. Hefyd ysgrifenwyd ef mewn llythyr-enau o aur. Cynhwysiad y llythyr oedd fel hyn:—Y mynai y Brenin iddi wneuthur fel y gwnaeth Cristion ei gwr; am mai hòno oedd y ffordd i'w Ddinas ef, ac i breswylio yn ei wydd yn dragywydd. Ar hyn yr oedd y wraig dda wedi ei llwyr orchfygu; felly llefodd ar ei hymwelwr, gan ddywedyd, A ddygi di fi a'm plant gyda thi, fel yr elom ninau hefyd ac yr addolom y Brenin?

Yna ebai yr ymwelwr, "Cristiana, y mae'r chwerw yn myned o flaen y melus. Rhaid i tithau fyned trwy drallodau, fel yr hwn a aeth o'th flaen i'r Ddinas Nefol. Gan hyny, cynghorwn di i wneuthur fel y gwnaeth Cristion dy wr: dos at y porth cyfyng acw dros y gwas-taddedd, canys y mae yn sefyll yn mhen y ffordd sydd raid i ti ei theithio: a rhwydd hynt i ti. Cynghorwn di hefyd i roddi y llythyr hwn yn dy fynwes, fel y gallech ddarllen ynddo i ti dy hun ac i'th blant, hyd nes y dysgech ef allan; canys un o'r caniadau yw sydd raid i ti eu canu yma yn nhŷ dy bererindod, Psal. 119. 54; hefyd rhaid i ti roddi hwn i fynu yn y porth pellaf."

Yna gwelwn yn fy mreuddwyd, fod yr hen wr bon-heddig, wrth adrodd y chwedl, yn ymddangos fel ped effeithiai yn ddwys arno ei hun. Aeth rhagddo, er hyny, a dywedodd, Felly galwodd Cristiana ei meibion yn nghyd, a dechreuodd eu cyfarch fel hyn:—"Fy mhlant, bu'm yn ddiweddar, fel y gallech weled, yn drallodedig iawn fy ysbryd yn nghylch marwolaeth eich tad: nid am fy mod mewn dim amheuaeth am ei ddedwyddwch; canys mae hyny yn ddiogel genyf ei fod ef yn awr yn dda arno. Yr wyf hefyd wedi teimlo yn ddwys yn nghylch fy nghyflwr fy hun a'r eiddo chwithau, yr hwn, credwyf yn ddilys, sydd druenus iawn wrth natur. Fy ymddygiad hefyd at

eich tad yn ei adsyd sydd faich trwm ar fy nghydw canys caledais fy nghanol fy hun a'ch calonau chi yn ei erbyn, a gwrthodais fyned gydag ef ar bererix

“ Buasai y meddyliau hyn wedi fy llwyr ddyfet awr oni buasai fy mreuddwyd neithiwyd, a'r annog gefais gan y gwr dyeithr yma y boreu heddyw. De fy mhlant, ymbarotown i fyned tua'r porth sy arwain i'r wlad nefol, fel y caffom weled eich tad, gydag ef a'i gymdeithion mewn heddwch, yn ol cy iau y wlad honno.”

Yna y plant a dorasant allan i wylo o lawenydd a calon eu mam yn cael ei thuoddu felly. Gyda hy ymwelwr a ganai yn iach iddynt; a hwythau a dde ent ymdaolu i gychwyn i'w taith.

Ond tra yr oeddynt fel hyn yn ymbarotoi i gyc daeth dwy wraig, y rhai oeddynt gymydogesau i Cri ac a gurasant wrth ei drws. Wrth y rhai hyn dyw fel o'r blaen, Os deuwch yn enw yr Arglwydd, dei mewn. Synodd y gwragedd yn aruthr wrth hyn; ni chlywsant ac ni ddeallasant fod y fath iaith a h arfer dyfod o enau Cristiana erioed o'r blaen. Er aethant i mewn; ond, wele, cawsant y wraig d parotoi i adael ei thy.

Felly dechreuanant ymholi, gan ddywedyd, Gymy atolwg, beth yw dy fwriad yn hyn?

Cristiana a'u hatebodd, gan ddywedyd wrth yr honynt, enw yr hon oedd Mrs. Ofnus, Yr wyf y barotoi i daith.

Yr Ofnus hon oedd ferch i'r hwn a gyfarfu â Char Fryn Anhawsdra, ac a fynai iddo droi yn ol rh y llewod.

OFNUS. I ba daith, atolwg?

CRISTIANA. I fyned ar ol fy ngwr da. Ar hyn allan i wylo.

OFNUS. Gobeithio nad e, fy nghymydoges anw mwyn dy blant, na thafl dy hun ymaith mewn mor annheilwng o wraig.

CRISTIANA. Na, fy mhlant a gant fyned gyda m oes un o honynt yn fodlon i aros ar ol.

**OFNUS.** Yr wyf yn synu yn fy nghalon, pwy neu pa  
beth a'th ddygodd i'r bwriad hwn!

**CRISTIANA.** O gymydoges! pe gwyddit gymaint ag a  
wn i, nid amheuwyl na ddeuet tithau gyda mi.

**OFNUS.** Atolwg, pa wybodaeth newydd a gefaist i droi  
dy feddyliau ymaith oddiwrth dy gyfeillion, ac i'th hudo  
i fyned na's gwyr neb i ba le?

**CRISTIANA.** Yna Cristiana a atebodd, Cystuddiwyd fi  
yn drwm er y pryd yr ymadawodd fy ngwr, yn enwedig  
er pan aeth dros yr afon. Ond yr hyn sydd yn blino  
mwyaf arnaf yw fy ymddygiad annhirion ato yn ei gyf-  
yngder. Heblaw hyny, yr wyf finau yn awr fel yr oedd  
yntau y pryd hwnnw, nid oes dim a wna y tro i mi ond  
myned ar bererindod. Breuddwydaias neithiwyr fy mod  
yn ei weled ef. Oh na b'ai fy enaid gydag ef! Y mae  
efe yn preswylio yn mhresenoldeb Brenin y wlad; y mae  
yn eistedd ac yn bwyta gydag ef wrth ei fwrdd; y mae  
yn gydymaith i anfarwolion, ac y mae ganddo dy i  
breswylio ynddo yn awr, yr hwn, pe cystedlid y palas  
goreu ar wyneb y ddaear âg ef, nid ymddanghosai i mi  
ond megys tomen, 2 Cor. 5.1—4. Y mae Tywysog y  
wlad hefyd wedi anfon am danaf, gydag addewidion o  
dderbyniad os deuaf ato; yr oedd ei genad gyda mi funud  
yn ol, a dygodd lythyr i mi yn fy ngwahodd i ddyfod. A  
chyda hyn tynodd y llythyr allan, darllenodd ef, a dy-  
wedodd wrthynt, Beth a ddywedwch chwi wrth hyn yn  
awr?

**OFNUS.** Oh, y gwallgorwydd a'th feddiannodd di a dy  
wr i anturio ar y fath anhawsderau! Clywaist, mae yn  
ddiau genyf, am yr hyn a gyfarfu â'th wr yn mron ar y  
cam cyntaf o'r ffordd, fel y gall ein cymydog Cyndyn  
dystio hyd heddyw, canys aeth gydag ef; ie, a Meddal  
hefyd, nes iddynt hwy, fel dynion synhwyrol, ofni myned  
yn mhellach. Clywsom hefyd, fwy na digon, am y modd  
y cyfarfu â'r llewod, Apolygon, Cysgod Angau, a llawer o  
bethau ereill. Ac ni ddylit ychwaith anghofio y perygl-  
on a gwrddodd â hwyt yn Ffair Gwagedd. Canys, os  
bu mor galed arno ef, ac efe yn ddyn, pa fodd yr ym-  
darewi di, gwreigan wan? Ystyria hefyd mai dy gnawd

a'th esgyrn ydynt y pedwar plentyn serchog hyn. Am hyny, os byddi mor rysygus a'th dafiu dy hun ymaith, eto, er mwyn ffiwyth dy fru, aros gartref.

Ond Cristiana a ddywedodd wrthi, Na themtia fi, fy nghymydoges ; canys y mae gwerth wedi ei roddi yn fy nwylaw i elwa ag es, a byddwn ynfyd o'r fath waethaf os na fyddai genyf galon i ddefnyddio y cyfleusdra. Ac am yr hyn a ddywedi wrthyf am y trallodion yr wyf yn debyg o gyfarfod â hwy yn y ffordd, y maent mor bell oddiwrth fod yn ddigalondid i mi, fel ag y maent yn arwydd i mi fy mod ar yr iawn. Rhaid i'r chwerw fyned o flaen y melus, a hyny hefyd a wna y melus yn felusach. Am hyny, gan na ddaethoch i'm ty yn enw yr Arglwydd, erfyniaf arnoch fyned allan yn ddioed, ac na afonyddwch fi mwy.

Yna Ofnus a'i gwawdiai, ac a ddywedai wrth ei chyfelles, Tyred, gymydoges Trugaredd, gadawn hi i'w dwylaw ei hun, gan ei bod yn diystyru ein cyngor a'n cyfeillach. Ond Trugaredd a safai yn syn, ac nis gallai gydsynio yn rhwydd a'i chymydoges ; a hyny oherwydd dau reswm :—1. Ei hymysgaroedd oedd yn cyffroi o achos Cristiana. Felly dywedai ynddi ei hun, Os penderyna fy nghymydoges fyned, âf gyda hi ychydig o'r ffordd, a chynorthwyaf hi. 2. Ei hymysgaroedd a gyffrodd o achos ei henaid ei hun ; canys yr oedd yr hyn a ddywedasai Cristiana wedi gafael yn ei meddwl. Am hyny dywedodd ynddi ei hun drachefn, Mynaf ychwaneg o siarad â'r Gristiana hon ; ac os caf fod gwirionedd a bywyd yn yr hyn a ddywed, âf gyda hi â'm holl galon. A Thrugaredd, am hyny, a atebai ei chymydoges Ofnus fel hyn :—

**TRUGAREDD.** Fy nghymydoges, daethum, yn wir, gyda thi y boreu hwn i ymweled â Cristiana ; a chan ei bod, fel y gweli, ar ganu yn iach i'w gwlad, yr wyf yn meddwl myned gyda hi ychydig y boreu heulog hwn, i'w chynorthwyo ar ei ffordd. Ond ni soniodd air am ei hail reswm ; eithr cadwedd hwnnw iddi ei hun.

**OFNUS.** Wel, gwelaf dithau yn gogwyddo i fod yn ffolog ; ond arafa mewn pryd, a bydd synhwyrol : tra

byddom allan o berygl, yr ydym allan; ond pan elom iddo, yr ydym yn ei ganol.

Felly dychwelodd Mrs. Ofnus i'w thy, a chychwynnodd Cristiana i'w thaith. Ond wedi dyfod Ofnus i'w thy, anfonodd am rai o'i chymydogesau, sef, Ystlum-lygaid, Mrs. Anystyriol, Mrs. Ysgafn-feddwl, a Mrs. Gwybod-dim. Felly wedi iddynt dyfod i'w thy, dechreuodd adrodd ei chwedl yn nghylch Cristiana, a'r daith oedd ganddi mewn golwg. Ac fel hyn y dechreuodd ei chwedl :—

**OFNUS.** Fy nghymydogesau, gan nad oedd genyf y boreu heddyw ond ychydig o waith, aethum i ymweled â Cristiana ; a phan ddaethum at y drws, curais, fel y gwyddoch y mae ein harfer : a hithau a atebodd, Os deui yn enw yr Arglwydd, tyred i mewn. Felly aethum i mewn, gan feddwl fod pob peth yn dda ; ond, wedi myned i mewn, gwelwn hi yn ymbarotoi i ymadael â'r dref, hi a'i phlant hefyd. Felly gofynais beth oedd ei meddwl wrth hyny. Hithau a atebodd, ar fyr eiriau, ei bod ar feddwl myned ar bererindod, fel yr aethai ei gwr. Adroddodd i mi ryw freuddwyd a gawsai hefyd, ac fel yr anfonesid ati gan Frenin y wlad lle yr oedd ei gwr, i'w gwahodd i ddyfod yno.

Yna, ebe Mrs. Gwybod-dim, Beth ! a ydwyt yn meddwl yr aiff hi ?

**OFNUS.** O aiff, deued a ddelo o honi ; a thybygwn fy mod yn gwybod hyny oddiwrth hyn ; canys yr hyn oedd gyda mi y rheswm cryfaf i'w chymhell i aros gartref (sef y blinderau a gyfarfyddai ar y ffordd), oedd un rheswm mawr ganddi hithau i'w chymhell yn mlaen yn ei thaith. Canys dywedodd wrthyf mewn cynifer o eiriau, Mae y chwerw yn myned o flaen y melus : ie, a chan ei fod felly, y mae yn gwneuthur y melus yn felusach.

**Mrs. YSTLUM-LYGAID.** Oh, y wraig ddall ac ynfyd ! ebe hi ; ac oni chymer hi rybudd oddiwrth flinderau ei gwr ? o'm rhan i, yr wyf yn gweled, pe gallai ddyfod yma eto, y boddlonai i orphwys mewn croen cyfan, ac nad anturiai byth i'r fath beryglon am ddim.

Mrs. Anystyriol hefyd a atebodd, gan ddywedyd,

Ymaith â'r fath ynfydion penchwiban o'r dref! gwared da o honi, o'm rhan i, meddaf! Ped arhosai lle y mae, a pharhau i ddal y meddwl sydd ganddi, pwy allai fyw yn dawel yn agos ati? canys byddai naill ai yn surlyd, yn anng hymydogol, neu yn baldorddi pethau nad allai neb yn ei synwyr eu goddef. Am hyny, o'm rhan i, ni bydd byth yn ddrwg genyf ei hymadawiad; aed, a deued ei gwell yn ei lle: ni bu erioed yn fyd da er pan ddaeth yr ynfydion penysgeifn hyn yma i breswylio.

Yna Mrs. Ysgafn-feddwl a chwanegodd fel y canlyn:— Deuwch, rhoddwch y fath siarad a hwn heibio. Yr oeddwn i ddoe yn nhŷ Mrs. Trythyll, lle yr oeddym mor llon a'r morwynion. A phwy dybygech chwi oedd yno ond myfi, Mrs. Caru-y-cnawd, a thair neu bedair yn ychwaneg, yn nghyda Mr. Anlladrwydd, Mrs. Fudr, ac ereill: a chawsom yno gerddoriaeth a dawns, a phob peth arall cymhwys i wneud ein digrifwch yn gyflawn. A diamau genyf fod y foneddiges ei hun o ddygiad da i fynu, a bod Mr. Anlladrwydd crystal cymhar a hithau.

Erbyn hyn yr oedd Cristiana wedi cychwyn ar ei ffordd, a Thrugaredd gyda hi: ac fel yr oeddynt yn myned, a'r plant gyda hwy, dechreuodd Cristiana ymddyddan:—Trugaredd, ebe Cristiana, yr wyf yn cymeryd hyn yn garedigrwydd heb ei ddysgwyl, dy fod yn dyfod allan o'th dy i gydrodio â mi ychydig o'r ffordd.

**TRUGAREDD.** Yna ebe Trugaredd ieuanc (canys nid oedd hi ond ieuanc iawn), Pe gwyddwn y byddai o fudd i mi ddyfod gyda thi, nid awn yn agos i'r dref byth ond hyny.

**CRISTIANA.** Wel, Trugaredd, ebe Cristiana, bwrw dy goelbren gyda mi: gwn yn dda beth fydd diwedd ein pererindod. Mae fy ngwr mewn lle na fynai lai na bod er holl aur mwngloddiau Hispaen. Ac a wrthodir di-thau, er i ti ddyfod ar fy ngwahoddiad i yn unig. Y mae y Brenin, yr hwn a anfonodd am danaf fi a'm plant, yn un sydd hoff ganddo drugaredd. Heblaw hyny, cyflogaf di, os myni, a chai ddyfod gyda mi fel morwyn. Eto caiff pob peth fod yn gyffredin rhyngom: yn unig tyred **gyda mi.**

TRUGAREDD. Ond pa foddy y caf sicrwydd y derbynir finau? I'w cawn i y gobaith hwn gan ryw un a wyddai, ni phetruswn am funudyn, ond awn rhagof, trwy nerth yr Hwn a all fy nghynorthwyo, bydded y ffordd mor flin ag y byddo.

CRISTION. Wel, Trugaredd anwyl, dywedaf wrthyt beth a wnai; tyred gyda mi at y Porth Cyfyng, ac ymholaf yno yn mhellach drosot; ac oni chai gefnogaeth yno, boddlonaf i ti ddychwelyd i'th le; talaf hefyd am y caredigrwydd a ddanghosais i mi a'm plant trwy ddyfod gyda ni yn ein ffordd fel y gwnaethost.

TRUGAREDD. Yna âf yno, deued arnaf fel y delo; a rhodded yr Arglwydd i'm coelbren ddisgyn yno, fel y gosodo Brenin y nef ei galon arnaf.

Yr oedd Cristiana ar hyn yn llawen yn ei chalon: nid yn unig am gael o honi gydymaith; ond hefyd am ennill o honi y forwynig hon druan i syrthio mewn cariad a'i hiachawdwriaeth ei hun. Felly aethant yn ughyd, a Thrugaredd a ddechreuodd wylo. Yna gofynai Cristiana, Paham yr wyli, fy chwaer?

TRUGAREDD. Och! meddai hithau, pwyl na alarai, a iawn ystyriai gyflwr fy mherthynasau druain ag ydynt eto yn aros yn ein tref bechadurus? A'r hyn sydd yn trymhau fy ngofid yw, nad oes ganddynt neb i'w dysgu, nac i fynegu iddynt yr hyn sydd i ddyfod.

CRISTIANA. Mae tosturi yn gweddud i bererinion; a thi a wnei dros dy gyfeillion yr un modd ag y gwnaeth Cristion da drosof finau pan y'm gadawodd; galari am nad ystyriwn, nac y gwnawn sylw o hono; ond ei Arglwydd ef a minau a gasglodd ei ddagrau, ac a'u dododd yn ei gostrel; ac yn awr yr wyf fi a thithau, a'm rhai bychain hyn, yn medi y ffrwyth a'r budd o honyn. Yr wyf yn gobeithio, Trugaredd, na chollir y dagrâu hyn o'th eiddo dithau; canys dywed y gwirionedd, am y rhai sydd yn hau mewn dagrâu, y cant sedi mewn gorfoledd. A'r "hwn sydd yn myned rhagddo ac yn wylo, gan ddwyn had gwerthfawr, gan ddyfod a ddaw mewn gerfoledd, dan gludo ei ysgubau," l'sal. 126. 5, 6

Yna ebe Trugaredd,—

There is a movement to make  
the public service more  
efficient and to reduce  
the cost of government.  
It is intended to do this  
by eliminating unnecessary  
and inefficient departments  
and by reducing the number  
of public employees.  
The movement is being  
led by a group of business  
men and politicians who  
believe that the public  
service can be improved.

La nwyd hi ar ôl i Cristiana syrlio i mewn, a hynny  
nol iawn i'r iaith na dwy. A chan gynted až y cyrhaedd  
asant drosedd, tybiasant eu bod yn clywed llais yr  
dynwelyd wrth ymddynt, "Bendigedig yw yr hon a gredodd  
rannys hedd cyflawniad o'r pethau a ddywedwyd wrth  
yngi Arglwydd," Lue 1. 45.

Ynghyd â'r ymddyngedig yma'n yd ymddewid i'r gystadlu a'r golygfeydd. Ynghyd â'r ymddyngedig yma'n yd ymddewid i'r gystadlu a'r golygfeydd.

Wel, ebe'r llall, yr wyt-ti yn gwybod dy ddolur dy hun, a minau yr eiddof inau; ond cawn oll, gyfeilles anwyl, ddigon o flinder cyn y delom i ben ein taith. Canys a ellir dychymygu am bobl sydd a'u bryd ar gyrhaedd y fath ogoniant rhagorol a ni, ac y cefnigenir cymaint wrthynt am y dedwyddwch hwnnw, na chysfyddwn â'r fath ofnau a maglau, y fath drallodau a chystuddiau, ag a ddichon ein caseion osod arnom?

Ac yn awr, Mr. Synhwyrol a'm gadawodd i freuddwydio fy mreuddwyd allan fy hun. Ac yna tybiwn weled Cristiana a Thrugaredd, a'r bechgyn oll, yn myned i synu at y porth: ac wedi cyrhaedd yno, dechreuasant ymresymu ychydig, pa fodd y trefnent eu hachos wrth y porth, a pha beth a ddywedent wrth yr hwn a agorai iddynt: cytunwyd o'r diwedd, gan mai Cristiana oedd yr hynaf, mai hi oedd i guro am dderbyniad, ac y byddai raid iddi hi lefaru drostynt oll wrth yr hwn a agorai. Felly dechreuodd Cristiana guro, ac, fel y gwnaethai ei gwr druan o'i blaen, curai a churai drachefn. Ond yn lle bod neb yn ateb, tybiasant oll glywed megys ci yn dyfod gan gyfarth tuag atynt;—ci, a hwnnw yn un mawr: hyn a barodd i'r gwragedd a'r plant frawychu. Dros enyd ni feiddient guro dim ychwaneg, rhag ofn i'r gwaedgi neidio arnynt. Yr oedd eu meddyliau bellach yn gyffrous iawn, ac ni wyddent beth i'w wneuthur; euro ni feiddient, rhag ofn y ci; a myned yn ol ni feiddient ychwaith, rhag ofn i'r porthor eu gweled, a digio wrthynt; ond o'r diwedd penderfynasant guro drachefn, a churo yn drymach nag ar y cyntaf hefyd. Yna gofynai y porthor, Pwy sydd yna? Ac yn y man peidiodd y ci a chyfarth, ac yntau a agorodd iddynt.

Cristiana ar hyn a blygodd ei phen, ac a ddywedodd, Na ddigied ein Harglwydd wrth ei law-forwynion, am i ni guro wrth ei borth breiniol. Yna ebe y porthor, O ba le y daethoch? a pha beth a synwch ei gael?

Cristiana a atebodd, Daethom o'r lle y daeth Cristion o'r blaen, ac ar yr un neges ag yntau; sef, os rhynghodd i ti ein derbyn yn rhadlawn trwy y porth hwn i'r ffordd sydd yn arwain i'r Ddinas Nefol. Yr wyf yn ateb,

sy Arglwydd, yn y lle nesaf, mai Cristiana ydwyt, gynt yn wraig i Cristion, yr hwn sydd bellach wedi esgyn uchod.

Ar hyn y porthor a synodd, ac a ddywedodd, Beth! a ddaeth hi yn awr yn bererin, yr hon gynt a ffieiddiai y bywyd hwnnw? Yna plygodd ei phen, a dywedodd, Do; ac felly y daeth fy mhlant bychain hyn hefyd.

Yna cymert hi erbyn ei llaw, ac a'i harweiniodd hi i mewn, ac a ddywedodd, "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi;" a chyda hynny cauodd y porth. Gwedi hyn galwodd ar udganwr, ag ydoedd uwchlau y porth, i groesawu Cristiana â bloedd, ac â llais udgorn, o lawenydd. Yntau a ufuddhaodd, a udganodd, ac a lanwodd yr awyr â'i berseiniau.

Yr holl amser hwn yr oedd Trugaredd druan yn sefyll oddiallan, yn crynu ac yn wylo, rhag ofn y gwrthodid hi. Ond pan gafodd Cristiana dderbyniad iddi ei hun a'i phlant, dechreuodd eiriol dros Trugaredd.

**CRISTIANA.** A dywedodd, Fy Arglwydd, y mae genyf gyfeilles yn sefyll eto oddiallan, yr hon a ddaeth yma ar yr un neges a minau: un sydd mewn trallod mawr yn ei meddwl, am iddi ddyfod, fel y tybia hi, heb ei galw: tra y gwahoddwyd fi gan Frenin sy ngwr.

Yn awr dechreuodd Trugaredd syned yn dra anamyneddgar, ac ymddanghosai pob munud cyhyd ag awr; ac am hynny rhwystrodd i Gristiana eiriol drosti yn mhellach trwy guro wrth y porth ei hun. A churodd y pryd hwnnw mor uchel nes cyffroi Cristiana. Yna ebe y porthor, Pwy sydd yna? A Christiana a atebodd, Fy nghyfeilles ydyw.

Felly efe a agorodd y porth, ac a edrychodd atlan; ond Trugaredd a syrthiasai i lawr mewn llewyg, canys yr oedd wedi ofni nad agorid y porth iddi.

Yna cymeroedd hi erbyn ei llaw, a dywedodd, "Yllances, yr wyf yn dyweddyd wrthyd, Cysod."

O syr, ebe l'hithau, yr wyf yn llesg iawn: o'r braidd y mae hywyd wedi ei adael ynof. Ond efe a atebodd, Dywedodd un unwaith, "Pan lewygodd fy enaid ynof, cofais yr Arglwydd; a'm gweddi a ddacth i mewn atat.

i'th deml santaidd," Jonah 2. 7. Nac ofna, saf ar dy draed, a dywed o ba herwydd y daethost.

**TRUGAREDD.** Daethum am yr hyn na's cefais erioed fyngwahodd i'w dderbyn, megys y cafodd fy nghyfeilles Cristiana. Ei gwahoddiad hi oedd oddiwrth y Brenin, ond yr eiddof fi nid oedd ond oddiwrthi hi. Am hyny yr wyf yn ofni fy mod yn rhyfgyu.

**PORTHOR.** A geisiodd hi genyt ti ddyfod gyda hi yma?

**TRUGAREDD.** Do; ac, fel y gwel fy Arglwydd, mi a ddaethum. Ac os oes gras a maddeuant pechodau yn ngweddlill, erfyniwf ar fod i'th law-forwyn wael gael cyfranogi o'r cyfryw.

Yna y cymerth hi drachefn erbyn ei llaw, ac a'i dygodd yn dyner i mewn, ac a ddywedodd, Yr wyf fi yr gweddio dros bawb sydd yn credu ynof fi, trwy ba fodion bynag y deuant ataf. Yna gorchymynai i'r rhai oedd yn sefyll gerllaw, Cychwch rywbeth i Drugaredd i'w arogl, er atal ei llewygfeydd. Felly cyrchasant iddi swp o fyrrh, ac yn mhen enyd adfywiodd.

Ac yn awr yr oedd Cristiana, ei meibion, a Thrugaredd, wedi eu derbyn gan yr Arglwydd, yn mhen y ffordd, ac efe a ymddyddanodd â hwynt yn dirion iawn. Yna dywedasant wrtho drachefn, Y mae yn ofidus genym oblegyd ein pechodau, ac erfyniwn am faddeuant gan ein Harglwydd, ac hyfforddiad pellach pa beth sydd raid i ni ei wneuthur.

Yr wyf yn caniatau i chwi faddeuant, ebe yntau, trwy air a gweithred; trwy air, yn yr addewid o faddeuant; trwy weithred, yn y ffodd yr ennillais ef. Cymerwch y cyntaf o'm gwefusau gyda chusan, a'r olaf megys y dad-guddir ef, Can. 1. 2; Ioan 20. 20.

Yn awr gwelwn yn fy mreuddwyd ei fod yn llesaru llawer o eiriau daionus wrthynt, y rhai a'u llonent yn fawr. Efe a'u dygodd hwynt hefyd i ben y porth, ac a ddanghosodd iddynt trwy ba weithred yr achubid hwynt; ac a ddywedodd wrthynt y caent yr olygfa honno drachefn yn eu ffodd, er eu cysur.

Felly efe a'u gadawodd hwynt dros enyd mewn hasdy islaw, lle y dechreuasant ymddyddan a'u gilydd; ac ehe-

## 202 YMDDYDDAN RHWNG Y CRISTIONOGION.

Cristiana, Mor dda genyf i ni gael ein derbyn i mewn yma!

TRUGAREDD. Felly y gelli; ond y mae i mi, yn anad neb, achos i neidio o lawenydd.

CRISTIANA. Tybiais unwaith, pan yn sefyll wrth y porth, yn curo a neb yn ateb, fod ein holl lafur wedi myned yn ofer, yn enwedig pan oedd y gwaedgi hyll hwnw yn cysfarth arnom mor erwin.

TRUGAREDD. Ond fy ofn mwyaif i a godai oddiar weled iddo dy dderbyn di i'w ffaf, a'm gadael inau ar ol. Yn awr, tybiais, y cyflawnwyd yr hyn a ysgrifenwyd, "Dwy: [wraig] fydd yn malu mewn melin; y naill a gymerir, a'r llall a adewir," Mat. 24. 41. Cefais waith ymatal heb lefain, "Darfu am danaf!" Ofnwn guro dim ychwaneg; ond wedi edrych ar yr ysgrif uwchben y porth, ymwrolais. Meddyliais hefyd fod yn rhaid i mi guro drachefn, neu farw: felly curais, ond nis gallaf ddweyd pa fodd; canys yr oedd fy ysbyryd mewn ymdrech rhwng bywyd ac angau.

CRISTIANA. Ai ni fedri ddywedyd pa fodd y curaist? Yr wyf yn sicr fod dy ergydion mor ddwys, fel y parodd eu swn i mi gyffroi yn fawr; tybiais na chlywswn y fath guro erioed; tybiais y deuet i mewn trwy orthrech, neu y cymeret y deyrnas trwy drais, Mat. 11. 12.

TRUGAREDD. Och! pwyl, yn fy nghyflwr i, na wnaethai felly? Gwelaist y drws yn cael ei gau arnaf, a bod ci creulawn yn ymrodio oddeutu. Pwy, meddaf, mor wan-galon a myfi, na churasai â'i holl egni? Ond, atolwg, beth a ddywedodd fy Arglwydd am fy anfoesgarwch? Onid oedd yn ddig wrthyf?

CRISTIANA. Pan glywodd efe y swn mawr a wnaethost, gwenodd yn ddiniwaid ryfeddol; credwyf fod yr hyn a wnaethost yn wir foddhaol ganddo, canys ni ddanghosodd un arwydd i'r gwrthwyneb. Ond yr wyf yn rhyfeddu yn fy nghalon paham y mae yn cadw y fath gi: pe gwybu-aswn hyny o'r blaen, ni buasai genyf y galon i anturio yn y fath fodd. Ond yn awr yr ydym i mewn, yr ydym i mewn, a llawen wyf â'm holl galon.

TRUGAREDD. Gofynaf iddo y tro nesaf y delo yma, os

caniatâi i mi, paham y ceidw y fath waedgi brwnt yn ei fuarth ; gobeithiaf na chymer yn annghaledig arnaf.

Gwna felly, ebe'r plant, a pherswadia ef i'w grogi ; canys y mae arnom ofn iddo ein brathu pan fyddom yn myned ymaith.

O'r diweddu efe a ddaeth i waered atynt eilwaith, a Thrugaredd a syrthiodd i lawr ar ei gwyneb o'i flaen, ac a addolodd, gan ddywedyd, Derbyniad fy Arglwydd yr aberth moliant yr wyf yn ei offrymu yn awr iddo â lloï fyngwefusau.

Yntau a ddywedodd wrthi, Tangnafedd i ti ; saf ar dy draed. Eithr hi a barhaodd ar ei gwyneb, ac a ddywedodd, "Cyflawn wyt ti, O Arglwydd, pan ddadleuwylf â thi ; eto ymresymaf â thi am dy farnedigaethau," Jer. 12. 1. Paham y cedwi y fath gi creulawn yn dy fuarth? mae yr olwg arno yn ddigon i beri i wragedd a phlant fel nyni ffioi oddiwrth y porth rhag ofn.

Yntau a ateboedd ac a ddywedodd, Un arall a biau y ci yna ; a chedwir ef yn ddiogel ar dir un arall, ond y mae fy mhererinion yn clywed ei gyfarthiad : perthyna i'r castell a weli draw, ond gall ddyfod at furiau y lle hwn. Y mae wedi dychrynu llawer pererin o waeth i well, trwy ddirfawr swn ei udiadau. Yn wir, nid yw ei berchenog yn ei gadw o ddim ewyllys da ataf fi na'm heiddo, ond o fwriad i atal y pererinion rhag dyfod ataf, ac fel yr ofnont ddyfod a churo wrth y porth am dderbyniad. Mae weithiau wedi tori allan ac archolli rhai hoff genyf ; ond yr wyf yn cymeryd pob peth yn bresenol yn amyneddgar. Yr wyf hefyd yn rhoddi i'm pererinion gynorthwy mewn pryd, fel na rodder hwy i fynu i'w awdurdod, i wneuthur â hwynt fel y tuedda ei natur ef. Ond beth, fy mhrynedig, pe gwybuesit yn mlaenllaw byth gan gymaint, tybygwyf na fuasai arnat ofn ci ! Y cardotwyr, y rhai a ânt o ddrws i ddrws yn hytrach nag y collant yr elusen a ddysgwylant, a anturiant y perygl o chwyrniad, cyfarthiad, ie, hefyd, frathiad ci ; ac a gaiff ci, a chi ar dir un arall, cyfarthiad yr hwn a droïr genyf yn lles i bererinion, atal neb rhag dyfod ataf fi ? Achubaf hwynt rhag y llewod, a'm "hanwylyd o feddiant y ci."

**TRUGAREDD.** Yna ebe Trugaredd, *Yr wyf yn cyffesa fy anwybodaeth ; lleferais yr hyn ni ddeallais ; yr wyf yn cydnabod dy fod yn gwneuthur pob peth yn dda.*

**CRISTIANA.** Yna dechreuodd Cristiana son am ei thaith, ac ymholi am y ffordd.—Felly efe a'u porthodd hwynt, ac a olchodd eu traed, ac a'u gosododd ar ei lwybrau ei hun, yn ol fel ag y gwnaethai a'i gwr o'r blaen. *Ac felly gwelwn yn fy mreuddwyd eu bod yn myned yn mlaen yn eu ffورد, a chael yr bin yn gysurus.*

Yna Cristiana a ddechreuai ganu fel hyn :—

Bendigaid fyfth a fyddo'r diwrnod  
Yr aethum i ar bererindod,  
A bendigaid fo'r dyn hefyd  
A'm tueddodd i ffورد bywyd.

Gwn im' fod rhy hir heb gychwyn  
Ar ffورد bywyd pur, diderfyn ;  
Ond bellach rhedaf, gwnaf fy ngoreu,  
Gwell hwyr na hwyrach imi dilechreu.

Ein dagrau dröwyd yn orfoledd,  
A'n hofnau'n ffydd, drwy fawr drugaredd ;  
A dechreuaad mor ragorol  
Ddengys diwedd bywyd duwiol.

Ar yr ochr arall i'r mur, à ffiniai y ffورد yr elai Cristiana a'i chymdeithion ar hyd-ddi, yr oedd gardd yn perthyn i berchenog y ci a gysfarthai arnynt, am yr hwn y crybwyllywd o'r blaen. A rhai o gangau y ffrwythgoed a dysent yn yr ardd oedd ynt yn ymestyn dros y mur ; a chan fod yr aeron yn felysion, y sawl a'u caenat a'u casglent, ac a'u bwytäent, er eu niwaid eu hunain. Felly bechgyn Cristiana, fel y mae bechgyn yn dueddol i wneuthur, am fod y coed a'u ffrwythydd yn eu boddhau, a ddechreuanant eu tynu a'u bwytta. Eu mam yn wir a'u ceryddent am wneuthur felly, ond y bechgyn ni pheidiant.

Wel, sy meibion, ebe hi, yr ydych yn troseddu, canys nid ydynt y ffrwythydd yna yn eiddo i ni ; ond ni wyddai hi mai eiddo y gelyn oedd ynt : pe gwybuassai

hyny, yr wyf yn sicr y buasai yn barod i farw o ofn. Ond aeth hyny heibio, a hwythau a aethant yn mlaen i'w taith. Yn awr, erbyn eu myned tua dau ergyd bwa o'r lle a'u harweinient i'r ffordd, canfuent ddau o rai hagr iawn yn dyfod i'w cyfarfod. Ar hyny Cristiana a'i chyfelles Trugaredd a wisgasant eu gorchuddion, ac a barhausant i fyned rhagddynt: y plant hefyd oedd ynt yn cerdded o'u blaenau; felly, o'r diwedd, daethant i'w cyfarfod. Yna y rhai a ddaethant i'w cyfarfod a nesasant at y gwragedd, fel pe buasent am eu cofleidio; ond Cristiana a ddywedai, Sefwch yn ol, neu ewch i'ch ffordd yn heddychol, fel y dylech. Eto y ddau hyn, fel pe buasent fyddariaid, ni wnaent sylw o'i geiriau, ond dechreuasant ymafyd ynddynt: ar hyn Cristiana, gan ddigloni yn ddirfawr, a ddeehreuodd ymosod arnynt a'i thraed. Trugaredd hefyd a wnaeth gymaint ag a allai i'w gyru ymaith. Cristiana drachefn a ddywedodd wrthynt, Sefwch yn ol, ac ewch ymaith, canys nid oes genym arian i'w colli, gan mai pererinion ydym, fel y gwelwch, ac yn byw hefyd ar haelioni ein cyfeillion.

**YR HAGRWYR.** Yna ebe un o'r ddau wr, Nid ydym ni yn ymosod arnoch er mwyn arian, ond daethom allan i ddyweddyd wrthych, os gwnewch ond caniatâu i ni un cais bychan, y gwnawn chwi yn wragedd diwall dros byth.

**CRISTIANA.** Yna Cristiana, gan dybied beth oedd eu hamcan, a'u hatebodd eilwaith, Ni wnaawn na gwrando, nac ystyried, na chaniatâu yr hyn a geisiwch. Yr ydym mewn brys, ac nis gallwn aros; ein hachos sydd achos bywyd ac angau. Felly hi a'i chyfeilles a wnaethant ymgais adnewyddol i fyned heibio iddynt; ond hwy a'u lluddiasant drachefn.

**YR HAGRWYR.** Ac ebynt hwy, Nid ydym yn amcanu un niwaid i'ch einioes; peth arall a geisiwn.

**CRISTIANA.** Ah, ebe Cristiana, mynech ein cael gyrrff ac enediau, canys gwn mai er mwyn hyny y daethoch; ond byddwn feirw ar y llanerch hwn yn hytrach nag y goddefwn ein dwyn i'r cyfryw faglau ag a beryglant ein llwyddiant ar ol hyn. A chyda hyn hwy a waeddasant.

yn groch ill dwy, gan lefain, " Llofruddiaeth ! llofruddiaeth !" a thrwy hyny rhoddasant eu hunain dan nawdd y cyfreithiau a wnaed er ymddiffyniad i wragedd, Deut. 22. 25—27. Er hyny y gwyr a nesaent atynt yn dibaid, gyda'r bwriad o'u gorchfygu. Gan hyny gwaedasant allan drachesn.

Gan nad oeddynt, fel y dywedais, yn nebpell oddiwrth y porth y daethent i mewn iddo, clybuwyd eu llais oddyno : daeth rhai allan o'r ty, a chan wybod mai lleferydd Cristiana ydoedd, brysiasant i'w chynorthwyo. Ond erbyn eu dyfod o fewn golwg iddynt, yr oedd y gwragedd mewn ymgrych caled, a'r plant yn sefyll gerllaw yn wylo. Yna yr hwn a ddaethai allan i'w cynorthwyo a waeddodd ar y dyhirwyr, gan ddywedyd, Beth yw hyn yr ydych yn ei wneuthur ; a fynech chwi i bobl fy Arglwydd dros-eddu ? Ceisiodd hefyd eu dal, ond diangasant dros y mur i ardd perchenog y ci mawr ; felly daeth y ci yn amddiffynnydd iddynt. Yna daeth y cynorthwywr hwn i fynu at y gwragedd, ac a ofynodd iddynt, Pa fodd yr ymdarawsoch ? Atebasant hwythau, Gweddol, diolch i'th Dywysog, yn unig cawsom ychydig ddychryn : diolchwn i titbau hefyd am ddyfod i'n cynorthwyo, pc amgen gorchfygasid ni.

CYNORTHWYWR. Ar ol ychydig eiriau yn ychwaneg, dywedai y cynorthwywr hwn fel hyn :—Rhyseddais yn fawr pan groesawyd chwi yn y porth fry, a chwithau yn gwybod nad ydych ond gwragedd gweiniaid, na buasech yn ersyn ar yr Arglwydd am arweinydd ; yna gallasech ysgoi y trallodau a'r peryglon hyn ; canys efe a roisai un i chwi.

CRISTIANA. Ah ! ebc Cristiana, llanwyd ni gymaint â'r bendithion presenol, fel yr anghofiasom beryglon dyfodol. Heblaw hyny, pwy feddyliasai fod y fath rai disfaith a hyn yn llechu mor agos i balas y Brenin ? Yn wir, da fuasai i ni pe ceisiasem un gan ein Harglwydd ; ond gan y gwyddai efe y buasai er ein lles, rhysedd genyf nad anfonasai efe un gyda ni.

CYNORTHWYWR. Nid yw yn angenrheidiol caniatâu pothau heb eu gofyn bob ainscr, rhag, trwy hyny, iddynt

fyned yn ddigysfrif ; ond pan deimlir eisiau peth, yna mawrygir ef yn ol ei werth yn ngolwg yr hwn a deimla hyny, ac felly y defnyddir ef rhagllaw. Pe buasai fy Arglwydd yn caniatâu arweinydd i chwi, ni buasech yn ymofidio o herwydd eich gwall yn peidio gofyn am un, fel y mae genych achos yn awr i wneuthur. Felly y mae pob peth yn cydweithio er daioni, ac yn tuedd i'ch gwneuthur yn fwy gwagelog.

**CRISTIANA.** A gawn ni fyned yn ol at fy Arglwydd, cyfaddef ein ffolineb, a cheisio un ?

**CYNORTHWYWR.** Dygaf iddo yr addefiad o'ch ffolineb fy hunan. Nid rhaid i chwi fyned yn ol ; canys yn yr holl leoedd y deuwch iddynt, ni chaiff fod arnoch eisiau dim ; oherwydd yn mhob llety a barotodd fy Arglwydd er croesawu pererinion y mae digonedd er eu cyflenwi gogyfer â phob ymosodiad. Ond, fel y dywedais, efe a fyn iddynt ymofyn ag ef am wneuthur hyn iddynt, Ezec. 36. 37. A gwael yw'r peth nad yw yn werth ei ofyn. Wedi iddo ddywedyd hyn, aeth yn ol i'w fan, a'r pererinion i'w ffordd.

**TRUGAREDD.** Yna ebe Trugaredd, Y fath siom sydd yma ! Tybiais ein bod wedi cefnu ar bob perygl, ac na themlem ofid byth mwy.

**CRISTIANA.** Mae dy ddiniweidrwydd, fy chwaer, i fesur yn dy esgusodi di : ond am danaf fi, y mae fy mai yn llawer mwy, yn gymaint ag i mi ganfod y perygl hwn cyn dyfod dros y drws, ac eto ni ddarperais gyferbyn ag ef tra y gallaswn wneud. Yr wyf i'm beio yn fawr.

**TRUGAREDD.** Yna ebe Trugaredd, Pa fodd y gwybyddit hyn cyn cychwyn oddicartref ? Atolwg, eglura i mi y ddameg hon.

**CRISTIANA.** Dywedaf wrthyt. Cyn i mi osod fy nhroed dros y drws, un noswaith, pan yn fy ngwely, breuddwyd iais yn nghylch hyn ; canys tybiwn fy mod yn gweled dau ddyn, a golwg mor debyg i'r rhai hyn arnynt ag a allai fod, yn sefyll wrth draed fy ngwely, yn llunio pa fodd y gallent rwy stro fy iachawdwriaeth. Adroddaf i ti eu geiriau. Meddynt (hyn a fu yn yr amser pan oeddwn yn llawn gofidiau), Pa beth a wnawn i'r wraig hon ?

canys y mae hi yn gwaeddi am faddeuant **yn nghwsg ac yn effro**; os goddefir iddi fyned yn mlaen fel y dechreuodd, collwn hi fel y collasom ei gwr. Hyn, fel y gwydd ost, a allasai wneud i mi fod yn ochelgar, a pharotoi pan oedd parotoad o fewn cyrhaedd.

**TRUGAREDD.** Wel, ebe Trugaredd, megys y cawsom trwy yr esgeulusdra hwn achlysur i weled ein hanmherfieithrwydd, felly cymerodd ein Harglwydd achlysur drwyddo i ddangos goludoedd ei ras; canys efe, fel y gwelwn, a'n canlynodd ni â charedigrwydd heb ei ofyn, ac a'n gwaredodd o ddwylaw y rhai oedd ynt drech na ni, yn hollol o'i ewyllys da.

Felly wedi ymddyddan ychydig amser yn ychwaneg, dynesasant at dy oedd yn sefyll ar eu ffordd, yr hwn a adeiladesid er mwyn y pererinion, fel y gwelwch yn hel-aethach yn y rhan gyntaf o'r cofnodau hyn o Daith y Pererin. Felly nesasant at y ty (ty y Deonglwr); a phan ddaethant at y drws, clywent siarad mawr oddimewn. Yna ymrwrandawsant, a thybiasant glywed son am Gristiana wrth ei henw; canys rhaid i chwi wybod fod son wedi rhedeg o'i blaen, ei bod hi a'i phlant wedi myned ar bererindod. A hyn oedd fwy hyfryd ganddynt, oherwydd clywed o honyn mai gwraig Cristion ydoedd, y wraig ag oedd, amser yn ol, mor anewyllysgar i glywed son am fyned ar bererindod. Felly safasant yn llonydd, a chlyw-sant y bobl dda oddimewn yn ei chanmol, a hithau, er yn anwybodus iddynt, yn sefyll wrth y drws. O'r diwedd curodd Cristiana, fel ag y gwnaethai wrth y porth o'r blaen. Yn awr, wedi iddi guro, daeth llances fechan at y drws; ac wedi iddi agor ac edrych, wele ddwy wraig yn sefyll yno.

**LLANCES.** Yna ebe y llances wrthynt, A phwy yn y lle hwn y dymunech chwi siarad?

**CRISTIANA.** Cristiana a atebodd, Deallwn mai lle o faint yw hwn i'r rhai sydd yn myned ar bererindod, a rhai o'r cyfryw ydym ni sydd wrth y drws yn awr: am hynny atolygwn gael bod yn gyfranog o'r hyn y daethom yma o'i herwydd; canys y dydd, fel y gweli, a gerddodd yn mhell, ac anhawdd genym fyned yn mhellach heno.

**LLANCES.** Atolwg, beth yw dy enw, fel y gallwyf ddywedyd i'm Harglwydd oddmewn?

**CRISTIANA.** Fy enw yw Cristiana; myfi oeddwn wraig y pererin hwnnw a deithiodd y ffordd hon rai blynnyddoedd yn ol, a dyma ei bedwar mab. Y forwynig hon yw fy nghyfeilles, ac y mae hithau hefyd yn myned ar bererindod.

**LLANCES.** Yna Diniwaid (canys dyna oedd ei henw) a redodd i mewn, ac a ddywedodd wrth y rhai oedd yno, Pwy feddyliech chwi sydd wrth y drws? Y mae Cristiana, ei phlant, a'i chyfeilles yno, oll yn dysgwyl am dderbyniad i mewn. Yna neidiasant o lawenydd, ac aethant i synegu i'w Meistr. Felly efe a ddaeth at y drws, a chan edrych arni, gofynodd iddi, Ai ti yw Cristiana, yr hon a adawwyd gan y gwr da Cristion ar ei ol, pan yr ymgymeroedd a bywyd pererin?

**CRISTIANA.** Ié, myfi yw y wraig hòno a fu mor galon-galed a diystyr u trallodau fy ngwr, ac a adawodd iddo fyned i'w daith ei hun, a'r rhai hyn ydynt ei bedwar bachgen; canys yr wyf wedi fy argyhoeddi nad oes ffordd uniawn ond hi.

**DEONGLWB.** Yn awr y cyflawnwyd yr hyn a ddywedodd y tad wrth ei fab, "Dos, gweithia heddyw yn fy ngwinllan; ac yntau a atebodd, ac a ddywedodd, Nid âf; ond wedi hyny efe a edifarhaodd, ac a aeth," Mat. 21. 28, 29.

**CRISTIANA.** Yna ebe Cristiana, Felly y byddo, Amen. Duw a wirio yr ymadrodd ynof fi; a rhodded im' fy nghael yn y diwedd gando ef mewn tangnafedd, yn ddi-frycheulyd, ac yn ddifeius.

**DEONGLWB.** Ond paham y sefi wrth y drws? Tyred i mewn, ti ferch Abraham; yr oeddym yn siarad am danat yn awr, canys daeth y newydd am y modd yr aethost yn bererin yma o'th flaen. Deuwch, blant, deuwch i mewn; tyred, forwynig, tyred i mewn. Felly cafodd hwynt oll i'r ty.

Felly, wedi eu dyfod i mewn, archwyd iddynt eistedd i lawr i orphwysô; ac wedi iddynt wneuthur hyny, daeth y rhai a weinyddent i'r pererinion yn y ty i'r ystafell i

ymweled â hwynt. Gwenai un, a gwena un arall, a gwenent oll o lawenydd am i Gristiana ddyfod yn bererin. Yna edrychent ar y bechgyn, a thynent eu dwylaw dros eu gwynebau yn arwydd o'u derbyniad croesawgar o honyn : ac ymddygent hefyd yn garedig at Drugaredd, a dywedent fod iddynt oll roesaw i dy eu Meistr.

Yn mhen enyd, am nad oedd y swper yn barod, y Deonglwr a'u dygai hwynt i'w Ystafelloedd Arwyddocao, ac a ddanghosodd iddynt yr hyn a welsai gwr Cristiana o'r blaen. Yna y gwelsant y dyn yn y cyffion, y dyn a'i freuddwyd, y dyn a weithiodd ei ffjordd drwy ei elynion, a llun y mwyaf o bawb, yn nghyda'r holl bethau ereill a fuont y pryd hwnw mor fuddiol i Gristion.

Gwedi y pethau hyn, ac wedi i Cristiana a'i chymdeithion eu hamgyffred niewn rhan, y Deonglwr a'u cymerai o'r neilldu drachefn, ac a'u dyg yn gyntaf i ystafell, lle yr oedd dyn na's medrai edrych un ffjordd ond ar i waered, a chribyn-dail ganddo yn ei law. Uwch ei ben hefyd y safai un a chanddo goron nefol yn ei law, ac yn cynyg y goron hono iddo am ei gribyn; ond nid edrychodd y dyn i fynu, ac nid ystyriodd, eithr cribleydd ato ei hun y gwellt, y manwydd, a llwch y llawr.


Yna ebe Cristiana, Meddyliwyf fy mod yn deall rhyw-beth o ystyr hyn: canys darlun o ddyn y byd hwn ydyw, onide, syr?

**DEONGLWR.** Uniawn y dywedaist, eb efe ; a'i gribyn a ddengys ei feddwl cnawdol. A lle y gweli ef yn fwy gosafus i gribynio gwellt, manwydd, a llwch y llawr, yn hytrach na gwneuthur yr hyn a ddywed yr Hwn a eilw arno oddiuchod, a'r goron nefol yn ei law, dengys hyny nad yw y nef ond megys ffug-chwedl gan rai, ac mai'r pethau sydd yma a gyfrifir ganddynt yn bethau syl-weddol. A lle y danghoswyd i ti hefyd na's gallai y dyn edrych un ffjordd ond i waered, hyny sydd i beri i ti wybod fod pethau daearol, wedi y caffont awdurdod ar feddyliau dynion, yn dwyn eu calonau ymaith yn holol oddiwrth Dduw.

**CRISTIANA.** Yna ebe Cristiana, O gwareder fi rhag y gribyu hon! Diar. 30. S.



Y DYN A'R GRIBYN.



**DEONGLWR.** Y mae'r weddi yna, ebe'r Deonglwr, wedi ei gadael o'r neilldu nes yw bron wedi rhydu: "Na ddyro i mi gyfoeth," mid yw yn weddi gan un o ddeng mil yn mron. Gwellt, manwydd, a llwch, gan y rhan fwyaf, ydynt y pris bethau yr edrychir ar eu hol.

Ar hyn Trugaredd a Christiana a wylasant, ac a ddywedasant, Och! y mae yn rhy wir!

Gwedi i'r Deonglwr ddangos hyn iddynt, arweiniodd hwynt i'r ystafell oreu yn y ty;—ystafell wych iawn ydoedd. Felly archodd iddynt yspio o'u cwmpas, ac edrych a ganfyddent hwy ddim buddiol yno. Yna edrychasant o amgylch ogylch; canys nid oedd dim yno i'w weled ond prif-copyn mawr ar y pared, ond ni sylwasant ar hwnw.

**TRUGAREDD.** Yna ebe Trugaredd, Syr, nid wyf fi yn gweled dim: ond Cristiana a dawodd a son.

**DEONGLWB.** Ond, ebe'r Deonglwr, edrych eto. Hithau a edrychodd, ac a ddywedodd, Nid oes yma ond prif-copyn hyll, yr hwn sydd yn crogi erbyn ei ddwylaw ar y pared. Yna ebe yntau, Ai nid oes mwy nag un prif-copyn yn yr ystafell éang hon i gyd? Yna y dwfr a safodd yn llygaid Cristiana, canys yr oedd hi yn wraig o ddeall bywiog: a hi a ddywedodd, Oes, Arglwydd, y mae yma ychwaneg nag un; ie, pryaidd sydd a'u gwenwyn yn fwy dinystriol o lawer na gwenwyn y prif hwn. Ar hyn y Deonglwr a edrychodd yn siriol arni, ac a ddywedodd, Llefaraist y gwir. Parodd hyn i Drugaredd wrido, ac i'r bechgyn guddio eu gwynebau; canys erbyn hyn yr oedd yntau oll yn dechreu deall y ddychymyg.

Yna ebe y Deonglwr drachefn, "Y prif-copyn a ym-asaefai a'i ddwylaw [fel y gwelwch], ac y mae yn liys y brenin," Diar. 30. 28. Ac i ba beth yr ysgrifenwyd hyn, ond i ddangos i chwi, pa mor llawn bynag o wenwyn pechod y byddoch, y gellwch er hynny, trwy law ffydd, ymaflyd yn a thrigo o fewn yr ystafell oreu a berthyn i dy'r Brenin uchod.

**CRISTIANA.** Meddyliais rywbeth tebyg i hyn, ebe Cristiana; ond methais amgyffred y cwbl. Tybiais ein bod yn debyg i'r copynod, a'n bod fel creaduriaid hyllion, yn

mha ystafelloedd gwychion bynag y byddom : ond ni feddyliais y dysgid ni oddiwrth y pryf-copyn, y creadur gwenwynig a hyll hwn, pa fodd i weithredu ffydd; ac eto y mae'n gweithio â dwylaw, ac, fel y gwelaf, yn preswylion yn yr ystafell oreu yn y ty. Ni wnaeth Duw ddim yn ofer.

Bellach ymddanghosent oll yn llon ; ond yr oedd y dwfr yn sefyll yn eu llygaid : eto edrychasant y naill ar y llall, ac ymgrymasant hefyd ger bron y Deonglwr.

Yna arweiniodd hwynt i ystafell arall, lle yr oedd iâr a chywion, a pharodd iddynt sylwi am enyd. Ac wele aeth un o'r cywion i'r casn i yfed ; a phob tro yr ysfa, codai ei ben a'i lygaid tua'r nef. Gwelwch, eb efe, yr hyn y mae y cyw bychan hwn yn ei wneuthur, a dysgwch oddiwrtho gydnabod o ba le y mae eich trugareddau yn dyfod, trwy eu derbyn dan edrych i fynu. Drachefn, eb efe, edrychwch a deliwch sylw : felly daliasant sylw, a chanfuant fod yr iâr yn ymddwyn mewn pedwar dull at ei chywion :—1. Yr oedd ganddi alwad gyffredinol, a meddai hon ar hyd y flwyddyn. 2. Yr oedd ganddi alwad neillduol, yr hon na feddai ond ar amserau. 3. Yr oedd ganddi lais magwriaethol, Mat. 23. 37. 4. Yr oedd ganddi grochlef.

Yn awr, eb efe, cymherwch yr iâr hon i'ch Brenin, a'r cywion yma i'w rai ufudd ef ; canys, yn debyg iddi hi, y mae ganddo yntau ei ymddygiadau tuag at ei bobl. Trwy ei alwad gyffredin, nid yw yn rhoddi dim ; trwy ei alwad neillduol, y mae ganddo bob amser rywbeith i'w roddi ; y mae ganddo hefyd lais magwriaethol, at y sawl sydd dan ei aden ; ac y mae ganddo grochlef, i roddi rhybudd pan welo y gelyn yn dyfod. Dewisais, fy anwyliaid, eich arwain i'r ystafell lle mae y cyfryw bethau, am mai gwragedd ydych, ac am eu bod yn hawdd i chwi eu deall.

CRISTIANA. Syr, ebe Cristiana, danghoswch, atolwg, ryw bethau yn ychwaneg. Felly dygodd hwynt i'r lladd-dy, lle yr oedd cigydd yn lladd dafad ; ac, wele, yr oedd y dafad yn llonydd, ac yn dyoddef marwolaeth yn dawel. Yna ebe y Deonglwr, Oddiwrth y dafad hon rhaid i

chwi ddysgu dyoddef, a chymeryd cam heb rwgnach nac achwyn. Gwelwch mor llonydd y mae hi yn cymeryd ei lladd, ac, heb wrthwynebu, yn goddef tynu ei chroen dros ei chlustiau. Geilw eich Brenin chwi yn ddefaid iddo.

Gwedi hyn arweiniodd hwynt i'w ardd, lle yr oedd amrywiaeth mawr o flodau; a dywedodd, A welwch chwi yr holl rai hyn? A Christiana a ddywedodd, Gwelwn. Yna eb efe drachefn, Wele, y blodau hyn a amrywiant mewn maintoli, dull, lliw, arogl, a rhinwedd; ac y mae rhai yn well na'r lleill; hefyd, lle gosododd y garddwyr hwynt, yno yr arhosant heb ymrafaelio â'u gilydd.

Drachefn, dyg hwynt i'w faes, yr hwn a hauasai efe â gwenith ac yd: a phan welsant fod y tywysenau oll wedi eu tori ymaith, a dim ond y gwelt yn aros, dywedodd wrthynt, Y tir hwn a lanwyd â thail, a fraenarwyd, ac a hauwyd, ond beth a wnawn â'r cynyrch? Yna ebe Cristiana, Llosga beth, a gwna y gweddill yn wrtaith. Yna ebe'r Deonglwr drachefn, Gwelwch mai firwyth yw'r hyn yr edrychwr am dano; ac o ddiffyg hwnw, condemniwch ef i'r tân, ac i gael ei sathru dan draed gan ddynion: gochelwch gondemnio eich hunain trwy hyn.

Yna, pan oedd ynt yn dysod i mewn o'r maes, cansuant robyn-frongoch bychan a phryf-copyn mawr yn ei big. Felly'r Deonglwr a ddywedodd, Edrychwr yma. Ac edrychasant, a Thrugaredd a ryfeddodd; ond Cristiana a ddywedodd, Pa resyni yw i'r fath aderyn bach hardd a'r robyn-frongoch, yr hwn a ragora ar lawer o'r adar ereill, ac a hoffa gadw math o gyfeillach â dynion, wneuthur hyn! Tybiais ei fod yn byw ar friwsion bara, neu bethau di niwaid cyffelyb; nid yw fy hoffder o hono cymaint a chynt.

Yna'r Deonglwr a atebodd, Y robyn-frongoch hwn sydd arwyddlun cymhwys iawn o rai proffeswyr; canys mewn golwg maent fel y robyn-frongoch hwn, yn de: o liw, llais, ac ymddygiad. Ymddanghosant hefyd fel pe byddai ganddynt gariad mawr at broffeswyr diragrith; ac, uwchlaw pawb ereill, yn chwennych ymgyllellachu â hwy, a bod yn eu cwmni, fel pe gallent fyw ar friwsion y

216 YMADRODDION BUDDIOL Y DEONGLWR.

yn aml i dai y duwiolion, ac i ordinhadau yr Arglwyd: ond pan fyddont ar eu penau eu hunain, fel robynfrongoch, dariant a llyncant gopynod; gallant newid eu hymborth, yfed anwiredd, a llynco peched fel dwfr.

Felly wedi eu dyfod eilwaith i'r ty, a chan nad oedd y swper yn barod, dymunodd Cristiana drachefn ar i'r Deonglwr naill ai dangos iddynt, neu ddywedyd wrthynt, ryw bethau buddiol ereill.

Yna'r Deonglwr a ddechreuodd, ac a ddywedodd, Po brasaf fyddo'r hwch, mwyaf y chwennycha'r dom; po tewaf yr ych, hoywaf yr â i'r lladdfa; a pho iachaf fyddo'r dyn trythyll, mwyaf tueddol yw i ddrwg. Mae chwant mewn merched i fod yn drwsiadus a gwych; a gweddus hefyd yw eu bod yn addurnedig â'r hyn sydd ger bron Duw yn werthfawr. Haws gwylled noswaith neu ddwy, na blwyddyn gyfan: felly haws yw i un ddechreu proffesu yn dda, na pharhau fel y dylai hyd y diwedd. Pob meistr llong, pan mewn tymhesti, a fwria drosodd o'i wirfodd yr hyn sydd leiaf ei werth yn y llestr; ond pwyl a deifl y pethau goreu yn gyntaf? Neb ond y sawl nad ofna Dduw. Un agen mewn llong a'i sudda, ac un peched a ddinystria bechadur. Y neb a annghofio ei gysaill, sydd anngharedig iddo; ond y neb a annghofio ei lachawdwyr, sydd annhrugarog wrtho ei hun. Y neb a fyddo byw mewn peched, ac a ddysgwyllo ddedwyddwch ar ol hyn, sydd gyffelyb i un yn hau efrau, ac yn meddwl llenwi ei ysgubor â gwenith neu haidd. Os ewyllysia neb fyw yn dda, cyrched ato ei ddydd olaf, a gwnaed ef yn gydymaith gwastadol iddo. Husting, a chyfnewidiad meddyliau, a brofiant fod peched yn y byd. Os yw y byd, yr hwn sydd o leied cyfrif gan Dduw, o gymaint gwerth gan ddynion, beth yw y nef a ganmolir gan Dduw! Os yw mor anhawdd genym ymadael â'r bywyd sydd a chynifer o ofidiau ynddo, pa fath yw y bywyd fry! Pawb a ganmolant ddaioni dynion; ond pwyl a ymdeimla fel y dylai oddiwrth ddaioni Duw? Anaml yr eisteddwn i lawr i fwyta, heb adael peth yn ngweddill. Felly mae yn Iesu Grist fwy o haeddiant a chysiaunder nag a raid i'r holl fyd wrtho.

Gwedi i'r Deonglwr ddiweddu, dygodd hwynt i'w ardd drachefn, ac a'u harweiniodd at goeden ag oedd wedi llwyr bydru a darfod oddimewn, ac eto yn tyfu ac â dail arni. Beth yw ystyr hyn, ebe Trugaredd? Y goeden hon, ebe yntau, sydd a'r tuallan iddi yn deg, a'r tumewn yn bwdr, yw yr hyn y gellir cymharu iddi lawer sydd yn ngardd Duw, y rhai a siaradant yn uchel ar dafod dros Dduw, ond, mewn gwirionedd, ni wnat ddim erddo; eu dail ydynt deg, ond nid yw eu calonau yn dda i ddim ond i fod yn closged yn nhanfwch y diafol.

Erbyn hyn yr oedd y swper yn barod, y bwrdd wedi ei hulio, a phob peth arno; felly eisteddasant i lawr, a bwytasant, pryd y rhoddodd un ddiolch. A'r Deonglwr a arferai ddifyru ei letywyr â cherddoriaeth ar brydian bwyd; felly y cerddorion a chwareuasant. Ac yr oedd yno hefyd un yn canu, a llais peraidd iawn oedd ganddo. Ei gân oedd fel hyn :—

Yr Arglwydd sydd gynhalwr im',  
Efe'n fy mhorthi sydd;  
Ni chaiff fod arnaf eisiau dim  
Trwy ofal Duw bob dydd.

Gwedi gorphen y gân a'r gerddoriaeth, gofynodd y Deonglwr i Gristiana, Pa beth a'th dueddodd gyntaf i ymroddi i fywyd pererin? Cristiana a atebai, Yn gyntaf, daeth y golled am fy ngwr i fy meddwl, yr hyn a'm gofidiai yn ddwys iawn; eithr nid oedd hyn i gyd ond serch naturiol. Gwedi hyny daeth blinderau a pherendod fy ngwr i'm meddwl, a'm hymddygiad anynad inau ato oblegyd hyny. Felly ymaflodd euogrwydd yn fy meddwl, a thynasai fi i'r pwll, oni buasai i mi mewn pryd freuddwydio am ddedwyddwch fy ngwr, a chael llythyr anfonedig ataf gan Frenin y wlad lle mae fy ngwr yn byw, yn fy ngwahodd i ddyfod ato. Y breuddwyd a'r llythyr hefyd a weithiasant mor rymus ar fy meddwl, ne's gorfu arnaf ddyfod i'r ffordd hon.

**DEONGLWR.** Ond oni chyfarfuais tâd dim rhwystrau cyn cychwyn oddicartref?

**CRISTIANA.** Do, cymyduges i mi, o'r enw Mrs. Ofnus:

perthynas y bedd i'r hir a fynasai berswadio fy ngwyr i'nd ym a mangath y llawd. Galwai fi hefyd yn fiol, cherwiad y anurueth rynges, fel y galwai hi; dywedai hefyd gynnalai a allai, er fy nicaloni yn fy mwriad, am y caledi a'r helbodion a gyfarfu fy ngwyr yn y ffordd; ond daethon i drws y gerfan hyn yn lleolola. Ond blinwyd i ym hir yr orwy dreuddwyd a gefais am ddau ddyn drwg yr orwg, y rian, fel y rhiant, a lunient pa fodd y parent aifwriad i mi ar fy nhaint : te, y mae yn rhedez drwy fy meibion hys hefyd, ac yn peri i mi ofn pawb a gyfarfodai rhwng eu bed yn ddyiod i'm cyfarfod er niwaki, ac i'm twci allan o'n ffordd. Ie, gallaf sylleu i'n Hargiwyd i'r fauwn i bawb ei wybod, i ddau ddyn ymosodi arnomi a'r týrnig rhwng y lle hwn a'r porti, drwy'r hwn y ddiwain i'r ffordd, fel y gorfu arnom waeddi allan. Llofruddiaeth ! a'r ddau a wnaeth yr ymgrych hwn arnomi oedlyn y gyfelyb i'r ddau a welswn yn fy mreuddwyd.

Yma efeir Dreglwm. Dy ddechrenewd sydd dola : dy ddiweddi a gyzyda yn ddiriawr. Felly tröddi at Drugaredd, a dywedodd wrthi, Pa beth a'i thueddodd di i ddyiod yma, fy anwylyd?

**TRUGAREDD.** Yma Trugaredd a wriddodd ac a grynnodd, a pharhaodd yn ddylstaw am beti amser.

**DEONGLWR.** Yma eb efe. Nac oina ; cred yn unig, ac adrodd dy ieldwi.

**TRUGAREDD.** Felly dechrenewdi, a dywedodd, Yn wir, syr, fy nifyg o krofaid sydd yn peri i mi ddymuno bod yn ddylstaw, a hynny lefyd sydd yn fy llenwi ag ofnau mai yn ol y byddaf yn y diwedd. Nis gallaf fi adrodd gweledigaethau a breuddwydion, fel fy nghyfeilles Cristiana ; ac nis gwn pa beth yw ymofidio oherwydd gwrthod cynzhorion perthynasau daiontus.

**DEONGLWR.** Pa beth, ynte, anwylyd hoff, a'i thennillodd i wneuthur fel y gwnaethost ?

**TRUGAREDD.** Wel, pan oedd fy nghyfeilles hon [Cristiana] yn ymdaalu i fyned o'u tref ni, aethum i ac un allai ar ddiamwain i edrych am dani. Felly curasom with y drws, ac aethomi i mewn. Gwedi myned i mewn,

a gweled yr hyn a wnai, gofynasom, Beth yw dy feddwl ? Atebodd hithau, Danfonwyd ataf i fyned at fy ngwr. Yna adroddodd wrthym fel y gwelsai ef yn ei breuddwyd, yn trigo mewn lle hynod yn mhllith anfarwolion, yn gwisgo coron, yn chwareu ar delyn, yn bwyta ac yn yfed ar fwrrd ei Dywysog, ac yn canu ei fawl am ei ddwyn yno, &c. Tra yr adroddai y pethau hyn, tybiwn inau fod fy nghalon yn llosgi o'm mewn. A dywedais yn fy nghalon, Os gwir hyn, gadawaf fy nhad a'm niam, a gwlad fy ngenedigacth, ac âf, os caf, gyda Christiana. Felly holais hi yn mhellach am wirionedd y pethau hyn, ac a adawai i mi fyned gyda hi ; canys erbyn hyn gwellais na allesid aros yn hwy yn ein tref heb berygl dinystr. Er hyn daethum ymaith gyda chalon drom, nid oherwydd anewyllysgarwch i ymadael, ond am fod cynifer o'm perthynasau wedi eu gadael ar ol. O wir ewyllys fy nghalon y daethum, ac âf gyda Christiana, os caniateir i mi, at ei gwr a'i Frenin.

DEONGIWR. Dy gychwyniad allan sydd dda, oblegyd credaist y gwirionedd ; Ruth ydwyd, yr hon, oherwydd y cariad oedd ganddi at Naomi, ac at yr Arglwydd ei Duw, a adawodd dad a mam, a gwlad ei genedigaeth, i ddyfod allan a myned at bobl nad adwaenai o'r blaen. "Yr Arglwydd a dalo i ti am dy waith, a bydded dy obrwy yn berffiaith gan Arglwydd Dduw Israel, yr hwn y daethost i ymddiried dan ei adenyydd," Ruth 2. 11, 12.

Erbyn hyn yr oedd ynt wedi darsod swper, ac yn parotoi i'w gwelyau ; rhoddyd y gwragedd wrthynt eu hunain, a'r bechgyn gyda'u gilydd. Gwedi i Drugaredd fyned i'w gwely, nis gallai gysgu gan lawenydd, oherwydd yn awr yr oedd ei holl amheuon yn nghylch methu yn y diwedd wedi ei symud yn mhellach oddiwrthi nag erioed o'r blaen. Felly gorweddai, gan fendithio a molianu Duw, yr hwn a ddangosasai iddi y fath flafr.

Yn y boreu codasant gyda'r haul, ac ymbarotoisant i ymadael : ond y Deonglwr a synai iddynt aros dros enyd ; Canys, eb efe, rhaid i chwi fyned yn dresnus oddiynia. Yna eb efe wrth y llances a agorasant iddynt ar y cyntaf, Dos â hwy i'r ardd, i'r olchfa, a glantha hwynt oddiwrth

yr holl frynti a gasglasant ar eu taith. Yna Diniwaid, y llances, a'u harweiniodd i'r ardd, ac a'u dygodd i'r olchfa; felly dywedodd wrthynt fod yn rhaid iddynt ymolchi yno a bod yn lân ; canys felly y mynai ei Meistr i'r gwragedd wneuthur, à alwent yn ei dy pan yn myned ar bererindod. Yna aethant i mewn ac ymolchasant, hwy a'r bechgyn hefyd ; a daethant i synu o'r olchfa, nid yn unig yn beraidd a glân, ond hefyd wedi eu hadfywio a'u cyfnertu yn fawr yn eu cymalau. Felly pan ddaethant i'r ty, edrychasant yn llawer tecach na phan aethant allan i'r olchfa.

Gwedi iddynt ddychwelyd o'r olchfa yn yr ardd, y Deonglwr a'u cymerodd, a edrychodd arnynt, ac a ddywedodd, "Teg fel y lleuad." Yna galwodd am y sel, à'r hon y selhai efe y rhai a ymolchent yn ei olchfa ef. Felly dygwyd y sel, a gosododd ei nod arnynt, fel yr adnabyddid hwynt yn y lleoedd yr elent iddynt ar ol hyn. Yn awr y sel oedd swm a sylwedd y pasc a fwytasai meibion Israel (Exod. 13. 8—10) pan ddaethant allan o wlad yr Aipht ; a'r nod a osodwyd rhwng eu llygaid. Y sel hon a ychwanegai yn fawr at eu prydferthwch, canys yr ydoedd yn addurn i'w gwynebau. Ychwanegai hefyd at eu dwysder, a gwnaeth eu gwynebpryd yn debycach i angelion.

Yna ebe'r Deonglwr drachefn wrth y llances oedd yn gweini i'r gwragedd, Dos i'r Dillad-dy, a dwg allan wisgoedd i'r bobl hyn. Felly hi a aeth, ac a ddygodd allan wisgoedd gwynion, ac a'u rhoddodd i lawr o'i flaen ; gor-chymnodd yntau iddynt eu gwisgo am danynt : lliain main gwyn a glân oeddynt. Wedi i'r gwragedd gael eu haddurno fel hyn, ymddanghosent yn arswyd i'w gilydd, am nad allent weled arnynt eu hunain y fath ogoniant ag a welent yn eu gilydd. Yn awr, gan hyny, dechreuent dybied eu gilydd yn well na hwy eu hunain. Canys, Yr ydwyt ti yn harddach na mi, meddai un ; ac, Yr wyt tithau yn decach na minau, meddai y llall. Y plant hefyd a safent yn syn wrth weled yr agwedd y dygesid hwy iddi.

Yna'r Deonglwr a alwodd ar was iddo, yr hwn a elwid

Dewr-galon, a pharodd iddo gymeryd cleddyf, helm, a tharian; Cymer fy merched hyn, eb efe, ac arwain hwynt i'r ty a elwir Prydserth, y lle y gorphwysant nesaf. Felly cymert ei arfau, ac aeth o'u blaen; a'r Deonglwr a ddywedodd, Duw yn rhwydd. A'r rhai a berthynent i'r teulu a'u hanfonasant ymaith gyda llawer dymuniad gwresog. Felly cychwynasant i'w taith dan ganu:—

Hon yw'r wir orphwysfa lonwedd,  
Lle cawsom weled pethau rhyfedd;  
Pethau da, fu lawer oesau  
Yn nghudd rhag ereill yma'n ddiau.

Y gwr a'i gribyn, y prif copyn,  
Yr iâr a'r cywion mân i'w chanlyn;  
Ond im' sylwi yn feunyddiol,  
Ddysgant imi wersi buddiol.

Yr ardd, y maes, y cigydd gwaedlyd,  
Y bronrhudd bach a'i 'sglyfaeth hefyd,  
Y goeden bwdr, grin, anffrwythlon,  
Sydd yn rhoi annogaeth dirion,

I mi wylion ddyfal, ddyfal,  
A gweddio gyda gofal;  
Codi'r groes bob dydd yn hylwydd,  
A gwas'naethu Crist yr Arglwyd?

Yn awr gwelwn yn fy mreuddwyd eu bod yn myned rhagddynt, a Dewr-galon o'u blaenau. Felly yr aethant hyd nes daethant at y man y syrthiasai baich Cristion oddiar ei gefn, ac y treiglodd i'r bedd. Yma hefyd y safasaut ac y bendithiasant Dduw. Yn awr, ebe Cristiana, y mae yn dyfod i'm meddwl yr hyn a ddywedwyd wrthym yn y porth, sef y derbyniem faddeuant drwy air a gweithred; trwy air, hynny yw, trwy'r addewid; trwy weithred, sef, yn y ffordd yr ennillwyd ef. Gwn rywfaint beth yw'r addewid; ond beth yw derbyn maddeuant trwy weithred, neu trwy y ffordd yr ennillwyd ef, yr wyf yn tybied y gwyddost ti, Mr. Dewr-galon; ac os gweli yn dda, gad i ni glywed dy sylw arno.

**DEWR-GALON.** Maddeuant trwy'r weithred a wnaed, yw

maddeuant a gyrhaeddwyd gan ryw un dros un arall fyddo mewn angen o hono ; nid gan y person y maddeuir iddo, ond, Yn y fiordd, medd un arall, y cefais i ef. Felly yn awr, i lefaru yn helaethach ar y mater, y maddeuant a dderbyniaist ti, a Thrugaredd, a'r bechgyn hyn, a ennill-wyd trwy un arall ; sef, trwy'r Hwn a'ch gollyngodd i mewn trwy'r porth. Ac yntau a'i hennillodd yn y ffordd ddyblyg hon ; gweithiodd gyfiawnder i'ch gor-chuddio, a thywalltodd ei waed i'ch golchi.

**CRISTIANA.** Ond os ymedy Efe â'i gyfiawnder i ni, pa beth a fydd ganddo iddo ei hun ?

**DEWR-GALON.** Y mae ganddo Ef fwy o gyfiawnder nag sydd arnoch chwi, neu yntau ei hun, eisieu.

**CRISTIANA.** Amlyg a hyna, atolwg.

**DEWR-GALON.** A'm holl galon : ond yn gyntaf rhaid i mi ddywedyd, ei fod Ef, y soniwn am dano, yn un heb ci gyffelyb. Mae ganddo ddwy natur mewn un Person, hawdd i'w gwahaniaethu, anmhosibl i'w gwahanu. I bob un o'r naturiaethau hyn y mae cyfiawnder yn perthynu, a chyfiawnder pob natur yn hanfodol i'r natur hòno ; felly mae mor hawdd i un ddiddymu y natur, ag ydyw ysgar ei chyfiawnder a'i huniondeb oddiwrthi. O'r cyfiawnderau hyn, gan hyny, nis gwneir ni yn gyfranogion, fel y gosodid hwy, neu rai o honyn, arnom, fel y'n cyfiawnheid, ac y byddom byw trwyddynt. Heblaw y rhai hyn, y mae gan y Person hwn gyfiawnder fel y mae'r ddwy natur yn gysylltedig â'u gilydd. Ac nid cyfiawnder y Duwdod mo lwn, yn wrthgyferbyniol i'r eiddo y dyndod ; ac nid cyfiawnder y dyndod yn wrthgyferbyniol i'r eiddo y Duwdod ; ond cyfiawnder yw a saif yn undeb y ddwy natur, ac a ellir ei alw yn briodol y cyfiawnder sydd hanfodol i'w gymhwysiad gan Dduw i lenwi y swydd gyfryngol a ymddiriedwyd iddo. Os ymedy â'i gyfiawnder cyntaf, ymedy â'i Dduwdod ; os ymedy â'i ail gyfiawnder, ymedy â phurdeb ei ddynoliaeth ; os ymedy â'i drydydd, ymedy â'r perffeithrwydd sydd yn ei gymhwysio i'r swydd gyfryngol. Y mae ganddo, wrth hyny, gyfiawnder arall, yr hwn a saif mewn cyflawniad, neu mewn ufuidd-dod i ewyllys ddadguddiedig ; a hwnnw

yw yr un a wisga am bechaduriaid, a thrwy yr hwn y cuddir eu pechodau. O herwydd paham efe a ddywed, "Megys trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid, felly trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfawn," Rhuf. 5. 19.

**CRISTIANA.** Ond a ydynt y cyflawnderau ereill o ryw ddefnydd i ni?

**DEWR-GALON.** Ydynt; canys er eu bod yn hanfodol i'w natur a'i swyddau, ac na's gellir eu cyfranu i arall; er hyny trwy eu rhinwedd hwy y mae'r cyflawnder sydd yn cyflawnhau yn effeithiol i hyny. Cyflawnder ei Dduwdod a ddyry rinwedd yn ei ufudd-dod; cyflawnder ei ddyndod a ddyry gymhwysder yn ei ufudd-dod i gyflawnhau; a'r cyflawnder a saif yn undeb y ddwy natur i'r swydd; a ddyry awdurdod i'r cyflawnder hwnw wneud y gwaith yr anfonwyd ef o'i blegyd.

Felly, gan hyny, mae yma gyflawnder nad oes ar Grist, fel Duw, angen am dano; canys Duw yw hebddo. Dyma gyflawnder na raid i Grist wrtho, fel dyn, i'w wneuthur felly; canys y mae'n berffaith ddyn hebddo. Hefyd, dyma gyflawnder nad oes ar Grist, fel Duw-ddyn, angen am dano; canys y mae efe yn berffaith felly hebddo. Gan hyny, dyma gyflawnder nad oes ar Grist, fel Duw nac fel Duw-ddyn, angen am dano gyda golwg arno ei hun, o ba herwydd gall ei hebgor; cyflawnder cyflawnhaol, nad oes arno angen am dano iddo ei hun, ac am hyny dyry ef i ereill. Felly gelwir ef, "Dawn cyflawnder," Rhuf. 5. 17. Rhaid i'r cyflawnder hwn, gan i'r Arglwydd Iesu Grist ei wneuthur ei hun dan y ddeddf, gael ei roddi i ereill; oherwydd rhwyma'r ddeddf y rhai sydd dani, nid yn unig i wneuthur cyflawnder, ond i arfer cwmwynasgarwch. Am hyny rhaid iddo, neu dylai yn ol y ddeddf, os bydd ganddo ddwy bais, roddi un i'r neb sydd heb yr un. Yn awr mae gan ein Harglwydd ddwy bais mewn gwirionedd, un iddo ei hun, ac un i'w hebgor; am hyny rhydd un yn rhad i'r neb sydd heb yr un. Ac fel hyn, Cristiana a Thrugaredd, ac oll o honoch yma, y deilliawa eich maddeuant trwy gyflawniad neu waith un arall. Eich Harglwydd Crist yw yr hwn a weithiodd, a

rhydd yr hyn a weithiodd i'r cardotyn tlawd cyntaf a gyferfydd.

Ond drachefn, er derbyn maddeuant trwy weithred, rhaid taln rhywbeth i Dduw fel lawn, cystal a chael rhywbeth i'n gorchuddio ninau. Mae pechod wedi ein traddodi i felldith gyfiawn deddf uniawn : yn awr rhaid ein cyfiawnhau oddiwrth y felldith hon mewn fiordd o brynedigaeth, trwy fod lawn yn cael ei dalu am y cam-weddau a wnaethom ; a hyn a wnaed trwy waed eich Harglwydd, yr hwn a ddaeth ac a safodd yn eich lle a throsoch, ac a ddyoddefodd eich angau oblegyd eich troeddau. Fel hyn y prynodd efe chwi oddiwrth eich anwireddau trwy waed, ac y gorchuddiodd eich eneidiau halogedig ac anbardd a chyflawnder, Rhuf. 8. 34, er mwyn yr hwn y mae Duw yn myned heibio i chwi, ac ni wna i chwi niwaid pan y delo i farnu y byd, Gal. 3. 13.

**CRISTIANA.** Ardderchog ! Yn awr gwelaf fod rhywbeth i'w ddysgu oddiwrth ein bod yn cael maddeuant trwy air a gweithred. Trugaredd anwyl, ymdrechwn gadw hyn mewn cof : a chwithau, fy mhlant, cofiwrch hyn hesyd. Ond, syr, onid dyma yr hyn a wnaeth i faich fy ngwra, Cristion, syrthio oddiar ei gefn, ac a barodd iddo yntau lamu dair gwaith o lawenydd ?

**DEWR-GALON.** Ié, y grediniaeth o hyn a dorodd y llynynau hyny na ellid eu tori drwy unrhyw foddion ereill ; ac er mwyn rhoddi prawf iddo o rinwedd hyn, goddefwyd iddo gario ei faich hyd at y groes.

**CRISTIANA.** Meddyliais hyny ; canys er fod fy nghalon i yn siriol a llon o'r blaen, y mae hi yn siriolach a llonach ddengwaith yn awr. A diau genyf oddiwrth yr hyn a deimlais, er na theimlais eto ond ychydig, pe byddai y dyn niwyaf llwythog yn y byd yn y lle hwn, yn gweled ac yn credu fel yr wyf fi yn bresenol, y gwnelai ei galon yn llawen a hoyw.

**DEWR-GALON.** Ni ddygir i ni gysur ac ymwared o faich yn unig trwy'r golwg a'r ystyriaeth o'r pethau hyn, eithr cenhedla auwyldeb ynom hesyd ; canys pwy a ddichon, os meddylia unwaith fod maddeuant yn dlysod trwy hyn gystal a thrwy addewid, lai na dwys-deimlo oblegyd

ffordd a moddion ei brynedigaeth, ac felly oherwydd y Gwr a'i gweithiodd drosto.

**CRISTIANA.** Gwir; tybiwyf ei fod yn peri i'm calon waedu pan feddyliwyf iddo waedu trosof fi. Oh! dydi hawddgar Un: Oh! dydi fendigedig Un. Tydi a haeddit fy nghael; ti a'm prynai. Haeddit fy nghael yn gwbl oll; telaist am danaf ddeng mil o weithiau fwy na'm gwerth. Nid rhyfedd i hyn wneud i'r dwfr sefyll yn llygaid fy ngwr, a pheri iddo dithio yn mlaen mor wisgi. Da fuasai ganddo yn ddiau i mi fod gydag ef: ond, truanes ddiffaith oeddwn! gadewais iddo ddyfod wrtho ei hun. O, Drugaredd, na buasai dy dad a'th fam yma! ie, a Mrs. Ofnus hefyd! a dymunwyd yn awr â'm holl galon fod Mrs. Trythyll yma hefyd. Yn ddigon sicr, ni allasai eu calonau lai na theimlo; ac ni allasai ofnau'r naill, na thrachwantau cryfion y llall, lwyddo i beri iddynt fyned adref drachefn, a gwrthod dyfod yn bererion cywir.

**DEWR-GALON.** Siaředwch yn awr yn ngwres eich serchiadau; ai fel hyn, tybygwch, y bydd gyda chwi yn was-tadol? Heblaw hyny, ni hysbysir hyn i bawb, nac i bob un a welodd eich Iesu yn gwaedu. Yr oedd rhai yn sefyll gerllaw, ac yn gweled ei waed yn llifo o'i galon i'r llawr, ac eto mor bell oddiwrth hyn, fel, yn lle galaru, y chwarddasant am ei ben, ac, yn lle dyfod yn ddyssgyblion iddo, y caledasant eu calonau yn ei erbyn. Felly mae y cwbl sydd genych chwi, fy merched, wedi ei gael drwy yr argraff neillduol a wnaed gan dduwiol adfyfyriad ar y pethau a ddywedais wrthych. Cofiwch ddywedyd wrthych, nad yw'r iâr, trwy ei galwad gyffredinol, yn rhoddi dim ymborth i'w chywion. Hyn a gawsoch chwi, gan hyny, trwy ras neillduol.

Yn awr gwelwn yn fy mreuddwyd eu bod yn myned yn mlaen nes eu dyfod i'r man yr oedd Diofal, Diog, a Rhyfyg yn gorwedd ac yn cysgu, pan aethai Cristion heibio ar bererindod: ac, wele, yr oedd ynt yn grogedig mewn heiyrn ychydig bellter o'r ffordd ar y tu allan.

**TRUGAREDD.** Yna ebe Trugaredd wrth eu harweinydd

a'u cyfarwyddwr, Pwy ydynt y tri wyr hyn? ac am beth y crogwyd hwynt aew?

**DEWR-GALON.** Y rhai hyn oeddynt dri o wyr drwg iawn eu naws; nid oedd ganddynt un meddwl am fod yn bererinion eu hunain, a rhwystant bawb a allent. Am seguryd ac oferedd yr oeddynt eu hunain, a gwnaent bawb ereill a allent felly hefyd, gan eu dysgu gyda phob-peth i rysygu meddwl yr ymdarawent o'r goreu yn y diwedd. Yr oeddynt yn cysgu pan oedd Cristion yn myned heibio; yn awr, pan yr ydych chwi yn myned heibio, y maent yn nghrog.

**TRUGAREDD.** Ond a ddarsfu iddynt dueddu neb i fod o'r un syniad a hwy?

**DEWR-GALON.** Do, troisant lawer allan o'r ffordd. Perswadiasant Hwyrdrwm i wneuthur fel hwythau. Llwyddasant hefyd i gael Byr-anadl, Digalon, Llercian-ar-ol-trachwaut, Pen-gwsg, a benyw ieuanc o'r enw Hurt, i droi allan o'r ffordd a bod fel hwythau. Heblaw hyny, rhoisant anair i'ch Harglywydd, gan berswadio ereill mai Meistr caled ydoedd. Dygasant hefyd anair i'r wlad dda, gan ddyweddyd nad oedd hanner cystal ag yr haerai rhai ei bod. Dechreuanant hefyd enllibio ei weision, a chyfrif y rhai goreu o honynyt yn ymyrwyr rhodreslyd a blinion. Yn mhellach, galwent fara Duw, Cibau; pleserau ei blant, Dychymygion; a theithiau a llafur y pererinion, Pethau diles.

**CRISTIANA.** Ah! ebe Cristiana, os dyna'r fath rai oeddynt, ni chwynaf iddynt byth mwyach: ni chawsant ond yr hyn a haeddasant; ac yr wyf fi yn barnu mai da yw eu bod yn sefyll can agosod i'r brif-ffordd, fel y gallo ereill eu gweled a chymeryd rhybudd. Ond, onid da fuasai pe cerfiesid eu troseddau ar ryw lasn o haiarn neu bres, a'i daael yma lle gwnaethant eu drygau, er rhybudd i ddyhirwyr ereill?

**DEWR-GALON.** Felly y mae, fel y gellwch weled, ond i chwi fyned yn nes i'r mur.

**TRUGAREDD.** Na, na; gad iddynt hongian, eu henwau hydru, a'u camweddau fod byth yn fyw yn eu herbyn. Yr wyf fi yn ei hystyried yn ffafri fawr iddynt gacl eu

gi cyn i ni ddyfod yma; canys pwy a wyr beth a aethent i wragedd truain fel nyni. Yna troes ef ar , fel hyn :—

Y tri wyr hyn yn nghrog y sydd,  
Yn rhybudd dwys bob nos a dydd,  
I'r rhai sy'n uno yn y tir  
Yn erbyn dylanwadau'r gwir.

Ofned pawb fath ddiwedd du,  
Nas cár y pererinion cu;  
A gochel di, fy enaid gwiw,  
Wrth'nebwyr pur santeiddrwydd Duw.

Nel hyn yr aethant yn mlaen hyd oni ddaethant at ed brym Anhawsdra, lle cymerth eu cyfaill Mr. Dewron achlysur drachefn i adrodd iddynt yr hyn a ddyddasai pan aethai Cristion ei hun heibio. Felly odd hwynt yn gyntaf at y ffynnon. Wele, eb efe, na y ffynnon o ba un yr yfodd Cristion cyn myned i u y brym hwn : yr oedd hi yn loyw ac yn dda y pryd uw; ond yn awr y mae yn fudr oddiwrth draed rhyw nad ydynt yn fodlon i'r pererinion dori eu syched o i, Ezec. 34. 18, 19. Ar hyn Trugaredd a ddywedodd, l' paham y maent mor genfigenus? Ond, ebe'r einydd, gwna'r tro eto, ond ei godi a'i ddodi mewn tr glân, ac yna y llaid a sudda i'r gwaelod, a'r dwfr a w allan yn loywach. Ac fel hyn y gorfu i Gristiana chyfeillion wneuthur. Cymerasant ef i fynu, a dodant ef mewn llestr pridd, gan ei adael i sefyll nes suddo llaid a'r dom i'r gwaelod, ac wedi hyny yfasant o i o.

În nesaf danghosodd iddynt y ddaau drawslwybr ag dynt wrth droed y brym, lle y collodd Ffurfioldeb a agrith eu hunain. Y rhai hyn ydynt lwybrau perus, eb efe. Collwyd dau yna y man hwn pan oe ld stion yn myned heibio; ac er fod y ffyrdd hyn ar ol iy, fel y gwelwch, wedi eu cau i fynu â chadwynau, it, a ffos, eto y mae rhai a ddeuisant yn hytrach urio yma na chymeryd poen i ddringo y brym hwn.

**CRISTIANA.** "Ffordd troseddwyr sydd galed," Diar. 13. 15. Mae yn rhyfedd eu bod yn gallu myned i'r ffydd hyn heb berygl o dori eu gyddfa.

**DEWR-GALON.** Mynant anturio; ie, os un amser y dygwydd i un o weision y Brenin eu gweled, galw arnynt, a dywedyd wrthynt, Nid ydych ar yr iawn ffordd, gan erchi iddynt ystyried eu perygl; yna atebant ef yn drahuas, a dywedant, "Am y gair a lefaraist ti wrthym ni yn enw y Brenin, ni wrandawn ni arnat; ond gan wneuthur y gwnawn ni bob peth a'r a ddelo allan o'n genau," Jer. 44. 16, 17. Hefyd, os edrychwch dilyn pellach, gellwch weled fod y ffydd hyn wedi eu gwneud yn gauedig ddigon, nid yn unig â physt, ffos, a chadwen, ond hefyd trwy eu bod wedi eu cau â chloddiau: eto, er y cyfan, dewisant fyned yno.

**CRISTIANA.** Segur ydynt; nid hoff ganddynt lafur; rhiwiau ydynt anhyfryd ganddynt. Felly cyflawnir iddynt yr hyn a ysgrifennyd, "Ffordd y diog sydd fel cae drain," Diar. 15. 19. Ie, dewisant yn hytrach rodio ar faglau na myned i fynu y bryn hwn, a'r rhan sy'n ol o'r ffordd i'r Ddinas.

Yna aethant yn mlaen, a dechreuasant fyned i fynu y bryn, ac i fynu yr aethant. Ond cyn cyrhaedd o honynyt ei gopa, dechreuodd Cristiana ddyheu, a dywedodd, Diau fod hwn yn fryn tyn i'r anadl; nid rhyfedd fod y rhai sy'n hoffi eu hesnwythdra yn fwya na'u heneidiau yn dewis ffordd esmwythach. Yna ebe Trugaredd, Rhaid i mi eistedd i lawr: a'r lleiaf o'r plant hefyd a ddechreuodd lesain. Deuwch, deuwch, ebe Dewr-galon, nac eisteddwch i lawr yma; canys ychydig yn uwch y mae gwydd-babell y Tywysog. Yna cymrodd y bachgenyn yn ei law, ac arweiniodd ef i fynu iddo.

Gwedi cyrhaedd o honynyt y gwydd-babell, parod iawn oedd ynt i eistedd i lawr; canys yr oedd ynt oll yn boeth iawn. Yna ebe Trugaredd, "Mor felus yw gorffwysfa i'r blinderog," Mat. 11. 28, ac mor dda yw Tywysog pererinion am barotoi y fath orphwys-leoedd iddynt! Clywais lawer o son am y gwydd-babell hon; ond nis gwelais hi erioed o'r blaen. Ond gochelwn gysgu yma:

oblegyd costiold hyny, fel y clywais, yn ddrud i Gristion druan.

Yna ebe Mr. Dewr-galon wrth y rhai bychain, Deuwch, fy mechgyn heirdd, pa fodd yr ymdeiniwlwch? beth dybygech chwi yn awr o fyned ar bererindod? Syr, ebe y lleiaf, yr oeddwn bron a digaloni; ond diolchwyf i ti am fy nghynorthwyo wrth raid. A choflaf yn awr yr hyn a ddywedodd fy mam wrthyf, sef, fod y ffordd i'r nef yn debyg i ysgol, a'r ffordd i uffern fel ar i waered. Ond gwell genyf fi ddringo yr ysgol i'r bywyd, na myned y gorwaered i angau.

Yna ebe Trugaredd, Y ddihareb yw, Hawdd teithio ar i waered. Ond ebe Iago (canys dyna oedd ei enw), Mae'r dydd yn dyfod, yn ol fy marn i, pan y bydd myned i lawr y gwaered y gwaith caletaf o'r cwbl. Dyna fachgen da, ebe ei Feistr; rhoddaist iddi atebiad iawn. Yna gwenodd Trugaredd, ond gwridodd y bachgenyn.

**CRISTIANA.** Deuwch, ebe Cristiana, a fwytewch chwi damaid, ychydigyn i flasu eich genau, tra'r eisteddod yma i esmywythâu eich aelodau? canys mae genyf yma ddarn o bomgranad, yr hwn a roddodd Mr. Deonglwr yn fy llaw pan oeddwn yn dyfod allan o'i dy: rhoddodd i mi hefyd ddernyn o ddil mîl, a chostrel fechan o wirod. Tybiais ei fod yn rhoddi rhywbeth i ti, ebe Trugaredd, am iddo dy alw o'r neilldu. Do, felly y gwnaeth, ebe y llall; ond, ebe Cristiana, caiff pobpeth fod fel y dywedais y byddai cyn cychwyn oddicartref, y cai di fod yn gyfranog o bob-peth da fydd genyf fi, am i ti mor ewyllysgar ddyfod yn gydymaith i mi. Yna rhoddes beth iddynt, a hwy a fwytasant, Trugaredd a'r plant hefyd. A Cristiana a ddywedodd wrth Mr. Dewr-galon, Syr, a wnai di fel ninau? Ond efe a atebodd, Yr ydych chwi yn myned ar bererindod, a minau a ddychwelaf yn fuan; lles mawr i chwi a wnelo yr hyn sy genych: yr wyf beunydd yn bwyta yr un peth gartref. Yn awr, wedi iddynt fwyta ac ymddyddan beth ychwaneg, eu harweinydd a ddywedodd wrthynt, Mae'r dydd yn darfod; os gwelwch yn dda, gadewch i ni barotoi at gychwyn. Felly codasant i fyned ymaith, a'r bechgyn bychain a aethant o'u

blaen; ond anngofiodd Cristiana gymeryd ei chostrel o wirod i'w chanlyn, felly danfonodd ei bachgenyn yn o i'w chyrchu. Yna ebe Trugaredd, Meddyliwyf mai lle colledus yw y man hwn. Yma y collodd Cristion ei blyg-lyfr, ac yma gadawodd Cristiana ei chostrel ar ei hol: syr, beth yw'r achos o hyn? Felly eu harweinydd gan ateb a ddywedodd, Yr achos yw cwsg, neu annghof: mae rhai yn cysgu pan ddylent fod yn effro, a rhai yn anghofio pan ddylent gofio; a hwn yw'r gwir achos fod pererinion yn aml yn dyfod o'r gorlhwys-leoedd yn goll-edwyr mewn rhywbeth neu gilydd. Dylai pererinion wyliau dan eu mwynhad penaf, a chofio'r hyn a dderbyniasant eisoes; eithr o ddiffyg gwneuthur hyn, mae eu gorfoedd yn fynych yn terfynu mewn dagrau, a'u heulwen mewn cwmwl; tyst o hyn yw hanes Cristion yn y lle hwn.

Gwedi eu dyfod i'r lle y cyfarfuasai Digred ac Ofnog â Christion, i'w berswadio i droi yn ol rhag ofn y llewod, canfuant megys esgynlawr; ac, ar yr ochr nesaf i'r ffordd, yr oedd llechfaen lydan o'i flaen, a phennill yn gerfiedig arni, ac o dano yr achos y codwyd yr esgynlawr yn y lle o'i herwydd. Y pennill oedd fel hyn:—

Yr hwn a welo'r golofn yma,  
Ar dy air a'th galon gwylia,  
Rhag dy wneud yn rhybudd diliys  
Fel y rhai aeth heibio eisys.

Y geiriau islaw'r pennill oedd y rhai hyn —“Yr esgynlawr hwn a gyfodwyd i gospi arno y sawl, trwy ofn ac anymddiried, a ofnant fyned yn mhellach ar bererindod. Hefyd, ar yr esgynlawr hwn y llosgwyd Digred ac Ofnog trwy eu tafodau â haiarn poeth, am geisio atal Cristion ar ei daith.

Yna ebe Trugaredd, Hyn sydd debyg iawn i ymadrodd yr Anwylyd, “Beth a roddir i ti, neu pa beth a wneir i ti, tydi dafod twyllodrus? Llymion saethau cawr, yn nghyda marwor meryw,” Psal. 120. 3, 4.

Felly aethant yn mlaen nes dyfod o honiynt i olwg y llewod. Yn awr yr oedd Mr. Dewr-galon yn wr cadarn

nerthol, ac felly nid oedd arno ofn llew. Ond eto, wedi dyfod o honynt i'r man lle'r oedd y llewod, da oedd gan y bechgyn, ag oeddynt cyn hyn yn myned o'r blaen, gael llechian ar ol, am fod arnynt ofn y llewod ; felly yn ol yr aethant. Ar hyn gwenodd eu harweinydd, a dywedodd, Pa fod, fy mechgyn, yr hoffwch fyned o'r blaen pan nad oes perygl yn agos, ac y cerwch fod ar ol can gynted ag yr ymddengys y llewod ?

Fel yr oeddynt yn myned yn mlaen, tynodd Mr. Dewr-galon ei gleddyf allan, gyda bwriad i wneuthur ffordd i'r pererinion er gwaethaf y llewod. Yna ymddanghosodd un, yr hwn, tebygol, a gymerasai arno y gorchwyl o bleidio'r llewod ; a dywedodd wrth arweinydd y pererinion, Paham y daethost yma ? Yn awr enw'r gwr hwnnw oedd Cuchiog, neu Gwr Gwaedlyd, oblegyd ei fod yn lladd pererinion ; ac yr oedd efe o hiliogaeth y cawri.

**DEWR-GALON.** Yna ebe arweinydd y pererinion, Y gwragedd a'r plant hyn ydynt yn myned ar bererindod, a dyma'r ffordd y rhaid iddynt fyned ar hyd-ddi ; a myned a gânt er dy waethaf di a'r llewod.

**CUCHIOG.** Nid hon yw eu ffordd, ac ni chânt fyned ar hyd-ddi. Daethum i'w gwrthwynebu, ac i'r dyben hwnnw cefnogaf y llewod.

Yn awr, a dywedyd y gwir, yr oedd y ffordd hon yn ddiweddar, oblegyd ffyrnigrwydd y llewod, a sarugrwydd eu cefnogwyr, wedi myned yn dra annhramwyol, a glas-wellt wedi tyfu drosti oll yn mron.

**CRISTIANA.** Yna ebe Cristiana, Er i'r prif-fyrrd fyned yn anhygrych hyd yma, ac er gorfod i'r fforddolion gerdded llwybrau ceimion, ni chaiff fod felly yn awr—yr wyf fi wedi cyfodi yn fam yn Israel, Barn. 5. 6, 7.

**UCHIOG.** Yna tyngodd myn y llewod y ca fod felly, ac am hyny parai iddynt droi draw, oblegyd na chaent le i ddyfod y ffordd hòno.

Ond Dewr-galon eu harweinydd a ddynesodd yn gyntaf at Cuchiog, ac a ymosododd mor ddwys arno â'i gleddyf, fel y gorfu iddo gilio yn ol.

**UCHIOG.** Yna ebe pleidiwr y llewod, A leddi di fi ar fy uhir fy hun ?

**DEWR-GALON.** Yn mhrif-ffورد y Brenin yr ydym, a yn ei ffورد ef y gosodaist y llewod; ond y gwragedd a'r plant hyn, er eu bod yn weiniaid, a gânt ddal eu ffورد er gwaethaf dy lewod. Ac ar hyn rhoddes ergyd di-gellwair iddo drachefn, ac a'i dygodd ar ei himau. Gyda' un ergyd hefyd y torodd ei helm ef, a ehyda'r nesaf y torodd ei fraich ymaith. Yna rhuai y cawr mor erchyll, fel y brawychwyd y gwragedd gan ei lais ef, ac eto yr oedd yn llawen ganddynt ei weled yn ymdrybaeddu ar y llawr. Yn awr yr oedd y llewod mewn cadwynau, ac am hyny nis gallent wneuthur dim eu hunain. Bellach, wedi marw'r hen Guchiog, yr hwn a safai drostynt, dywedodd Mr. Dewr-galon wrth y pererinion, Deuwch yn awr, dilynwch fi, ac ni ddygwydd i chwi ddim niwaid oddiwrth y llewod. Felly aethant yn mlaen, ond crynai y gwragedd wrth syned heibio iddynt; ac ymddanghosai y bechgyn hefyd fel pe buasent ar drengu; ond aethant heibio oll heb ychwaneg o niwaid.

Yn awr, pan yn ngolwg ty'r Porthor, daethant yn fuan i fynu ato; ond gwnaethant fwy o frws i'w gyrhaedd, am fod yn beryglus ymdeithio yno yn y nos. Felly wedi eu dyfod at y porth, curodd eu harweinydd, a gofynnodd y Porthor, Pwy sydd yna? Ond can gynted ag y dywedodd yr arweinydd, Myfi, adnabu ei lais, a daeth i waered; canys hebryngasai bererinion lawer gwaith o'r blaen. Wedi dyfod o hono i lawr, agorodd y porth; ac yn gweled yr arweinydd yn sesyll o'i flaen (canys ni chanfyddodd y gwragedd, am eu bod o'i ol), gofynnodd iddo, Pa fodd yn awr, Mr. Dewr-galon? beth yw dy neges yma mor hwyr o'r nos? Atebodd yntau, Dygais rai pererinion yma, lle y rhaid iddynt letya heno yn ol gorchymyn fy Arglwydd. Buaswn yma er's meityn pe na's gwrthwynebasid fi gan y cawr a arferai gefnogi'r llewod. Ond, ar ol ymladdfa faith a blin, lleddais ef, a dygais y pererinion yma mewn diogelwch.

**PORTHOR.** Oni ddeui i mewn, ac aros hyd y boreu?

**DEWR-GALON.** Na ddeuaf, dychwelaif at fy Arglwydd heno.

**CRISTIANA.** O syr, nis gwn pa fodd i fod yn fodlon i

ti ein gadael ar ein pererindod, canys buost mor ffydd-lon a charedig i ni. Ymleddaist mor wrwl drosom, a chynghoraist ni mor felus, fel nad annghofiaf byth dy diriondeb tuag atom.

**TRUGAREDD.** Yna ebe Trugaredd, Oh nad allem gael dy gymdeithas hyd ben ein taith ! Pa fodd y gall y fath wragedd truaia a ni ddal allan yn y ffordd sydd mor llawn o beryglon a hon, heb gyfaill ac amddiffynwr ?

**IAGO.** Yna ebe Iago, yr ieuengaf o'r bechgyn, Atolwg, syr, cymer dy berswadio i ddyfod gyda ni, i'n cynorthwyo, oherwydd ein bod mor weiniaid, a'r fferdd mor beryglus.

**DEWR-GALON.** Yr wyf fi wrth orchymyn fy Arglywydd ; os efe a'm trefna i fod yn arweinydd i chwi hyd ben eich taith, deuaf gyda chwi yn llawen. Ond yn hyn y methasoch ar y cyntaf ; canys pan orchymynodd efe i mi ddyfod gyda chwi can belled a hyn, dylasech chwithau osyn iddo adael i mi ddyfod gyda chwi hyd y diwedd, a buasai yn caniatâu eich dymuniad. Modd bynag, rhaid i mi yn bresenol ymadael ; ac felly, anwyl Gristiana, Trugaredd, a'm bechgyn gwychion, byddwch iach !

Yna'r Porthor, Mr. Gwyliadwrus, a holai Gristiana yn nghylch ei gwlad a'i cheraint. Atebodd hithau, Daethum o Ddinas Dystryw. Gwraig weddw ydwyf, ac y mae fy mhriod wedi marw ; ei enw oedd Cristion y pererin. Beth ! meddai'r Porthor, ai'th briod di oedd efe ? Ië, ebe hithau, a'r rhai hyn ydynt ei blant ; a hon, gan gyfeirio at Drugaredd, sydd un o wragedd ein tref ni. Yna'r Porthor a ganodd y gloch, fel yr arferid ganddo ar y cyfryw achosion, a daeth un o'r llancesau at y drws, enw yr hon oedd Iselfryd ; a dywedodd y Porthor wrthi, Dos, dywed yn y ty fod Cristiana, gwraig Cristion, a'i phlant, wedi dyfod yma ar bererindod. Hithau a aeth i mewn, gan hynty, ac a hysbysodd. Oh, y fath swn llawen oedd oddimewn ar waith y llances yn yngan y newydd !

Felly daethant mewn brys mawr at y Porthor, canys yr oedd Cristiana yn sefyll yn llonydd wrth y drws. Yna'r rhai difrifolaf o honynt a ddywedasant wrthi, Tyred i mewn, Cristiana, tyred i mewn, tydi wraig y gwr

da hwnw ; tyred i mewn, tydi wraig fendigedig, tyred i mewn, yn nghyda'r rhai oll sydd gyda thi. Felly aeth i mewn, a dilynwyd hi gan ei phlant a'i chymdeithion. Yn awr wedi iddynt syned i mewn, arweiniwyd hwyt i ystafell éang iawn, lle y parwyd iddynt eistedd i lawr : felly yr eisteddasant, a galwyd y rhai penaf yn y ty i ymweled a'r dyfodiaid ac i'w croesawu. Yna daethant i mewn, ac wedi deall pwy oedd ynt, cysfarchasant bob un a chusan, a dywedasant, Croesaw i chwi, lestri gas Duw ; croesaw atom ni, eich cyfeillion.

Yn awr, am ei bod yn lled hwyr, a'r pererinion yn ddiffygol gan eu taith, ac yn llesg gan y golwg a gawsant ar yr ymladdfa ac ar y llewod arswydus, deisyfasant gael myned i orphwys mor fuan ag y byddai modd. Nagâ, ebe'r rhai oedd o'r teulu, ymgysnerthwch yn gyntaf a thamaid o gigfwyd ; canys parotoisant oen iddynt, a'r saws arferedig a berthynai iddo, Exod. 12. 21 ; Ioan 1. 29, oblegyd clywsai'r Porthor o'r blaen am eu dyfodiad, a mynegasai hyny i'r rhai oddimewn. Felly gwedi iddynt swpera, a gorphen eu gweddi gyda psalm, dymunasant gael myned i orphwys. Ond gadewch i ni, ebe Cristiana, os gallwn fod mor hyf a dewis, gael bod yn yr ystafell yr oedd fy mhriod ynddi pan oedd yma ; felly arweiniwyd hwyt i synu yno, a gorweddasant oll yn yr un ystafell. Pan yn gorphwys, dechreuodd Cristiana a Thrugaredd ymddyddan â'u gilydd yn nghylch rhyw bethau buddiol.

**CRISTIANA.** Ychydig a feddyliais unwaith, pan aeth fy mhriod gyntaf ar bererindod, y dilynaswn ef byth.

**TRUGAREDD.** A chan lleied a hyny y dysgwyliaist orwedd yn ei wely, a gorphwys yn ei ystafell, fel yr wyt yn awr.

**CRISTIANA.** A llawer llai a seddyliais y cawn weled ei wynelb ef gyda chysur, ac addoli yr Arglywydd, y Brenin, gydag ef ; ac eto yn awr credwyf y caf.

**TRUGAREDD.** Ust ! a glywi di ddim swn ?

**CRISTIANA.** Clywaf, a chredwyf mai swn cerddoriaeth ydyw o lawenydd ein bod yma.

**TRUGAREDD.** Rhyfeddol ! Cerddoriaeth yn y ty, cerddoriaeth yn y galon, a cherddoriaeth yn y nef hefyd, o

lawenydd am ein bod yma! Fel hyn y siaradent dros enyd, ac yna ymroisant i gysgu.

Felly yn y boreu, wedi iddynt ddeffroi, Cristiana a ddywedai wrth Drugaredd, Paham y chwerddais yn dy gwsg neithiwyd? Tybiwyf mai breuddwydio yr oeddit.

**TRUGAREDD.** Ie, a breuddwyd melus oedd; ond a ydwyt yn sicr i mi chwarddu?

**CRISTIANA.** Ydwyf, chwerddais yn uchel; ond atolwg, Trugaredd, adrodda dy freuddwyd i mi.

**TRUGAREDD.** Breuddwydias fy mod yn eistedd wrthyf fy hun mewn lle anngyfannedd, ac yn cwyno oherwydd caledwch fy nghalon. Nid hir y bu'm yn eistedd yno, cyn i luaws ymgasglu o'm hamgylch i'm gweled, ac i glywed yr hyn a ddywedwn. Felly gwrandawsant, a minau a aethum yn inlaen gan gwyno oherwydd caledwch fy nghalon. Ar hyn rhai o honynnt a chwarddent am fy mhen, ereill a'm galwent yn ynfyd, ac ereill a'm cilgwthient. Yna tybiais fy mod yn edrych i fynu, ac yn gweled un yn dyfod ataf ar adenydd. Felly daeth yn union ataf, a dywedodd, Trugaredd, pa beth sydd yn dy flino? Gwedi iddo glywed fy nghwyn, dywedodd, Tangnefedd i ti; sychai hefyd fy llygaid â'i napcyn, a gwisgai fi mewn arian ac aur, Ezec. 16. 8—11. Gosododd gadwen am fy ngwddf, clust-dlysau yn fy nghlustiau, a choron hardd ar fy mhen. Yna cymerodd fi erbyn fy llaw, a dywedodd, Trugaredd, canlyn fi. Felly aeth i fynu, a dilynais inau ef nes dyfod o honom at borth euraidd. Yna curodd; ac wedi i'r rhai oddimewn agoryd, aeth y gwr i mewn, a chanlynais inau ef i fynu at orseddfain, ar yr hon yr oedd un yn eistedd; ac efe a ddywedodd wrthyf, Croesaw, ferch. Ymddanghosai y lle yn ddysglaer a gogoneiddus, fel y ser, neu yn hytrach fel yr haul, a thybiais weled dy briod yno: felly dihunais o'm breuddwyd. Ond a chwerddais i?

**CRISTIANA.** Chwarddu! do, a hawdd y gallesit wrth weled dy hunan mor wych. Canys rhaid i ti adael i mi ddweyd fy mod yn credu mai breuddwyd da oedd; a chan i ti ddechreu profi y rhan gyntaf yn wirionedd, feli y cai brofi y rhan arall yn y diwedd. "Y mae Duw yn

Iachod oeddant ac eutyweddol oll n. ddeall oll trosedd a ddyr y wewigedollos oll ymddynganu a deunyddiwr hepar ar wellt ior oll. M. mae'r oll par yn en gwydr oeddant yn esiam. Trefod oeddant a Duw; gan ymwerth a n. par ymddynganu cyngor a phrif i'r ymddynganu gwyddol a hysb. M. mae'r oll par yn ddyr ymddynganu par y gwyddol. A gan Duw teitlwr wrth honno nad a dwyv esiam. Dwyr adiectoriaethau a dwyv arwyddon a dwyfeydymethol. Gwylm a phyddeu m'n ymddynganu.

**Tudalenau.** Wel, llawer wyl i'n breuddoeddol, mae pob oeddant y cal ei weled cyn i'r wed a gwylm a perni m'chwarddu oto.

**Cymru.** Barnwys fod yr hawl hryd i'n gali a chael gwybed beth sydd i ni ei wneuthurn.

**Tudalenau.** Atolwg, os cefnaint galynt aros o'r olyd, yd i'n dderbyn y gwahoddioad i'r ewyllysol. Yn egl ym toddloniach i aros, er mwyn cyhoed yz ym ymddyngollos i'r morwynion hyn; mae gan Dduesoldeb, Duwioldeb, a Charned wynebau lawdgar a gwyriadol hawn.

**Cymru.** Cawn weled beth a wlant.

Felly, wedi iddynt pystodi ac ymbarotoli. Cefnaint i hawl a galwansant i'w pilydd yn nghylch eu gorynwys-dro a odd ym gysurfa ar peidio.

**Tudalenau.** Cymru iawn, ebe Trumaredd: m. o'r m. i thithau enon a gelais ym fy holl fywyd yddeeid.

Aneb ebe Doethineb a Duwioldeb, Os cymherwch eich pernioldeb iawn, yma dros enyd, cewch yr hyn oill a all y lloedd amiaethu.

**Cymru.** Io, a hyny gyda phob ewyllys da, ebe Farbol!

Felly cydweithasant, ne arosasant yno yn nghylch mis o amser m'n ychwaneg; a buont o fudd mawr y naill i'r Hall. A chan ym ewyllysiai Doethineb weled pa fodd yr oedd i'r lloedd ym dwyn ei phlant i slyn, gofynai genad ymddyngol i'r hewyddon. Felly cydsyniodd hithau yn rheiddiol! Aneb dechreuodd gyda'r ieuengaf, enw yr hwn oedd lago.

DOETHINEB. Tyred, Iago, ebe hi, a fedri di ddywedyd wrthyf pwy a'th wnaeth ?

LAGO. Duw Dad, Duw Fab, a Duw Ysbryd Glan.

DOETHINEB. Dyna fachgen da. A fedri di ddywedyd wrthyf pwy a'th achubodd di ?

LAGO. Duw Dad, Duw Fab, a Duw Ysbryd Glan.

DOETHINEB. Dyna fachgen da eto. Ond pa fodd y mae Duw Dad yn dy achub di ?

LAGO. Trwy ei ras.

DOETHINEB. Pa fodd y mae Duw Fab yn dy achub di ?

LAGO. Trwy ei gyflawnder, ei waed, ei farwolaeth, a'i fywyd.

DOETHINEB. A pha fodd y mae Duw Ysbryd Glan yn dy achub di ?

LAGO. Trwy fy ngoleuo, fy adnewyddu, a fy nghynal ?

Yna ebe Doethineb wrth Gristiana, Yr ydwyt i'th gannol yn fawr am ddwyn dy blant i fynu yn y fath fodd. Nid rhaid i mi, meddyliwyf, ofyn y cwestiynau hyn 'r lleill, gan fod yr ieuengaf mor hyddysg ynddynt. Yn awr, gan hyn, cyfarchaf y nesaf ato.

DOETHINEB. Yna dywedodd, Tyred, Joseph (canye Joseph oedd ei enw), a roi di genad i mi dy holi ?

JOSEPH. O ewyllys fy nghalon.

DOETHINEB. Pa beth yw dyn ?

JOSEPH. Creadur rhesymol, a wnaed felly gan Dduw, fel y dywedodd fy mrawd.

DOETHINEB. Beth a feddyllir wrth y gair hwn, achub ?

JOSEPH. Fod dyn, trwy bechod, wedi dwyn ei hun i gyflwr o gaethiwed a thrueni.

DOETHINEB. Pa beth a feddyllir pan ddywedir ei fod yn cael ei achub gan y Drindod ?

JOSEPH. Fod pechod y fath ormesydd cadarn a galluog, na's gall neb ein gwared o'i grafangau ond Duw ; a bod Duw mor dda a charedig at ddyn, fel yr achuba ef o'r cyflwr truenus hwn.

DOETHINEB. Pa beth oedd dyben Duw yn achub dyn truenus ?

JOSEPH. Gogoneddu ei enw, ei ras, ei gyflawnder, &c., a dedwyddwch tragwyddol ei greadur.

ond un :—

DOETHINEB. Tyred, Samuel, a wyt ti yn fod dy holi dithau?

SAMUEL. Ydwys, yn wir, os gweli yn dda.

DOETHINEB. Pa beth yw nesoedd?

SAMUEL. Lle a chyflwr tra gwynfydedig, am yn preswylio yno.

DOETHINEB. Pa beth yw usfern?

SAMUEL. Lle a chyflwr tra thruenus, am ei drigle pechod, diafol, a marwolaeth.

DOETHINEB. Paham y dymunit fyned i'r nefoe

SAMUEL. Fel y caffwyf weled Duw, a'i wasana ddiffygio; fel y caffwyf weled Crist, a'i garu gwyddol; ac fel y caffwyf y fath gyflawnder o' Glan ynof, na's gallaf mewn un modd ei fwynhau

DOETHINEB. Dyna fachgen da, ac un a ddys dda hefyd.

Yna cysfarchodd yr hynaf, enw yr hwn oedd M ac a ddywedodd wrtho :—

DOETHINEB. Matthew, a gaf fi dy holi di?

MATTHEW. Cai, o ewyllys fy nghalon.

DOETHINEB. Gofynaf, ynte, a oedd rhyw beth : fod i o flaen Duw?

MATTHEW. Nac oedd i. oedd i'n mae Duw.

MATTHEW. Oes, lawer iawn.

DOETHINEB. Pa beth a wnai pan gyfarfyddi â manau na ddealli?

MATTHEW. Credwyf fod Duw yn ddoethach na mi. Byddaf hefyd yn gweddio arno am i mi gael gwybod pob peth y mae efe yn ei wybod a fydd er lles i mi.

DOETHINEB. Pa beth a gredi mewn perthynas i adgyfodiad y meirw?

MATTHEW. Credwyf y cysyd yr un rhai ag a gladdwyd; yr un o ran natur, er nad mewn llygredigaeth. Ac yr wyf yn credu hyny oherwydd dau reswm: yn gyntaf, am fod Duw wedi addaw hyny; yn ail, am ei fod yn alluog i gyflawni.

Yna ebe Doethineb wrth y bechgyn, Rhaid i chwi eto barhau i wrando ar eich mam; canys dichon ddysgu ychwaneg i chwi. Rhaid i chwi hefyd wrando yn ddyfal ar yr ymddyddanion daionus a glywoch gan ereill; canys er eich mwyn chwi y llefarant y pethau hyny. Sylwch hefyd, a hyny yn ddyfal, ar yr hyn y mae'r nefoedd a'r ddaear yn ei ddysgu; ond, yn enwedig, byddwch ddyfal i fyfyrto yn y llyfr hwnw fu yn achos o gychwyniad eich tad ar bererindod. Dysgaf chwi, fy mhlant, gymaint ag a allaf tra byddoch yma; a llawen iawn fydd genyf eich clywed yn gofyn i mi gwestiynau a dueddont at adeiladaeth dduwiol.

Yn awr, wedi i'r pererinion fod yn y lle hwn am wythnos, daeth un i ymweled â Thrugaredd, yr hwn a broffesai beth serch tuag ati, a'i enw ydoedd Mr. Gwisgi; dyn o ddygiad da i fynu, a chrefyddol yr olwg arno, ond dyn yn ymlyn u yn afaelgar iawn wrth y byd. Felly efe a ddaeth unwaith neu ddwy, neu ychwaneg, at Dru-garedd, gan gynyng ei charu. Yr oedd Trugaredd yn deg o bryd, ac am hyny yn fwy deniadol.

Yr oedd yn chwannog hefyd i fod yn wastad yn ddiwyd; canys, pan nad oedd ganddi ddim i'w wneuthur iddi ei hun, byddai yn gwau hosanau, a gwisgoedd ereill, i'w rhanu i'r rhai oedd mewn angen. A Mr. Gwisgi, heb wybod pa fodd, nac yn mha le yr ymadawai â'r hyn a wnelai, a syrthiai mewn cariad ati, am nad oedd un amser

yn ei chael yn segur. Diammau genyf y gwna hi wraig ragorol, meddai wrtho ei hun.

Yna Trugaredd a ddadguddiai ei helynt i ferchaid y ty, a holai hwyt yn ei gylch, oblegyd yr oeddynt hwy yn ei adnabod yn well na hi. Hwythau a ddywedasant wrthi, ei fod yn wr ieuanc diwyd, ac yn cymeryd arno fod yn grefyddol, ond ei fod, yr oeddynt yn ofni, yn ddyeithar i rym yr hyn sydd dda.

Os felly, ebe Trugaredd, nid edrychaf arno mwyach; oblegyd yr wyf yn penderfynu na chymeraf byth un a fyddo yn rhwystri i fy enaid.

Yna Doethineb a atebodd, nad oedd raid cael peth mawr i'w ddigaloni; canys os byddai iddi barhau fel y dechreusai, i weithio i'r tlodian, yr oerai hyny ei serchiadau yn fuan.

Felly y tro nesaf y daeth, casodd hi wrth ei hen orchwyl, sef, yn gwneuthur pethau i'r tlodian. Yna eb efe, Beth! wrtho yn wastad? Ié, ebe hithau, naill ai im' fy hun neu i ereill. Pa faint a fedri di ennill yn y dydd? eb efe. Yr wyf yn gwneuthur y pethau hyn, ebe hithau, fel y gallwyf ymgyofoethogi mewn gweithredoedd da, a thrysori i mi fy hun sail dda erbyn yr amser sydd ar ddyfod, fel y caffwyf afael ar y bywyd tragicyddol, 2 Tim. 6. 18, 19. Atolwg, ebe yntau, beth wyt yn ei wneuthur â hwyt? Dilladu y noeth, ebe hithau. A chyda hyn syrthiai ei wynebpryd. Felly peidiodd a dyfod ati drachefn. A phan ofynwyd iddo yr achos, dywedai, Mae Trugaredd yn llances brydferth, ond o amgylchiadau isel.

Gwedi iddo ei gadael, ebe Doethineb, Oni ddywedais wrthyt y gwrthodai Mr. Gwisgi di yn fuan? ie, rhydd anair i ti; canys er ei fod yn ymddangos yn grefyddol, ac fel pe byddai yn caru Trugaredd, er hyny y mae Trugaredd ac yntau o dymherau mor wahanol, fel yr wyf yn credu na ddeuant byth yn nghyd.

**TRUGAREDD.** Gallaswn gael gwyr cyn hyn, er na soniais am hyny wrth neb; ond nid oeddynt yn hoffi fy ammodau, er nad oedd un o honiynt yn canfod bai ar fy mherson. Felly nis gallent hwy a minau gytuno.

**DOETHINEB.** Ni wneir yn ein dyddiau ni ond ychydig gyfrif o Drugaredd ond yn unig o'i henw: nid oes ond ychydig yn cymeraidwyo yr ymarferion a osodir allan yn dy ammodau.

**TRUGAREDD.** Wel, ebe Trugaredd, os na chymer neb fi, byddaf farw heb briodi, neu bydd fy ammodau i mi yn lle gwr; canys ni allaf byth newid fy natur: cymeryd un a fydd o duedd hollol groes i mi yn hyn! na, ni wnaf hyny tra byddwyf byw. Yr oedd genyf chwaer, a'i henw Haelionus, yr hon a briododd un o'r rhai taiogaidd hyn; eithr nid oedd efe a hithau un amser yn cytuno; ond gan fod fy chwaer yn penderfynu myned yn mlaen fel y dechreuaasai, hyny yw, i ddangos tiriondeb at y tlawd, am hyny ei gwr a'i cyhoeddodd wrth y groes yn gyntaf, ac wedi hyny a'i trodd hi dros y drws.

**DOETHINEB.** Ac eto yr oedd yn broffeswr crefydd, mi warantaf.

**TRUGAREDD.** Oedd, o'r fath ag ydoedd, ac o'r fath hefyd ag y mae y byd yn awr yn llawn: ond nid wyf fi am yr un o honyn oll.

Yn awr cymerwyd Matthew, mab hynaf Cristiana, yn glaf, a'i afiechyd oedd drwm arno; canys yr oedd poen dirfawr yn ei ymysgaroedd. Yr oedd hen physygwr profedig yn preswylio nid yn mhell oddiyno, o'r enw **Mr. Medrus**. Felly Cristiana a ddymunodd ei gael, danfonasant am dano, a daeth. Wedi iddo ddyfod i'r ystafell, a sylwi ychydig ar y bachgen, barnodd ei fod yn glaf o'r cnofeydd. Yna gofynodd i'w fam, Pa luniaeth yr ymborthasai Matthew arno yn ddiweddar? Lluniaeth! ebe Cristiana, ni chafodd ddim ond oedd yn iachus. Y meddyg a atebodd, Mae'r bachgen hwn wedi ymyryd â rhyw beth sydd yn aros heb ei dreulio yn ei gylla, ac nis gellir ei gael ymaith ond trwy foddion. A dywedaf wrthych, fod yn rhaid carthu ei gylla, onidê efe a fydd marw.

**SAMUEL.** Yna, ebe Samuel, Fy mam, beth oedd yr hyn a gasglodd ac a fwytaodd fy mrawd can gynted ag y daethom oddiwrth y porth sydd yn mhen y ffordd hon? Gwyddoch fod yno berllan ar y llaw chwith, yr ochr arall

Prifur, a bod rhai o'r oed yn crogi drosodd, a'm brawd  
gymreol i o houyn ac a fwytaodd.

**CRISTIANA.** Gwir, fy miliantyn, ebe Cristiana, efe i  
symud i ac a fwytaodd o Lexo : ceryddais y bachgen  
drwg er i'ny i'w yta a fyrai.

**MEDRUS.** Gwybod iwn iddo fwyta rhywbeth nad oed  
iachus; a'i ymddyb hawl, sei, y ffirwyth yna, yw i  
lwyf i'w wellt i o'r cwbl. Firwyth perllan Belzebub  
y lwyf. Higylchiwyf na buasai rhyw un yn dy rybuddu  
yt ei lyth: Un anryw feirw o'i herwydd.

**CRISTIANA.** Yla dechretoedd Cristiana wylo, a dywalli,  
Oha, fachgen drwg! Oh, fam ddiotal! Beth a wnaf i i  
mab?

**MEDRUS.** Tyred, na fydd ry ddigalon : gall y bachgen  
delyfol yn iach eto, ond rhaid ei gael i ysgarthu a  
chwydn.

**CRISTIANA.** Atolwg, syr, gwna dy oreu iddo, costied:  
gostio.

**MEDRUS.** O na, gofeithiwyf y byddaf resymol. Felly  
gwnaeth iddo garthlyn, ond yr oedd yn rhy wan; dy-  
wedid y'i wneuthur o waed geifr, lludw anner, ac ychydig  
o sylbi isop, Heb. 9. 13, 19; 10. 1—4. Pan welodd  
Mr. Meirion fod y carthlyn yn rhy wan, gwnaeth un  
cryfach iddo. Gwnaed ef *ex carne et sanguine Christi*,<sup>\*</sup>  
Llan 6. 54—57; Heb. 9. 14 (gwyddoch fod meddygon yn  
rhodli enwau dycieithrol ar eu cyffyrâu i'w clefion); a  
gwnaeth hwn i fynu yn beleni, gydag addewid neu ddwy,  
a mesur cyfatebol o halen, Marc 9. 49. Yn awr yr oedd  
efe i gymeryd tair o houyn ar unwaith, ac ar ei gyth-  
lwnz, mewn lanner chwarter peint o ddagrau editeirwch,  
Zech. 12. 10.

Gwedi paratoi y cyffyr hwn, a'i ddwyn i'r bachgen, yr  
oedd yn anewyllysgar iawn i'w gymeryd, er ei fod yn  
cael ei ddirdynu gan y enoseydd, fel pe buasai ar gael ei  
rwygo yn ddarnau. Tyred, tyred, ebc'r physygwr, rhaid  
i ti ei gymeryd. Y mae yn wrthwynebus i fy nghylla,  
ebe'r bachgen. Rhaid i mi gael genyt ei gymeryd, ebe ei

\* Yn Gymraeg, -- O gorff a gwaed Crist.

sam. Mi a'i chwydaf ef i fynu drachefn, ebe'r bachgen. Atolwg, syr, ebe Cristiana wrth Mr. Medrus, pa flas sydd arno? Nid oes dim blas drwg arno, meddai'r meddyg; a chyda hyn cyffyrddodd ag un o'r peleni â blaen ei thafod. Oh, Matthew, meddai, mae'r cyffyr hwn yn felusach na mîl. Os wyt yn caru dy sam, os wyt yn caru dy frod yr, os wyt yn caru Trugaredd, ac os wyt yn caru dy einioes dy hun, cymer ef. Felly, wedi llawer o drafferth, ac ar ol gweddi fer am fendith Duw arno, efe a'i cymerodd, a gweithiodd arno yn esmwyth. Gweithiodd yn effeithiol; parodd iddo gysgu a gorffwys yn dawel; gosododd ef mewn gwres hyfryd a chwys cymhedrol, a rhoes ymwared llwyr iddo o'r cnofeydd. Felly yn mhen ychydig amser dechreuodd godi, rhodio o amgylch ar bwys ei ffon, a myned o ystafell i ystafell, gan ymddyddan â Doethineb, Duwioldeb, a Chariad, yn nghylch ei afiechyd, a pha fodd yr iachawydd ef.

Gwedi gwella o'r bachgen, Cristiana a ofynodd i Mr. Medrus, gan ddywedyd, Syr, pa beth a'th foddlona am dy lafur a'th ofal yn fy nghylch i a'm mab? Yntau a ddywedai, Rhaid i ti dalu i Ben-athraw Ysgol y Physyg-wyr, Heb. 13. 11—15, yn ol y rheolau a wnaed ac a ben-derfynwyd arnynt mewn achosion o'r fath.

**CRISTIANA.** Ond, syr, ebe hi, i ba beth arall y mae'r peleni hyn yn llesol?

**MEDRUS.** Peleni cyffredinol ydynt; y maent yn dda yn erbyn pob afiechyd ag y mae pererinion yn agored iddo; a phan y byddont wedi eu parotoi yn iawn, cadw-ant heb lygru am amser hirfaith.

**CRISTIANA.** Atolwg, syr, gwna i mi ddeuddeg blychaid o honyn; canys, os gallaf gael y rhai hyn, ni chymeraf physygwriaeth arall byth.

**MEDRUS.** Mae'r peleni hyn yn llesol er atal afiechyd, yn gystal ag er iachâu y claf. Ié, meiddiaf ddywedyd, a safaf ato, os defnyddia gwr y physygwriaeth hwn fel y dylai, y gwna iddo fyw yn dragwydd, Ioan 6. 58. Ond Cristiana anwyl, rhaid i ti beidio rhoddi y peleni hyn mewn un ffodd arall ond fel y danghosais i ti; canys os gwnai, ni wnat ddim lles. Felly rhoddodd i Gristiana

DEUODDEDDAN RHWYD DOETHINER A MATTHEW.

MATTHEW. Hili ei hwn i phiant, a Thrugaredd: a  
Lloegr. Matthew gwrw i gofiai pa fudi y bwytai eiriau  
gyrrawd i'r unig. M'wedi ei eusau hwynt, ymadau-  
dil i'r ddeuddeg.

DOETHINER. Yn hynny o'r blaen. I Ddoethinereb orhymyn  
yng Nghymru, mae'r rhwymedd yng Nghymru'n hawl y pryd y  
mae'n hawl i'r ddeuddeg o'r unig i'r arddioen iddynt.

MATTHEW. Yn Lloegr, yd iawn a fusai glaf, a ofyn-  
od i'r blant. Paham y byddai physgyrniaeth fod yn chwech  
i'r ddeuddeg i'r ddeuddeg?

DOETHINER. I ddangos mor iârresaw yw gair yr  
Lloegr yng Nghymru gan gynnwys grawdol.

MATTHEW. Paham y mae physgyrniaeth, os bydd yn  
gyrrawd i'r unig, yr yd i'r ymarlwm a chwylid?

DOETHINER. I ddangos fod y mair, gan y mae'n gweithio  
yr effeithiol, yr gwaithau y golen a'r meddiwl. Obledig  
sy'n yd i'r unig i'r unig i'r corff, a wna'r llall i'r  
unig.

MATTHEW. Beth a allwn ddysgu wrth weled ffiam y  
din, yr esgyn i fynd, a pherfylir yr haul a'i ddyylanwadau  
bychain i'r hysyn? Whereidi?

DOETHINER. Ddyry fod y ffiam yn myned i fynu, y  
dysgw i'r esgyn i'r nethedol mewr erbynau gwresog a  
thannerol. Wedi fod yr haul yn amon ei wres, ei bel-  
ydrifau, a'i ddyylanwadau bychain i'r waered, y gallwn ddysgu  
fod lacharwisiau y bychain er ei fod yn uchel, yn cyrhaedd i  
lawr aeron ac yn ymddyriad a'i cas.

MATTHEW. O'r ha le y mae'r cymylau yn cael eu  
dwi?

DOETHINER. O'r hynny.

MATTHEW. Beth a allwn ddysgu oddiwrth hynny?

DOETHINER. Y dylai gweinidogion gyrchu eu hathraw-  
aeth oddiwrth Duuw.

MATTHEW. Paham y maent yn ymarllwys ar y ddaear?

DOETHINER. I ddilmos y dylai gweinidogion roddi allan  
i'r byd yr hyn a wylldant am Duuw.

MATTHEW. Paham y cynyrcfir yr enfsys gan yr haul?

DOETHINER. I ddangos fod cysammord gras Duuw wedi  
ei gwisgo i ni yn Ngrhist.

MATTHEW. Paham y mae'r ffynhonau yn dyfod o'r môr i ni trwy'r ddaear?

DOETHINEB. I ddangos fod gras Duw yn dyfod i ni trwy gorff Crist.

MATTHEW. Paham y mae rhai o'r ffynhonau yn tarddu allan o benau y bryniau uchel?

DOETHINEB. I ddangos y bydd i ysbryd y gras darddu allan mewn rhai ag ydynt fawr a galluog, yn gystal ag mewn llawer o'r rhai sydd dlodion ac isel.

MATTHEW. Paham yr ymeifl y tân yn mhabwyryn y ganwyll?

DOETHINEB. I ddangos na bydd gwir oleuni y bywyd ynom, oddieithr i ras gyneu yn y galon.

MATTHEW. Paham y treulia'r pabwyrynn, y gwer, a'r cyfan, i gynal goleuni yn y ganwyll?

DOETHINEB. I ddangos y dylai corff ac enaid, a'r cyfan, fod at wasanaeth gras Duw yr hwn sydd ynom, ac ymdreulio i'w gadw mewn cywair da.

MATTHEW. Paham y mae'r pelican yn gwânu ei dwyfron ei hunan â'i chilfin?

DOETHINEB. I fagu ei chywion â'i gwaed, ac felly i ddangos fod Crist, y Bendigedig, yn caru ei rai bychain (ei bobl), fel ag i'w hachub rhag marwolaeth trwy ei waed.

MATTHEW. Pa beth a all un ei ddysgu trwy glywed ceiliog yn canu?

DOETHINEB. Dysgu cofio pechod ac edifeirwch Pedr. Mae caniad y ceiliog yn dangos hefyd fod y dydd yn agosâu: bydded i ganiad y ceiliog, gan hynny, adgoffa i ti ddiwrnod ofnadwy y farn ddiweddaf.

Tua'r amser hwn yr oedd eu mis ar ben; am hynny rhoddasant ar ddeall i deulu'r ty mai gweddus iddynt oedd parotoi i fyned ymaith. Yna, ebe Joseph wrth ei fam, Fy mam, cymhwys i ti beidio anngofio anfon i dy Mr. Deonglwr, i erfyn arno anfon Mr. Dewr-galon atom, i fod yn arweinydd i ni y rhan sydd yn ol o'r ffordd. Da, fy machgen, ebe hithau, bu agos i mi anngofio. Felly lluniodd ddeiseb, a deisysfodd ar Mr. Gwyliadrws, y northor. ei anfon yn llaw swr cymhwys at ei chvfaill da

## 246 Y PETHAU A DDANGHOSWYD I'R PERERINION.

Mr. Deonglwr ; yr hwn, wedi ei dderbyn, ac edrych ei gynhwysiad, a ddywedai wrth y genad, Dos, dywed wrthynt yr anfonaf ef.

Pan welodd y teulu lle'r oedd Cristiana ei bod ar fedr cychwyn, galwasant yr holl ddeiliaid yn nghyd i dalu diolch i'w Brenin am anfon atynt y fath letywyr buddiol a'r rhai hyn. Gwedi darfod hyn, dywedasant wrth Cristiana, Oni chawn ddangos i ti ryw bethau, yn ol ein harfer i bererinion, i fyfyrion ar y ffordd? Felly cymerasant Cristiana, ei phlant, a Thrugaredd, i gell fechan, ac a ddangosasant iddynt un o'r afalau a fwytasai Efa o honynt, ac a roddasai hefyd i'w gwr, ac o achos bwyta pa rai y tröwyd hwy ill dau allan o Baradwys; a gofynasant iddi, Pa beth a dybi yw hwnw? Yna ebe Cristiana, Bwyd neu wenwyn ydyw, nis gwn pa un. Felly eglurasant y mater iddi, a hithau a gododd i fynu ei dwylaw ac a ryfeddodd, Gen. 3. 6 ; Rhuf. 7. 24.

Yna aethant a hi i fan, ac a ddangosasant iddi ysgol Jacob, Gen. 28. 12. Dygwyddodd ar y pryd fod angelion yn esgyn ar hyd-ddi. Yna Cristiana a edrychai eilwaith ac eilwaith ar yr angelion yn myned i fynu; felly gwnai y gweddill o'r cwmni. Pan oeddynt yn myned i le arall i ddangos rhyw bethau yn ychwaneg, dywedai Iago wrth ei fam, Atolwg, arch iddynt aros yma ychydig yn hwy, canys ardremfa hynod yw hon. Felly troisant yn ol, a safasant i borthi eu llygaid â golygfa mor ddymunol, Ioan 1. 15.

Ar ol hyn dygasant hwy i fan lle yr oedd angor aur yn crogi. Felly archasant i Cristiana ei thynu i lawr; canys chynt hwy, Cewch hi gyda chwi, am ei bod yn angen-rheidiol anhebgorol i chwi, fel y cymeroch afael yn yr hyn sydd o'r tumewn i'r llen, Heb. 6. 19, ac y safoch yn ddiysgog os dygwydd i chwi gyfarfod â thywydd garw, Joel 3. 16; felly llawen oeddynt o'i herwydd.

Gwedi hyny cymerasant hwy i'r mynydd y bu ein tad Abraham yn offrymu Isaac ei fab arno, a dangosasant iddynt yr allor, y coed, y tân, a'r gyllhell, canys y maent yno i'w gweled hyd y dydd hwn, Gen. 22. 9. Pan welsant hyn, codasant eu dwylaw, gan ymfendigo, a dy-

wedyd, Oh ! y fath wr o ran cariad at ei Feistr, a gwadiad ato ei hun, oedd Abraham !

Ar ol iddynt ddangos yr holl bethau hyn, arweiniodd Doethineb hwy i ystafell-giniaw, lle yr oedd offerynau cerdd rhagorol ; felly dechreuodd chwareu arnynt, a throi yr hyn a ddangosasai iddynt i'r gân ragorol hon :—

Dangos wnaed iwch' afal Efa,  
 Cym'r wch rybudd rhag ei fwytia ;  
 Ysgol Jacob, a'r angelion  
 Yn cyniwair arni'n gyson :  
 Ac er cael yr angor euraidd,  
 Na foddhaer eich meddwl puraidd,  
 Heb, fel Abra'm, roi'ch goreuon  
 Yn rhwydd aberth i Dduw tirion.

Gyda hyn curai rhywun wrth y drws. Felly y Porthor a agorodd, ac wele Mr. Dewr-galon oedd yno : ond oh ! y llawenydd pan ddaeth i mewn ! Canys daethai o newydd i'w cof y modd y lladdasai efe yr hen gawr, Cuchiog Gwaedlyd, ac y gwaredasai hwynt oddiwrth y llewod.

Yna ebe Mr. Dewr-galon wrth Gristiana a Thrugaredd, Fy Arglwydd a ddanfonodd i bob un o honoch gostrelaid o win, peth cras-yd, a dau uomgranad : anfonodd hefyd ffigys a resin i'r bechgyn, i'ch adfywio ar eich taith.

Felly ymbarotoisant i'w taith ; a Doethineb a Duw-ioldeb a aethant gyda hwy. Pan ddaethant at y porth, gofynodd Cristiana i'r Porthor, A basiodd neb heibio yn ddiweddar ? Yntau a atebodd, Naddo ; oddigerth un ryw amser yn ol, yr hwn a ddywedodd wrthyf fod yspeilio mawr wedi bod ar brif-ffordd y Brenin, y ffورد yr ydych chwi yn myned. Ond, eb efe, y mae'r lladron wedi eu dal, a phrofir hwynt yn fuan dan berygl bywyd. Parodd hyn i Gristiana a Thrugaredd ofni ; ond dywedodd Matthew, Nac ofnwch, fy mam, cyhyd ag y byddo Mr. Dewr-galon gyda ni, ac yn arweinydd i ni.

Yna ebe Cristiana wrth y Porthor, Syr, yr wyf yn ddiolchgar iawn i ti am yr holl garedigrwydd a ddanghos-aist i mi er pan ddaethum i'r lle hwn ; ac hefyd am fod mor garedig a mwynaidd wrth fy mhlant. Nis gwn yn

iawn pa fod i ddiolch i ti yn deilwng am dy diriondeb; ac am hyny, atolygaf arnat dderbyn y rhodd fechan hon fel arwydd o'm diolchgarwch. Felly rhoddes *angel aur*\* yn ei law; yntau a ymostyngodd iddi, ac a ddywedodd, "Bydded dy wisgoedd yn wynion bob amser, ac na fydded diffyg olew ar dy ben," Preg. 9. 8. "Bydded fyw Trugaredd, ac na fydded farw; ac na fydded ei gweithredoedd ychydig o rifedi," Deut. 33. 6. Ac wrth y bechgyn dywedodd, "Chwantau ieuencyd ffowch oddiwrthynt, a dilynwch gyflawnder, ffydd, cariad, tangnefedd, gyda'r rhai sydd yn galw ar yr Arglwydd o galon bur," 2 Tim. 2. 22; felly y llenwch galon eich mam & llawenydd, ac yr ennillwch glod gan bob un o feddwl sobr. Yna diolchasant i'r Porthor, ac ymadawsant.

Yn awr gwelwn yñl fy mreuddwyd eu bod yn myned yn mlaen hyd oni ddaethant at ael y bryn; lle y gwaeddodd Duwioldeb, Och fi! anngofiais yr hyn a fwriedais ei roddi i Cristiana a'i chyfeillion: âf yn ol i'w gyrchu. Felly rhedodd, ac a'i dygodd atynt. Yn y cyfamser, tybiai Cristiana ei bod yn clywed, mewn llwyn ychydig ar y llaw ddehau, y sain ryfeddaf a phereiddiaf a glywsai erioed, gyda geiriau cyffelyb i'r rhai hyn :—

Trwy ddyddiau f'oes dangosaist ti  
Ddaioni yn rhyfeddol;  
O fewn i'th dy o hyd caiff fod  
Fy hoff breswylfiod fythol.

A chan ymwrando, tybiai glywed un arall yn ateb, gan ddywedyd,—

Can's da yw'n Harglwydd Dduw dilyth,  
Dros fyth mae ei drugaredd;  
O oes i oes y saif o hyd,  
Heb syfyd, ei wirionedd.

Yna Cristiana a ofynodd i Ddoethineb, Pwy sydd yn gwneud y per-sciniau hyn? Can. 2. 11, 12. Hithau a

\* *Angel aur* oedd ddarn aur o werth deg swilt; ac, yn ol pris arian yn nyddiau Bunyan, atebai i *gini*, o leiaf, yn ein dyddiau ni.

atebodd, Adar ein gwlad ydynt : anaml y maent yn canu y tonau hyn, oddigerth yn y gwanwyn, pryd y bydd y blodau yn ymddangos, a'r haul yn fynes, ac yna cewch eu clywed trwy gydol y dydd. Byddaf yn fynych, ebe hi, yn myned allan i wrando arnynt ; ac yr ydym yn aml yn eu cadw yn ddof yn y ty. Y maent yn gwmni difyr iawn i ni pan fyddom yn bruddaidd : ac hefyd gwnant y coedwigoedd, y llwyni, a'r anngyfannedd-leoedd yn ddy-munol bod ynddynt.

Erbyn hyn daeth Duwioldeb yn ei hol. Felly dy-wedodd wrth Gristiana, Gwel, dygais i ti gynllun o'r hyn oll a welaist yn ein ty ni, ar ba un y gelli edrych pan y teimli dy hun yn annghofus, a galw i'th gof y pethau hyn drachefn er dy gysur a'th adeiladaeth.

Yn awr dechreuanasant fyned i lawr y bryn i Ddyffryn Darostyngiad. Yr oedd y llechwedd yn serth, a'r fiord yn llithrig ; ond yr oedd ynt yn dra gofalus ; felly daethant i lawr yn lled ddiogel. Wedi iddynt ddyfod i waered i'r dyffryn, dywedai Duwioldeb wrth Gristiana, Dyma'r man y cyfarfu dy briod â'r ellyll echryslawn Apolygon, ac y bu'r frwydr galed honôr rhyngddynt : gwn na ellit lai na chlywed am dani. Ond bydd galonog ; gobeithiwn y daw yn well arnat ti, tra y mae genyt y fath wr a Dewr-galon yn gynorthwywr ac yn arweinydd. Ar ol i'r ddwy hyn roddi y pererinion i ofal eu harweinydd, efe a aeth o'r blaen, a hwythau a'i dilynasant.

**DEWR-GALON.** Yna ebe Dewr-galon, Nid rhaid i ni ofni y dyffryn hwn gymaint, canys nid oes yma ddim a'n niweidia, oddieithr i ni ei dynu arnom ein hunain. Digon gwir i Gristion gyfarfod ag Apolygon yma, ac i frwydr galed fod rhyngddynt : eithr nid oedd yr ymgyrch hwnnw ond ffirwyth y llithriadau a gawsai wrth fyned i lawr y bryn ; canys rhaid i'r rhai a lithrant yno ddysgwyl ymladdfeydd yma. Oddiar hyn y cafodd y dyffryn hwn y fath anair. Canys tybia'r bobl gyffredin, pan glywont fod rhyw drychineb wedi cyfarfod rhyw un mewn rhyw le, fod y lle hwnnw yn cael ei afonyddu gan ryw ellyll arswyodus neu ysbryd aflan ; pan, ysywach ! nad yw ond ffirwyth eu llafur eu hunain fod y fath bethau yn cyfarfod

â hwynt yno. Mae'r Dyffryn Darostyngiad hwn o honc ei hun mor ffrwythlon ag un yr ehed brân drosto; a chredwyf y gallent gael hyd i rywbeth yma a roddai gyfrif i ni paham yr ymosodwyd mor galed ar Gristion yn y man hwn, pe medrem ond taro wrtho.

Yna ebe Iago wrth ei fam, Wele golofn yn sefyll acw, ac yn argoeli fod rhywbeth yn ysgrifenedig arni; awn i edrych beth ydyw. Felly yr aethant, a chawsant yn ysgrifenedig arni, "Bydded llithriadau Cristion cyn dyfod yma, a'r brwydrau a'i cyfarfu yn y lle, yn rhybudd i'r rhai a ddeuant ar ei ol." Ah! ebb̄ eu harweinydd, oni ddywedais wrthych fod rhywbeth yn yr amgylchoedd hyn a ddanghosai paham yr ymosodwyd mor galed ar Gristion yn y man hwn? A chan droi at Gristiana, dywedodd, Nid yw hyn yn ddim iselhad ar Gristion, mwy na llawer ereill y bu yr un dygywyddiad iddynt. Canys y mae yn llawer haws myned i fynu nag i waered i'r bryn hwn, ac nis gellir dywedyd hyny ond am ychydig fyniau yn yr holl barthau hyn o'r byd. Ond gadawn y gwr da; y mae efe yn gorhwyso; cafodd hefyd fuddugoliaeth odidog ar ei elyn. Caniatäed yr Hwn sydd yn preswylio fry na ddygywyddo yn waeth i ni, pan y'n profer, nag iddo ef.

Ond dychwelwn eto i'r Dyffryn Darostyngiad hwn. Y darn goraf a ffrwythlonaf o dir yw yn yr holl barthau hyn. Tir bras ydyw, ac, fel y gwelwch, mae llawer o hono yn weirgloddiau; a phe deuai dyn yma yn yr haf, fel nyui yn awr, heb wybod dim yn ei gylch o'r blaen, ac os ymddyfyrai yn ngolwg ei lygaid, gallai weled yr hyn a fyddai yn hyfryd ganddo. Gwelwch mor wyrddlas yw y dyffryn hwn; ac fel yr addurnir ef â lili, Can. 2. 1. Adwaenwn hefyd lawer o weithwyr a chanddynt etifeddiaethau enwog yn y Dyffryn Darostyngiad hwn; "Canys y mae Duw yn gwrrthwynebu y beilchion, ac yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig," Iago 4. 6; 1 Pedr 5. 5. Yn wir, tir tra chnyd-fawr ydyw, yn dwyn ffrwyth yn ddyrneidai. Chwennychodd rhai hefyd yn fawr fod y ffordd agosaf i dy eu Tad yn gorwedd trwy y dyffryn hwn, fel na's blinid hwynt mwy gan fyniau neu snyddoedd i fyned





BACHGEN Y BUGAIL.

drostynt; ond y ffordd yw y ffordd, a dyna ddiwedd ar hynty.

Yn awr fel yr oeddynt yn myned yn mlaen dan ymddyddan, canfuant fachgen yn gwyllo defaid ei dad. Yr oedd y bachgen mewn dillad gwaelion iawn, ond ei wedd ydoedd wridog a hawddgar; a chan eistedd wrtho ei hun, canai. Clywch, ebe Mr. Dewr-galon, beth a ddywed y bugeil-lanc. Felly gwrandawsant, a dywedai yntau,—

Ah ! nid rhaid i'r gwr iselfryd  
Ofni cael rhyw godwm enbyd ;  
Ac nid rhaid i'r gostyngedig  
Ofni balchder ffål, anniddig ;  
Ond yn wir fe gaiff yn hylwydd  
Byth i'w arwain ef yr Arglwydd.

Yr wyf fi yn ddigon boddlon,  
Heb ddim grwgnač yn fy nghalon,  
Ar yr hyn roir im' yn ddiddig,  
Bid yn llawer neu'n ychydig ;  
A dysger im' o hyd foddloni,  
Can's ti, Arglwydd, geidw'r rhei'ny.

Gormod baich i'r pererinion  
Ydyw'r byd a'i holl ofalon ;  
Cael ychydig yma weithiau,  
A chael nef ar ben y siwrnau,  
A holl fwyniant ei hardaloedd,  
Ydyw'r gorau yn oes oesoedd.

Yna ebe eu harweinydd, A glywch chwi ef? Meiddiaf ddywedyd fod y bachgen hwn yn byw yn fwy cysurus, ac yn gwisgo mwy o'r llysieuyn hwnnw a elwir esmwythdra calon yn ei fynwes, na'r un a wisgwyd mewn sidan a melfed. Ond awn yn mlaen yn ein hymddyddan.

Yn y dyffryn hwn gynt yr oedd hafod-dy ein Har-glywydd: hoffai yn fawr fod yma. Hoffai hefyd rodio ar hyd y gweir gloddiau hyn, canys teimlai'r awyr yn hyfryd. Heblaw hynny, bydd gwr yma yn rhydd oddiwrth swn athrafferthion y bywyd hwn: mae pob sefyllfa yn llawn o gynhwrf a therfysg; Dyffryn Darostyngiad yn unig

sydd le gwag a neillduedig. Yma ni chaiff gwr ei luddias a'i rwystro yn ei fyfyrnod gymaint ag y mae yn debyg o gael mewn manau ereill. Dyffryn yw hwn nad oes neb yn rhodio ynddo ond sydd yn caru bywyd pererin. Ac er i Gristion fod mor anffodus a chyfarfod ag Apolyon yma, a gorfol iddo ymdrechu yn galed ag ef, eto rhaid i mi ddywedyd wrthych i ddynion yn y dyddiau gynt gyfarfod ag angelion, Hos. 12. 4, 5, gael perlau godidog, Mat. 13. 46, a chael geiriau'r bywyd, Diar. 8. 35, yn y lle hwn.

A ddywedais i fod gan ein Harglwydd ei hafod-dy yma gynt, a'i fod yn caru rhodio yn y lle? Ychwanegaf;—ei fod, yn y man hwn, wedi gadael i'r bobl sydd yn caru ac yn rhodio dros y tiroedd hyn swm blynnyddol o arian, i gael eu talu yn ffyddlon ar amserau penodedig, er eu cynhaliaeth ar y ffordd, a'u calonogiad pellach i fyned yn mlaen ar eu pererindod.

**SAMUEL.** Fel yr oeddynt yn myned yn mlaen, dywedodd Samuel, wrth Mr. Dewr-galon, Syr, dealwyf mai yn y dyffryn hwn y bu'r frwydr rhwng fy nhad ag Apolyon; ond tua pha le y bu'r ymladdfa? canys gwelwyf fod y dyffryn yn fawr.

**DEWR-GALON.** Y frwydr rhwng dy dad ag Apolyon a ddygwyddodd draw aew o'n blaen, mewn llwybr cul, tu-hwnt i Lanerch Annghof. Ac yn wir y lle hwnnw yw y mwyaf peryglus yn yr holl barthau hyn. Canys os dygwydd i'r pererinion un amser gyfarfod â rhyw ruthr, dygwydda pan annghofiont y cymwynasau a dderbyniasant, er eu bod mor annheilwng o honyn. Dyma'r lle yr ymosodwyd yn galed ar ereill hefyd. Ond mwy am y lle pan ddelom iddo; canys coeliwyf fod yn aros hyd heddyw ryw arwydd o'r ymladdfa, neu gofadail i dystio i'r fath frwydr fod yno.

**TRUGAREDD.** Yna ebe Trugaredd, Meddyliwyf fy mod i gystal yn y dyffryn hwn ag y bu'm yn un man arall yn ystod ein taith: mae y lle, tybiwyf, yn dygymod â'm hysbryd. Yr wyf yn hoffi bod mewn lle na bydd ynddo dwrf cerbydau, na thrwst olwynion. Barnwyf y gall un vma, heb lawer o afonyddwch, gael cyfle i feddwl beth

ydyw, o ba le y daeth, beth a wnaeth, ac i ba beth y'i galwyd gan y Brenin. Yma gall un fyfyrio, a chael dryllio ei galon, a thoddi ei ysbryd hyd nes yr elo ei lygaid fel y "pysgod-lynoedd yn Hesbon," Can. 7. 4. Y rhai a ânt yn gywir trwy'r dyffryn Baca hwn, a'i gwnant yn ffynnon; y gwlaw, a enfyn Duw i lawr o'r nefoedd arnynt yma, a leinw y llynoedd, Psal. 84. 5—7. Hwn hefyd yw y dyffryn y rhydd y Brenin iddynt winllanoedd o hono; a'r rhai a ânt drwyddo a ganant (Hos. 2. 15) fel y canodd Cristion o'r blaen, er iddo gyfarfod ag Apolyon.

**DEWR-GALON.** Gwir, ebe eu harweinydd; aethum trwy y dyffryn hwn lawer gwaith, ac ni bu'm well yn un lle na phan fyddwn yma. Bu'm hefyd yn arweinydd i lawer o bererinion, ac addefasant yr un peth. "Ar hwn yr edrychaf [medd y Brenin], sef, ar y truan a'r cystuddiedig o ysbryd, sydd yn crynu wrth fy ngair," Esa. 66. 2.

Erbyn hyn daethant i'r llc y bu'r frwydr rag-grybwylledig ynddo. Yna ebe'r arweinydd wrth Gristiana, ei phlant, a Thrugaredd, Dyma y man; ar y tir hwn y safai Cristion, ac i fynu acw y daeth Apolyon yn ei erbyn. Ac, wele, oni ddywedais i, dyma beth o waed dy briod ar y ceryg hyn hyd heddyw. Wele, hefyd, ddarnau o bicellau drylliog Apolyon i'w gweled yn daenedig yma ac acw yn y lle. Gwel hefyd fel y mathrasant y tir â'u traed wrth ymladd, i ymgadarnhau yn erbyn eu gilydd; ac fel y darfu iddynt, trwy eu gwrthergydion, holtti hyd yn nod y ceryg yn ddarnau. Yn wir, ymladdodd Cristion yma fel dyn, a danghosodd ei hun mor wrwl ag y gallasai Ercwlf ei hun wneud pe buasai yn y man. Wedi i Apolyon gael ei orchfygu, ciliodd i'r dyffryn nesaf, yr hwn a elwir Dyffryn Cysgod Angau, yr hwn y deuwn ninau iddo cyn b'o hir. Wele, acw y mae colofn yn sefyll, ac yn gerfiedig arni hanes y frwydr hon, a buddugoliaeth Cristion, er ei glod trwy'r holl oesau. Felly, gan ei bod yn sefyll yn agos i'r ffordd, aethant ati, a darlenasant yr ysgrifenn, yr hon oedd fel y canlyn air yn air:—

Gerllaw yma bu'r ymladdfa  
 Fwyaf poethlyd a rhyfedda',  
 Rhwng yr hoff bererin Cristion  
 A'r ffyrnigawl Gawr Apolyon.

Ond fel dyn bu iddo frwydro,  
 Gwnaeth i'r ellyll hyll encilio;  
 Ac o'r frwydr enbyd hōno  
 'Rwyf fi'n sefyll yma i dystio.

Gwedi iddynt fyned heibio i'r lle hwn, daethant at gyffiniau Cysgod Angau. Yr oedd y dyffryn hwn yn hwy na'r llall, ac yn cael ei aphonyddu yn hynod gan bethau diffaith, fel y gall llawer dystio: ond aeth y gwragedd a'r plant hyn yn well drwyddo, oherwydd iddynt gael goleuni y dydd, a Mr. Dewr-galon yn arweinydd.

Gwedi myned i'r dyffryn, tybiasant glywed griddfaniad fel eiddo dynion ar drengu; griddfaniad tra mawr. Tybient hefyd eu bod yn clywed geiriau galarnad, yn cael eu traethu gan rai mewn artaith dirfawr. Parodd y pethau hyn i'r bechgyn grynu; y gwragedd hefyd a edrychasant yn welwlwyd a dychrynedig; ond eu harweinydd a barai iddynt gymeryd cysur.

Felly aethant yn mlaen ychydig yn mhellach, a thybiasant eu bod yn teimlo y llawr yn dechreu crynnu odditanynt, fel pe buasai yno ryw le gwag: a chlywent hefyd fath o swn fel chwythiad seirff, ond hyd yma nid oedd dim yn y golwg. Yna ebe'r bechgyn, Onid ydym yu agos i ben draw y lle alaethus hwu? Ond eu harweinydd a archodd iddynt hwythau hefyd fod yn galonog, ac edrych yn fanwl at eu traed; rhag dygwydd i chwi (eb efe) gael eich dal mewn rhyw fagl.

Yn awr dechreuodd Iago glafychu; ond meddyliwyf inai ofn oedd yr achos o hono: felly ei fam a roddes iddo ychydig o'r gwydraid gwirod a roddasid iddi yn nhŷ'r Deonglwr, a thair o'r peleni a barotoisai Mr. Medrus, y meddyg, a'r bachgen a ddechreuodd adfywio. Fel hyn yr aethant yn mlaen hyd nes y daethant yn agos i ganol y dyffryn; ac yna, ebe Cristiana, Meddyliwyf fy mod yn

gweled rhywbeth draw acw o'n blaen ar y ffordd, rhywbeth o'r fath ddull na welais ei gyffelyb erioed. Yna ebe Joseph, Fy mam, pa beth ydyw? Rhywbeth hyll, fy mab; rhywbeth hyll iawn, ebe hithau. Ond tebyg i ba beth yw, fy mam? ebe yntau. Nis gallaf ddweyd tebyg i ba beth, ebe hithau; ac nid yw efe yn awr yn nebpell oddiwrthym. Yna dywedodd, Y mae yn ymyl.

Wel, wel, ebe Mr. Dewr-galon, gadewch i'r rhai mwyaf ofnus gadw yn agos ataf fi. Felly daeth yr ellyll yn mlaen, a'r arweinydd a'i cyfarfu; ond pan oedd yn mron dyfod ato, disflanodd o'u golwg hwynt oll. Yna cofiasant yr hyn a ddywedasid gynt, "Gwrthwynebwch ddiabol, ac efe a ffy oddiwrthych," lago 4. 7.

Gan hyny, aethant yn mlaen, fel rhai wedi adfywio ychydig. Ond nid aethant yn mhell cyn i Drugaredd, wrth edrych yn ol, ganfod, fel y tybiai, rywbeth tebyg i lew yn dyfod yn drwm ar eu holau; ac yr oedd ganddo lais rhoadwy; a phob rhoad o'i eiddo a wnai i'r holl ddyffryn ddiaspelain, ac i'w calonau hwythau guro, oddieithr calon yr hwn oedd yn arweinydd iddynt. Felly efe a ddaeth o hyd iddynt, a Mr. Dewr-galon a aeth o'u hol, ac a osododd y pererinion yn mlaenaf. Y llew hefyd a ddaeth yn mlaen ar ffwrst, a Mr. Dewr-galon a ymbarotodd i ymladd ag ef, 1 Pedr 5. 8, 9. Ond pan welodd y llew fod bwriad penderfynol i'w wrthwynebu, ciliodd yn ol, ac ni ddaeth yn mhellach.

Yna acthant yn mlaen drachefn, a'u harweinydd a aeth o'u blaenau, nes daethant i le yr oedd pwll wedi ei gloddio dros holl led y ffordd; a chyn iddynt allu gwneuthur eu hunain yn barod i fyned drosto, cauodd arnynt niwi a thywyllwch dudew, fel na's gallasant weled dim. Yna ebe'r pererinion, Och! pa beth a wnawn yn awr? Ond eu harweinydd a'u hatebodd, Nac ofnwch, sefwch yn llonydd, ac edrychwch pa fath ddiwedd a roddir i hyn hefyd: felly safasant, am fod eu llwybr wedi ei gau i fynu. Tybiasant hefyd eu bod yn clywed yn oglurach swn a chynhwrf y gelynion; y tân hefyd, a mwsg y pydew, oeddynt yn haws i'w canfod. Yna ebo Cristiana wrth Drugaredd, Yn awr y gwelaf pa bethau yr aeth fy

mhriod druan trwyddynt. Clywais lawer am y lle hwn, ond ni bu'm erioed yma o'r blaen. Druan gwr! aeth ef y ffordd hon wrtho ei hun yn y nos; yr oedd yn nos arno drwy'r holl ffordd yn mron; hefyd yr oedd yr ellylon hyn yn brysur o'i gwmpas, fel pe busent am ei dynu yn ddarnau. Bu llawer yn siarad am dano: ond nis gall neb ddyweddyd pa fath le yw Dyffryn Cysgod Angau nes dyfod iddo ei hunan. "Y galon sydd yn gwybod chwerwder ei henaid ei hun; a'r dyeithr ni bydd gyfranog o'i llawenydd hi," Diar. 14. 10. Peth ofnadwy yw bod yma.

**DEWR-GALON.** Y mae hyn yn debyg i wneuthur gorchwyl mewn dyfroedd dyfnion, neu ddisgyn i'r dyfnader. Tebyg ydyw i fod yn nghalon y môr, a myned i waered i odre'r mynyddoedd. Yn awr ymddengys fel pe byddai'r ddaear a'i throsolion o'n hamgylch yn dragwydd. "Ond bydded i'r rhai sydd yn rhodio mewn tywyllwch ac heb lewyrch iddynt, obeithio yn enw'r Arglwydd, ac ymddiried yn eu Duw," Esa. 50. 10. O'm rhan fy hun, fel y dywedais wrthyd eisoes, bu'm lawer gwaith trwy'r dyffryn hwn, a bu yn galetach arnaf hefyd nag ydyw yn awr: ac eto gwelwch fy mod yn fyw. Ni fynwn ymfrostio, am nad wyf achubwr i mi fy hunan; ond hyderwyf y cawn ymwared hyfryd. Deuwch, gweddiwn am oleuni ar yr Hwn a all oleuo ein tywyllwch, ac a all geryddu, nid yn unig y rhai hyn, ond hefyd holl sataniaid usffern.

Felly ymbil a gweddio a wnaethant, a danfonodd Duw iddynt oleuni ac ymwared, canys yn awr nid oedd rhwystri ar eu ffordd: nac oedd, hyd yn nod yn y lle yr ataliesid hwy ychydig cyn hyny gan y pydew. Eto nid oeddynt wedi myned trwy'r dyffryn. Felly rhagddynt yr aent, a chododd drewdod trwm a sawyr cas yn barhaus, er mawr flinder iddynt. Yna ebe Trugaredd wrth Gristiana, Nid yw mor bleserus yma ag ydoedd wrth y porth, neu yn nhŷ'r Deonglwr, neu yn y ty y lletyasom ddiweddaef.

Ond Oh, ebe un o'r bechgyn, nid yw cynddrwg myned trwy'r lle hwn ag yw aros ynddo yn wastadol; ac, er dim a wn i, un rheswm paham y rhaid myned y ffordd hon

tua'r ty a barotowyd i ni yw, fel y gwneid ein cartref yn elusach i ni.

Da iawn, Samuel, ebe'r arweinydd, lleferaist yn awr fel dyn. Os byth y deuaf allan o'r lle hwn, ebe'r bachgen, meddyliwyf y prisiaf oleuni a ffordd dda yn fwy nag y gwnaethum erioed o'r blaen yn fy oes. Yna ebe'r arweinydd, Byddwn allan cyn b'o hir.

Felly yn mlaen yr aethant, a Joseph a ddywedai, Ai ni allwn weled pen draw y dyffryn hwn eto? Ond ebe'r arweinydd, Edrychhwch at eich traed, canys yn ebrwydd byddwn yn nghanol y maglau: felly edrychasant at eu traed, ac aethant yn mlaen; ond yr oeddynt yn cael eu blino yn fawr gan y maglau. Yn awr wedi iddynt ddyfod i blith y maglau, canfuent wr wedi ei dafu i'r ffos ar y llaw aswy, a'i gnawd wedi ei rwygo a'i archolli. Yna ebe yr arweinydd, Gwr o'r enw Esgelus ydyw, ag oedd yn myned y ffordd hon: gorwedd yma er's amser maith bellach. Yr oedd un Diesgeulus gydag ef pan y'i cymerwyd ac y'i lladdwyd; ond dihangodd hwnnw o'u dwylaw. Ni ellwch ddychymygu gynifer sydd yn cael eu lladd yn yr amgylchoedd hyn, ac eto y mae dynion mor ynfyd a rhyfygus ag anturio yn ysgafnaiad ar bererindod, a hyny heb arweinydd. Druan oedd Cristion! rhyfedd iddo ddianc yn y man hwn; ond yr oedd efe yn anwyl gan ei Dduw, a chanddo galon ddewr ei hun, ac onidê, nis gallasai ddianc byth.

Yn awr yr oeddynt yn tynu at ddiwedd y ffordd hon; ac yn gymhwys yn y man lle y gwelsai Cristion yr ogof wrth fyned heibio, y daeth allan o honi yn sydyn gawr mawr o'r enw Baeddwr. Y Baeddwr hwn a arferai ddinystrio pererinion ieuainc & thwyll-resymau; galwodd ar Ddewr-galon wrth ei enw, a dywedodd wrtho, Pa sawl gwaith y gwaharddwyd i ti wneuthur y pethau hyn? Yna ebe Mr. Dewr-galon, Pa bethau? Pa bethau! ebe'r cawr; gwyddost pa bethau: ond rhoddaf derfyn ar dy waith.

Ond atolwg, ebe Mr. Dewr-galon, cyn ymosod i frwydr, gad ddeall am ba achos y rhaid ymladd. Yn awr yr oedd y gwragedd a'r plant yn sefyll yn y man yn grynedig ac

yn osnus, hebwyd beth i wnenthur. Ac eba i y cawr Yr wyt yn anrheithio'r wlad, ac yn ei hyspeilio trwy' lladrud gwaethaf. Cyhuddiadau cyffredin ydynt y mae hyn; tyred at bethau neillduol, ddyn, ebe Mr. Dewr-galon.

Ar hyn dywedai y cawr, Yr wyt yn arfer y gelfyddyl o ladrata dynion; yr wyt yn pigo i synu wragedd a phlant, ac yn eu harwain i wlad ddyeithr, er gwanychdod mawr i deyrnas fy meistr. Dewr-galon a'i hatebodd, Gwas i Dduw y nesfoedd ydwyf, a'm gorchwyl yw perswadio pechaduriaid i edifeirwch. Gorchymyna i mi wneuthur a allwyf i droi gwyr, gwragedd, a phlant, o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw; ac os hyn yn wir yw testyn y cweryl, gad i ni ymosod ati can gynted ag y mynydi.

Yna daeth y cawr i synu, ac aeth Mr. Dewr-galon i'w gyfarfod; ac wrth syndd tynodd ei gleddyf, ond pastwn oedd gan y cawr. Ac heb ychwaneg o helynt, ati yr aethant, a chyda'r ergyd cyntaf tarawodd y cawr Mr. Dewr-galon ar ei lin. Gyda hyn dechreuodd y gwragedd a'r plant lesain. Ond Mr. Dewr-galon, wedi dadebru ychydig, a ymosododd ar y cawr a'i holl nerth, a chiwysodd ef yn ei fraich. Fel hyn yr ymladdent am oddeutu awr, ac mior boethlyd nes oedd yr anadl yn dysod o siroenau y cawr fel agerdd o bair berwedig.

Yna eisteddasant i lawr i orphwys; ond Mr. Dewr-galon a dreuliai yr amser mewn gweddi. Ni wnaeth y gwragedd a'r plant ond ocheneidio a llesain yr holl amser y parhaodd y frwydr.

Gwedi iddynt orphwys, a chymeryd eu hanadl, ymosadasant arni eilwaith; a Mr. Dewr-galon, âg un ergyd nerthol, a darawodd y cawr i'r llawr. Ah, na, gad i mi godi, eb efe. Felly Mr. Dewr-galon yn deg a adawodd iddo godi, ac ati â hwy i ymladd drachefn; ac ni bu ond ychydig iawn rhwng y cawr a thori asgwrm pen Mr. Dewr-galon a'i bastwn.

Pan ganfu Mr. Dewr-galon hyny, rhedodd ato yn angerdd ei ysbyryd, a gwânold ef dan y bummed ais. Ar hyny dechreuodd y cawr lesmeirio, heb allu dal ei bastwn.

i fynu yn hwy. Yna Mr. Dewr-galon a'i hail darawodd, a thorodd ymaith ei ben oddiar ei ysgwyddau. Yna yn y man y gwragedd a'r plant a fu lawen ganddynt, a Mr. Dewr-galon hefyd a foliannai Dduw am y waredigeth a gawsai.

Gwedi gwneuthur hyn oll, ymunasant i godi colofn, a sicrhau pen y cawr arni; ac ysgrifenwyd odditanodd y geiriau hyn mewn llythyrenau hawdd i bererinion eu darllen:—

Dyma ben y cawr annhirion  
Fu'n anmharchu'r pererinion;  
Yn cau y ffordd, heb arbed undyn,  
Ac yn blino pawb yn 'sgymun;  
Nes i mi, Dewr-galon, godi  
Yn arweinydd hyf, di ofni,  
A gorchfygu'r gelyn creulon  
Hwn, ar ran y pererinion.

Yn awr gwelwn eu bod yn myned i esgynfa a godasid ychydig yn mlaen i fod yn ardremle i'r pererinion. Hwn oedd y man y safodd Cristion y golwg cyntaf ar ei frawd Ffyddlon o hono. Am hyny, eisteddasant i lawr yma i orphwys. Yma hefyd y bwytasant ac yr yfasant, gan ymlawenhau am yr ymwared oddiwrth y fath elyn per-yglus. Tra yr oddynt yn eistedd fel hyn ac yn bwyta, Cristiana a ofynodd i'r arweinydd, A dderbyniaist ti ddim niwaid yn y frwydr? Naddo, ebe Mr. Dewr-galon, oddieithr ychydig ar fy nghnawd; eto bydd hyny mor bell oddiwrth fod yn golled i mi, fel y mae'n bresenol yn brawf o'm cariad at fy Meistr a chwithau, a bydd yn foddion hefyd, trwy ras, i ychwanegu fy ngwobr yn y diwedd.

**CRISTIANA.** Ond onid oedd arnat ofn, syr, pan welaist ef yn dyfod gyda'i bastwn?

**DEWR-GALON.** Fy nyledswydd, ebe yntau, yw peidio ymddiried i'm nerth fy hun, fel y gallwyf bwys o ar yr Hwn sydd yn gryfach na phawb.

**CRISTIANA.** Ond beth oedd dy feddwl pan darawodd efe di i'r llawr â'r ergyd cyntaf?

**DEWR-GALON.** Meddyliais, ebe yntan, mai felly y cafodd fy Meistr ei drin, ond eto efe a fu'n orchfygwr yn y diwedd, 2 Cor. 4. 10, 11 ; Rhuf. 8. 37.

**MATTHEW.** Gwedi i chwi oll feddwl fel y mynoch, barnwyf i Dduw fod yn rhyfeddol o dirion tuag atom, yn ein dwyn allan o'r dyffryn hwn, ac yn ein cadw rhag y fath elyn creulon. O'm rhan i, nid oes achos genym i amheu ein Duw byth mwy, gan iddo yn awr, ac yn y fath le, roddi i ni y fath dystiolaeth o'i gariad. Yna codasant ac aethant ymaith.

Ychydig o'u blaenau yr oedd derwen yn sefyll ; a phan ddaethant i fynu ati, gwelsant hen bererin odditani, yn cysgu yn drwm. Deallasant yn fuan mai pererin ydoedd wrth ei ddillad, ei ffon, a'i wregys.

Felly yr arweinydd, Mr. Dewr-galon, a'i defsfrodd ; a'r hen wr bonheddig, wrth agor ei lygaid, a waeddodd allan, Beth yw'r mater? pwy ydwyt? a pha beth yw dy neges yma?

**DEWR-GALON.** Tyred, wr, na fydd mor boethlyd ; nid oes yma neb ond cyfeillion. Er hyny cododd yr hen wr i fynu, safodd ar ei wyliadwriaeth, a mynai wybod pwy oeddynt. Yna ebe'r arweinydd, Fy enw yw Dewr-galon : arweinydd wyf i'r pererinion hyn, y rhai ydynt yn myned i'r wlad nefol.

**GONEST.** Yna ebe Mr. Gonest, Erfyniwf faddeuant : ofnais dy fod o'r fintai a yspeiliodd Mr. Ychydig Ffydd gynt o'i arian ; ond yn awr yr wyf yn edrych yn well o'm cwmpas, ac yn canfod eich bod yn onestach pobl.

**DEWR-GALON.** Wel, beth a wnaethit, neu a allaset ei wneuthur, i amddiffyn dy hunan, pe buaswn mewn gwirionedd yn perthyn i'r fintai hèno?

**GONEST.** Gwneuthur? ymladdaswn tra buasai anadl ynof ; a phe buaswn yn gwneuthur hyny, ni buasit byth yn cael y goreu arnaf ; canys ni ellir gorchfygu y Cristion byth, oddieithr iddo ymostwng o hono ei hun.

**DEWR-GALON.** Da iawn, yr hen dad Gonest, ebe yntau : canys wrth hyn y gwn dy fod yn geiliog o'r iawn ryw, oblegyd dywedaist y gwir.

**GONEST.** Ac wrth hyn hefyd yr wyf finau yn deall dy

fod dithau yn gwybod beth yw gwir bererindod ; canys y mae pawb ereill yn tybied mai nyni ydym y rhai hawsaf eu gorchfygu o bawb.

**DEWR-GALON.** Yn awr, gan ein bod wedi cyfarfod mor ffodus, atolwg, erfyniaf gael gwybod genyt dy enw, ac enw y lle y daethost o hono.

**GONEST.** Nis gallaf adrodd fy enw i ti ; ond yr wyf yn dyfod o dref Hurtrwydd : mae yn gorwedd tua phedwar o raddau tuhwnt i Ddinas Dystryw.

**DEWR-GALON.** Oh ! ai gwr o'r wlad hòno ydwyt ? Yna tybiwyf fy mod yn dy hanner adnabod ; dy enw yw hen Onest, onide ?

Ar hyn yr hen wr bonheddig a wridai, ac a ddywedai, Nid Gonest ei hun ydwyf, ond Gonestrwydd yw fy enw ; a dymunwn yn fawr fod fy natur yn cyfateb i'm henw. Ond, syr, eb efe yn ychwaneg, pa fodd y gallet ddyfalu mai y cyfryw oeddwn, a minau yn dyfod o'r cyfryw le ?

**DEWR-GALON.** Clywais son am danat o'r blaen gan fy Meistr, canys efe a wyr bob peth a wneir ar y ddaear. Ond rhyfeddais lawer gwaith fod neb yn dyfod o'th dref di, canys y mae hi yn waeth na Dinas Dystryw ei hun.

**GONEST.** Ydyw, canys y mae hi yn gorwedd yn mhellach oddiwrth yr haul, ac felly yn oerach ac yn fwy dideimlad. Ond pe byddai dyn yn nghanol mynydd o ia, eto, os cysodai Haul Cyflawnder arno, ei galon rewllyd a doddai yn fuan ; ac felly y bu gyda mi.

**DEWR-GALON.** Credwyf hyny, y tad Gonest, credwyt hyny ; canys gwn mai gwir ydyw.

Yna'r hen wr bonheddig a gyfarchodd bob un o'r pererinion â chusan santaidd cariad, a gofynodd iddynt eu henwau, a pha fodd yr ymdarawsant er pan gychwynasant ar bererindod.

**CRISTIANA.** Yna ebe Cristiana, Clywaist, mae'n debyg, am fy enw i ; y dyn da Cristion oedd fy ngwr, a'r pedwar hyn ydynt ei blant. Ond nis gall neb feddwl fel y cyffrodd yr hen wr pan ddealloedd pwy ydoedd. Neidiodd, gwenodd, a bendithiodd hwy & mil o ddymuniadau da, gan ddywedd yd :—

**GONEST.** Clywais lawer o son am dy wr, am y teithiau

a'r rhyfeloedd yr aeth efe trwyddyt yn ei ddyddiau. Dyweder hyn er dy gysur, y mae enw dy briod yn glod-fawr trwy'r holl barthau yma o'r byd: ei ffydd, ei wroldeb, ei ddyoddefgarwch, a'i ddifrifoldeb dan y cwbl, a wnaethant ei enw yn barchus. Yna trodd at y bechgyn, a gofynodd eu henwau, y rhai a gafodd. Ac eb efe wrthynt,—Matthew, bydd gyffelyb i Matthew y publican, nid mewn pechod, ond mewn rhinwedd, Mat. 10. 3. Samuel, bydd dithau gyffelyb i Samuel y prophwyd, yn wr o ffydd a gweddi, Psal. 99. 6. Joseph, meddai, bydd dithau gyffelyb i Joseph yn nhŷ Potiphar, yn ddiwair, ac yn un a ffy rhag temtasiwn, Gen. 39. Iago, bydd dithau gyffelyb i Iago y cyfawn a Iago brawd yr Arglwydd, Act. 1. 13. Yna mynegasant iddo am Drugaredd, a pha fod y gadawsai hi ei thref a'i pherthynasau i ddyfod gyda Christiana a'i meibion. Ar hyn yr hen wr gonest a ddywedai, Trugaredd yw dy enw: trwy drugaredd y'th gynhelir ac y'th ddygir trwy'r holl anhawsderau a ymosodant arnat ar dy ffordd, hyd nes y deui i'r man y cei edrych yn wyneb Ffynnon Trugaredd gyda chysur. Trwy'r holl amser yr oedd yr arweinydd, Mr. Dewr-galon, wrth ei fod, ac yn gwenu ar ei gydymaith anwyl.

Yn awr, fel yr oeddynt yn rhodio yn nghyd, gofynodd yr arweinydd i'r hen wr bonheddig, A adwaenost ti un Mr. Ofnus, a ddaethai ar bererindod o'th ardal?

GONEST. Adwaenwn yn dda iawn, ebe yntau. Yr oedd yn wr a gwreiddyn y mater ynddo: ond yr oedd efe yn un o'r pererinion mwyaf blinderus a welais erioed.

DEWR-GALON. Gwelaf dy fod yn ei adnabod, canys rhodaist ddarluniad cywir iawn o hono.

GONEST. Ei adnabod! yr oeddwn yn gyfaill mawr iddo; yr oeddwn gydag ef yn mron hyd y diwedd; pan ddechreuodd feddwl gyntaf am yr hyn a ddeuai arnom ar ol hyn, yr oeddwn i gydag ef.

DEWR-GALON. Minau oeddwn ei arweinydd o dy fy Meistr at byrrh y Ddinas Nefol.

GONEST. Yna gwyddost mai un blinderus ydoedd.

DEWR-GALON Gwr; ond yr oeddwn yn gallu cyd-

ddwyn ag ef o'r goreu ; canys ymddiriedir arweiniad y fath yn fynych i wyr o'm galwedigaeth i.

GONEST. Wel, ynte, gad i ni glywed ychydig am dano, a pha foddyr ymddygodd tan dy arweiniad ?

DEWR-GALON. Yr oedd efe yn ofni bob amser na chyrraeddai byth y lle y chwennychai fyned iddo. Brawychid ef gan bobpeth a glywai, os byddai rhith o wrthwynebiad ynddo. Clywais iddo orwedd dan ruo wrth Gors Anobaith dros fis o amser ; ac na feiddiai anturio, er gweled llawer yn myned trosodd o'i flaen, ac er i amryw o honyn gynyg help llaw iddo. Nid elai yn ol ychwaith. Y Ddinas Nefol, meddai,—byddaf farw os na chyrraeddaf hi ; ac eto llwfrhääi yn wyneb pob anhawsder, a syrthiai ar draws pob gwelltyn a deflid yn ei ffordd. Wel, wedi iddo orwedd yn hir ar fin Cors Anobaith, fel y dywedais wrthyt, ymwrloodd un boreu heulog, nis gwn yn iawn pa fodd, ac aeth trosodd ; ond wedi myned trosodd, prin y credai ei fod. Yr oedd ganddo, tybiwyf, Gors Anobaith yn ei feddwl ei hun, cors a ddygai gydag ef i bob man, onide, ni buasai byth fel yr oedd. Felly daeth i fynu at y porth (gwyddost beth wyf yn ei feddwl) sydd yn sefyll ar ben y ffordd hon ; ac yno drachefn y safodd am hir amser cyn anturio curo. Pan agorwyd y porth, ciliodd yn ol, a rhoddodd le i ereill, gan ddyweddyd nad oedd efe yn deilwng. Canys, er iddo ddyfod o flaen rhai at y porth, aeth llawer o honyn i mewn o'i flaen. Yno druan y safai yn crynu ac yn osni ; a sicr genyf mai gresynus i galon un oedd ei weled. Eto nid âi yn ol. O'r diwedd ymaflodd yn y morthwyl oedd yn crogi wrth y porth, a tharawodd y ddor unwaithl neu ddwy yn ysgafn iawn ; yna agorwyd iddo, ond ciliodd yn ol fel o'r blaen. Yr hwn a agorodd iddo a aeth ar ei ol, ac a ofynodd iddo, Tydi, wr crynedig, beth sydd arnat eisiau ? Ar hyn efe a syrthiodd i lawr ar y ddaear. Yna yr hwn a lefarai wrtho a ryfeddai ei weled mor wanllyd, a dywedai, Tangnafedd i ti ; cyfod, mae'r drws yn agored ; tyred i mewn, canys bendigedig ydwyt. Gyda hyn cododd i fynu, ac aeth i mewn dan grynu ; a phan oedd i mewn, yr oedd cywilydd arno ddangos ei wyneb. Wel, ar ol ei

rocsawu yno dros enyd, yn ol a wyddost sydd arfero archwyd iddo fyned yn mlaen yn ei ffordd, ac hysbyswy iddo hefyd pa ffodd i gymeryd. Felly aeth yn mlaen hyd oni ddaeth i'n ty ni; ac fel yr ymddygasai wrth y porth, felly yn holol y gwnaeth wrth ddrws fy Meistr, y Deonglwr. Arhöai oddeutu yn yr oerni dros hir amser cyn anturio galw; eto nid âi yn ei ol; ac yr oedd y nosweithiau yn hirion ac oerion y pryd hwnnw. Ie, yr oedd ganddo lythyr awdurdodol yn ei fynwes hefyd yn erchi ar fy Meistr ei dderbyn, a chaniatâu iddo ymgeledd ei dy, yn nghyda gwr dewr a galluog yn arweinydd, gan ei fod ef ei hun mor wan-galon; ac eto er hyn oll yr oedd arno ofn galw wrth y porth. Felly crwydrai yn ol ac yn mlaen oddeutu'r lle nes ydoedd, druan gwr, yn mron rhynu; ie, cymaint oedd ei ddigalondid, er gweled ereill yn cael derbyniad trwy guro wrth y ddrws, fel yr oedd arno ofn anturio. O'r diwedd, dygwyddodd i mi yspio allan trwy y ffenestr, a gwelwn wr yn ymdroi oddeutu'r lle, aethum allan ato, a gofynais iddo, Fwy ydwyt? ond, druan gwr, safai'r dwfr yn ei lygaid; felly deallais beth oedd arno eisiau. Aethum gan hyny i mewn, a mynegais y peth yn ty, ac a'i gwnaethum yn hysbys i'n Harglwydd: yntau a'm hanfonodd allan drachefn i'w gymhell i ddyfod i mewn; a gallaf sierhau mai gorchwyl caled fu. O'r diwedd daeth i mewn; a dywedaf hyny am fy Arglwydd, ymddygod yn garedig ryseddol tuag ato. Ni byddai nemawr o ddarnau danteithiol ar y bwrdd, na osodid peth o honyn ar ei ddysgl ef. Yna rhoddes y llythyr; a'm Harglwydd a edrychodd arno, ac a ddywedodd y rhoddid iddo ei ddymuniad. Felly, wedi iddo fod yno am gryn amser, ymddanghosai ei fod ychydig yn fwy gwrol a dyddanus. Canys gwyddost yn dda mai un tyner iawn ei ymysgaroedd yw fy Meistr, yn enwedig at rai ofnus; felly ymddygod tuag ato yntau mewn modd a dueddai fwyaf i'w galonogi. Wel, wedi iddo gael golwg ar y pethau oedd yntau yn y lle, a'i fod yn barod i fyned i'w daith tua'r ddinas, fy Arglwydd a roddes iddo (fel ag y gwnaeth i Gristion o'r blaen) gostrelaid o win, a phethau danteithiol i'w bwyta. Felly cychwynasom, a minau a

aethum o'i flaen ef ; gwr o ychydig eiriau ydoedd, eto efe a ocheneidai yn uchel.

Pan ddaethom i'r man yr oedd y tri dyhiryn hyny wedi eu crogi, dywedodd fod arno ofn mai hyny fyddai ei ddiwedd yntau. Eto ymddanghosodd yn siriol pan welodd y Groes a'r Bedd. Yno, addefaf, y dymunodd gael aros dros enyd i edrych ; ac ar ol hyny ymddanghosai am amser yn siriolach. Pan ddaeth at fryn Anhawsdra, ni wnaeth ddim o hwnw, ac nid oedd arno nemawr o ofn y llewod ychwaith : canys rhaid i ti wybod mai nid yn nghylch pethau fel hyn yr oedd ei drallod ; ei ofn oedd yn nghylch ei dderbyniad yn y diwedd.

Aethum ag ef i mewn i'r ty Prydferth, tybiwyf, cyn iddo fod yn ewyllysgar. Hefyd pan oedd efe i mewn gwnaethum ef yn gydnabyddus & llancesi y lle ; ond yr oedd yn rhy wylaidd i ymddangos mewn cwmni. Dymunai yn hytrach bod wrtho ei hun ; eto hoffai glywed ymddyddan buddiol, a mynch y llechai y tu ol i'r wahanlen i wrando. Carai hefyd woled rhyw hen bethau, a'u trafod yn ei feddwl. A dywedodd wrthyf wedi hyny, ei fod yn caru yn fawr bod yn y ddau dy y daethai o honyn ddiweddaf, sef, y porth a thy'r Deonglwr, ond na feiddiai fod mor hyf a gofyn bod yno.

Pan aethom hefyd o'r ty Prydferth, i lawr y brynn, i Ddyffryn Darostyngiad, aeth i lawr cystal ag un dyn a welais yn fy oes ; canys nid oedd yn gofalu pa mor wael y byddai, os gallai fod yn ddedwydd yn y diwedd. Ie, meddyliwyf fod rhyw gyd-deimlad rhwng y dyffryn hwnw ag ef ; canys ni's gwelais ef yn well yn un rhan o'i daith nag oedd yn y dyffryn hwnw. Yma gorweddai i lawr, cofleidai y ddaear, a chusana i y blodau a dysent yn y dyffryn, Galar. 3. 27—29. Arferai yma godi bob borau ar doriad y wawr, gan gerdded yn ol ac yn mlaen ar hyd y dyffryn.

Ond pan ddaeth efe at fin Dyffryn Cysgod Angau, tybiais y collwn fy nyn : nid am fod ynddo un duedd i fyned yn ol ; ffieiddiai hyny bob amser ; ond yr oedd yn barod i farw gan ofn. Gwaeddai, Oh ! yr ellylon a'm dygant ! yr ellylon a'm dygant ! ac-nis gallwn yru hyny o hono.

Gwnaeth y fath dwrf a nâd yma, fel y buasai yn ddigon o annogaeth iddynt (ond iddynt ei glywed) i ddyfod a rhuthro arnom.

Ond sylwais yn fanwl ar hyn, yr oedd y dyffryn hwn mor dawel pan aethom trwyddo ag y gwelais ef erioed, cynt na chwedi. Tybiwyf fod y gelynion hyny dan ataliad neillduol ar y pryd oddiwrth ein Harglwydd, a than orchymyn na chynhyrfent hyd onid elai Mr. Ofnus trwyodd.

Rhy flin fyddai i mi adrodd i ti y cyfan: ni chrybwyllaf, gan hyny, ond am un peth neu ddaau yn ychwaneg. Pan ddaeth i Ffair Gwagedd, meddyliais y buasai yn ymladd â phawb yn y ffair. Ofnais hefyd y tarewid ni ill dau yn ein penau, gan boethed ydoedd yn erbyn eu hynsydrwydd. Yr oedd efe yn bur effro ar y Tir Rheibiedig. Ond pan ddaeth at yr afon nad oes pont drosti, aeth drachefn i drafferth blin. Yn awr, yn awr, eb efe, y boddir fi am byth; ac ni chaf weled y gwyneddpryd hwnnw mewn cysur, y daethum gynifer o filltiroedd meithion i'w weled.

Yma hefyd sylwais ar yr hyn oedd yn dra nodedig;— yr oedd dyfroedd yr afon yn is y pryd hwn nag y gwelais hwynt erioed yn fy oes; felly aeth trosodd o'r diwedd, heb nemawr fwy na gwlychu ei draed. Pan oedd yn myned i fynu at y porth, dechreuais ganu yn iach iddo, a dymuno iddo dderbyniad croesawgar fry. Dywedodd yntau, Caf, caf. Yna ymadawsom, ac nis gwelais ef mwy.

**GONEST.** Yna ymddengys ei fod yn dda arno yn y diwedd?

**DEWR-GALON.** Oedd, oedd; ni bu genyf amheuaeth erioed yn ei gylch. Dyn oedd o ysbryd dewisol, ond ei fod yn cael ei gadw yn dra isel; a hyny a wnaeth ei fywyd mor anhyfryd iddo ei hun, ac mor flinderus i ereill, Psal. 83. Yr oedd, tuhwnt i lawer, yn ofalus rhag pech: yr oedd arno gymaint ofn gwneuthur niwaid i ereill, fel yr ymwadai â'r hyn oedd gyfreithlon, am na synai roddi tramgywydd, Rhuf. 14. 21; 1 Cor. 8. 13.

**GONEST.** Ond bethi oedd yr achos fod gwr mor dda dros ci holl ddyddiau gymaint yn y tywyllwch?

**DEWR-GALON.** Mae dau reswm am hyny. Un yw, am fod y Duw doeth yn ewyllysio hyny : rhaid i rai ganu, a rhai wylo, Mat. 11. 16. Yn awr un oedd Mr. Ofnus a chwareuai'r isgyweirdon (*bass*). Efe a'i gyfeillion a chwareuent ar y dulsimer, tân yr hwn sydd fwy cwynfanus nag eiddo un offeryn arall : er, mewn gwirionedd, dywed rhai mai'r isgyweirdon yw sylfaen peroriaeth. O'm rhan i, nid oes genyf gyfrif o'r broffes hònno nad yw yn dechreu mewn trymder meddwl. Y tant cyntaf y mae'r cerddor yn ei gyfiwrdd yw tant yr isgyweirdon, pan y bwriad a ddodi y cwbl mewn cydgordiad. Chwery Duw hefyd ar y tant hwn yn gyntaf, pan esyd yr enaid mewn hwyl iddo ei hun. Yn unig dyna lle'r oedd gwall Mr. Ofnus ; anhyddysg oedd ar bob tân ond hon hyd o fewn ychydig i'w ddiwedd.

Yr wyf yn hyf i lesaru fel hyn yn ffugyrol, er mwyn ehangu synhwyrau darllenwyr ieuainc, ac oherwydd y cyffelybir y rhai cadweddig, yn Llyfr y Datguddiad, i dyrfa o gerddorion, yn chwareu ar eu hudgynnau a'u telynau, ac yn canu eu caniadau, ger bron yr orseddfainc, Dat. 5. 8 ; 14. 2, 3.

**GONEST.** Yr oedd efe yn ddyn selog iawn, fel y gall un weled wrth yr hanes a roisoch am dano. Nid oedd yn ofni bryn Anhawsdra, y llewod, na Ffair Gwagedd ; nid oedd dim ond pechod, marwolaeth, ac uffern, yn ddychrynn iddo ef, oherwydd fod ynddo ryw amheuon yn nghylch ei hawl i'r wlad nefol hònno.

**DEWR-GALON.** Da y dywedaist ; dyna'r pethau a'i trallodent ef : a'r rhai hyny, fel y sylwaist, a darddasant oddiar wendid ei feddwl yn eu cylch, ac nid oddiar wendid ysbryd o barthed y rhan ymarferol o fywyd pererin. Yr wyf yn cwbl gredu y buasai (yn ol y ddihareb) yn cnoi pentewyn, pe buasai yn ei ffiodd ; ond am y pethau a'i blinint, ni chaed neb hyd yma a fedrent yn hawdd eu hysgwyd ymaith.

**CRISTIANA.** Yna ebe Cristiana, Mae hanes Mr. Ofnus wedi gwneud i mi ddaioni : meddyliais na bu neb yn debyg i mi. Ond gwelaf fod rhyw debygolrwydd rhwng y dyn da hwn a minau : yn unig yr oeddym yn gwahan-

iaethu mewn dau beth. Yr oedd ei ofidiau ef gymaint, fel y torent allan; ond fy rhai inau a gedwais i mewn. Hefyd yr oedd yr eiddo ef yn gwasgu yn drwm arno, parent iddo fethu curo wrth ddrysau'r tai a barotowyd er cynorthwy; ond fy ngwasgfeuon i oeddynt bob amser o'r fath ag a parent i mi guro yn drymach.

**TRUGAREDD.** Pe caniateid i minau ddweyd fy nghalon, rhaid dywedyd fod rhyw beth o'i eiddo ef wedi trigiannu ynof finau hefyd. Canys yr oedd arnaf bob amser fwy o ofn y llyn, a cholli fy lle yn Mharadwys, nag ofn colli dim arall. Oh, meddwn wrthyf fy hunan, bydded i mi y dedwyddwch o gael trigle yno! Digon, er ymadael â'r holl fydd i'w ennill, fydd hyny.

**MATTHEW.** Yna ebe Matthew, Ofn a barodd i mi feddwl fy mod yn mhell o feddu o'm mewn yr hyn sydd yn nglyn wrth iachawdwriaeth. Ond os ydoedd felly gyda'r fath wr da ag ef, paham nad all droi yn dda gyda minau?

**LAGO.** Os heb ofn, heb ras, ebe Iago. Er nad oes gras bob amser lle mae ofn usfern, eto y mae'n sicr nad oes dim gras lle nad oes ofn Duw.

**DEWR-GALON.** Da iawn, Iago, tarewaist ar y nod. Canys dechreuaed doethineb yw ofn yr Arglwydd; ac y mae yn ddilys am y rhai na feddent y dechreu, nad oes ganddynt ychwaith na'r canol na'r diwedd. Tersynwn yma ein siarad am Mr. Ofnus, wedi i ni anfon y llinellau hyn ar ei ol:—

Yn iach, yn iach, hen Ofnus gwiw,  
Ti ofnaist Dduw yn ffyddlon;  
Ac ofnaist wneuthur dim ar fai  
A dy fradychai'n greulon.

A ofnaist ti y pwll a'r llyn?  
Oh na f'ai'th ddychrynn hefyd  
Yn llenwi pawb! rhag iddynt hwy  
Oll suddo i fwyfwy adfyd.

Yn awr gwelwn eu bod yn parhau eu hymddyddan. Canys wedi i Mr. Dewr-galon orphen gyda Mr. Ofnus,

dechreuodd Mr. Gonest fynegu iddynt am un arall, enw yr hwn oedd Mr. Cyndyn. Efe a ffugiai fod yn bererin, ebe Mr. Gonest; ond dilys genyf na ddaeth ef erioed i mewn trwy'r porth sydd yn mhen y ffordd.

**DEWR-GALON.** A fuost ti erioed yn siarad ag ef yn nghylch hyny?

**GONEST.** Do, fwy nag unwaith na dwywaith; ond mynai bob amser fod yn gyndyn fel ef ei hun. Nid oedd yn prisio mewn dyn, mewn rheswm, nac mewn esiampl; yr hyn y cynhyrfai ei feddwl ef ato, hyny a wnai, ac nis gellid cael ganddo wneud dim arall.

**DEWR-GALON.** Atolwg, pa egwyddorion a ddaliai? am y tybiwyf y gwyddost ti?

**GONEST.** Daliai y gallai dyn ddilyn ffaoeddau yn gystal a rhinweddau pererinion; ac os gwnai y ddau, y byddai yn sicr o fod yn gadwedig.

**DEWR-GALON.** Pa fod? Os dweyd yr oedd y gallasai y goreu fod yn euog o ffaoeddau, yn gystal ag yn gyfranog o rinweddau pererinion, ni ellir beio nemawr arno; oherwydd yn wir nid ydym yn gwbl rydd oddiwrth un bai, ond ar yr ammod o wyllo ac ymdrechu. Eithr gwelaf nad hyn yw'r peth; ond os deallwyf di yn iawn, dy feddwl yw mai ei farn ef ydoedd fod hyny yn ganiataol.

**GONEST.** Ie, ie, dyna fy meddwl, ac felly yr oedd yntau yn credu ac yn arweddu.

**DEWR-GALON.** Ond pa sail oedd ganddo i ddywedyd felly?

**GONEST.** Wel, dywedai fod ganddo yr Ysgrythyr o'i blaidd.

**DEWR-GALON.** Atolwg, Mr. Gonest, dyro i ni rai esiamplau.

**GONEST.** Gwnaf. Dywedai, y bu a wnelo Dafydd, anwylyd Duw, a gwragedd gwyr ereill, ac am hyny y gallai yntau wneuthur yr un modd. Dywedai hefyd fod cymeryd mwy nag un wraig wedi ei arfer gan Solomon, ac am hyny y gallai yntau wneuthur felly. Dywedai i Sarah, y byd-wragedd duwiol yn yr Aipht, a Rahab hefyd, ddweyd celwydd, ac y gallai yntau wneud hyny.

Dywedai i'r dysgyblion fyned, ar orchymyn eu Meistr, a chymeryd asyn ei berchenog, ac y gallai yntau wneud hyny. Dywedai hefyd, ddarfod i Jacob ennill etifeddiaeth ei dad trwy dwyll a lledrith, a chan hyny y gallai yntau wneuthur felly.

**DEWR-GALON.** Gorwael yn wir ! A ydwyt yn sicr ei fod ef o'r dyb hon ?

**GONEST.** Clywais ef yn dadleu drosti, yn dwyn Ysgrythyrau, rhesymau, &c., o'i phlaid.

**DEWR-GALON.** Tyb yw nad addas ei goddef yn y byd !

**GONEST.** Rhaid i ti fy neall i yn iawn : ni ddywedodd y gallai pob dyn wneuthur felly ; ond y gallai y rhai a feddent rinweddau y sawl a wnaent y cyfryw bethau, wneuthur yr un modd.

**DEWR-GALON.** Ond beth all fod yn fwy twyllodrus na'r fath gasgliad ? Canys y mae hyn cystal a dywedyd, am i rai gwyr da bechu o wendid, fod caniatâd iddo ef bechu o ryfyg : neu os byddai i blentyn, trwy awel o wynt, neu daro ei droed wrth gareg, syrthio a diwyno ei hun yn y llaid, y gallai yntau o wifodd orwedd ac ymdreiglo fel mochyn yn y dom. Pwy allasai feddwl y gallasai un gael ei ddallu gymaint gan rym chwant ? Ond rhaid i'r hyn a ysgrifenwyd fod yn wir ;—y maent "yn tram-gwyddo wrth y gair, gan fod yn anufudd ; i'r hwn beth yr ordeiniodd hwynt hefyd," 1 Pedr 2. 8. Hefyd, mae ei dybiaeth y gall y cyfryw feddu rhinweddau y duwiolion, ac ymlynu wrth eu drygau, gan grysed twyll a'r llall. Nid yw bwyta pechodau pobl Dduw, Hos. 4. 8, fel y llysa ci fudreddi, yn arwydd o un yn meddu eu rhinweddau. Ac nis gallaf gredu fod un o'r farn yna yn meddu ffydd na chariad.—Ond gwelaf dy fod wedi rhoddi achwynion cryfion yn ei erbyn ; atolwg, beth a all efe ddweyd drosto ei hun ?

**GONEST.** Dywed yr ymddengys yn llawer gonestach coleddu y dyb, na gwneuthur y peth a dal tyb wrth-wynebol.

**DEWR-GALON.** Atebiad diffaith iawn. Canys er bod gollwng y ffrwyn i'n chwantau, tra y byddo ein barn yn ein herbyn, yn ddrwg ; eto y mae pechu, a dadleu goddef-

iad i hyny, yn waeth : y mae un yn cwympo edrych-wyr yn ddamweiniol, y mae'r llall yn eu harwain i'r fagl.

**GONEST.** Mae llawer yn meddu meddwl y dyn yma, ond heb feddu ei enau ; a hyny sydd yn peri fod myned ar bererindod mor ddigysfrif.

**DEWR-GALON.** Dywedasoch y gwir, a gwir galarus : ond yr hwn sydd yn ofni Brenin Paradwys a ddaw allan o honynnt oll.

**CRISTIANA.** Y mae opiniynau rhyfedd yn y byd. Adwaenwn un a ddywedai, ei bod yn ddigon buan edifarhau pan ddelom i farw.

**DEWR-GALON.** Nid rhy gall mo'r cyfryw ; ni fynai'r dyn y rhoddid iddo wythnos yn ei oes i redeg ugain milltir, oedi'r daith hyd yr awr olaf o'r wythnos honno.

**GONEST.** Da y dywedi ; ac eto y mae'r rhan fwyaf o'r rhai sydd yn cyfrif eu hunain yn bererinion mewn gwirionedd yn gwneuthur hyn. Yr wyf fi, fel y gweli, yn hen wr, ac wedi teithio'r ffordd hon er's llawer dydd ; ac yr wyf wedi sylwi ar lawer o bethau.

Gwelais rai ar eu cychwyniad fel pe gyrent y byd o'u blaenau, y rhai er hyny a fuont feirw yn mhen ychydig ddyddiau, fel y rhai hyny yn yr anialwch ; ac felly ni chawsant fyth olwg ar y wlad addawedig.—Gwelais rai nad oedd dim yn obeithiol ynddynt pan aethant gyntaf ar bererindod, y rhai y gallasai un feddwl na buasant fyw ddiwrnod, yn troi allan yn bererinion da.—Gwelais rai yn rhedeg yn mlaen yn gyflym, ac yn mhen ychydig amser yn rhedeg mor gyflym a hyny yn ol drachefn.—Gwelais rai a fu yn canmol bywyd y pererin ar y cyntaf ; ac yn mhen ychydig amser yn dywedyd cymaint yn ei erbyn.—Clywais rai, ar eu cychwyniad tua Pharadwys, yn dweyd yn ddibetrus fod y fath le ; y rhai, wedi myned o fewn ychydig yno, yn troi yn ol, ac yn dywedyd nad oedd.—Clywais rai yn ymfrostio yr hyn a wnaent pe gwrthwynebid hwynt ; y rhai, ie, dan rith perygl, yn cefnu ar y ffydd, ffordd y pererin, a chwbl.

Yn awr, fel yr oeddynt yn ymdaith fel hyn, daeth un ar redeg i'w cysfarfod, ac a ddywedodd, Foneddigion, a

chwithau rai gweiniaid, os ydych yn caru **bywyd**, di-hengwch, canys y mae'r yspeilwyr o'ch blaen.

**DEWR-GALON.** Yna ebe Dewr-galon, Y tri a ymosodasant gynt ar Ychydig Ffydd ydynt. Purion, eb efe, yr ydym yn barod iddynt; ac felly aethant yn mlaen ar eu fiordd. Yr oedd ynt yn edrych bellach yn mhob tröad, gan ddysgwyl cyfarfod a'r dyhirwyr; ond pa un ai clywed am Mr. Dewr-galon a wnaethant, ai ynte cael rhyw ysglyfaeth arall, ni ddaethant i gyfarfod a'r pererinion.

Erbyn hyn yr oedd Cristiana yn dymuno gwesty iddi hi a'r plant, am eu bod yn flinedig. Yna ebe Mr. Gonest, Y mae un ychydig o'n blaenau, lle y mae dysgybl tra anrhyydeddus, o'r enw Gaius, yn trigo, Rhuf. 16. 23. Felly penderfynasant droi yno; a hyn yn fwy, am fod yr hen wr bonheddig wedi rhoi y fath air da iddo. Pan ddaethant at y drws, aethant i mewn heb guro, canys nid yw ffoddolion yn arfer curo wrth ddrws gwesty. Yna galwasant am wr y ty, ac yntau a ddaeth atynt. Felly gofynasant a gaent hwy orwedd yno y noswaith hono.

**GAIUS.** Cewch, foneddigion, os ydych wyr cywir; canys nid yw fy nhly i yn agored i neb ond pererinion. Yna yr oedd Cristiana, a Thrugaredd, a'r plant, yn fwy llon syth, am fod eu lletywr yn hoffi pererinion. Felly gofynasant am ystafelloedd; ac yntau a ddanghosodd un i Gristiana, a'r plant, a Thrugaredd; ac un arall i Ddewr-galon a'r hen wr bonheddig.

**DEWR-GALON.** Yna ebe Mr. Dewr-galon, Gaius bach, anwyl, beth sy genyt i swper? canys y mae'r pererinion hyn wedi dyfod o bell heddyw, ac yn flinedig.

**GAIUS.** Y mae hi yn hwyr, ebe Gaius, am hyn y nid cyfleus yw myned allan i geisio bwyd; ond y mae i chwi groesaw o'r hyn sydd genym, os boddhaol sydd.

**DEWR-GALON.** Boddlon fyddwn i'r hyn sy genyt yn y ty; oherwydd can belled ag y profais i dydi, nid ydwyt un amser lieb yr hyn sydd gyfaddas.

Yna efe a aeth i lawr i siarad â'r cogydd, enw yr hwn oedd Profi-yr-hyn-sy-dda, ar iddo barotoi swper i gynifer o bererinion. Wedi gwneuthur hynny, daeth i fynu dra-chefn, a dywedodd. Dewr-yb, fy nghyfeillion, y mae i chwl

groesaw yma ; a llawen wyf fod genyf dy i'ch croesawu ; a thra y bydd swper yn cael ei barotoi, os gwelwch yn dda, gadewch i ni ddifyru ein gilydd â rhyw ymddyddan buddiol : felly dywedasant oll, Boddon.

**GAIUS.** Yna ebe Gaius, Gwraig pwy yw y fam oedranus hon ? a merch i bwy yw y llances ieuanc yma hefyd ?

**DEWR-GALON.** Y wraig hon yw gwraig Cristion, pererin yn yr amser gynt ; a'r rhai hyn yw ei bedwar plentyn. Y llances sydd un o'i chydabod—un a berswadiodd hi i ddyfod gyda hi ar bererindod. Mae y bechgyn oll yn gymeryd ar ol eu tad, ac yn chwennych rhodio yn ei lwybrau ; ie, os dygwydd iddynt weled un man y bu yr hen bererin yn gorwedd ynddo, neu ol ei droed, y mae yn creu llawenydd yn eu calonau, a chwennychant orwedd neu sangu yn yr un lle.

**GAIUS.** Yna ebe Gaius, Ai dyma wraig Cristion, a phlant Cristion hefyd ? Adwaenwn dad dy wr yn bur dda, ie, tad ei dad hefyd. Llawer o wyr da a fu o'r epil ; trigai eu henafiaid ar y cyntaf yn Antiochia, Act. 11. 26. Yr oedd cyndadau Cristion (mae'n debyg genyf dy fod wedi clywed dy wr yn siarad am danynt) yn wyr anrheddus. Dangosasant eu bod yn fwy na neb a adwaenwn i, yn wyr o rinwedd a gwroldeb mawr dros Arglwydd y pererinion, ei ffyrdd, a'r holl rai a'i parent ef. Clywais am lawer o berthynasau dy wr, a ddaliasant bob profedig-aeth er mwyn y gwirioneedd. Stephan, un o'r rhai cyntaf o'r tylwyth yr hanodd dy wr o hono, a labyddiwyd â meini, Act. 7. 59, 60. Iago, un arall o'r teulu, a laddwyd â min y cleddyf, Act. 12. 2. Heb son am Paul a Phedr, gwyr gynt o'r un tylwyth y deilliodd dy wr o hono, dyna Ignatius, a fwriwyd i'r llewod ; Romanus, y tynwyd ei gnawd yn ddarnau oddiwrth ei esgyrn ; a Pholycarp, yr hwn a fu wrwl yn y tân. Dyna un a grogwyd mewn basged yn yr haul i'w fwyta gan gacwn ; ac un arall a ddodwyd mewn sach, ac a fwriwyd i'r môr i'w foddi. Anmhosibl fyddai cyfrif yr holl deulu a ddyoddefasant sarhad, a marwolaeth, o gariad at fywyd pererin. Ac nis gallaf lai na llawenychu fod dy wr wedi gadael ar ei ol y fath bedwar llanc a'r rhai hyn. Yr wyf

yn gobeithio y bydd iddynt ddal i fynu enw eu tad, cerdded yn llwybrau eu tad, a chyrhaeddyd diwedd eu tad.

**DEWB-GALON.** Yn wir, syr, y maent yn llanciau dynunol: ymddengys eu bod o galon yn dewis ffyrdd eu tad.

**GAIUS.** Hyny oeddwn yn ei ddyweddyd. O achos hyn y mae teulu Cristion yn debyg eto i ymdaenu dros wyneb y tir, ac i fod eto yn lluosog ar wyneb y ddaear; edryched Cristiana am ryw lancesi duwiol, i'w meibion i'w dyweddio iddynt, &c., fel na byddo i enw eu tad, a thyen henafiaid, gael fyth eu hanngofio yn y byd.

**GONEST.** Gresyn fyddai i'w deulu syrthio a diffodd.

**GAIUS.** Syrthio nis gall, ond lleihau a ddichon; eithr bydded i Gristiana gymeryd fy nghyngor i, a dyna'r ffordd i'w gynal i fynu. A Christiana, ebe'r gwestwr, mae'n llawen genyf dy weled di a'th gyfeilles Trugaredd yma, yn gwpl hawddgar. Ac os caf gynghori, cymer Drugaredd yn nes perthynas i ti: ac os myn, rhodder hi i Matthew, dy fab hynaf. Dyna'r ffordd i gadw yr epil ar y ddaear. Ac felly y cytunwyd; ac yn mhen amser, priodwyd hwynt: ond ychwaneg ar hyn eto.

Felly Gaius a aeth yn mlaen, ac a ddywedodd, Llefafar yn awr o blaid y gwragedd, i gyneryd ymaith eu gwarth. Oblgyd megys y daeth marwolaeth a melldith i'r byd trwy wraig (Gen. 3.), felly y daeth bywyd ac iechyd hefyd: "Dyw a ddanfonodd ei Fab wedi ei wneuthur o wraig," Gal. 4. 4. Ie, i ddangos y modd yr oedd y rhai a ddaethant ar ol yn ffieiddio gweithred y fam, yr oedd fod y rhyw yma, dan yr Hen Destament, yn chwennychu plant, gan obeithio y byddai y wraig hon neu arall yn fam i Iachawdwr y byd. Dywedaf eto, pan ddaeth yr Iachawdwr, mai gwragedd a lawenychasant ynddo o flaen un dyn nac angel, Luc 1. 42—46. Nid wyf wedi darllen fod yr un gwr wedi rhoddi cymaint a grôt i Grist; ond y gwragedd a'i canlynasant ef, ac a weiniasant iddo o'r hyn oedd ganddynt, Luc 8. 2, 3. Gwraig a olchodd ei draed ef â dagrau, Luc 7. 37—50; a gwraig a eneinniodd ei gorff i'w gladdedigaeth, Ioan 11. 2; 12. 3. Gwragedd a wyl-

asant pan oedd yn myned i'r groes, Luc 23. 27, a gwragedd hefyd a'i canlynasant oddiwrth y groes, Mat. 27. 55, 56 ; Luc 23. 55, ac a eisteddasant wrth y bedd, ar ol ei gladdu, Mat. 27. 61. Gwragedd oedd ynt gydag ef gyntaf ar foreu ei adgyfodiad, Luc 24. 1 ; a gwragedd a ddygasant y newydd gyntaf i'w ddysgyblion ei fod ef wedi adgyfodi oddiwrth y meirw, Luc 24. 22, 23. Y mae gwragedd, gan hyny, wedi eu dyrchafu yn uchel, ac yn dangos trwy y pethau hyn, eu bod yn gydgyfranogion o ras y bywyd.

Erbyn hyn anfonodd y cogydd i fynu fod y swper yn mron yn barod ; ac a ddanfonodd un i osod y lliain, a'r dysglau, ac i ddodi yr halen a'r bara mewn trefn.

Yna ebe Matthew, Mae'r golwg ar y lliain yma, a'r rhagflaenydd hwn o'r swper, yn codi mwy o awydd bwyd ynof nag o'r blaen.

**Gaius.** Felly bydded i bob athrawiaeth a weinydder i ti yn y bywyd hwn godi ynot fwy o awydd fryd am eistedd yn swper y Brenin mawr yn ei deyrnas ; canys nid yw yr holl bregethan, a'r llyfrau, a'r ordinhadau yma, ond megys cyfledd y dysglau a'r halen ar y bwrdd, pan y'i cydmerir â'r wledd a wna ein Harglwydd i ni pan ddelom i'w dy.

Ar hyn daeth y swper i fynu. Yn gyntaf gosodwyd ysgwyddog dderchafael a pharwyden cyhwfan ar y bwrdd o'u blaenau ; er dangos fod yn rhaid iddynt ddechreu y wledd drwy weddi a mawl i Dduw. Gyda'r ysgwyddog dderchafael y cododd Dafydd ei galon at Dduw ; ac â pharwyden cyhwfan, lle'r oedd ei galon, yr arferai bwys o ar ei delyn wrth chwareu arni, Lef. 7. 32—34 ; 10. 14, 15. Psal. 25. 1 ; Heb. 13. 15. Yr oedd y ddwy ddysglaid hyn yn dda a blasus, a hwy a fwytasant yn helaeth o honynnt. Y peth nesaf a ddygwyd ger bron oedd costrel-aid o win, cyn goched a gwaed, Deut. 32. 14 ; Barn. 9. 13 ; Ioan 15. 5. A Gaius a ddywedodd wrthynt, Yfwch yn helaeth ; dyma wir ffrwyth y winwydden, ag sydd yn llawenhau calon Duw a dyn. Felly hwy a yfasant ac a fuant lawen.

Y peth nesaf oedd dysglaid o laeth wedi ei gymysgu yn

dda â briwsion ; a Gaius a ddywedodd, Gadewoch i'r bechr gyn gael hwnyna, fel y cynyddont trwyddo, 1 Pedr 2. 1, 2.

Yn nesaf, yn ol trefn, dygwyd iddynt ddysglaid ymenyn a mîl. Gaius a ddywedodd wrthynt, Bwytewch yn helaeth o hono, am ei fod yn dda i'ch sirioli a chryf-hau eich barn a'ch dealltwriaeth. Dyma ddysglaid ein Harglwydd pan ydoedd yn blentyn ; " Ymenyn a mîl a fwyty efe ; fel y medro ymwrthod â'r drwg, ac ethol yda," Esa. 7. 15.

Yna dygasant ddysglaid o afalau ger bron, ac yr oedd ynt yn ffrwythau rhagorol eu blas. Wrth ganfod y rhai hyn, gofynai Mathew, A allwn ni fwyta afalau, gan mai â hwynt y twyllodd y sarff ein mam gyntaf ?

Yna ebe Gaius :—

Trwy afal ar y cyntaf,  
Yn ddiau, llygrwyd ni ;  
Nid afal chwaith, ond pechod,  
A lygrai'n henaid cu :  
Os afal gwaharddedig  
Fwyteir, fe lygra'r gwaed ;  
Ond pan y'i gwir orch'mynir,  
Mae'n llesol yn ðdiwad.

Am hyny, yf yn helaeth  
O'i holif gostrelau ef,  
Tydi, yr eglwys freiniol,  
Dihalog g'lomen nef ;  
A bwyta'n llawen hefyd  
Afalau'r Ganaan bur,  
Tydi, 'r hon wyt yr awrhon  
Yn glaf o gariad gwir.

Yna ebe Mathew, Yr oeddwn i yn petruso, am sy mod wedi bod yn glaf iawn trwy fwyta ffrwythau.

**GAIUS.** Ffrwyth gwaharddedig a'th wna yn glaf ; ond nid yr hyn y mae ein Harglwydd yn ei ganiatâu.

Tra yr oedd ynt hwy yn ymddyddan fel hyn, rhoddwyd iddynt ddysglaid arall, sef, dysglaid o gnau, Can. 6. 11. Ar hyn rhyw rai wrth y bwrdd a wnaethant y sylw cau-

lynol, Mae cnau yn ddrwg i ddannedd tyner, yn enwedig dannedd plant: a phan glybu Gaius hyn, dywedodd :—

Tebyg iawn yw cudd ddamhegion  
I gnau aeddfed (nid rhai coegion)  
Sy'n ymgau yn hardd-deg blisgyn,  
Ac yn cadw y cnewylllyn.

Torwch chwithau'r plisg yn gandryll,  
Cewch ymborthi ar y cnewyll;  
Wele hwy o'ch blaen yn hyfryd,  
Torwch a bwytewch hwy hefyd.

Erbyn hyn yr oeddynt yn llawen iawn, ac a eisteddasant wrth y bwrdd am hir amser, gan ymddyddan am lawer o bethau. Yna ebe'r hen wr bonheddig, Fy anwyl letywr, tra byddom yma yn tori eich cnau, dehongla i ni y ddameg hon, os gweli yn dda :—

Gynt yr ydoedd gwr yn byw,  
'Gyfrifai'r byd yn fföl:  
Po mwyaf a wasgarai ef,  
Mwy-fwy a gai yn ol.

Yna hwy oll a wrandawsant yn ddyfal, gan ryfeddu pa ateb a roddai Gaius iddo; ac wedi iddo yntau eistedd yn llonydd am enyd, efe a ddywedai :—

Yr hwn sy'n rhoddi yn ddi brin  
I'r tlawd anghenus, llwm,  
A'i derbyn ef yn ol drachefn,  
Deg cymaint fydd y swm.

Yna ebe Joseph, Yn ddiau, syr, ni feddylais y medrit ei gael allan.

Oh ! ebe Gaius, yr wyf fi wedi fy hir ddysgu yn y ffordd hon er's talm bellach: nid oes dim yn dysgu fel profiad. Dysgais gan fy Arglwydd i fod yn garedig; a chefais allan trwy brofiad fy mod yn ennillwr trwy hyny. "Rhyw un a wasgar ei dda, ac efe a chwanegir iddo: a rhyw un arall a arbed mwy nag a weddai, ac a syrth i dlodi."—"Rhyw un a ymfrostia ei fod yn gyfoethog, ac

heb ddim gando: ac arall ei fod yn dlawd, a chyfeint lawer iddo," Diar. 11. 24; 13. 7.

Yna Samuel a sisiai yn nghlust Cristiana, ei fam, gan ddywedyd, Fy mam, ty gwr da iawn yw hwn; gad i ni aros yma yn hir, a phrioded Matthew, fy mrawd, Drugaredd yma, cyn i ni fyned yn mhellach. Goglyodd Gaius hyn, a dywedodd, Gyda phob parodrwydd, fy mhlentyn. Felly hwy a arosasant yma dros fis, a Thrugaredd a roddwyd i Matthew yn wraig. A thra yr oedd ynt yn aros yma, gwnaeth Trugaredd, yn ol ei harfer, lawer o beisiau a gwisgoedd i'w rhoddi i'r tlodion, trwy'r hyn y dygodd hi air da i'r pererinion.

Ond i ddychwelyd eto at ein hanes. Ar ol swper, dymunai y bechgyn fyned i orphwys, am eu bod wedi blino gan y daith. Yna Gaius a alwodd ar un i ddangos iddynt yr ystafell; ond Trugaredd a ddywedodd yr elai hi a hwy i'w gwelyau. Felly hefyd y gwnaeth, a chyasasant yn dda: ond y lleill a arosasant i synu drwy'r nos; am fod Gaius a hwythau yn gwmpeini mor ddifyrus, fel na's gwyddent pa fodd i ymadael. Wedi iddynt ymddyddan llawer am eu Harglwydd, eu hunain, a'u taith, dechreuai yr hen Mr. Gonest, yr hwn a rodde y dychymyg gynt i Gaius, bendrymu. Pa beth, syr, ebe Dewr-galon, a oes cwsg arnat; tyred, ymrys-ydwa, dyma ddychymyg i ti. Gad i ni ei glywed, ebe Mr. Gonest.

Yna ebe Mr. Dewr-galon :—

Y neb a fyno ladd, rhaid iddo'i hun  
Gael ei orchfygu, cyn y gwnelo hyn;  
A ewyllsio oddicartref fyw,  
Boed farw gartre'n gyntaf, rheidiol yw.

Ah! ebe Mr. Gonest, un caled yw; anhawdd ei dde-hongli, ac anhawsach ei ddefnyddio. Ond, tyred ti, letywr, gadawaf fy rhan i ti, os gweli yn dda; eglura di ef, a minau a wrandawaf arnat.

Oh, na, ebe Gaius; i ti y rhoddwyd ef, a dysgwylir i ti ei ateb.

**Yna ebe'r hen wr bonheddig :—**

Rhaid trechu dyn gan ddwyfol ras,  
 Os myn farweiddio pechod cas ;  
 Os myn roi prawf ei fod yn fyw,  
 Boed farw iddo'i hun, medd Duw.

Dyna fe, ebe Gaius ; y mae athrawiaeth iachus a phrotiad yn dysgu hyn. Canys, yn gyntaf, hyd nes y byddo i ras egluro ei hun, a gorchfygu yr enaid â'i ogoniant, y mae efe yn amddifad hollol o galon i wrthwynebu pechod. Heblaw hyny, os pechod yw rheffyn Satan, yn yr hwn y mae'r enaid yn rhwym, pa fodd y gwrthsaif cyn ei ryddhau o'r gwendar bwn ? Yn ail, ni choelia neb chwaith, à adwaen na rheswm na gras, y dichon dyn fod yn golofn fywiol o ras ag sydd gaeth i'w lygredigaethau ei hun. Ac yn awr, pan y mae yn dyfod i'm cof, adroddaf i chwi chwedl gwerth ei chlywed. Dau wr a aethant ar bererindod ; cychwynnodd un pan oedd yn ieuanc, a'r llall pan yu hen. Yr oedd gan y gwr ieuanc lygredigaethau cryfion i'w gwrthsefyll ; ond rhai yr hen wr oedd ynt weiniaid, trwy adfeiliad natur. Yr oedd y gwr ieuanc yn rhodio ei lwybr mor wastad a'r hen, ac yn mhob ystyr mor heinyf. Pwy yn awr, neu pa un, a feddai ei ras yn dysgleirio egluraf, gan fod y ddau mor debyg ?

**GONEST.** Gras y gwr ieuanc, yn ddianu. Canys yr hyn sydd yn dal yn erbyn y gwrthwynebiad mwyaf, sydd yn rhoi y prawf amlcaf mai efe yw'r cryfaf, yn enwedig pan y mae yn cydgerdded â'r hwn nid yw yu cyfarfod â hanner cymaint, fel y mae yn ddilys nad yw yr hen. Heblaw hyny, sylwais fod hen bobl yn bendigo eu hunain â'r camsyniad hwn ; sef, cymeryd adfeiliad natur am oruchafiaeth gras ar eu llygredigaethau, ac felly yn du-eddol o dwyllo eu hunain. Diau mai hen bobl rasol ydynt fwyaf galluog i roddi cyngor i'r rhai ieuainc, oherwydd iddynt weled mwyaf o wagder pethau : eto, pan fyddo hen ac ieuanc yn cydgychwyn, gan yr ieuanc y mae'r prawf sicraf o waith gras o'i fewn, er fod llygredigaethau yr hen wrth natur yn wanach. Fel hyn yr eisteddent ac yr ymddyddanent hyd dòriad y dydd.

Yn awr, wedi i'r tylwyth gyfodi, archodd Cristiana u i'w mab Iago ddarllen pennod; ac felly darllenodd y 53ain o Esay. Wedi iddo ddarfod, gofynodd Mr. Gones, Paham y dywedir y deuai y Gwaredwyr o dir sych; a hefyd nad oedd na phryd na thegwch iddo?

Yna ehe Mr. Dewr-galon, I'r gofyniad cyntaf yr wyf n ateb, Oherwydd bod eglwys yr Iuddewon, o'r hon y deth Crist, wedi colli yn mron holl irder ac ysbryd crefydd l'r ail yr wyf yn ateb, Y mae'r geiriau yn cael eu llefar yn mherson anngredinwyr, y rhai, oblegyd nad os ganddynt y llygad a all weled calon ein Tywysog, a'i barnant yn ol ei waeledd oddiellan; yn debyg iawn i'r rhai na wyddant fod mein i gwerthfawr yn orchuddedig a chramen wael, pan gaffont un, a'i lluchiaut ymaith fel careg gyffredin, am na wyddant beth a gawsant.

Wel, ebe Gaius, gan dy fod yma, a chan y gwn fod Mr. Dewr-galon yn fedrus gyda'i arfau, ar ol bwyta, os gwelwch yn dda, rhoddwn dro yn y meusydd, i edrych a allwn wneuthur rhyw ddaioni. Tua milltir oddiyma y mae cawr yn preswylio, a elwir Lladd-daioni, yr hwn sydd yn afrwyddo llawer ar brif-fordd y Brenin yn y parthau hyn; ac mi a wn tua pha le y mae ei gyniweirfa. Y mae efe yn ben ar nifer o ladron: da fyddai pe gallem arloesi'r parthau hyn o hono. Felly cytunasant ac aethant; Mr. Dewr-galon a'i gleddyf, ei helm, a'i darian; a'r lleill a'u gwaywffyn a'u ffyn.

Pan ddaethant i'r man yr oedd efe, cawsant ef ag un Gwan-feddwl yn ei law, yr hwn a ddygodd ei weision iddo, wedi iddynt ei gymeryd ef ar y ffordd. Yr oedd y cawr ar y pryd yn ei yspeilio, ac yn bwriadu ar ol hyny bigo ei esgyrn, oherwydd yr oedd efe o natur cnawd-fwytwyr.

Can gynted ag y gwelodd efe Mr. Dewr-galon a'i gyfeillion wrth enau yr ogof, a'u harfau ganddynt, mynai wylod pwys a geisient.

**DEWR-GALON.** Tydi a geisiwn; daethom i ddial ymrysonau y pererinion lawer a ledwaist ti, wedi i ti eu llusgo o brif-fordd y Brenin: gau hyny tyred allan o'th siâu. Felly efe a ymarfogodd ac a ddaeth allan; ac i

frwydro yr aethant, ac ymladdasant dros fwy nag awr, ac yna safasant i gymeryd anadl.

**LLADD-DAIONI.** Yna ebe'r cawr, Paham y daethost yma i fy nhir i?

**DEWR-GALON.** I ddial gwaed pererinion, fel y dywedais eisoes. Felly i frwydr yr aethant drachefn, a gwnaeth y cawr i Ddewr-galon gilio yn ol: ond efe a ddaeth i fynu eilwaith, ac yn nghryfder ei feddwel efe a ruthrodd gyda'r fath ddewrder ar ben ac ystlysau y cawr, fel y gorfu iddo ollwng ei arf i syrthio o'i law. Felly efe a'i tarawodd, ac a'i lladdodd, ac a dòrrodd ymaith ei ben, ac a'i dygodd i'r llety. Efe a ddygodd Gwan-feddwl, y pererin, hefyd, gydag ef i'r llety. Pan ddaethant adref, dangosasant ei ben ef i'r teulu, a chrogasant ef i fynu, fel y gwnaethent i ereill o'r blaen, er dychryn i'r rhai oll a feiddient gynyg gwneuthur y cyffelyb rhagllaw.

Yna gofynasant i Wan-feddwl, Pa foddy y syrthiaist ti i'w ddwylaw?

**GWAN-FEDDWL.** Yna ebe'r gwr egwan, Dyn afiach wyf, fel y gwelwch: a chan fod angeu yn arfer eurwr wrth fy nrws i unwaith yn y dydd, meddyliais na fyddwn i byth yn iach gartref; felly cychwynnais ar bererindod, ac ymdeithiaisiai yma o dref Ansicrwydd, lle y'm ganwyd i a'm tad hefyd. Dyn dirym iawn o gorff a meddwl ydwyf; ond mi a fynwn, pe gallwn, er na allaf ond cropian, dreulio fy oes yn ffordd pererin. Pan ddaethum at y porth sydd yn nhen y ffordd, derbyniodd Arglwydd y lle hwnw fi yn rhwydd ddigon: ac ni ddywedodd air yn erbyn fy edrychiad eiddil na'm meddwl gwan; ond a roddes i mi yr hyn oedd yn angenrheidiol i'r daith, ac a archodd i mi obeithio hyd y diwedd. Pan ddaethum i dy'r Deonglwr, derbynias i garedigrwydd mawr yno: a chan y bernid fod bryn Anhawsdra yn rhy galed i mi, cariwyd fi i fynu gan un o'i weision. Yn wir, cefais lawer o gynorthwy gan bererinion, er nad oedd neb o honynyt yn foddlon i gerdded mor araf ag y gorfydd i mi wneud; eto fel y deuent yn mlaen, parent i mi fod yn gysurus, ac mai ewyllys eu Harglwydd oedd ar fod i ddyddanwch gael ei toddi i'r gwar. ei feddwel. 1 Thes. 5. 14, ac yna aent yn

mlaen. Pan ddaethum i Wtre-ymgyrch, yna y cawr h  
a gysarf u â mi, ac a barodd i mi ymbarotoi i frwyd.  
Ond, ysywaeth! gan fy eiddilwch, rheitiach a fuas  
cordial i mi; felly efe a ddaeth ataf, ac a'm cymerodd  
Yr oedlwn yn rhyw feddw l na laddai efe fi. Hefyd, we  
iddo sy nghael i'w ffau, gan nad aethum gydag ef o fy  
ngwirfodd, credais y deuwn allan drachefn yn fyw; canys  
clywais nad oes i un pererin a gymerir yn gaeth trwy  
orthrech, os ceidw efe galon gyfan at ei Feistr, farw trwy  
law'r gelyn, yn ol deddfau Rhagluniaeth. Dysgwyliais fy  
yspeilio, a'm hyspeilio yn wir a gefais; ond yr wyf, fel  
y gwelwch, wedi dianc yn fyw, am yr hyn y diolchwyf  
i'm Brenin fel yr awdwr, ac i chwithau fel y moddion.  
Dysgwylwyf ruthriadau ereill eto; ond yr wyf wedi pen-  
derfynu rhedeg pan allwyf, cerdded pan na allwyf redeg,  
ac ymlusgo pan na allwyf gerdded. Ond am y peth  
mwyaf ei bwys yr wyf yn ddiysgog, diolch i'r Hwn a'm  
carodd; mae fy ffordd o'm blaen, a fy meddwl tuhwnt i'r  
afon sydd heb bont arni, er nad ydwyf, fel y gwelwch,  
ond gwan o feddw l.

**GONEST.** Yna ebe Mr. Gonest, Oni fuost ryw dro yn ol  
yn gydnabyddus â phererin o'r enw Mr. Ofnus?

**GWAN-FEDDWL.** Yn gydnabyddus ag ef! Bu'm; efe a  
ddaeth o dref Gorphwyldra, yr hon sydd yn gorwedd  
bedair gradd i'r gogledd o ddinas Dystryw, a chan belled  
a hyny drachefn o'r man y'm ganed inau; eto yr oeddym  
yn gydnabyddus iawn, canys yn wir fy ewythr i oedd efe,  
brawd sy nhad. Yr oedd ef a minau o gyyfelyb dymher;  
yr oedd efe ychydig yn fyrach na mi, ond eto yn debyg  
iawn o wedd i'n gilydd.

**GONEST.** Gwelaf yr adwaenit ef, a hawdd genyf gredu  
eich bod yn perthyn i'ch gilydd; oblegyd y mae ei wedd  
lwyd ef genyt, tröad dy lygad fel yntau, a'th leferydd  
yn bur dehyg.

**GWAN-FEDDWL.** Felly dywedai y rhan fwyaf a'n had-  
waenent hefyd; yr hyn a ddarllenais ynddo ef, gan  
mwyaf, a gefais ynof y hun.

**CAIUS.** Wel, syr, bydd galonog; y mao i ti groesaw  
ataf, ac i'm ty. Yr hyn a syni, galw am dano; a'r hyn •

fyni gan fy ngweision, hwy a'i gwnant o barodrwydd calon.

Yna ebe Mr. Gwan-feddwl, Dyma ffafir heb ei dysgwyl, ac megys tywyniad haul allan o gwmwl tew. A oedd y cawr, Lladd-daioni, yn bwriadu y fath ffafir i mi pan y'm hataliodd ar y ffordd, ac y penderfynodd na chawn fyned yn mhellach? A oedd efe yn meddwl y cawn fyned at Gaius, fy lletywr, wedi iddo ef fy llwyr yspeilio? Eto felly y mae.

Pan oedd Mr. Gwan-feddwl a Gaius yn ymddyddan fel hyn â'u gilydd, daeth un ar redeg at y drws, ac a ddywedodd, Cafodd Mr. Annghywir, pererin, ei daro yn farw yn y man gan fellten, oddeutu milltir a hanner oddiyma.

**GWAN-FEDDWL.** Och! ebe Mr. Gwan-feddwl, a laddwyd ef? Efe a'm goddiweddodd ychydig ddyddiau cyn fy nyfod can belled a hyn, ac a fynai fod yn gydymaith i mi. Yr oedd efe gyda mi hefyd pan y'm daliwyd gan y cawr, Lladd-daioni; ond yr oedd yn wr o sodlau gwisgi, a dihangodd: ond ymddengys iddo ddianc i farw, a chymerwyd finau i fyw.

Yr hyn a dybiodd llawer un  
A geisiai'i fywyd cu,  
A roddes wared iddo ef  
O flinion ddrygau lu;  
A throion cudd Rhagluniaeth sydd  
Ag angau yn eu gwedd,  
Yn fynych iawn i'r isel fryd  
Sy'n fywyd ac yn hedd.

Fe'm daliwyd i yn nwylaw'r cawr,  
O fewn i'w ogof, clyw;  
Ond o'i grafangau creulawn, certh,  
Dihangodd ef yn fyw:  
Ond dianc wnaeth (mor syn y tro !)  
I farw'n wael ei wedd;  
A minau, er fy nal yn gaeth,  
Ge's nodded llawn, a hedd.

Tua'r amser hwn y priodwyd Matthew a Thrugaredd; a Gaius hefyd a roddes ei ferch Phebe yn wraig i Iago,

brawd Matthew; ar ol hyny arosasant yn nghylch deng niwrnod yn nhŷ Gaius, gan dreulio eu hamser a'r ty-mhorau fel yr arfera pererinion.

Pan oeddynt ar ymadael, gwnaeth Gaius iddynt wledd, a hwy a fwytasant ac a yfasant, ac a fuont lawen. Ond daeth yr awr yr oedd yn rhaid iddynt ymadael; felly Mr. Dewr-galon a alwodd am gyfrif. Ond Gaius a ddywedai, nad peth arferol i bererinion dalu dim am eu croesawriad yn ei dy ef. Yr oedd efe yn eu byrddiau wrth y flwyddyn, ac yn dysgwyl am ei dâl oddiwrth y Samaritan trugarog, yr hwn a addawsai, ar ei ddychweliad, dalu yn onest pa draul bynag a ddisgynai arnynt, Luc 10. 34, 35. Yna ebe Mr. Dewr-galon wrtho :—

**DEWB-GALON.** “Yr anwylyd, yr ydwyt yn gwneuthur yn ffyddlon yr hyn yr ydwyt yn ei wneuthur tuag at y brodyr, a thuag at ddyfeithriaid; y rhai a dystiolaethasant am dy gariad di ger bron yr eglwys: y rhai, os hebryngi fel y gweddai i Dduw, da y gwnai,” 3 Ioan 5, 6. Yna Gaius a ganodd yn iach iddynt oll, ac i’w blant hefyd, ac yn enwedig i Mr. Gwan-feddwl. Ac efe a rodde iddo rywbed i’w yfed ar y ffورد.

Ond pan oeddynt yn myned allan o’r drws, ym-ddanghosai Mr. Gwan-feddwl fel un am sefyllian ar ol. Pan welodd Mr. Dewr-galon hyn, efe a ddywedodd, Atolwg, Mr. Gwan-feddwl, tyred gyda ni; byddaf yn arweinydd i ti, a chai ymdaro fel y lleill.

**GWAN-FEDDWL.** Och! y mae arnaf eisieu cydymaith addas. Yr ydych chwi oll yn wyr cedyrn nerthol, a minau, fel y gwelwch, yn wan; gwell genyf, gan hyny, ddyfod ar ol, rhag i mi, trwy fy mynuch wendidau, fod yn faich i mi fy hun ac i chwithau. Dyn o feddwl gwan ac eiddil ydwyf, fel y dywedais, a thramgwyddir a gwan-ychir fi trwy’r hyn y gall ereill ei ddwyn. Nid hoff genyf chwerthiniad; nid hoff genyf wisgoedd gwychion; ac nid wyf yn caru cwestiynau anfuddiol. Ié, yr wyf yn ddyn mor wan ag y tramgwyddaf wrth yr hyn y mae gan creill ryddid i’w wneuthur. Nid wyf yn gwybod yr holl wirionedd. Cristion tra anwybodus ydwyf. Weithiau, os clywaf rai yn ymlawenhau yn yr Arglwydd, bydd yn

flin genyf am na's gallaf finau wneuthur hyny. Y mae gyda mi fel y mae gyda dyn gwan yn nghanol rhai cryfion, neu ddyn claf yn nghanol rhai iach, neu fél "lamp ddiystyr;" fel na's gwn beth i wneud. "Lamp ddiystyr yn meddwl y llwyddiannus yw yr hwn sydd yn barod i lithro â'i draed," Job 12. 5.

**DEWR-GALON.** Ond, frawd, ebe Mr. Dewr-galon, rhan o'm gweinidogaeth i yw cysuro y gwan ei feddwl, a chynal y gweiniaid. Rhaid i ti ddyfod gyda ni; arhoswn am danat; rhoddwn i ti bob cynorthwy; ymawdwn â rhai pethau, mewn barn a buchedd, er dy fwyn; nid ym-yrwn ag amrafael resymau yn dy wydd; ymwnawn yn bob peth i ti yn hytrach nag y cei dy adael ar ol, 1 Thes. 5. 14; Rhuf. 14.; 1 Cor. 8. 9—13; 9. 22.

Trwy gydol yr amser hwn yr oedd ynt yn sefyll wrth ddrws Gaius; a thra yr oedd ynt fel hyn yn mhoethder yr ymddyddan, daeth Mr. Parod-i-gloffi heibio, â'i ffynbaglau yn ei law, yr hwn hefyd oedd yn myned ar bererindod.

**GWAN-FEDDWL.** Yna, ebe Mr. Gwan-feddwl wrtho, Pa fod y deuaist ti yma? Yr oeddwn yn awr yn cwyno nad oedd genyf gydymaith cymhwys, ond yr wyt ti wrth fy modd. Croesaw, croesaw, Mr. Parod-i-gloffi, yr wyf yn gobeithio y byddi di a minau o ryw gynorthwy i'n gilydd.

**PAROD-I-GLOFFI.** Llawen iawn a fyddaf o'th gyfeillach, ebe'r llall; ie, Mr. Gwan-feddwl anwyl, yn hytrach nag i ni ymadael â'n gilydd, wedi cysfarfod mor ddedwyd, rhoddaf fenthyg i ti un o'm ffyn-baglau.

**GWAN-FEDDWL.** Na, ebe yntau, er fod genyf ddiolch i ti am dy ewyllys da, nid oes yn fy myrd i sefyll cyn cloffi. Eto, tybiwyf y gallai fod o gymhorth i mi, os bydd raid, yn erbyn ci.

**PAROD-I-GLOFFI.** Os gallaf fi neu un o'm ffyn-baglau fod o ryw gymwynas, yr ydym wrth dy alwad, Mr. Gwan-feddwl hoff.

Fel hyn, gan hyny, yr aethant rhagddynt. Mr. Dewr-galon a Gonest yn gyntaf, Cristiana â'i phlant yn nesaf, a Mr. Gwan-feddwl a Mr. Parod-i-gloffi â'i ffynbaglau ar

Yna ebe Mr. Gonest :—

GONEST. Atolwg, syr, am ein bod yn awr ar y ffordd, adrodd i ni ryw bethau buddiol am rai a aethant ar bererindod o'n blaen ni.

DEWR-GALON. O ewyllys calon. Clywaist, mae yn debyg, y modd y cyfarfu Cristion gynt ag Apolyon yn Nyffryn Gostyngeiddrwydd, a'r gwaith caled a gafodd i fyned trwy Lyn Cysgod Angau. Hefyd, tybiwyf na allet lai na chlywed am y modd yr ymosododd Mrs. Trythyll, Adda y Cyntaf, Anfoddlonrwydd, a Chywilydd, ar Ffyddlon druan—pedwar o'r dyhirwyr mwyaf twyllodrus y dichon dyn gwrrd â hwy ar y ffordd.

GONEST. Do, credwyf i mi glywed am hyn oll ; ond yn wir Cywilydd a fu drymaf ar Ffyddlon o'r cwbl ; un diflino oedd hwnnw.

DEWR-GALON. Ië ; fel y dywedodd y pererin yn gymhwys, efe yn anad neb a gafodd ei gamenwi.

GONEST. Ond, atolwg, syr, yn mha le ar y ffordd y eyfarfu Cristion a Ffyddlon â Siaradus ? Yr oedd hwnnw hefyd yn un hynod.

DEWR-GALON. Ynfyd-ddyn hyf oedd hwnnw ; eto y mae llawer yn dilyn ei ffyrdd.

GONEST. Bu agos iddo dwyllo Ffyddlon.

DEWR-GALON. Do, ond rhoddes Cristion ef ar ben y ffordd i ganfod yn fuan beth oedd.

Fel hyn yr aethant yn mlaen hyd oni ddaethant i'r lle y cyfarfu Efengylwr â Christion a Ffyddlon, ac y rhagfynegodd yr hyn a ddygwyddai iddynt yn Ffair Gwagedd. Yna ebe eu harweinydd wrthynt, Tua'r man hwn y cyfarfu Gristion a Ffyddlon ag Efengylwr, ac y rhagfynegodd iddynt y trallosion â gyfarfyddent yn Ffair Gwagedd.

GONEST. Aië ? Diau genyf mai pennod galed a ddarllenodd efe iddynt y pryd hwnnw.

DEWR-GALON. Ië, ond rhoddes iddynt gefnogaeth dda er hyny. Eithr i beth y siaradwn am danynt ? Dau o ddynion llewaidd oedd ynt ; gosodasant eu gwynebau fel callestr. A wyt ti ddim yn cofio mor ddiofn **oeddynt pan y safent o flaen y barnwr ?**

GONEST. Wel, dyoddefodd Ffyddlon yn wych.

DEWR-GALON. Felly y gwnaeth, a gwych y pethau a ddilynasant; canys dywedir i Gobeithiol ac ereill gael eu dychwelyd trwy ei farwolaeth.

GONEST. Ond, atolwg, dos yn mlaen; canys yr wyt yn gyfarwydd ar yr hanes.

DEWR-GALON. O bawb a gyfarfu & Christion wedi iddo fyned trwy Ffair Gwagedd, un Gau-ddybenion oedd y mwyaf dichellgar.

GONEST. Gau-ddybenion! pa fath un oedd hwnw?

DEWR-GALON. Adyn dichelldrwg, rhagri thiwr trwyadl; un a fynai fod yn grefyddol, pa ffordd bynag y tröai'r byd; eithr mor gyfrwys, fel y byddai yn sicr na chai ef na cholled na cham drwyddi. Yr oedd ganddo ei ffurf o grefydd at bob achlysur, ac yr oedd ei wraig yn hyn cystal ag yntau. Tröai o farn i farn, a dadleuai dros hyny hefyd. Ond can bellied ag y medrais gasglu, daeth i ddiwedd drwg trwy ei ddybenion gau; ac ni chlywais erioed fod neb o'i blant mewn dim parch gan y rhai a wir ofnent Dduw.

Erbyn hyn daethant i olwg Tref Gwagedd, lle y cynhelir Ffair Gwagedd. Felly pan welsant eu bod mor agos i'r dref, ymgynghorasant â'u gilydd pa fodd yr äent trwyddi; rhai a ddywedent fel hyn, a rhai fel arall. O'r diwedd, ebau Mr. Dewr-galon, Bu'm, fel y gwyddoch, yn fynych yn arweinydd i bererinion trwy'r dref hon. Yn awr, yr wyf yn gydnabyddus ag un Mr. Mnason, Act. 21. 16, Cyriad o genedl, hen ddysgybl, yn nhŷ yr hwn y gallwn letya. Os bernwch hyny yn oreu, trôwn i mewn yno.

Boddlon, ebe Mr. Gonest; Boddlon, ebe Cristiana; Boddlon, ebe Mr. Gwan-feddwl; ac felly dywedai pawb. Yn awr deallwch ei bod yn hwyr y pryd nawn pan ddaethant i gwr y dref; ond gwyddai Mr. Dewr-galon y ffordd i dy'r hen wr. Felly daethant yno; ac wedi iddo alw wrth y drws, yr hen wr oddimewn a adnabu ei lais yn y man, agorodd iddynt, a daethant oll i mewn. Yna ebe Mr. Mnason, eu lletywr, wrthynt, O ba can bellied y daethoch heddyw? Atebasant hwythau, O dy'th gysail

**290 DANFON AM GYFEILLION MR. MNASON.**

Gaius. Wel, yn wir, ebe yntau, daethoch o gryn bellder. Rhaid eich bod yn flinedig; eisteddwch i lawr. Felly yr eisteddasant.

**DEWB-GALON.** Yna ebe eu harweinydd, Wel, gyfeillion, pa fod yr ymdeimlwch? Gwn fod i chwi gyflawn groesaw i dy fy nghysfaill.

**MNASON.** Croesaw ichwi, meddwyf finau, ebe Mr. Mnason; a pha beth bynag a fydd eisiau, dywedwch, a gwnawn ein goreu i'w gael.

**GONEST.** Ein prif angen er's peth amser oedd lloches a chwmni da, ac yn awr hyderwyf fod y ddaau genym.

**MNASON.** Am loches, gwelwch pa fath yw; ond am gwmni da, ymddengys hyny yn y prawf.

**DEWR-GALON.** Wel, ebe Mr. Dewr-galon, a synit ti gymeryd y pererinion i'w hystafelloedd?

**MNASON.** Mynwyf, ebe Mr. Mnason. Felly dyg hwy bawb i'w lle; a danghosodd iddynt ystafell-giniaw wych, lle y gallent fod gyda'u gilydd, a swpera, hyd oni ddelai amser gorphwyso.

Wedi iddynt eistedd yn eu lleoedd, ac ymddadebru ychydig ar ol y daith, gofynodd Mr. Gonest i'w lletywr, a oedd yno luaws o bobl dda yn y dref?

**MNASON.** Y mae yma ychydig; canys yn wir nid ydynt ond ychydig wrth eu cydmaru â'r blaid arall.

**GONEST.** Ond pa fod y gwnawn i gacl gweled rhai o honyn? canys y mae'r golwg ar bobl ddaionus, i'r sawl sydd ar bererindod, fel golwg ar y lleuad a'r ser i'r rhai sydd yn hwyllo ar y moroedd.

**MNASON.** Yna Mr. Mnason a roes ergyd i'r llawr â'i droed, a'i ferch Gras a ddaeth i synu. Yna dywedodd wrthi, Gras, dos, a dywed wrth fy nghyfeillion, Mr. Calon Friw, Mr. Gwr Santaidd, Mr. Caru-y-saint, Mr. Cas-celwydd, a Mr. Edifeiriol, fod yma gyfaill neu ddaau yn fy nhŷ a garant eu gweled. Felly Gras a aeth i'w galw, a daethant; ac wedi cyfarch eu gilydd, cydeisteddasant wrth y bwrdd.

Yna dywedodd Mr. Mnason, eu lletywr, Fy nghymydigion, y mae genyf, fel y gwelwch, gwmni o ddyciethriaid wedi dysod i fy nhŷ; pererinion ydynt: daethant o bell,

a myned y maent i fynydd Sion. Ond pwy, eb efe, a feddyliech chwi yw hon? gan gyfeirio ei fys at Gristiana. Cristiana yw, gwraig Cristion, y pererin enwog, yr hwn, yn nghyda'i frawd Ffyddlon, a driniwyd mor gywilyddus yn ein tref ni. Ar hyny safasant yn syn, a dywedasant, Ychydig a feddyliasom y caem weled Cristiana pan ddaeth Gras i'n galw; ac am hyny y mae hwn yn ddifyrwch heb ei ddysgwyl. Yna gofynasant iddi am ei helynt, ac ai meibion ei phriod oedd y gwyrr ieuainc hyny. A phan atebodd hithau mai hwy oeddynt, dywedasant hwythau, Y Brenin, yr hwn yr ydych yn ei wasanaethu, a'ch gwnelo yn debyg i'ch tad, ac a'ch dygo mewn heddwch i'r man y mae yntau.

GONEST. Wedi iddynt oll eistedd i lawr, gofynodd Mr. Gonest i Mr. Calon Friw a'r lleill, Yn mha agwedd y mae eich tref y pryd hwn?

CALON FRIW. Gellwch benderfynu ein bod yn llawn ffwdan amser ffair. Anhawdd iawn cadw ein calonau a'n hysbrydoedd mewn trefn pan y byddom yn llawn trafferth. Y neb a breswylio yn y fath le a hwn, ac a wnelo â'r fath ag y mae a wnelom ni, sy raid iddo wrth awgrym i'w rybuddio i fod yn wagelog bob munud o'r dydd.

GONEST. Pa wedd sydd ar eich cymydogion yn awr o ran llonyddwch?

CALON FRIW. Y maent yn llawer mwy cymhedrol yn awr nag y buont gynt. Gwyddoch am y modd y trin-iwyd Cristion a Ffyddlon yn ein tref; ond yn ddiweddar, meddaf, y maent wedi bod yn llawer mwy cymhedrol. Yr wyf yn meddwl fod gwaed Ffyddlon yn gorwedd yn drwm arnynt hyd yn awr; canys er pan losgasant ef, bu arnynt gywilydd llosgi neb ar ei ol. Yn y dyddiau hyny yr oedd arnom ofn cerdded yr heolydd, ond yn awr gallwn ddangos ein penau. Y pryd hwnnw yr oedd enw professwr yn ffaidd; ond yn awr, yn enwedig mewn rhai parthau o'n tref (canys gwyddoch fod ein tref yn fawr), cyfrifir crefydd yn anrhydeddus. Yna ebe Mr. Calon Friw wrth-ynt, Atolwg, pa fodd yr ydych chwi yn ymdaro ar eich pererindod? pa fodd y mae'r wlad yn ymddwyn tuag atoch?

**GONEST.** Dygwydda i ni fel y mae'n dygwydd i fforddion ;—weithiau mae ein ffordd yn lân, weithiau yn fudr; weithiau gallt, weithiau gwaered ; anfynych y mae sicrywydd. Nid yw'r gwynt bob amser i'n cefnau, ac nid cyfaill yw pob un a gyfarfyddwn yn y ffordd. Yr ydym wedi cyfarfod â rhai rhuthrau hynod eisoes, a pha beth sydd eto yn ol nis gwyddom ; ond gan mwyaf yr ydym yn cael mai gwir yr hen air, Rhaid i ddyn da ddyoddef adfyd.

**CALON FRIW.** Ti a soni am ruthrau ; pa ruthrau a fu arnoch ?

**GONEST.** Na, gofyn i Mr. Dewr-galon, ein harweinydd ; canys efe a fedr roddi yr hanes goreu am hyny.

**DEWR-GALON.** Ymosodwyd arnom daир neu bedair c weithiau yn barod. Yn mlaenaf, Ymosododd dau o ddy-hirwyr ar Gristiana a'i phlant, y rhai yr ofnent am eu bywydau oddiwrthynt. Ymosodwyd arnom hefyd gan Gawr Cuchiog, Cawr Baeddwr, a Chawr Lladd-daioni. Yn wir, yn hytrach, nyni a ymosodasom ar yr olaf, ac nid efe arnom ni. Ac fel hyn y bu : gwedi i ni fod am beth amser yn nhŷ Gaius, fy lletywr i a'r holl eglwys, cawsom awgrymiad ryw bryd i gymeryd ein harfau, a myned allan i edrych a allem ddisgyn ar neb o elynion y pererinion ; canys clywsom fod oddeutu yno un tra hynod. Yr oedd Gaius yn gwybod am ei gyniweirfa yn well na mi, am ei fod yn byw gerllaw. Felly chwiliasom yn ddyfal, ne's o'r diwedd i ni ganfod genau ei ogof : yna bu lawen genym, a chodasom ein hysbrydoedd. Felly nessasom at ei ffau ; ac wele, pan ddaethom yno, yr oedd efe wedi llusgo i'w rwyd, trwy wir drais, y truan-ddyn hwn, Mr. Gwan-feddwl, ar fedr gwneud diwedd arno. Ond pan ganfu efe ni, a barnu hefyd, tybygem, iddo gael ysglyfaeth arall, gadawodd y dyn tlawd yn ei ffau, a daeth allan. Felly dechreuuasom ymosod arno â'n holl rym, ac yntau a amddifynnodd ei hui'an yn lew ; ond, o'r diwedd, tarawwyd ef i'r llawr, a thorwyd ei ben, i'w osod i fynu ar fin y ffordd, er dychryn i'r sawl a wnelont y fath annuwioldeb rhagllaw. Ac er prawf fy mod yn dywedyd y gwir, dyna'r dyn ei hun i dystio, yr hwn a achubwyd fel oen o safn y llew.

**GWAN-FEDDWL.** Yna ebe Mr. Gwan-feddwl, Profais hyn yn wir, er fy ngofid a'm cysur : er fy ngofid, pan oedd yn bygwth pigo fy esgryn bob m:uuud ; ac er fy nghysur, pan welais Mr. Dewr-galon a'l gyfeillion, â'u harfau ganddynt, yn dynesu mor agos i fy thyddhau.

**GWR SANTAIDD.** Yna ebe Mr. Gwr Santaidd, Rhaid i'r sawl a elo ar bererindod feddiannu dau beth , gwroldeb, a bywyd difrycheulyd. Os na bydd ganddynt wroldeb, ni allant byth ddal eu ffodd ; ac os afreolus eu bywyd, parant i enw pererin sawru yn drwm.

**CARU-Y-SAINT.** Yna ebe Mr. Caru-y-saint, Gobeithiwyl nad yw y rhybudd hwn yn angenrheidiol yn eich plith chwi. Ond yn wir y mae llawer sydd yn myned ar hyd y ffodd, yn dangos eu bod yn ddyeithriaid i bererindod, yn hytrach na'u bod yn ddyeithriaid a phererinion ar y ddaear.

**CAS-CELWYDD.** Yna ebe Mr. Cas-celwydd, Digon gwir. Nid oes ganddynt wisg pererinion, na gwroldeb pererinion ; nid ânt yn union, ond yn wyrgam ; y naill esgid i mewn, y llall allan ; a'u hosanau ydynt dyllog : y mae cerwyn yma, a rhwyg acw, er difriad i'w Harglwydd.

**EDIFEIRIOL.** Dylent ymofidio oherwydd hyn, ebe Mr. Edifeiriol ; ac nis gall y pererinion gael yr addurn hwnnw arnynt nac ar eu Taith Pererin a ddymunent, hyd oni lanheir y ffodd o'r fath frychau a meflau. Fel hyn yr eisteddasant gan ymddyddan yr amser ymaith hyd nes dodi y swper ar y bwrdd, at yr hwn y nesasant ; ac wedi cyfnerton eu cyrff, aethant i orphwys.

Yn awr arosasant yn y ffair dro hir yn nhŷ Mr. Mnason, yr hwn yn ystod yr amser a rodde ei ferch Gras i Samuel, mab Cristiana, yn wraig, a'i ferch Martha i Joseph.

Fel y dywedais, yr oedd yr amser y buont yma yn faith, canys nid oedd yn awr fel yn y dyddiau gynt. Gan hyny daeth y pererinion yn gydnabyddus & llawer o bobl ddaionus y dref, a gwnaethant iddynt y gwasanaeth a allent. Trugaredd hithau, yn ol ei harfer, a weithiodd lawer i'r tlodian : am hyny eu boliau a'u cefnau a'i bendithiodd, ac yr oedd yno yn addurn i'w phroffes. Ac, a dywedyd y gwir am Gras, Phebe, a Martha, yr oeddynt

Yn awr ni feiddiai un dyn yn y dref gymaint yr anghenfil hwn ; ond pawb a fföent pan gly ddyfodiad.

Nid oedd yr anghenfil hwn yn debyg i u wyneb y ddaear. Yr oedd ei gorff yn debyg yr oedd iddo saith ben a deg corn. Gwna mawr ar blant, ac eto llywodraethid ef gan 17.3. Yr anghenfil hwn a gynygai ammodau a'r dynion hyny, a garent eu bywydau yn fwy iau, a gydsynient a'r ammodau hyny. Felly hwy.

Yn awr Mr. Dewr-galon, a'r rhai a ddaethant a'r pererinion i dy Mr. Mnason, a ymgyngh fyned i ymosod ar y bwystfil hwn, fel y gallent inodd, achub trigolion y dref o safn a chrafanga ddinystriol.

Yna yr aeth Mr. Dewr-galon, Mr. Calon Fri Santaidd, Mr. Cas-celwydd, a Mr. Edifeiriol, gyda hwynt, i'w gyfarfod. Yr oedd yr angl cyntaf yn nwysfus iawn, ac yn edrych ar y ge gyda dirmyg mawr ; ond hwy a'i baeddasant e gan eu bod yn arfogion glewion, fel y gorfogilio yn ol : felly dychwelasant adref i dy Mdrachefn.

Yr oedd gan yr anghenfil, gwybyddwch, e penodol i ddyfod allan, ac i ymosod ar blant y t

Hyn gau hyny a dderchafodd Mr. Dewr-galon a'i gymdeithion yn enwog yn y dref; fel ag yr oedd llawer o'r bobl, nad oeddynt o'r un chwaeth â hwy am bethau, yn meddu parch mawr yn eu calon iddynt. Oherwydd hyn ni chyfarfu y pererinion â chymaint o niwaid yma. Gwir fod yno rai o'r gwehilion na allent weled mwy na gwadd, na deall mwy nag anifail; nid oedd ganddynt hwy ddim parch i'r gwyr hyn, ac ni ddaliasant sylw ar eu glewder na'u hanturiaethau.

Wel, nesaodd yr amser i'r pererinion fyned yn mlaen ar eu taith; felly ymbarotóiasant. Danfonasant am eu cyfillion; ymddyddanasant â hwynt; neillduasant beth aniser i gyflwyno eu gilydd i amddiffyniad eu Tywysog. Yr oedd yno rai hefyd a ddygasant iddynt o'r hyn oedd ganddynt—pethau cymhwys i'r gwan ac i'r cryf, i'r gwragedd ac i'r gwyr, ac a'u llwythasant felly â'r hyn oedd angenrheidiol, Act. 28. 10. Yna aethant yn mlaen i'w taith; a'u cyfeillion, wedi eu dilyn can belled ag oedd yn gyfleus, ac wedi cyflwyno eu gilydd drachefn i nodded eu Brenin, a ymadawsant.

Y rhai gan hyny ag oeddynt o fintai y pererinion a aethant rhagddynt, a Mr. Dewr-galon o'u blaenau. Yn awr, gan fod y gwragedd a'r plant yn weiniaid, rhaid oedd iddynt fyned fel y gallent; trwy hyny cafodd Mr. Parodi-gloffi a Mr. Gwan-feddwl fwy i gydymdeimlo gyda'u sefyllfa.

Gwedi iddynt ymadael â thrigolion y dref, ac wedi i'w cyfeillion ganu yn iach iddynt, daethant yn fuan at y man y rhoddwyd Ffyddlon i farwolaeth. Yma gan hyny y safasant, a diolchasant i'r Hwn a'i nerthasai i ddwyn ei groes cystal; ac yn fwy felly, am eu bod hwy yn awr yn cael llesâd oddiwrth y fath ddyoddefiadau gwrol a'r eiddo ef.

Ar ol hyn aethant encyd o ffordd yn fñhellach, gan ymddyddan am Gristion a Ffyddlon, a'r modd yr ym-unodd Gobeithiol â Christion ar ol marwolaeth Ffyddlon.

Erbyn hyn yr oeddynt wedi dyfod gyferbyn â bryn Elw, lle yr oedd y mwnglawdd arian, yr hwn a hudodd Demas oddiar ei bererindod, ac i'r hwn, fel y tybia rhai,

y syrthiodd Gau-ddybenion ac y darfu am dano ; yma yr ystyriasant hwythau hyny. Onn pan ddaethant at yr hen golofn a safai ar gyfer bryn Elw, sef y golofn halen, yr hon a safai hefyd yn ngolwg Sodom a'i llyn drewedig, hwy a ryseddasant, fel y gwnaethai Cristion o'r blaen, fod gwyr o'r fath wybodaeth a nerth synwyr ag oeddynt hwy mor ddall a throi o'r ffordd yma. Eithr ystyriasant drachefn, nad yw natur yn teimlo y drygau y mae ereill yn eu cysfarfod, yn enwedig os bydd y peth yr edrychiant arno yn meddu gymr deniadol ar lygad ynsyd.

Gwelwn hwy yn myned yn mlaen hyd oni ddaethant at yr afon ag oedd o'r tu yma i'r Mynyddoedd Hyfryd— at yr afon lle y mae'r coed dymunol yn tyfu o bob tu iddi, dail y rhai, os cymerir hwy yn dumewnol, sydd yn dda rhag gormodedd ; lle y mae'r gweirgloddiau yn wyrdd-leision trwy gydol y flwyddyn ; a'r lle y gallent orwedd yn ddiogel, Psal. 23. 2.

Wrth lan yr afon hon, yn y gweirgloddiau, yr oedd lluestai a chorlanau defaid, a thy wedi ei adeiladu i sagu a meithrin yr wyn, sef babanod y gwragedd a elont ar bererindod. Hefyd, yr oedd yma un yr ymddiriedwyd iddo am danynt, yr hwn a allai dosturio ; gallai gasglu yr wyn a'i fraich, eu dwyn yn ei fynwes, a choleddu y niamogaiaid, Heb. 5. 2 ; Esa. 40. 11. Yn awr i ofal y gwr hwn y cynghorai Cristiana ei phedair merch i roddi eu rhai bychain, fel y gallent gael eu cartrefu, eu cysgodi, eu llochi, eu magu a'u meithrin, wrth y dyfroedd hyn, ac na byddo un o honynyt ar goll yn yr amser a ddaw. Y gwr hwn, os a'u un o honynyt ar ddisperod, neu ar goll, a'i dwg yn ol ; efe a rwyma'r friwedig, ac a gryfha'r lesg, Jer. 23. 4 ; Ezec. 34. 11—16. Yma ni bydd arnynt byth eisieu bwyd, diod, na dillad ; yma cedwir hwy rhag lladron ac yspeilwyr ; oherwydd bydd y gwr hwn farw cyn y cyfr-gollir un o'r rhai a roddir i'w ofal. Heblaw hyn, byddant sier o gael yma addysg ac athrawiaeth dda, a'u dysgu hefyd i rodio ar hyd llwybrau uniawn, yr hyn, fel y gwyddoch, sydd fiafr werthfawr. Y mae yma hefyd, sef y gwelwch, ddyfroedd peraidd, dolydd hyfryd, blodau godidor, amrywiaeth o goedydd, a'r cyfryw ag a ddyg

ffrwytn iachusol—ffrwyth, nid cyffelyb i'r hwn y bwytaodd Matthew o hono, ag oedd yn crogi dros y mur o ardd Belzebub ; ond ffrwythau a gynyrrchant iechyd lle nad yw, ac a barant iddo gynyddu a pharhau lle y mae. Felly buont fodlon i ymddiried eu rhai bychain i'w ofal ; a'r hyn oedd hefyd yn gymhelliad iddynt i wneuthur felly ydoedd, fod hyn oll i fod ar draul y Brenin, a'i fod drwy hyny yn nawdd-dy i blant bychain ac amddifaid.

Yna aethant yn mlaen. A phan ddaethant i weirglodd y Gau-lwybr, at y gamfa dros yr hon yr aeth Cristion a'i gyfaill Gobeithiol, pan y cymerwyd hwy gan Cawr Anobaith, ac y'u gosodwyd yn Nghastell Amheuaeth, eisteddasant i lawr, ac ymgynghorasant beth oedd oreu i'w wneuthur ; sef, gan eu bod yn awr mor gryfion, a chanddynt y fath wr a Mr. Dewr-galon yn arweinydd, ai nid gwell oedd iddynt ymosod ar y cawr, dryllio ei gastell, a gollwng y pererinion yn rhyddion, od oedd rhai ynddo, cyn yr elont yn mhellach. Felly un a ddywedai fel hyn, a'r llall i'r gwrtwyneb. Amheuai un ai cyfreithlon iddynt oedd myned i dir annglysegredig ; dywedai un arall y gallent, os byddai eu dyben yn dda ; ond Mr. Dewr-galon a ddywedodd, Er na's gall yr haeriad a gynygiwyd ddiweddaf fod yn wirionedd bob amser, eto gorchymwynwyd i mi wrthwynebu pechod, gorchfygu drygioni, ac ymdrechu hardd-deg ymdrech y ffydd : ac, atolwg, â phwy yr ymdrechwyf yr ymdrech da hwn ond & Chawr Anobaith ? Gan hyny, ceisias ddwyn ei fywyd, a dryllio Castell Amheuaeth. Yna, eb efe, pwy a â gyda mi ? Myfi, ebe hen Onest. A deuaf finau hefyd, ebe pob un o feibion Cristiana, Matthew, Samuel, Joseph, a Iago ; canys yr oeddynt hwy yn ieuainc ac yn gryfion, 1 Ioan 2. 13, 14. Felly gadawsant y gwragedd yn y ffordd, a Mr. Gwan-feddwl, a Mr. Parod-i-gloffi a'i ffyn-baglau, i fod yn warcheidwaid iddynt hyd oni ddeuent yn ol ; canys yn y man hwnw yr oedd Cawr Anobaith yn trigo mor agos, fel y gallai plentyn bychan, tra'r ymgadwent ar y ffordd, eu harwain, Esa. 11. 6.

Felly Dewr-galon, hen Onest, a'r pedwar gwr ieuanc, a aethant i synu at Gastell Amheuaeth, i edrych am Gawr

Anobaith. Pan ddacthant at borth y castell, curasant am dderbyniad gyda thwrf anarferol. Ar hyn daeth yr hen gawr at y porth, ac Anhyder, ei wraig, yn ei ddilyn. Yna eb efe, Pwy a pha fath yw efe sydd mor hyf ag aflowyddu fel hyn ar Gawl Anobaith? Dewr-galon a atebodd, Myf yw, Dewr-galon, un o arweinyddion pererinion Brenin y wlad nefol i'w bro eu hunain; ac yr wyf yn gorchymyn i ti agoryd y pyrth fel y delwyf i mewn: ymbarotia i ymladd â mi, canys daethum i gymeryd dy ben ymaith, a dryllio Castell Amheuaeth.

Yn awr Cawr Anobaith, am mai cawr ydoedd, a feddyliodd nad oedd yr un dyn a allai ei orchfygu: hefyd dychymygai, Yn gymaint ag i mi orchfygu angelion, a gaiff Dewr-galon beri i mi ofni? Felly efe a ymarfogodd, ac a aeth allan. Yr oedd ganddo gapan oddur am ei ben, a dwyfroneg o dâr byw wedi ei gwregysu wrtho, ac efe a ddaeth allan mewn esgidiau o haiarn, a ffon gnwpia fawr yn ei law. Ar hyn y chwe gwr yma a ddynesasant i fynu ato, ac a ymosodasant arno wyneb a chefn: a phan ddaeth Anhyder y gawres i'w gynorthwyo, tarawodd Mr. Gonest hi i'r llawr ag un ergyd. Yna ymladdasant am eu bywyd, a dygwyd Cawr Anobaith i lawr ar y ddaear; ond yr oedd yn anhawdd iawn ganddo farw. Ymdrechodd yn galed iawn—yr oedd ganddo, fel y dywedir, fywyd cath; ond Mr. Dewr-galon a fu yn angau iddo, canys nis gadawodd lonydd iddo nes tori ei ben oddiar ei ysgwyddau.

Yna troisant i ddinystrio Castell Amheuaeth; a gwydd-och mai hawdd oedd gwneud hyny, wedi i Gawl Anobaith farw. Buont saith niwrnod yn ei ddinystrio; a chawsant o bererinion ynddo Mr. Llwfr, yn mron rhynu i farwolaeth, ac un Mawr-ei-hofn, ei ferch: y ddaau hyn a achubasant yn fyw. Ond rhyfeddasech yn fawr pe gwellsech y cyrff meirwon a orweddent yma ac acw ar hyd cyntedd y castell, a llawned oedd y daeardy o esgyrn y meirw.

Gwedi i Mr. Dewr-galon a'i gyfeillion orphen hyn o orchestwaith, cymerasant Mr. Llwfr, a'i ferch Mawr-ei-hofn, o dan eu nawdd; canys pobl onest oedd yng hwy, er eu bod yn garcharorion yn Nghastell Amheuaeth i'r gor-

mesdeyrn Cawr Anobaith. Cymerasant hefyd gyda hwy ben y cawr (oblegyd ei gorff a gladdesid dan garnedd o gerig), daethant at eu cyfeillion i'r ffordd, a dangosasant iddynt yr hyn a wnaethant. Yn awr, pan welodd Gwanfeddwl a Pharod-i-gloffi mai pen Cawr Anobaith oedd efe mewn gwirionedd, yr oeddynt yn llon a llawen. Yr oedd Cristiana, pan fyddai raid, yn alluog i chwareu ar y crwth, a'i merch Trugaredd ar y delyn; a chan eu bod mor llawen, chwareuodd gainc iddynt, a Pharod-i-gloffi a fynai ddawnsio. Felly efe a gymerth Mawr-ei-hofn, merch Llwfr, erbyn ei llaw, ac i ddawnsio yr aethant ar y ffordd. Mae'n wir na's gallai ddawnsio heb gael un ffonfagl yn ei law, ond ar fy ngair yr oedd efe yn ei throedio yn gelfyddgar iawn: hefyd yr oedd yr eneth i'w chanmol, canys yr oedd hi yn ateb y gerddoriaeth yn gyson.

Ond am Mr. Llwfr, nid oedd y gerddoriaeth nemawr o fudd iddo ef: yr oedd efe am ymborthi yn hytrach na dawnsio, canys yr oedd yn mron newynu. Felly Cristiana a roddes iddo ychydig win o'i chostrel i'w ddadebru a'i loni, ac yna parotodd rywbeth iddo i'w fwyta; ac yn mhen enyd daeth yr hen wr bonheddig ato ei hun, a dechreuodd ymadfywio yn wych.

Yna gwelwn yn fy mreuddwyd, pan oedd yr holl bethau hyn ar ben, i Mr. Dewr-galon gymeryd pen Cawr Anobaith, a'i osod ar drostan ar fin y ffordd, yn gymhwys ar gyfer y golofn a godasai Cristion er rhybudd i'r pererinion a ddalent ar ol i gymeryd gofal nad elent i mewn i'w diroedd ef.

Yna efe a ysgrifenodd odditani, ar faen mynor, y penmillion canlynol :—

Dyma ben yr un gwnai 'i enw  
Beri braw a dychryn garw,  
Mewn amseroedd aethant heibio,  
I'r pererin wrth ymdeithio.

Mae ei gastell wedi cwympe,  
Anhyder wedi ei dieneidio;  
Arnynt ca'dd Dewr-galon gonewest.  
Fe'u gorchfygodd yn yr ornest.

Llwfr, yn nghyda'i ferch, heb fethu,  
 Gawsant hefyd eu gwaredu ;  
 Os oes rhywun mewn amheuon,  
 Tröed ei olwg—wele brofion :—

Dyma'r gwan bererin ofnus,  
 Wrth grogi pen y cawr digofus,  
 Yn mwynhau tawelwch helaeth,  
 Perffaith hedd, a gwaredigaeth.

Gwedi i'r gwyr hyn ddangos eu hunain mor wrwl erbyn Castell Amheuaeth, a lladd Cawr Anobaith, aethant yn mlaen hyd oni ddaethant i'r Mynyddoedd Hyfryd, man yr ymlonasai Cristion a Gobeithiol ag amrywiaethau lle. Gwnaethant eu hunain yn gydnabyddus iawn â'r Bugeiliaid yno, y rhai a'u croesawasant hwy, fel y gwnaethant i Gristion, i'r Mynyddoedd Hyfryd.

Pan welodd y Bugeiliaid y fath fintai yn dilyn Mr. Dewr-galon (canys cydnabyddus iawn oeddynt ag ef) dywedasant wrtho, Anwyl syr, y mae genyt nifer gwych o gymdeithion ; atolwg yn mha le y cefaist y rhai hyn oll ?

Yna Mr. Dewr-galon a atebodd :—

Ah ! dyma, yn gyntaf, Gristiana a'i thylwyth,  
 Ei meibion, a'u gwraggedd, gan gadw at y nod—  
 Gan lywio eu camrau'n ofalus, o bechod  
 I ras, maent hyd yma yn iach wedi d'od.

Yn nesaf e welir hen Onest, wr ffyddlawn,  
 A Pharod-i-gloffi, a'i ddyben nid ffol ;  
 A Meddwl Gwan hefyd, a hwn, ar un cyfrif,  
 Ni fyna y son am ei adael ar ol.

Yn nesaf at hyny, un Llwfr yn arafaidd,  
 A Mawr-ei-hofn hefyd, ei fwynaidd hoff ferch :  
 A gawn ni wir groeso, neu raid myn'd yn mhellach ?  
 Gadewch i ni wybod ar bwy i roi serch.

Yna ebe'r Bugeiliaid, Wel, dyma gymdeithion cysurus ! Mae i chwi groesaw i ddyfod atom ; canys y mae genybeth i'r gwan yn gystal a'r cryf. Y mae ein Tywysog yn

sylwi ar y peth a wneir i'r rhai lleiaf hyn; ac am hyny ni  
 cīdylai gwendid fod yn un rhwystr i'n croesaw, Mat. 25.  
 40. Felly hwy a'u dygasant at ddrws y palas, ac a ddy-  
 wedasant wrhynt, Tyred i mewn, Mr. Gwan-feddwl,  
 tyred i mewn, Mr. Parod-i-gloffi; tyred i mewn, Mr.  
 Llwfr, a Mawr-ei-hofn, ei ferch. Yr ydym yn galw y  
 y rhai hyn i mewn wrth eu henwau, Mr. Dewr-galon,  
 ebe'r Bugeiliaid wrth eu harweinydd, am eu bod yn fwy  
 tueddol i dynu yn ol; ond am danat ti, a'r lleill sydd  
 gryfion, yr ydym yn dy adael i'th ryddid arferol. Yna  
 ebe Mr. Dewr-galon, Gwelaf heddyw fod gras yn dysgleirio  
 yn eich wynebau, ac mai Bugeiliaid fy Arglwydd ydych  
 yn wir; canys ni wthiasoch y friwedig ag ystlys nac ag  
 ysgwydd, ond yn hytrach a daenasoch eu ffordd i'r palas  
 a blodau, yn ol eich dyledswydd, Ezec. 34. 21.

Felly y gwan a'r llesg a aethant i mewn, a Mr. Dewr-  
 galon a'r lleill a'u dilynasant. A phan oedd ynt wedi  
 eistedd i lawr, y Bugeiliaid a ddywedasant wrth y rhai  
 gweiniaid, Beth a fynech gael? canys, ebynt hwy, rhaid i  
 bob peth yma gael ei drefnu er cynhaliaeth i'r gweiniaid,  
 yn gystal ag er rhybudd i'r afreolus. Felly gwnaethant  
 wledd iddynt o bethau hawdd eu treulio, pethau blasus  
 i'r archwaeth, a maethlon hefyd; ac wedi cyfranogi o  
 honyn, aethant i'w gorhwyseleoedd, bob un i'w le ei  
 hun.

Pan ddaeth y boreu, gan fod y mynyddoedd yn uchel,  
 a'r diwrnod yn glir, ac oherwydd mai arfer y Bugeiliaid  
 oedd dangos i'r pererinion, cyn eu hymadawiad, ryw  
 bethau hynod, felly, ar ol iddynt ymbarotoi ac ymad-  
 fywio, y Bugeiliaid a'u dygasant allan i'r meusydd, ac a  
 ddangosasant iddynt yn gyntaf yr hyn a ddangosasant i  
 Gristion o'r blaen.

Yna hwy a'u dygasant i leoedd newyddion. Y cyntaf  
 oedd Bryn Rhyfeddod, lle yr edrychasant, ac y gwelsant  
 ddyn yn y pellder yn treiglo y bryniau â geiriau. Yna  
 gofynasant i'r Bugeiliaid, Pa beth yw ystyr hyn? Ateb-  
 asant hwythau, Mab ydyw y gwr draw i Mr. Gras Mawr,  
 am yr hwn y darllenir yn y rhan gyntaf o gofudau Taith  
 y Pererin; a gosodwyd ef acw i ddysgu pererinion, am yr

anhawsderau a'u cyfarfyddant, pa fodd y mae iddynt trwy ffydd eu credu i lawr, neu eu treiglo o'u ffydd, Marc 11. 23, 24. O! meddai Mr. Dewr-galon, adwaenwyf ef yn dda, y mae yn wr uwchlaw llawer.

Yna hwy a'u barweiniasant i le arall, à elwid Bryn Diniweidrwydd. Yma gwelent wr wedi ei wisgo mewna gwiwg wen; a dau wr, Rhagfarn a Drwg-ewylls, yn taftom yn ddibaid arno. Ond, wele, pa fudreddi bynag a daflent arno, a syrthiai i lawr yn mhen enyd o hono ei hun, ac ymddanghosai ei wisg mor lân a phe na thafesid llaid ati erioed. Yna ebe'r pererionion, Beth y mae hyn yn ei arwyddocâu? Y Bugeiliaid a'u hatebasant, Y dyn hwn a elwir Gwr Duwiol, a'r wisg hon sydd yn arddangos diniweidrwydd ei fywyd. Yn awr, y rhai a daflant laid ato, ydynt y rhai a gasânt ei waith da ef; ond fel y gwelewch nad yw'r llaid yn glynu wrth ei ddillad, felly y bydd gyda'r hwn a fucheddo yn ddiniwaid yn y byd. I'w bynag a fyno ddiwyno y cyfryw ddynion, a lafuriant yn ofer; oherwydd Duw, yn mhen ychydig o amser, a wna i'w diniweidrwydd dori allan fel y goleuni, a'u cyflawnnder fel hanner dydd.

Yna hwy a'u dygasant i ben Bryn Cariad, lle y dangosasant iddynt wr a swp mawr o frethyn o'i flaen ar y llawr, o'r hwn yr oedd efe yn tòri gwisgoedd a pheisiau i'r tlodion a safent o'i amgylch; ac eto nid oedd ei ddarn brethlyn yn myned ddim yn llai. Yna ebynt hwy, Beth all hyn fod? Hyn, ebe'r Bugeiliaid, sydd i ddangos i chwi, na bydd byth eisiau ar y neb sydd ganddo galon i roddi o'i drysor i'r tlawd. Yr hwn a ddyfrhao, dyfrheir yntau hefyd. Ni pharodd y deisen a roddees y weddw i'r prophwyd fod ganddi ddim llai yn ei chelwrn.

Aethant a hwy hefyd i fan lle'r oedd un Ffrol, ac un Disynwyr, yn golchi Ethiopiad, gyda bwriad o'i wneuthur yn wyn; ond po mwyafrif a olchent arno, duaf o gwbl yr âi. Yna gofynasant i'r Bugeiliaid, Beth a arwydda hyn? Atebasant hwythau, Fel hyn y mae gyda'r dyn gwael; tuedla pob moddion i gael enw da i'r cyfryw yn hytrach i'w wneud yn atgasach. Fel hyn yr oedd gyda'r Phari-seaid; ac fel hyn y bydd gyda'r holl ragrithwyr.

Yna ebe Trugaredd, gwraig Matthew, wrth Gristiana, ei mam, Fy mam, y mae arnaf chwant, os gellir, cael gweled y twll sydd yn y bryn, neu yr hwn a elwir yn gyffredin y gau-lwybr i usfern. Felly ei mam a hysbysai y Bugeiliaid. Yna aethant at y drws; yr ydoedd ar ochr bryn; a hwy a'i hagorasant ef, a pharasant i Drugaredd ymwrando ychydig. Hithau a wnaeth hyny, ac a glywai un yn dyweddyd, Melldigedig fyddo fy nhad am atal fy nhraed o ffordd tangnefedd a bywyd. Un arall a ddywedai, Oh na ddrylliesid fi yn ddarnau cyn i mi, er mwyn achub fy mywyd, golli fy enaid! Ac un arall a lefai, Pe cawn fyw eto, Oh fel yr ymwadwn â mi fy hun yn hytrach na dyfod i'r lle hwn! Yna yr oedd swn fel pe buasai'r ddaear yn ochain ac yn siglo gan ddychryn dan draed y wraig ieuanc hon; ar hyn newidiai ei lliw, a chilai mewn arswyd, gan ddyweddyd, Gwyn ei fyd ef neu hi a warewyd rhag y lle hwn!

Yn awr, wedi i'r Bugeiliaid ddangos iddynt yr holl bethau hyn, hwy a'u dygasant yn ol i'r palas, gan eu croesawu â goreuon y ty. Ond Trugaredd, gan ei bod yn ieuanc, ac wedi priodi, a flysiodd rywbeth a welai yno, ond yr oedd arni gywilydd gofyn am dano. Ei marn-yn-nghyfraith a ofynodd iddi beth oedd arni, am ei bod yn ymddangos fel un heb-fod yn iach. Yna ebe Trugaredd, Y mae drych yn hongian i fynu yn yr ystafell giniaw, oddiar yr hwn ni fedraf dynu fy meddwl; os na chaf ef, y mae arnaf ofn yr erthylaf. Yna ebe ei mam, Hysbysaf dy ddymuniad i'r Bugeiliaid, ac ni omeddant ef i ti. Ond, ebe hi, y mae arnaf gywilydd i'r dynion hyn ddeall fy mod wedi blyssio dim. Na, fy merch, ebe hithau, nid cywilydd, ond rhinwedd, yw i ti flysio peth fel hwnyna. Felly dywedodd Trugaredd, Wel, fy mam, os gweli yn dda, gofyn i'r Bugeiliaid a fyddant hwy yn fodlon i'w werthu.

Yr oedd y drych yn un o fil. Danghosai ddyn, un ffordd, yn gymhwys yn ei wedd a'i bryd ei hun; ond wrth ei droi ef ffordd arall, danghosai i un wyneb a dull Tywysog y pererinion ei hun. Ie, bu'm yn siarad â rhai a allent dystio, a dywedent iddynt weled hyd yn nod y

goron ddrain ar ei ben wrth edrych yn y drych hwnw; a gwelsant hefyd y tylau yn ei draed, ei ddwylaw, a'i ystlys, i.e., y mae y fath o didogrwydd yn y drych hwn, ag y dengys efe ef i un yn mha le bynag y dynunai ei weled; pa un bynag ai yn fyw neu yn farw; pa un bynag ai ar y ddaear ai yn y nefoedd; pa un bynag ai mewn cyflwr o ddarostyngiad neu ddyrchafiad; pa un bynag si yn dyfod i ddyoddef neu i deyrnasu, Iago 1. 23; 1 Cor. 13. 12; 2 Cor. 3. 18.

Gan hyny, Cristiana a aeth at y Bugeiliaid o'r neilldu, enwau y rhai oedd ynt Gwybodaeth, Profiad, Gwyliad-wriaeth, a Phurdeb, ac a ddywedodd wrthynt, Y mae un o'm merched i, yr hon sydd wraig briod, wedi blysiol, meddyliwyf, rywbeth a welodd yn y ty hwn; ac yn lled ofni niwaid os gomeddir ef iddi.

**PROFIAD.** Galw hi, galw hi, caiff yn ddinag yr hyn a allwn ei roddi iddi. Felly galwasant hi, a dywedasant wrthi, Trugaredd, beth yw yr hyn a fynit gael? Hithan, gan wrido, a ddywedodd, Y drych mawr sydd yn crogi yn yr ystafell giniaw. Felly Purdeb a redodd ac a'i cychr-odd; a chyda chydsyniad llon y rhoddwyd ef iddi. Yna hi a ymgrymodd, ac a ddiolchodd iddynt, gan ddyweddyd, Wrth hyn y gwn gael o honwyf ffafn yn eich golwg.

A hwy a roddasant i'r gwragedd ieuainc ereill yr hyn a ddymunent; ac i'w gwyr gannololiaeth mawr, am iddynt ymuno â Mr. Dewr-galon i ladd Cawr Anobaith, a dinystrio Castell Amheuaeth.

Gosododd y Bugeiliaid gadwen am wddf Cristiana, ac am yddfaei phedair merch hefyd; a rhoddasant glust-dlysaun yn eu clustiau, a thlysaun ar eu talcenau.

Pan oedd ynt yn barod i ymadael, gadawsant iddynt fyned mewn heddwch, ond ni roisant iddynt y rhybuddion neillduol a roddasant i Gristion a'i gyfaill gynt. Y rheswm ydoedd, fod ganddynt Dewr-galon yn arweinydd, yr hwn oedd wr cyfarwydd iawn o bethau, ac felly a allai roddi iddynt y gocheliadau hyny yn fwy amserol, sef, pan fyddai y perygl gerllaw. Collasai Cristion a'i gyfaill y rhybuddion a gawsent gan y Bugeiliaid erbyn yr amser i ddyfod iddynt eu rhoddi mewn ymarseriad. Oherwydd

paharn, yr oedd y cymdeithion hyn yn meddu y rhagor-  
iaeth hwn ar y lleill.

Aethant yn mlaen oddiyno dan ganu; a dywedasant :—

Mor addas i'r pererin  
 Y trefnwyd, ar ei daith,  
 Y manau iddo orphwys  
 O'i holl flinderau maith !  
 Mae ein derbyniad tirion,  
 A'r croesaw ro'nt i ni,  
 Yn peri in' wroli,  
 A myn'd yn mlaen yn hy'.

Pob da sydd yn eu meddiant  
 A ranant ini'n hael,  
 Fel caffom, bererinion,  
 Fyw'n llawen, nid yn wael.  
 Rho'nt hefyd ini bethau,  
 A ddengys yn dra llawn  
 Mai pererinion ydym,  
 I ba le bynag 'r awn.

Gwedi iddynt fyned ymaith oddiwrth y Bugeiliaid, daethant yn ebrwydd i'r man y cyfarfu Cristion ag un Enciliwr, a drigai yn nhref Gwrthgiliad. Ac yma Mr. Dewr-galon, eu harweinydd, a ddygodd ar gof iddynt, gan dlywedyd, Dyma'r man y cyfarfu Cristion ag un Enciliwr, yr hwn oedd yn dwyn nod ei wrthryfel ar ei gefn. A hyn sy genyf i'w ddywedyd am y dyn hwn ;—ni wrandawai efe ar un cyngor, ond wedi unwaith ogwyddo, nid oedd dim darbwyliaid a allai ei atal. Pan ddaeth efe i'r lle yr oedd y groes a'r bedd, cyfarfu yno ag un a geisiodd ganddo edrych i mewn ; ond efe a ysgyrnygodd ei ddannedd, ac a gurodd y llawr â'i draed, gan ddywedyd ei fod ef wedi penderfynu dychwelyd i'w dref ei hun. Cyn iddo ddyfod at y porth cyfarfu ag Efengylwr, yr hwn a gynygiodd roddi ei law arno, a'i droi yn ol i'r ffordd. Ond yr Enciliwr hwn a'i gwrthwynebodd, ac wedi gwneuthur llawer o ddirmyg iddo, aeth ymaith dros y mur, ac felly a ddihangodd o'i ddwylaw.

Yna aethant yn mlaen ; ac yn agos i'r man yr yspeil-iwyd Ychydig Ffydd gynt yr oedd gwr yn sefyll & chleddyf noeth yn ei law, a'i wyneb yn waed drosto oll. Yna ebe Mr. Dewr-galon, Pwy wyt ti? A'r gwr a'i hatebodd, gan ddywedyd, Fy enw yw Glew-dros-y-gwir. Pererin ydwyf, a myned yr wylf tua'r Ddinas Nefol. Yn awr, fel yr oeddwn ar fy ffordd, tri o wyr a ymosodasant arnaf, a chynygiasant i mi y tri pheth hyn :—1. A ddeuwn yn uu o honyn hwy? 2. Neu, a awn yn ol i'r man y daethum o hono? Neu, farw yn y lle? Diar. 1. 11—14. I'r cyntaf, atebais, Bu'm yn wr cywir dros hir amser, a chan hyny ni ellir dysgwyl i mi bellach fwrw sy nghoelbren yn mhllith lladron. Yna mynent wybod beth a ddywedwn am yr ail. Felly mynuegais iddynt, am y lle y daethum o hono, oni buasai i mi gael gwrthdarawiad yno, na throiswn fy nghefn arno oll ; ond wedi ei gael allan yn lle cwbl anngyfaddas ac anfuddiol i mi, gadewais ef er mwyn y ffordd hon. Yna gofynasant beth a ddywedwn am y trydydd. Dywedais inau wrthynt, Mae fy mywyd wedi costio yn rhy ddrud i mi ei fwrw ymaith yn ysgafn. Heblaw hyny, nid oes genych hawl i osod pethau ar fy newisiad ; am hyny, sefwrch draw er eich perygl. Yna y tri hyn, sef Penwyllt, Anystyriol, a Rhodresgar, a ymosodasant arnaf, a minau arnynt hwythau. Felly i ymladd yr aethom, un yn erbyn tri, am fwy o yspaid na thair awr. Gadawsant arnaf, fel y gwelwch, rai o brofion eu dewrder, a dygasant hefyd gyda hwy rai o'r eiddof finau. Nid ydynt ond newydd fy ngadael : efallai iddynt glywed trwst traed eich march, fel y dywedir, ac iddynt ar hyny ymroddi i ffoi.

**DEWR-GALON.** Ond yr oedd yr ymgyrch hwn yn lled anngyfartal, tri yn erbyn un.

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Gwir ; ond nid yw ychydig na llawer ddim i'r hwn sydd & gwirionedd o'i du : "Pe gwersyllai llu i'm herblyn," medd un, Psal. 27. 3, "nid osna fy nghalon : pe cyfodai câd i'm herblyn, yn hyn mi a fyddaf hyderus," &c. Heblaw hyny, eb efe, darllenais mewn rhai coflyfrau i un dyn ymladd & byddin : a phanifer a laddodd Samson & gen asyn !

**DEWR-GALON.** Yna ebe'r arweinydd, Paham na waedd-asit, fel y gallasai rhywrai ddyfod i'th gynorthwyo?

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Felly y gwnaethum ar fy Mrenin, yr hwn, gwyddwn, a allai fy nghlywed, a rhoddi i mi gymhorth anweledig, ac yr oedd hyny yn ddigon i mi.

**DEWR-GALON.** Yna ebe Dewr-galon wrth Glew-dros-y-gwir, Ymddygaist yn deilwng; gad i mi weled dy gleddyf. Yntau a'i danghosodd.

Gwedi iddo ei gymeryd yn ei law ac edrych arno dros enyd, dywedodd, Ha! un o wir lafnau Caersalem ydyw.

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Ië. Os bydd gan ddyn un o'r llafnau hyn, llaw i'w drin, a medr i'w arfer, gall ymosod ag ef ar angel ei hun. Nid rhaid iddo ofni ei afael, os medr wybod pa fodd i'w ddefnyddio. Ni phyla ei awch lyth. Tyr gnawd ac esgyrn, enaid ac ysbryd, a chwbl, Heb. 4. 12.

**DEWR-GALON.** Ond ymleddaist yn hir; mae yn syn genyf na ddifygiaist.

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Ymleddais nes oedd fy nghleddyf yn glynu wrth fy llaw; ac yna yr oeddynt yn nglyn fel pe buasai gleddyf yn tyfu allan o'm braich; a phan y rhedai y gwaed rhwng fy mysedd, yr ymladdwn yn fwyaif gwrol.

**DEWR-GALON.** Da y gwnaethost; gwrthwynebaist hyd at waed, gan ymdrech yn erbyn pechod. Cei aros gyda ni, dyfod i mewn a myned allan gyda ni; canys cymdeithion i ti ydym. Yna hwy a'i cymerasant, ac a olchasant ei friwiau, ac a roddasant iddo o'r hyn oedd ganddynt, i'w adfywio: ac felly aethant yn mlaen gyda'u gilydd.

Wrth iddynt fyned yn mlaen, am fod Mr. Dewr-galon yn ei hoffi (canys serchog oedd ganddo un o law gyffelyb iddo ei hun), ac am ei fod yn nghyfeillach rhai gweiniaid a llesg, am hyny holodd ef am lawer o bethau; megys, yn gyntaf, O ba wlad yr ydwyt?

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Un o'r Tir Tywyll ydwyt; canys yno y ganwyd fi, ac yno y mae fy nhad a'm mam eto.

**DEWR-GALON.** Tir Tywyll, ebe'r arweinydd; ai nid yw y wlad honno yn gorwedd ar dueddau Dinas Dystryw?

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Ydyw, y mae. Yn awr, yr hyn a barodd i mi ddyfod ar bererindod oedd hyn. Daeth gwr o'r enw Mr. Geirwir i'n parthau ni, ac a fynegodd i ni yr hyn a wnaethai Cristion, yr hwn a aeth allan o Ddinas Dystryw; sef, y modd y gadawsai efe ei wraig a'i blant, ac yr ymroddasai i fywyd pererin. Dywedid hefyd yn gryf y modd y lladdasai efe sarfi a ddaeth allan i'w wrthwynebu yn ei daith; a pha fodd yr aethai trwyodd i'r lle a fwiriadai. Mynegid hefyd am y croesaw a gafodd yn mhob un o orphwys-leoedd ei Arglwydd, ac yn enwedig pan ddaeth at byrth y Ddinas Nefol; canys yno, ebe y gwr, y derbyniwyd ef i mewn â sain udgorn gan lu o rai dysglair. Dywedai hefyd am y modd y canodd holl glychau y ddinas gan lawenydd ar ei dderbyniad, ac a'r fath ddillad euraid y'i gwisgwyd; yn nghyda llawer o bethau creill nad adroddaf yn awr. Mewn gair, adroddai y gwr hwnnw yr hanes am Gristion a'i deithiau yn y fath fodd nes oedd fy nghalon yn llosgi gan frys i fyned ar ei ol; ac nis gallai fy nhad na fy mam fy rhwystro. Felly ymadewais â hwynt, a daethum hyd yma ar fy nhaith.

**DEWR-GALON.** Ti a ddaethost i mewn trwy y porth, onid do?

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Do, do; canys dywedodd yr un gwr wrthym hefyd, na thalai y cwbl ddim, os na ddeuem i mewn i'r fiordd hon trwy'r porth.

**DEWR-GALON.** A weli di, ebe yr arweinydd wrth Gristiana, y mae hanes pererindod dy wr, a'r hyn a ennillodd trwy hyny, wedi ymdaenu yn mhell ac yn agos.

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Beth! ai gwraig Cristion ydyw hon?

**DEWR-GALON.** Ié, yn wir; a'r rhai hyn ydynt ei bedwar mab.

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Beth! ac yn myned ar bererindod hefyd?

**DEWR-GALON.** Ié, mewn gwirionedd, y maent yn dilyn ar ei ol.

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Mae hyn yn lloni fy nghalon. Y gwr da, mor llawen sydd pan wel y rhai nas mynent

fyned gydag ef yn dyfod ar ei ol trwy byrth y Ddinas Nefol !

**DEWR-GALON.** Bydd hyn yn gysur iddo yn ddiamheuol; canys y llawenydd nesaf at weled ei hun yno, fydd y boddineb o gyfarfod ei wraig a'i blant yno.

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Gan dy fod yn cyffwrdd â hyn, gad wybod dy farn ar y peth. Y mae rhai yn amheu pa un a adwaenom ein gilydd yno ai peidio.

**DEWR-GALON.** A ydwyt yn meddwl yr adwaenant eu hunain yno, neu y llawenhant wrth weled eu hunain yn y fath ddedwyddwch ? ac os tybiant y gallant wybod a gwneuthur hyny, paham nad adwaenant ereill, ac na lawenhant yn eu dedwyddwch hwythau ? Drachefn, gan fod ein perthynasau yn ail i ni ein hunain, er y bydd y sefyllfa hono wedi ei diddymu yno, paham nad ellir yn rhesymol gasglu y bydd yn llawer llawenach eu gweled yno, na gweled eu heisiau ?

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Purion, gwelaf dy farn am hyn. Ond a oes genyt ddim yn ychwaneg i'w ofyn i mi yn aghylch dechreuaed fy mhererindod ?

**DEWR-GALON.** Oes ; a oedd dy dad a'th fam yn fodlon i ti ddyfod yn bererin ?

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** O, nac oeddynt ; arferasant bob moddion a allent ddyfeisio i'm perswadio i aros gartref.

**DEWR-GALON.** Paham, beth allent hwy ddywedyd yn erbyn hyny ?

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Dywedent mai bywyd dioglyd ydoedd ; ac oni buasai fy mod inau yn tueddu at syrthni a seguryd, na buaswn byth yn rhoddi gwyneb i fywyd pererin.

**DEWR-GALON.** A pha beth arall a ddywedent ?

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Dywedent hefyd mai ffodd ber- yglus ydoedd ; Ie, y ffodd fwyaf peryglus yn y byd, meddynt, yw hono yr â pererinion ar hyd-ddi.

**DEWR-GALON.** A ddangosasant hwy i ti yn mha wedd y mae y ffodd hon mor beryglus ?

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Do ; a hyny mewn llaweroedd o bethau.

**DEWR-GALON.** Enwa rai o honyn.

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Dywedasant wrthyf am Gors Anobaith, lle y bu Cristion agos a chael ei fygu. Dywedent hefyd fod saethyddion yn sefyll yn barod yn Nghastell Belzebub i saethu y rhai a gurant wrth y Porth Cyiyn am dderbyniad. Drachefn, dywedasant wrthyf am y goodwig a'r mynyddoedd tywyll; am Fryn Anhawsdra; am y llewod; ac am y tri chawr, y Gwr Gwaedlyd, Baeddwr, a Lladd-daioni. Dywedent hefyd am yr ellyll echrydus oedd yn cyniwar Dyffryn Darostyngiad, ac y bu iddo agos a dwyn bywyd Cristion oddiarno. Heblaw hyn, ebynt hwy, rhaid i ti fyned trwy Lyn Cysgod Angau, lle y mae ysbrydion ac ellylon, lle y mae'r goleuni yn dywyllwch, lle y mae'r ffordd yn llawn rhwydau, pylau, croglathau, a maglau. Dywedasant hefyd wrthyf am Gawr Anobaith, o Castell Amheuaeth; a'r dinystri a gysfarfu y pererinion yno. Yn mhellach, dywedasant fod yn rhaid i mi fyned dros y Tir Rheibiedig, yr hwn oedd yn beryglus; ac ar ol hyn oll, meddynt, y cawn afon, dros yr hon nid oedd yr un bont; a bod yr afon hono yn gorwedd rhynghof a'r Wlad Nefol.

**DEWR-GALON.** Ai dyna'r cwbl?

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Nagâ; dywedasant wrthyf hefyd fod y ffordd hon yn llawn o dwyllwyr, ac o ddynion yn cynllwyn i droi gwyr da allan o'r llwybr.

**DEWR-GALON.** Ond pa fodd y profent hyny?

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Dywedent fod Mr. Bydol-ddoethyn yn gwyllo yno i dwyllo. Dywedent hefyd bod Ffurfioldeb a Rhagrith yn wastadol ar y ffordd. Dywedent hefyd y llithid fi gan Gau-ddybenion, Siaradus, a Demas; y byddai i'r Gwenieithwr fy nal yn ei rwyd; neu y rhysygwn, fel Anwybodus ben-chwiban, i fyned at y porth, o ba le y danfonwyd ef yn ol i'r twll yn ochr y brynn, ac y gwnaed iddo fyned ar hyd y gau-lwybr i usfern.

**DEWR-GALON.** Wel, dywedaf i ti, yr oedd hyn yn ddigon i'th ddigaloni; ond a roddasant hwy ddiwedd ar hyn o yma trodd?

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Aros, naddo. Dywedasant wrthyf am amryw a wnaethant brawf o'r ffordd hono gynt, ac a aethant yn mhell ar hyd-ddi, i edrych a gysfarfyddent hwy

¶ pheth o'r gogoniant hwnw yr oedd cyllifer yn siarad cymaint am dano o bryd i bryd; a'r modd y daethent yn ol drachefn, gan gyfrif eu hunain yn ynfydion am erioed roddi troed dros drothwy'r drws yn y llwybr hwnw, er boddlonrwydd i'r holl wlad. A hwy a enwasant amryw a wnaethant felly, sef, Cyndyn a Meddal, Digred ac Ofnog, Enciliwr a'r hen Atheist, a llawer gyda hwy; a rhai o honyn, meddynt, a aethant yn mhell i edrych beth a allent gael; ond ni chafodd neb o honyn gynaint elw trwy hyny ag a bwysai pluen.

DEWR-GALON. A ddywedasant hwy ddim yn ychwaneg i'th ddigaloni?

GLEW-DROS-Y-GWIR. Do. Dywedasant wrthyf am un Mr. Ofnus, yr hwn oedd yn bererin, pa mor anngyfannedd y safodd efe y ffordd; ac na bu iddo un awr gysurus tra y teithiai ar hyd-ddi; hefyd, fel y bu Mr. Digalon yn mron a rhynu i farwolaeth ynddi: ie(bu agos i mi anghofio), am Gristion ei hun hefyd, am yr hwn y bu cymaint swn a chynhwrf, dywedent ei fod yntau wedi boddi yn yr Afon Ddu, er ei holl anturiaethau am y goron nefol, ac nad aeth efe droedfedd yn mhellach, pa fodd bynag y celwyd y peth.

DEWR-GALON. Ai ni lwfrhaodd dim o'r pethau hyn dydi?

GLEW-DROS-Y-GWIR. Naddo; ymddanghosent oll i mi fel dyddim.

DEWR-GALON. Pa fodd felly?

GLEW-DROS-Y-GWIR. Wel, yr oeddwn o hyd yn credu yr hyn a ddywedasai Mr. Geirwir; a hyny a'm dygai dros y cwbl.

DEWR-GALON. Hyn, ynte, oedd dy oruchafiaeth, sef dy ffydd.

GLEW-DROS-Y-GWIR. Ie, felly yr oedd. Crodais, ac am hyny daethum allan; cefais hyd i'r ffordd hon; ymleddais a phob un a ymosodai yn fy erbyn; a, thrwy gredu, daethum i'r lle hwn.

Os mynwch weled gwir wrolder,  
Cydnewch yma'n ddibetrusder,

## Y TIR RHEIBIEDIG.

Ceir yma un bob pryd yn gyson,  
 Er tywydd blim a gwyntoedd oerion.  
 Nid oes yr un anhawsder diffaith  
 Wna iddo wangaloni unwaith ;  
 'Does dim bair iddo rodri heibio  
 Y bwriad wnaethai ef o rodio

Yn bererin.

Y rhai a chwedlau drwg a ddeuant,  
 I'w dd'rysu ef, hwy a'i hamgylchant,—  
 Eu hunain maent hwy yn ddyrysu,  
 Mae'i nerth a'i rym ef yn cynyddu ;  
 Nis gall un llew na bwystfil rheibus  
 Ei ddychryn ef; mae yn ddiofnus  
 Wrth wynebu cawri geirwon ;  
 Myn ef hawl i'w alw'n dirion

Yn bererin.

Nis gall un ellyll du, uffernol,  
 Byth lwsrhau ei ysbryd gwrol;  
 Gwyr y bydd ar ben ei adfyd  
 Byth yn etifeddu bywyd.  
 Yna bydd yn amser perffaith,  
 Pob dychymyg hed a ymaith ;  
 Nid ofna beth a ddywed dynion,  
 Ei ymdrech fydd i fod o galon

Yn bererin.

Erbyn hyn yr oeddynt wedi dyfod i'r Tir Rheibiedig, lle y mae'r awyr yn dueddol i wneuthur dynion yn gysglod. Tyfasai drain a mieri dros y lle, oddigerth fod yma ac acw gysgodfan rheibiedig, yn yr hwn, os eisteddai neu y cysgai dyn, yr oedd yn anheus iawn, medd rhai, pa un a fyddai iddo godi a deffro eilwaith byth yn y byd hwn. Tros y coed-dir yma yr aethant oll, a Mr. Dewr-galon o'u blaenau, canys efe oedd eu harweinydd; a Mr. Glew-dros-y-gwir oedd yn dyfod ar eu holau, fel gwarcheidwad, rhag i ryw ellyll, neu ddraig, neu gawr, neu leidr, ymosod ar y rhai olaf, a gwneuthur niwaid. Aethant rhagddynt yma, pob un a'i gleddyf noeth yn ei law; canys gwyddent mai lle peryglus ydoedd. Hefyd, annogasant eu gilydd oreu y gallent, a Mr. Dewr-galon a fynai Mr. Gwan-

**feddwel yn nesaf ato ef; a Mr. Digalon oedd dan olwg Mr. Glew-dros-y-gwir.**

Ond nid aethant yn nebpell nes i niwl a thywyllwch syrthio arnynt oll, fel na's gallent, am gryn amser, weled y naill y llall. Felly gorfu iddynt deimlo am, a galw ar, eu gilydd; canys nid oeddynt yn rhodio wrth olwg. A rhaid, i bob un feddwel mai ymdeithiad pruddaidd oedd yma 'i'r goreu o honyn; ond pa faint mwy felly i'r gwragedd a'r plant, y rhai yr oedd eu traed a'u calonau yn dyner! Eto, trwy ymadroddion annogaethol eu harweinydd o'r blaen, a'r gwarcheidwad ar ol, gwnaethant osgo glew i honcian yn mlaen.

Yr oedd y ffordd yn y lle hwn hefyd yn flin iawn, trwy laid a gwlybaniad. Nid oedd ychwaith gymaint ag un gwesty neu lety ar yr holl dir y gallai y gweiniaid gael cyfnethriad. Nid oedd yma, gan hyny, ddim ond tuchan, chwythu, ac ochain; ar yr un pryd syrthiai un ar draws perth, arall a lynai yn y llaid; y plant, rai o honyn, a gollent eu hesgidiau yn y dom;—tra y clywid un yn gwaeddi, Dyma fi ar lawr; un arall, Ho, yn mha le yr ydwyt? a'r trydydd, Yr wyf wedi dyrys u yn y perthi, fel yr ofnwyf na allaf ddyfod yn rhydd.

Yna gwelwn hwynt yn dyfod at gysgodfan clyd, yn addaw llawer o adfywiad i'r pererinion; canys yr oedd wedi ei weithio yn wych uwchben, ei addurno â blodau gwyrddleision, a'i ddodrefnu â meinciau ac ystolion. Yr oedd oddimewn iddo orweddle esmwyth i'r lluddedig orwedd. Hawdd yw meddwl, wrth ystyried y cwbl, fod yma demtasiwn; oherwydd yr oedd y pererinion eisoes yn mron diffygio, gan ddryced oedd y ffordd: ond er hyny nid oedd yr un o honyn, a wnaeth gymaint ag arwydd, i gael aros yno. Ie, am ddim a ellais i weled, yr oeddynt o hyd yn sylwi mor astud ar rybuddion eu harweinydd, ac yntau hefyd mor ffyddlon yn eu rhybuddio o'u peryglon, a natur y peryglon, pan oeddynt yn eu hymyl, fel yn gyffredin po nesaf fyddent atynt, mwyaf oll yr ymwrolent, ac y cefnogent eu gilydd, i ymwadu â'r cnawd. Gelwid y cysgodfan hwn, Cyfaill y Diog; yr

oedd wedi ei wneuthur i'r dyben i ddenu rhai o'r pererion, os gellid, i orphwys pan yn flinedig.

Yna gwelwn yn fy mreuddwyd eu bod yn myned yn mlaen ar hyd eu ffordd anial, hyd oni ddaethant i le y mae dyn yn dueddol i golli ei ffordd. Yn awr, er y gallai eu harweinydd, pan y byddai yn ddydd, hysbysu iddynt pa fodd i ochel y gau-lwybrau hyny, eto, yn y tywyllwch, yr oedd yntau mewn petrusder. Ond yr oedd ganddo yn ei logell ddarlun (*map*) o'r holl ffyrdd oedd yn arwain i, ac oddiwrth, y Ddinas Nefol; gan hyny, efe a darawodd oleu (gan nad â byth heb ei flwch tân), ac a edrychodd ar y darlun, yr hwn a barai iddo fod yn ofalus yn y lle hwnw i droi ar y dde. Ac oni buasai iddo fod yn ofalus yma i edrych ar y darlun, buasent oll, yn ol pob tebygol-rwydd, wedi mygu yn y llaid; canys encyd bychan o'u blaenau, a hyny yn mhen y ffordd lanaf, yr oedd pwll, na wyddai neb ei ddyfnder, yn llawn o ddim ond tom, wedi ei wneud o ddyben i ddimystrio pererion.

Yna meddyliais ynof fy hun, Pwy a elai byth ar bererindod a'r na fynai un o'r darlunlenau hyn gydag ef, fel y gallai edrych pa ffordd i gymeryd pan y byddai mewn amheuaeth?

Felly yn mlaen yr aethant ar y Tir Rheibiedig hwn, hyd oni ddaethant i le yr oedd cysgodfan arall, ac adeiladwyd hwn hefyd ar fin y brif-ffordd. Ac yn y cysgodfan hwnw yr oedd dau wr yn gorwedd, a'u henwau oedd ynt Diofal a Rhyfyg. Yr oedd y ddau yma wedi myned can belled a hyn ar bererindod; ond yma, gan eu bod yn flinedig gan eu taith, eisteddasant i orphwys, a syrthiasant i gwsg trwm. Y pererion, pan y'u gwelsant, a safasant yn syn, gan ysgwyd eu penau; canys gwyddent fod y ddau gysgadur mewn cyflwr gresynol. Yna ymgynghorasant â'u gilydd beth a wnaent, pa un ai myned yn mlaen a'u gadael yn eu cwsg, ai myned i mewn atynt a cheisio eu deffroi. Felly pendersynasant eu dihuno os gallent; ond gyda'r gofal hwn, sef, bod yn dra gochelgar nad eisteddent i lawr eu hunain yno, ac na dderbynient ddim o'r esmwythyd a gynygiar' r cysgodfan hwnw iddynt.

Felly aethant i mewn, llefarasant wrth y gwyr, a galwasant bob un wrth ei enw ; canys yr oedd yr arweinydd, fel yr ymddengys, yn eu hadnabod ; ond nid oedd llef na neb yn ateb. Yna yr arweinydd a'u hysgydwodd, ac a wnaeth yr hyn a allai i'w haflonyddu. Yna ebe un o honiynt, Talaf i ti pan gaffwyf fy arian. Ar hyn yr arweinydd a ysgydwodd ei ben. Ymladdaf, ebe y llall, cyhyd ag y gallwyf ddal y cleddyf yn fy llaw. Ar hyn un o'r plant a chwarddodd.

Yna Cristiana a ofynodd, Beth yw ystyr hyn ? Yr arweinydd a'i hatebodd, Siarad yn eu cwsg y maent. Pe tarawit a phe curit hwynt, neu pa beth bynag arall a wnelit iddynt, atebant di o hyd yn debyg i hyn ; neu fel y dywedodd un o honiynt gynt, pan oedd tónau y môr yn curo arno, ac yntau yn cysgu ar ben yr hwylbren, "Pan ddeffrowyf mi a'i ceisiaf drachefn," &c., Psal. 23. 34, 35. Gwyddost am ddynion, à siaradant yn eu cwsg, na's gwaeth ganddynt beth a ddywedont ; ac ni reolir eu geiriau gan ffydd na rheswm. Mae anghysondeb rhwng eu geiriau yn awr, fel yr oedd o'r blaen rhwng eu mynediad ar bererindod a'u heisteddiad i lawr yma. Dyma, gan hyny, yw y niwaid ;—pan elo rhai diofal ar bererindod, ugain i un nad fel hyn y daw arnynt. Canys y Tir Rheibiedig hwn yw un o lochesau diweddaf gelyn pererinion ; o ba herwydd y gosodwyd ef, fel y gweli, can agosed i ddiwedd y ffordd ; ac felly y mae ganddo well mantais i'n gwrthsefyll. Canys pa bryd, medd y gelyn, y bydd yr ynfydion hyn barotach i eistedd i lawr na phan y byddont flinedig ? a pha amser tebycach iddynt fod yn flinedig na phan y byddont yn mron ar ddiwedd eu taith ? Am hyny, meddaf, y gosodwyd y Tir Rheibiedig mor agos i wlad Beulah, ac i ddiwedd yr yrfa. Felly ymogeled pererinion, rhag dygwydd iddynt hwy, fel i'r rhai a weli yma, syrthio i gwsg na fedr neb eu dihuno.

Yna y pererinion yn grynedig a ddeisifasant gael myned yn mlaen ; yn unig atolygasant ar eu harweinydd daro goleu, fel y gallent fyned y gweddill o'u ffordd wrth oleuni llusern. Felly tarawodd oleuni, ac wrth lewyreh hono aethant y rhan oedd yn ol o'r ffordd, er bod y

tywyllwch yn fawr iawn, 2 Pedr 1. 19. Ond dechreuodd y plant fiino yn ddirfawr, a hwy a lefasant ar yr Hw sydd yn caru pererinion, am iddo wneuthur eu ffodd yn fwy cysurus. Ac erbyn iddynt fyned ychydig yn mhellach, cododd awel fechan o wynt, yr hon a yrodd y tarth ymaith, a daeth yr awyr yn fwy clir. Eto yr oedd ganddynt ffodd hir i fyned allan o'r Tir Rheibiedig; ond yr oedd ynt bellach, er eu cysur, yn gallu gweled ei gilydd, a'r ffodd iddynt ei rhodio.

Yn awr, pan oedd ynt yn mron ar derfyn y tir hwn, hwy a glywent ryw swn difrifol ychydig o'u blaenau, fel pe deilliasai oddiwrth un mewn pryder dwys. Felly yr aethant rhagddynt, gan edrych ar eu cyfer o hyd: ac wele canfuant, fel y tybient, ryw wr ar ei liniau, gyda dwylaw a llygaid derchafedig, ac yn llefaru yn ddifrifol wrth rywun fry, fel y tybient. Daethant ato, ond ni allent wneud allan beth a ddywedai; felly cerddasant yn araf nes iddo orphen. Wedi iddo orphen, efe a gyfododd, ac a ddechreuodd redeg tua'r Ddinas Nefol. Yna Mr. Dewr-galon a alwodd ar ei ol, ac a ddywedodd, Ho, ho, gyfaill! gad i ni gael dy gwmni, os ydwyt yn myned, fel y tybiwyf dy fod, tua'r Ddinas Nefol. Felly y gwr a safodd, a hwythau a ddaethant ato. Ond can gynted ag y canfu Mr. Gonest ef, efe a ddywedodd, Yr wyf yn adnabod y dyn hwn. Atolwg, pwy ydyw? ebe Mr. Glewdros-y-gwir. Un ydyw sydd yn dyfod o'r fangre yr oeddwn i yn byw ynddi gynt, ebe yntau. Ei enw yw Sefyll-yn-ddiysgog, ac, mewn gwirionedd, pererin cywir a da ydyw.

Felly daethant at eu gilydd. Ac yn ebrwydd dywedodd Sefyll-yn-ddiysgog wrth yr hen Onest, Ho, dad Gonest, ai ti sydd yna? Ie, eb yntau, mor wired a'th fod dithau yna. Y mae yn wir dda genyf, ebe Mr. Sefyll-yn-ddiysgog, gael cwrdd â thi ar y ffodd hon. Ac yr wyf finau yr un mor llawen, ebe'r llall, am dy ganfod ar dy liniau. Yna Mr. Sefyll-yn-ddiysgog a wriddodd, ac a ddywedodd, Beth, a welaist ti fi? Do, do, ebe'r llall, a llonodd fy nghalon wrth yr olygfa. Paham? beth a feddyliaist? ebe Mr. Sefyll-yn-ddiysgog. Meddwl! ebe

hen Onest; beth a allaswn feddwl? Meddyliais fod genym ddyn gonest ar y ffordd, ac am hyny y caem ei gwmni cyn hir. Dedwydd fi, atebai Mr. Sefyll-yn-ddiysgog, os gwir dy syniad! Os nad wyf â ddylwn fod, myfi fy hun a'i dwg. Gwir, ebe'r llall; ond y mae dy ofn yn fy nghadarnhau yn fwy fod pethau yn deg rhwng Tywysog pererinion a'th enaid. Canys efe a ddywed, "Gwyn ei fyd y dyn a ofno yn wastadol," Diar. 28. 14.

**GLEW-DROS-Y-GWIR.** Ond, frawd, dywed i ni pa beth oedd yr achos dy fod ar dy liniau ychydig yn ol; ai am fod rhyw drugaredd neillduol wedi dy osod dan rwymau, neu pa beth?

**SEFYLL-YN-DDIYSGOG.** Yr ydym, fel y gweli, ar y Tir Rheibidig; ac fel yr oeddwn yn dyfod rhagof, myfyriais ar natur beryglus y ffordd yn y lle hwn, a pha gynifer a ddaethant can belled a hyn ar bererindod, ond a ataliwyd ac a ddinystriwyd yma. Yr oeddwn yn myfyrio hefyd ar ddull y farwolaeth â'r hon y mae y lle hwn yn lladd dynion. Y rhai a farwolaethir yma nid ydynt yn marw o glefyd poeth: nid yw eu hangau yn boenus iddynt. Canys y neb sydd yn ymadael yn ei gwsg, sydd yn dechreu ei daith yn ddymunol a hyfryd. Ie, y mae'r cyfryw yn cydsynio ag ewyllys y clefyd hwnnw.

**GONEST.** Yna Mr. Gonest, gan dori ar ei chwedl, a ofynodd, A welaist ti y ddau wr yn cysgu yn y cysgod-fan?

**SEFYLL-YN-DDIYSGOG.** Do, do, gwelais Diofal a Rhyfyg yno; ac am ddim a'r a wn i, yno y gorweddant hyd oni phydron, Diar. 10. 7. Ond gad i mi fyned yn mlaen â'm chwedl. Fel yr oeddwn yn myfyrio, megys y dywedais, daeth ataf un mewn gwisg ddymunol, ond ei bod yn hen, ac a gynygiodd i mi dri pheth, sef, ei chorff, ei phwrs, a'i gwely. Yn awr y gwirionedd yw, yr oeddwn yn lluddedig a chysglyd: yr wyf hefyd mor dlawd a'r ddyluan, a hyny efallai a wyddai yr hudoles yn dda. Cilgwthiais hi unwaith ac eilwaith, ond troes heibio fy nghilgwthion, a gwenodd. Yna dechreuais inau fod yn ddig; eithr nid oedd yn prisio dim' yn hyny ychwaith. Yna gwnaeth gynygion creill, a dywedodd, Os cymeri dy reoli genyf,

gwraf di yn fawr ac yn ddedwydd; canys myfi, ebe hi, yw arglywyddes y byd, a thrwyof fi y gwneir dynion yn ddedwydd. Yna gofynais ei henw, a dywedodd, Mrs. Twyll. Hyn a'm gyrodd i yn mhellach oddiwrthi; ond eto hi a'm dilynai o hyd â'i hudoliaethau. Yna cwmpais ar fy ngliniau, fel y gwelaist, a chan dderchafu fy nwylaw a'm llef gweddais ar yr Hwn a addawodd gynorthwyo. Felly pan oeddit yn dyfod ciliodd y foneddiges ymaith. Parheais inau i ddiolch am fy ngwaredigaeth fawr hon; canys yr wyf yn dilys gredu nad oedd hi yn amcanu dim daioni, ond yn hytrach ceisio fy rhwystro yn fy nhaith.

GONEST. Nid oes amheuaeth nad oedd ei dyben yn ddrwg. Ond, aros, wrth i ti siarad am dani, yr wyf yn meddw i mi naill ai ei gweled, neu ddarllen rhyw hanes am dani.

**SEFYLL-YN-DDIYSGOG.** Efallai i ti wneud y ddau.

GONEST. Mrs. Twyll! ai nid dynes dàl, brydweddol ydyw, o wynebpryd gwineuddu braidd?

**SEFYLL-YN DDIYSGOG.** Iē, dyna hi yn gymhwys.

GONEST. Ai nid yw yn siarad yndafod-lyfn iawn, ac yn gwenu arnat yn niwedd pob ynadrodd?

**SEFYLL-YN-DDIYSGOG.** Yr ydwyt yn rhoddi dysgrifiad cywir o honi eto, canys dyna yn gymhwys ydyw ei hymddygiad.

GONEST. Ai nid yw hi yn gwisgo pwrs mawr wrth ei hochr, ac yn dal ei llaw ynddo yn sych, gan chwareu â'i harian, fel pe hyny fyddai hyfrydwch ei chalon?

**SEFYLL-YN-DDIYSGOG.** Felly yn holol y mae; pe safasai hi ei hunan yma yr holl amser hwn, ni allesit byth ei gosod allan yn fwy grymus o fy mlaen, na dysgrifio ei gwynebpryd yn well.

GONEST. Yna yr oedd y gwr a dynodd ei llun yn lluniedydd da, a'r hwn a ysgrifenodd ei hanes yn dywedyd y gwir.

**DEWR-GALON.** Hudoles yw y wraig hon, a thrwy effaith ei swyn hi y mae'r tir hwn wedi ei reibio. Byddai cystal i'r hwn a esyd ei ben ar ei harffed hi, ei osod ar y cyff uwchben yr hwn y mae'r fwyall yn nghrog; a phwy bynag a edrycho ar ei thegwch a gyfrifir yn elyn i Dduw.

Hon sydd yn cynal yn eu gwychder holl elynion y pererion, Iago 4. 4. Lë, dyma'r un a lithiodd lawer dyn oddiwrth fuchedd pererin. Un siaradus iawn ydyw; y mae hi neu ei merched beunydd wrth sodlau y naill bererin neu y llall; weithiau yn canmol rhagoriaethau y bywyd hwn, ac wedi hynty yn rhoi y flaenoriaeth iddo. Budren hyf a digywilydd ydyw; sieryd am y gorau ag undyn. Mae hi bob amser yn dirmygu pererion tldion, ond yn mawr ganmol y cyfoethogion. Os bydd un medrus i ennill arian mewn lle, dywed yn dda am hwnw o dy i dy. Mae hi yn hoffi gwleddoedd a chyfeddach; y mae beunydd wrth y naill fwrdd llawn neu y llall. Mae wedi cyhoeddi mewn manau mai duwies ydyw, ac, am hynty, mae rhai yn ei haddoli. Mae ganddi hi ei hamser a'i lleoedd cyhoeddus i dwyllo; a dywed, a saif at hynty, na fedr neb ddangos daioni tebyg i'r eiddo hi. Mae yn addaw trigo gyda phlant y plant, os bydd iddynt ei charu a'i mawrhau. Hi a fwria o'i phwrs aur fel llwch yn rhai manau ac i rai dynion. Hoff ganddi gael ei cheisio, ei chanmol, a gorwedd yn mynwesau dynion. Nid yw byth yn blino ar ganmol ei nwyddau; a'r sawl a feddyliant oreu am dani a gar hi fwyaf. Mae hi yn addaw i rai goronau a theyrnasoedd os cymerant ei chyngor hi; eto llawer un a ddygodd hi i'r crogbren, a dengmil mwy i usfern.

**SEFYLL-YN-DDIYSGOG.** Oh ! ebe Mr. Sefyll-yn-ddiysgog, y fath drugaredd yw ddarfod i mi ei gwrthwynebu ; canys pwy a wyr i ba le y gallasai hi fy llusgo !

**DEWR-GALON.** I ba le ? na, ni wyr neb ond Duw i ba le. Ond, yn y cyffredin, tynasai di i lawer o chwantau ynyd a niweidiol, y rhai sydd yn boddi dynion i ddinistr a cholledigaeth, 1 Thes. 6. 9. Hi oedd yr un a osododd Absalom yn erbyn ei dad, a Jeroboam yn erbyn ei feistr. Hi oedd yr un a berswadiodd Judas i werthu ei Arglwydd, ac a lwyddodd i gael gan Demas adael bywyd pererin duwiol. Ni all neb draethu y drygau a wna. Y mae hi yn creu anghydfod rhwng llywodraethwyr a deiliaid, rhwng rhieni a phlant, rhwng cymydog a chymydog, rhwng gwr a gwraig, rhwng dyn ac ef ei hun, a rhwng y cnawd a'r ysbyrd. Gan hynty, Mr. Sefyll-yn-ddiysgog

anwyl, bydd megys dy enw ; ac wedi gorphen pob peth, saf.

Parodd yr ymddyddan hwn gymysgedd o lawenydd ac ofn yn mysig y pererinion ; ond o'r diwedd torasant allan i ganu :—

Ein taith mor enbyd yw bob dydd !  
Mae twyllwyr lawer iawn !  
Gynifer ffyrdd o bechu sydd,  
'Does neb all draethu'n llawn.

Fè ymdrybaedda rhai, nad ánt  
Yn mlaen, yn nghanol llaid :  
Rhai, os y badell gochel wnan,  
I'r tân a roddant naid.

Ar ol hyn edrychais hyd oni ddaethant i dir Beulah, lle y mae'r haul yn tywynu nos a dydd. Yma, am eu bod yn lluggedig, yr aethant dros enyd i orphwys. Am fod y wlad hon yn agored i bererinion, ac am fod y gwinllan-oedd a'r perllanau yn perthyn i Frenin y Wlad Nefol, yr oedd rhyddid iddynt i fod yn hyf ar ei feddiannau ef. Ond ychydig amser a'u bywiocaodd yn fuan yma ; canys yr oedd y clychau yn canu, a'r udgynn yn lleisio mor beraidd, fel na allent gysgu ; eto profent gymaint o adfywiad a phe buasent wedi cysgu byth mor drwm. Holl swn y rhai a rodient yr heolydd yma oedd, Daeth ychwaneg o bererinion i'r dref ! Un arall a atebai, Mae nifer wedi myned dros yr afon, ac wedi eu derbyn trwy'r pyrth eur-aidd, heddyw ! Llefent drachefn, Mae lleng o rai dys-glaer newydd ddyfod i'r dref, wrth yr hyn y gwyddom fod ychwaneg o bererinion ar y ffordd ; canys yma y deuant i ddysgwyl am danynt, ac i'w dyddanu ar ol eu tristwch ! Yna y pererinion a godasant i fynu, ac a rodiasant yn ol ac yn mlaen. Ond, Oh, fel y difyrid eu clustiau bellach gan leisiau nefolaidd, a'u llygaid â gwel-edigaethau gogoneddus ! Yn y wlad hon ni chlywent ddim, ni welent ddim, ni theimlent ddim, ni aroglent ddim, ac ni archwaethent ddim anhyfryd i'r cylla neu i'r meddwl ; yn unig tybient, pan brosent o ddwfr yr afon

dros yr hon yr oeddynt i fyned, fod ei blas braidd yn chwierw i'r genau; ord tröai allan yn felus wedi myned i lawr.

Yr oedd yma hefyd lyfr coffadwriaeth yn cael ei gadw o enwau y rhai a fuasent bererinion gynt; a hanes am yr holl wrolwaith a wnaethent. Sonid yma hefyd lawer am y modd y bu yr afon yn llifo i rai, a'r modd y bu yn treio i ereill. Y mae wedi bod yn mron yn sech i rai, tra yr oedd yn llifo dros ei cheulenydd i ereill.

Yn y lle hwn hefyd yr oedd plant y dref yn myned i erddi y Brenin i gasglu blodau i'r pererion, a'u dwyn hwy iddynt yn serchog iawn. Yma yr oedd y camphyr, y nardus, y saffrwn, y calamus, a'r sinnamon, gyda holl goed thus, a myrrh, ac aloes, a'r prif lysiau yn tyfu. Ac â'r rhai hyn y peraroglid ystafelloedd y pererion tra yr arhosent yma; ac â hwy hefyd yr eneinnid eu cyrff, i'w parotoi i fyned dros yr afon, pan fyddai yr amser gosod-edig wedi dyfod.

Yn awr, tra yr oeddynt yn aros yma, ac yn dysgwyl am yr awr bwysig, cododd swn yn y dref fod rhedegwr wedi dyfod o'r Ddinas Nefol, a chanddo genadwri o bwys i un Cristiana, gwraig Cristion y pererin. Felly gwnaed ymofyniad am dani, a chafwyd allan y ty lle yr ydoedd. Felly y rhedegwr a gyflwynodd iddi y llythyr. Ei gynwysiad oedd, Henffych well, wraig dda: yr wyf yn dwyn i ti y newydd fod yr Athraw yn galw am danat, ac yn dysgwyl i ti sefyll ger ei fron, mewn gwisg o anfarwoldeb, o fewn y deng niwrnod hyn.

Gwedi iddo ddarllen y llythyr hwn iddi, efe a roddeis iddi arwydd sicr ei fod yn wir genad, ac wedi dyfod i beri iddi frysio i ymadael. Yr arwydd oedd, saeth a flaenllymwyd â chariad, wedi ei gollwng yn arafaidd i'w chalon, yr hon o radd i radd a weithiodd mor effeithiol arni, fel y byddai raid iddi fyned ar yr amser penod-edig.

Pan welodd Cristiana fod ei hamser wedi dyfod i ben, ac mai hi oedd y gyntaf o'r cwmni ag oedd i fyned drosodd, galwodd am Mr. Dewr-galon, ei harweinydd, ac a adroddodd wrtho fel yr oedd pethau yn sefyll. Yntau

a ddywedodd, Mae yn llawen iawn genyf glywed y newydd, a buasai yn dda genyf pe daethai y rhedegwr i'm ceisio inau. Yna hi a archodd arno ei hyfforddi pa fod yr oedd i bob peth gael eu trefnu gogyfer a'i thaith. Yntau a fynegodd iddi, gan ddyweddyd, Fel hyn ac fel hyn y rhaid iddi fod ; a ninau, y rhai fydd ar ol, a ddeuwn gyda thi hyd lan yr afon.

Yna galwodd am ei phlant, ac a'u bendithiodd hwynt, ac a ddywedodd wrthynt, Yr wyf wedi darllen gyda chysur y nod a osodwyd yn eich talcenau, ac y mae yn dda genyf eich gweled yma gyda mi, a'ch bod wedi cadw eich gwisgoedd mor wynion. Yn ddiweddaaf, gadawodd yr ychydig oedd ganddi i'r tlodian, ac archodd i'w meibion ac i'w merched fod yn barod erbyn y deuai y rhedegwr i'w ceisio hwythau.

Gwedi iddi lefaru y geiriau hyn wrth ei harweinydd a'i phlant, galwodd ar Mr. Glew-dros-y-gwir, a dywedodd wrtho, Syr, danghosaist dy hunan yn mhab man yn gywirgalon ; bydd ffyddlon hyd angau, a'm Brenin a rydd i ti goron y bywyd, Dat. 2. 10. Hefyd, yr wyf yn deisyf arnat fwrw golwg ar fy mhlant ; ac os gweli hwy un amser yn llwfrhau, llefara yn annogaethol wrthynt. Am fy merched, gwragedd fy meibion, buont hwythau ffyddlon ; a chyflawniad yr addewid arnynt fydd eu diwedd hwynt. Ond i Mr. Sefyll-yn-ddiysgog y rhoddes fodrwy.

Yna galwodd am yr hen Mr. Gonest, ac a ddywedodd am dano, "Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll!" Ioan 1. 47. Ae yntau a'i hatebodd, Dymunwyf i ti gael diwrnod teg pan y cychwyni i Fynydd Sion, a llawen sydd genyf dy weled yn myned dros yr afon yn droed-sych. Ond hi a'i hatebodd, Bydded wlyb, bydded sych, mae arnaf hiraeth am fyned ; canys pa fath bynag fyddo yr hin ar fy nhaith, caf ddigon o amser pan ddelwyf yno i eistedd, i orphwys, ac i ymsychu.

Yna y daeth y gwr da hwnw, Mr. Parod-i-gloffi, i mewn i ymweled & hi. Felly hi a ddywedodd wrtho, Dy daith hyd yma a fu yn drafferthus iawn ; ond hyny a wna dy orphwysfa yn felusach. Gwylia, a bydd barod ; canys yn yr awr ni thybi y gall y genad ddyfod.

Ar ei ol ef y daeth Mr. Llwfr a'i ferch Mawr-ei-hofn i'w golwg ; wrth ba rai y dywedodd, Dylech gofio byth, gyda diolchgarwch, eich gwaredigaeth o ddwylaw Cawr Anobaith, ac allan o Gastell Amheuaeth. Effaith y druggedd hono yw eich bod wedi eich dwyn yma yn ddiogel. Byddwch wyliadwrus, a bwriwch ymaith ofn ; byddwch sobr, a gobeithiwch hyd y diwedd.

Ac wrth Mr. Gwan-feddwl y dywedodd, Ti a waredwyd allan o safn Cawr Lladd-daioni, fel y gellit fyw yn ngo-leuni y rhai byw, a gweled y Brenin mewn hedd. Yn unig cynghorwn di i edifarhau am dy barodrwydd i ofni ac amheu ei ddaioni ef, cyn y denfyn am danat ; rhag y gorfydd i ti, pan ddelo, sefyll o'i flaen gyda chywilydd am y bai hwn.

Bellach yr oedd y dydd i Gristiana ymadael gerllaw. Felly yr oedd y ffordd yn llawn o bobl yn edrych arni yn myned i'w thaith. Ond, wele, yr oedd yr holl lanau tudraw i'r afon yn llawn meirch a cherbydau, y rhai a ddaethent oddiuchod i'w dwyn hi hyd at borth y ddinas. Felly hi a ddaeth yn mlaen, ac a aeth i mewn i'r afon, gan roi amnaid i'r rhai oedd o'i hol i'w dilyn. Y geiriau olaf a glybuwyd ganddi oedd ynt, Yr wyf yn dyfod, Arglwydd, i fod gyda thi, ac i'th fendithio ! Felly ei phlant a'i chyfeillion a ddychwelasant i'w lle, canys y rhai a ddysgwylent am Gristiana a'i dygasant hi yn fuan allan o'u golwg. Felly yr aeth ac y galwodd, ac y derbyniwyd hi i mewn trwy y porth gyda'r holl ddefodau o lawenydd a wnaed ar fynediad Cristion ei gwr i mewn o'i blaen. Y plant a wylent ar ei hymadawiad. Ond Mr. Dewrgalon a Mr. Glew-dros-y-gwir a chwareuent ar y symbol a'r delyn yn soniarus gan orfoledd. Felly pawb a ymadawsant i'w lleoedd eu hunain.

Gwedi talm o amser daeth rhedegwr eilwaith i'r dref, a'i neges oedd at Mr. Parod-i-gloff. Felly chwiliodd ei allan, a dywedodd, Yr wyf fi yn dyfod oddiwrth yr Hwn a geraist ac a ddilynaist, er mai ar dy ffyn-baglau ; a fy neges yw dyweddyd wrthyt ei fod ef yn dysgwyl dy weled wrth y bwrdd yn swpera gydag ef yn ei deyrnas, y dydd cyntaf ar ol y Pasg ; am hyny gwna dy hun yn barod i'

daith. Yna efe a roddes iddo arwyddnod ei fod yn genad cywir, gan ddywedyd, Torais dy gawg aur, a datodais dy llynny arian, Preg. 12. 6.

Gwedi hyn galwodd Parod-i-gloffi ei gyd-bererinion ato, a dywedodd wrthynt, Danfonwyd am danaf, a Duw yn ddiua a ymwel & chwithau. Felly deisyfodd ar Mr. Glewdros-y-gwir ysgrifenu ei lythyr-cymun. A chan nad oedd ganddo ddim i adael i'r rhai fyddent ar ei ol ond ei ffynbaglau a'i ddymuniadau daionus, dywedodd fel hyn, Yr wyf yn gadael y ffynbaglau hyn i fy mab, yr hwn a rodia yn fy llwybrau, gyda chant o ddymuniadau gwresog ar iddo ef fod yn llawer gwell na myfi. Yna diolchodd i Mr. Dewr-galon am ei ofal a'i garedigrwydd, ac ymbarotodd i'w daith. Pan ddaeth i lan yr afon, dywedodd, Ni bydd raid i mi mwyach wrth fy ffynbaglau, gan fod acw feirch a cherbydau i mi eu marchogaeth. Y geiriau olaf a glybuwyd oddiwrtho oeddynt, Croesaw fywyd! Felly aeth i'w ffordd.

Ar hyn hysbyswyd Mr. Gwan-feddwl fod y rhedegwr wedi swnio ei udgorn wrth ddrws ei ystafell yntau. Felly daeth i mewn, a dywedodd wrtho, Daethum i hysbysu i ti fod yn rhaid i'th Feistr wrthyt, ac y gorfydd i ti ddyfod a chanfod ei wyneb mewn gogoniant cyn pen nemawr o ddyddiau. A hyn fydd arwydd o gywirdeb fy nghenadwri, "Y twylla y rhai sydd yn edrych trwy'r ffenestri," Preg. 12. 3. Yna galwodd Mr. Gwan-feddwl ei holl gyfeillion ato, ac a adroddodd iddynt y genadwri a gawsai, a pha arwydd a gafodd hefyd o'i chywirdeb. Yna dywedodd, Gan nad oes genyf ddim i'w adael i neb, i ba ddyben y trafferthaf ysgrifenu fy llythyr-cymun? O barthed fy meddwl gwan, gadawaf hwnw ar fy ol; canys ni bydd raid i mi wrtho yn y wlad yr wyf yn myned iddi; ac yn wir nid yw o werth ei roddi i'r pererin gwanaf; gan hyny, pan y byddwyf fi wedi myned, yr wyf yn deisyf ar i ti, Mr. Glew-dros-y-gwir, ei gladdu yn y domen. Wedi gorphen hyn oll, a dyfod dydd ei ym-adawiad, aeth i mewn i'r afon fel y lleill. Ei eiriau olaf oeddynt, Deliwrch eich gafael, ffydd ac amynedd! Felly aeth drosodd i'r ochr draw.

Gwedi i ddyddiau lawer fyned heibio, danfonwyd am Mr. Llwfr; canys rhedegwr a ddaethai, ac a ddygasai iddo y genadwri ganlynol:—Ddyn crynedig! hyn sydd i dy wysio i fod yn barod gyda'r Brenin erbyn dydd yr Arglwydd nesaf, i lawenhau am dy wared o'th holl amheuon. Ac, eb efe yn mhellach, fel y gwybyddit mai cywir fy nghenadwri, cymer hyn fel arwydd: felly efe a roddodd iddo geiliog-rhodyn yn faich, Preg. 12. 5.

Mawr-ei-hofn, merch Mr. Llwfr, pan glybu hyn, a ddywedodd, Minau a âf gyda'm tad. Ar hyn, Mr. Llwfr a ddywedodd wrth ei gyfeillion, Gwyddoch yn dda pa fath rai a fu fy merch a minau, a pha mor flin yr ymddygasom yn mhob cyfeillach. Fy ewyllys i ac ewyllys fy merch hefyd yw, na fyddo i'n hamheuon na'n hofnau caethwas-aidd gael eu derbyn gan neb, o ddydd ein hymadawiad hyd yn oes-oesoedd; canys gwn y bydd iddynt ymgynyg i ereill eto wedi fy marwolaeth. A dywedyd i chwi yn eglur, ysbrydion ydynt a lochwyd genym pan aethom gyntaf ar bererindod, ac nis gallasom byth ymysgwyd oddiwrthynt; a hwy a rodiant oddiamgylch, gan geisio cael derbyniad gan bererinion: ond er ein mwyn ni, cauer y drysau yn eu herbyn.

Pan ddaeth yr amser iddynt ymadael, hwy a aethant hyd at lan yr afon. Geiriau diweddaf Mr. Llwfr oedd ynt, Ffarwel nos! a chroesaw ddydd! Ei ferch a aeth drwy'r afon dan ganu, ond nis gelliid deall yr hyn a ddywedai.

Yna yn mhen amser, daeth rhedegwr i'r dref drachefn, yn ymofyn am Mr. Gonest. Felly daeth i'r ty lle yr oedd, a rhoddes yn ei law y llinellau canlynol:—Gor-chymynir i ti fod yn barod erbyn wythnos i heno, fel y byddo i ti ymddangos o flaen dy Arglwydd, yn nhŷ ei Dad. Ac fel arwydd fod fy nghehadwri yn gywir, "Gostyngir i lawr holl ferched cerdd," Preg. 12. 4. Yna galwodd Mr. Gonest ei holl gyfeillion, a dywedodd wrthynt, Yr wyf fi yn myned i farw, ond ni wnaf ewyllys. Am fy ngonestrwydd, cymeraf hwnw gyda mi; dyweder hyn wrth yr hwn a ddelo ar ol. Pan ddaeth y diwrnod iddo ymadael, ymbarotodd i groesi yr afon. Yr oedd yr afon y pryd hwnw wedi llifo dros ei cheulanau mewn rhae

mauau; ond yr oedd Mr. Gonest wedi siarad yn ei oes ag un Cydwybod-dda am ei gyfarfod ef yno, yr hyn hefyd a wnaeth, ac efe a roddes iddo ei law, ac a'i cynorthwyodd i fyned dros yr afon. Geiriau diweddaf Mr. Gonest oedd, *Gras sydd yn teyrnasu!* Felly yr ymadawodd â'r byd.

Ar ol hyn aeth y gair ar led fod yr un genad wedi dyfod i geisio Mr. Glew-dros-y-gwir, a bod ganddo hyn fel arwydd fod ei genadwri yn wir, "Fod ei biser wedi tori gerllaw y ffynnon," Preg. 12. 6. Pan ddealloedd hyn, galwodd ei gyfeillion, ac hysbysodd y peth iddynt. Yna eb efe, *Yr wyf yn myned at fy Nhad;* ac er mai trwy anhawsderau mawrion y daethum hyd yma, nid yw edifar genyf am yr holl drallodau y bu'm ynddynt i gyrhaedd y lle yr wyf. Gadawaf fy nghleddyf i'r sawl a'm dilynant yn fy mhererindod, a fy ngwroldeb a'm medrusrwydd i'r hwn a'i cyrhaeddo. Fy nodau a'm creithiau a ddygaf gyda mi, i dystio ddarfod i mi ymladd brwydrau yr Hwn sydd yn awr yn wobrwywr i mi. Pan ddaeth y dydd iddo ymadael, aeth lluaws mawr i'w ganlyn hyd lan yr afon; ac wrth syned i mewn i'r dwfr, clybuwyd ef yn dywedyd, "*Angeu, pa le mae dy golyn?*" Ac fel yr oedd efe yn myned yn ddyfnach, dywedai, "*Uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth?*" 1 Cor. 15. 55. Felly aeth trosodd, a'r holl udgyrn a leisient ar ei dderbyniad.

Yna daeth gwys i Mr. Sefyll-yn-ddiysgog. Y Mr. Sefyll-yn-ddiysgog hwn a gafwyd ar ei liniau yn y Tir Rheibiedig. Y genad a'i dygodd yn agored iddo yn ei law; a'i gynhwysiad ydoedd, Rhaid i ti ymbarotoi i newid bywyd, am nad yw dy Feistr yn caru i ti fod can belled oddiwrtho yn hwy. Ar hynny tarawyd Mr. Sefyll-yn-ddiysgog â syndod. Na, ebe y genad, nid rhaid i ti amheu gwirionedd fy neges; canys dyma i ti arwydd o hyny, "*Yr olwyn a dorwyd wrth y pydew,*" Preg. 12. 6. Yna galwodd Mr. Dewr-galon, eu harweinydd, ato, a dywedodd wrtho, Syr, er na ddygwyddodd i mi fod yn hir yn dy gyfeillach yn nyddiau fy mhererindod, eto, er yr amser y'th adnabûm, buost o les i mi. Pan ddaethum gyntaf oddicartref, gadewais ar fy ol wraig a phump o

blant bychain ; caniata i mi erfyn yn daer arnat ar dy idychweliad (canys gwn dy fod yn myned ac yn dyfod i ly'th Feistr mewn gobaith o fod yn arweinydd i ychwaneg o bererinion santaidd) am anfon at fy nheulu, a hysbysu iddynt yr hyn oll a ddygwyddodd ac a ddygwydda i mi. Mynega iddynt hefyd am fy sefyllfa wynfydedig yn awr, ac am fy nyfodiad cysurus at y Ddinas Nefol. Adroddia iddynt hefyd am Gristion a Christiana ei wraig, ac am y modd y daeth hi a'i phlant ar ol ei gwr. Dywed wrthynt am y diwedd dedwydd a ddaeth iddi, ac i ba le yr aeth hi. Nid oes genyf ond ychydig neu ddim i anfon i fy nheulu, oddigerth fy ngweddiau a'm dagrau ; am ba rai digon fydd os hysbysi hwynt yn eu cylch, ac, ysgatfydd, y llwyddant. Wedi i Mr. Sefyll-yn-ddiysgog osod pethau fel hyn mewn trefn, a dyfod o'r amser iddo brysuro ymaith, efe a aeth i lawr hyd at lan yr afon. Erbyn hyn yr oedd tawelwch mawr iawn yn yr afon, a Mr. Sefyll-yn-ddiysgog, pan oedd yn rhywle tua'i chanol, a safodd am enyd i ymddyddan â'i gyfeillion a'i hebryngasant hyd yno. Ac efe a ddywedodd, Bu'r afon hon yn ddychryn i lawer ; ie, y meddyliau am dani a'm dychrynasant inau lawer gwaith ; ond yn awr tybiwyf fy mod yn sefyll yn ddiogel ; mae fy nhraed yn sangu ar y man y gorffwysai traed yr offeiriad y rhai a ddygent arch y cysfammod, tra yr oedd Israel yn croesi yr Iorddonen, Jos. 3. 17. Mae'n wir fod y dyfroedd yn chwerw i'r archwaeth, ac yn oer i'r cylla ; eto y meddyliau am yr hyn sydd o'm blaen, ac am y gwarchawdlu anrhyydeddus sy'n dysgwyl am danaf yr ochr draw, a orweddant fel marworyn gwynias ar fy mynwes. Gwelaf fy hunan yn awr ar ben fy nhaith ; fy nyddiau blinion a ddarfuant. Yr wyf yn myned i weled y pen a goronwyd â drain, a'r gruddiau y poerwyd arnynt, drosof fi. Bu'm fyw gynt trwy glywed son a chredu, ond yn awr yr wyf yn myned i'r man y caf fyw wrth olwg, a phreswylio gyda'r Hwn y mae yn hyfryd genyf ei gyfeillach. Hoffwn glywed son am fy Arglwydd, a lle bynag y gwellwn ol ei droed ar y ddaear, yno y chwennychwn inau roddi fy nhroed. Bu ei enw i mi fel blwch o enaint gwerthfawr ; ie, yn bereiddiach i mi na'r

holl beraroglau. Ei lais i mi oedd felus odiaeth ; a hir-aethwn am weled ei wyneb yn fwy nag yr hiraethai rhai am weled goleuni yr haul. Arferwn gasglu ei eiriau yn ymborth, ac yn feddyginaeth rhag fy llewygfeydd. Efe a'm daliodd, ac a'm gwareddod rhag fy holl anwireddau; ie, fy nghamrau a gadarnhawyd yn ei ffordd.

Tra yr oedd efe fel hyn yn llefaru newidiodd ei wedd ; ei nerth a ymollyngodd : ac wedi dywedyd o hono, Cymer fi, canys yr wyf yn dyfod atat, ni welwyd ef ganddynt mwyach.

Ond gogoneddus oedd canfod fel y llenwid y gororau fry â meirch a cherbydau, ag udganwyr a thelynorion, â'r rhai a ganent ac a chiwareuent ar bob math o offer cerdd, i groesawu'r pererinion ar eu derchafiad, ac ar eu gwaith yn dilyn eu gilydd i borth prydferth y ddinas.

Mewn perthynas i blant Cristiana, ei phedwar mab a ddygai i'w chanlyn, yn nghyda'u gwragedd a'u plant, ni arhosais lle yr oeddwn hyd onid aethant drosodd. Ond clywais un yn dywedyd, er pan ymadewais â'r fangre, eu bod yn fyw eto, ac yn debyg o fod felly dros amser, er cryfhad ac ychwanegiad i'r eglwys yn y lle.

Pe dygwyddai i mi fyned y ffordd hono eto, gallwn roddi, i'r sawl a chwennychai hyny, hanes am yr hyn yr wyf yma yn ddystaw am dano : yn y cysamser, ddarllen-ydd hawddgar,

BYDD WYCH.

Y DIWEDD.





